# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 11/03/2015

Cynnwys Contents


1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth
1. Questions to the Minister for Finance and Government Business

2. Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
2. Questions to the Minister for Public Services

3. Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol
3. Questions to the Counsel General

4. Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar yr Ymchwiliad i Ailgylchu yng Nghymru
4. Debate on the Environment and Sustainability Committee's Report on its Inquiry into Recycling in Wales

5. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Twf Economaidd
5. Welsh Conservatives Debate: Economic Growth

6. Dadl Plaid Cymru: Newid yn yr Hinsawdd
6. Plaid Cymru Debate: Climate Change

7. Cyfnod Pleidleisio
7. Voting Time

8. Dadl Fer: Gweithgareddau'r Grid Cenedlaethol yng Nghanolbarth Cymru
8. Short Debate: The Activities of National Grid in Mid Wales


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:31 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:31 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:31

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn awr yn eistedd.

13:31

# 1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

# 1. Questions to the Minister for Finance and Government Business

Senedd.tv Fideo Video

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

The first item this afternoon is questions to the Minister for Finance and Government Business, and question 1 is Suzy Davies.

Yr eitem gyntaf y prynhawn yma yw cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, a daw cwestiwn 1 gan Suzy Davies.

### Gwariant Ychwanegol yn ystod y Flwyddyn

### Additional In-year Expenditure

13:31

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Good afternoon, Minister.

Prynhawn da, Weinidog.

*1. Sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod unrhyw wariant ychwanegol yn ystod y flwyddyn yn cynnig gwerth am arian? OAQ(4)0528(FIN)*

*1. How does the Welsh Government ensure that any additional in-year expenditure delivers value for money? OAQ(4)0528(FIN)*

13:31

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

Good afternoon. Delivering value for money is an integral part of our financial processes and is a key consideration for each Minister in managing their own portfolios.

Prynhawn da. Mae sicrhau gwerth am arian yn rhan annatod o'n prosesau ariannol ac mae'n un o ystyriaethau allweddol pob Gweinidog wrth reoli ei bortffolio ei hun.

13:31 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Thank you for your answer, Minister. If it's an integral part of your processes, perhaps you can explain how you've recently found emergency money for the NHS and ambulance service, which was given after that money was needed. It wasn't available to local health boards and the Welsh Ambulance Services NHS Trust to factor in for winter pressure planning. The Finance Committee found that the additional funding was allocated without targets or expectations of financial stability, so if you had the money, why didn't you give it to the NHS and ambulance trust sooner?

Diolch am eich ateb, Weinidog. Os yw'n rhan annatod o'ch prosesau, efallai y gallwch esbonio sut y daethoch o hyd i arian argyfwng yn ddiweddar ar gyfer y GIG a'r gwasanaeth ambiwlans, a roddwyd wedi i'r adeg pan oedd angen yr arian fynd heibio. Nid oedd ar gael i'r byrddau iechyd lleol ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ei ystyried wrth gynllunio ar gyfer pwysau'r gaeaf. Canfu'r Pwyllgor Cyllid fod y cyllid ychwanegol wedi ei ddyrannu heb dargedau na disgwyliadau o ran sefydlogrwydd ariannol, felly os oedd yr arian gennych chi, pam na roesoch ef i'r GIG a'r ymddiriedolaeth ambiwlans yn gynt?

Senedd.tv
Fideo Video

13:32 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

It's very important that the money that was allocated to the NHS, which was £200 million in the draft budget, and then increased by £40 million as a result of our response to winter pressures, as you say, and, indeed, a very welcome £70 million from the autumn statement—. It's very important that we found that money in order to meet the needs of the NHS, in line with the expectations for reform indicated in the Nuffield report.

Mae'n bwysig iawn fod yr arian a ddyrannwyd i'r GIG, a oedd yn £200 miliwn yn y gyllideb ddrafft, gyda £40 miliwn ychwanegol wedyn o ganlyniad i'n hymateb i bwysau'r gaeaf, fel y dywedwch, ac yn wir, £70 miliwn derbyniol iawn o ddatganiad yr hydref—. Mae'n bwysig iawn ein bod wedi dod o hyd i'r arian hwnnw ar gyfer ateb anghenion y GIG, yn unol â'r disgwyliadau i ddiwygio a nodwyd yn adroddiad Nuffield.

Senedd.tv
Fideo Video

13:32 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Mae dyfarniad llys diweddar wedi golygu bod telerau cyflog gofalwyr yn mynd i godi, ac mae hynny'n mynd i gostio'n ddrud i'r cynghorau sir ac i'r gwasanaethau cymdeithasol yn benodol, wrth gwrs. Mae yn cwmni yn y trydydd sector yng Ngwynedd wedi gorfod talu £300,000 allan mewn ôl-daliadau cyflog, ac maen nhw'n wynebu costau uwch wrth fynd ymlaen. A ydy'r Llywodraeth yn fodlon cydnabod y gost hon fel achos arbennig er mwyn cynnal ansawdd a darpariaeth gwasanaeth yn y maes tyngedfennol hwn?

A recent court ruling has meant that the salary conditions of carers will increase, and that will be expensive for county councils and social services in particular, of course. There is one company in the third sector in Gwynedd that has had to pay £300,000 in salary backpay, and they face even higher costs for the future. Is the Government willing to recognise this additional cost as a special case in order to maintain the quality and standard of service in this crucial area?

Senedd.tv
Fideo Video

13:33 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Well, clearly, I'm aware, as indeed is the Minister for Health and Social Services, of that court case, and, with local government, I'm aware of the impacts of that. We recognise the importance of social services and, in our budget for 2015-16, we've invested an additional £10 million in recognition of those pressures, but also maintained funding of £67.4 million to support policy transformation, underpinning the delivery of social care in Wales, in the health and social services main expenditure group, which, of course, will assist local authorities in facing these particular pressures.

Wel, yn amlwg, rwy'n ymwybodol o'r achos llys, fel y mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a gyda llywodraeth leol, rwy'n ymwybodol o effeithiau hynny. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd gwasanaethau cymdeithasol, ac wedi buddsoddi £10 miliwn ychwanegol yn ein cyllideb ar gyfer 2015-16 er mwyn cydnabod y pwysau hynny, ond rydym hefyd wedi neilltuo cyllid o £67.4 miliwn i gefnogi trawsnewid polisi yn sail i ddarparu gofal cymdeithasol yng Nghymru ym mhrif grŵp gwariant iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, a fydd yn cynorthwyo awdurdodau lleol i wynebu'r pwysau penodol hyn, wrth gwrs.

Senedd.tv
Fideo Video

## Treth ar Waredu i Safleoedd Tirlenwi

## Landfill Disposals Tax

13:34 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

*2. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd tuag at ddatblygu treth ar waredu i safleoedd tirlenwi yng Nghymru? OAQ(4)0537(FIN)*

*2. Will the Minister give an update on progress towards developing a landfill disposals tax in Wales? OAQ(4)0537(FIN)*

Senedd.tv
Fideo Video

**Peter Black** Bywgraffiad Biography

*10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatganoli'r dreth dirlenwi i Lywodraeth Cymru? OAQ(4)0521(FIN)*

*10. Will the Minister make a statement on the devolution of landfill tax to the Welsh Government? OAQ(4)0521(FIN)*

13:34 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llywydd, I understand that you've given your permission for questions 2 and 10 to be grouped. On 24 February, I launched a consultation setting out proposals for the development of a landfill disposals tax. I want to consider the fullest range of options and hear views from people across Wales. The consultation closes on 19 May.

Lywydd, deallaf eich bod wedi rhoi caniatâd i gwestiynau 2 a 10 gael eu grwpio. Ar 24 Chwefror, lansiais ymgynghoriad yn nodi cynigion ar gyfer datblygu treth ar waredu gwastraff i safleoedd tirlenwi. Rwyf am ystyried cynifer o opsiynau â phosibl a chlywed barn pobl ledled Cymru. Daw'r ymgynghoriad i ben ar 19 Mai.

13:34 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. Minister, compliance will be key and the consultation includes the possibility of including illegal deposits of waste within the scope of the tax, meaning that those who act illegally will be required to pay the tax twice, first at the point where they dispose of it illegally, and again when it's deposited at a licensed landfill site. I'm sure that this provision will be welcomed by people across Wales who see and suffer the blight of illegal waste disposal. So, can I ask you how you will ensure that as many members of the public as possible are able to respond to this consultation?

Diolch yn fawr. Weinidog, bydd cydymffurfiaeth yn allweddol ac mae'r ymgynghoriad yn cynnwys y posibilrwydd o gynnwys gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon o fewn cwmpas y dreth, sy'n golygu y byddai'n ofynnol i rai sy'n gweithredu yn anghyfreithlon dalu'r dreth ddwywaith, yn gyntaf ar y pwynt lle y maent yn ei waredu yn anghyfreithlon, ac eto pan gaiff ei waredu mewn safle tirlenwi trwyddedig. Rwy'n sicr y caiff y ddarpariaeth hon ei chroesawu gan bobl ledled Cymru sy'n gweld ac yn dioddef yn sgil gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon. Felly, a gaf fi ofyn i chi sut y byddwch yn sicrhau bod cynifer o'r cyhoedd â phosibl yn gallu ymateb i'r ymgynghoriad hwn?

13:34 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Obviously, we've held extensive preliminary discussions with stakeholders in anticipation of this consultation, and that has informed our proposals. But, also, there are numerous events being held throughout the consultation period to ensure that everyone who has an interest in this tax can have their say, including targeted meetings with community groups and landfill operators and, of course, this issue in terms of legal deposits will be part of that consultation exercise.

Yn amlwg, rydym wedi cynnal trafodaethau rhagarweiniol helaeth gyda rhanddeiliaid cyn yr ymgynghoriad hwn, ac mae hynny wedi llywio ein hargymhellion. Ond hefyd, mae nifer o ddigwyddiadau yn cael eu cynnal drwy gydol y cyfnod ymgynghori er mwyn sicrhau y gall pawb sydd â diddordeb yn y dreth leisio eu barn, gan gynnwys cyfarfodydd wedi eu targedu gyda grwpiau cymunedol a gweithredwyr tirlenwi ac wrth gwrs, bydd mater gwaredu gwastraff yn gyfreithlon yn rhan o'r ymarfer ymgynghori hwnnw.

13:35 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, the whole objective of Welsh Government policy is to reduce the amount of waste going to landfill, so it's entirely possible that once the landfill tax is transferred to the Welsh Government, the negotiated sum, which we've had taken off our grant, will leave us with a deficit. How are you ensuring that the money that will come off the Welsh Assembly block grant, so as to cover the income from this tax, will not leave us in a situation whereby we will have to make up the money elsewhere due to the fact that we've reduced the amount of waste going to landfill?

Weinidog, amcan polisi Llywodraeth Cymru yw cyfyngu ar y gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi, felly mae'n gwbl bosibl y bydd y swm a drafodwyd, sydd wedi ei dynnu o'n grant, yn golygu y bydd gennym ddiffyg ariannol pan gaiff y dreth dirlenwi ei throsglwyddo i Lywodraeth Cymru. Sut y byddwch yn sicrhau na fydd yr arian a dynnir o grant bloc Cynulliad Cymru i wneud iawn am yr incwm o'r dreth hon yn ein rhoi mewn sefyllfa lle y bydd yn rhaid i ni godi'r arian mewn mannau eraill am ein bod wedi cyfyngu ar y gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi?

13:36 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Ironically, this shows how we have delivered well in Wales, and local authorities in particular in terms of their waste disposal policies and moving towards zero waste, which, of course, would mean that we would not then benefit from this tax. Although, I have to say that, in terms of industry as well as domestic waste in Wales, it will not go away and we have forecast that we would receive £50 million in 2018 from this tax. But, clearly, we have to be very careful in terms of planning for this in terms of the impact that it would have on our budget, and look at the impact also in terms of the use of this tax in terms of the landfill communities fund, which has been very beneficial.

Yn eironig, mae hyn yn dangos sut rydym wedi cyflawni'n dda yng Nghymru, ac awdurdodau lleol yn arbennig, o ran eu polisïau gwaredu gwastraff a symud tuag at ddyfodol diwastraff, sy'n golygu, wrth gwrs, na fyddem yn elwa o'r dreth hon wedyn. Er hynny, mae'n rhaid i mi ddweud, o ran gwastraff diwydiannol yn ogystal â gwastraff domestig yng Nghymru, ni fyddant yn diflannu ac rydym wedi rhagweld y byddem yn derbyn £50 miliwn yn 2018 o'r dreth hon. Ond mae'n amlwg fod yn rhaid i ni fod yn ofalus iawn wrth gynllunio ar gyfer hyn o ran yr effaith y byddai'n ei chael ar ein cyllideb, ac edrych hefyd ar effaith defnyddio'r dreth ar y gronfa cymunedau tirlenwi sydd wedi bod yn fuddiol iawn.

13:36

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Peter Black has just asked my question beautifully—better than I would have. So, Minister, can I go back to Sandy Mewies's original question regarding the possibility of taxing twice? I have raised this with you in a previous statement. I think, on face level, that could be a good idea, but then I've raised with you before that the danger with taxing twice is that you could end up actually legitimising the initial disposal by calling it a tax rather than a fine. Can you ensure that, in making sure that those who do irresponsibly dump where they shouldn't be—dumping in landfill—whilst we do want to make sure that they are dealt with, we don't end up legitimising their illegitimate duties?

Mae Peter Black newydd ofyn fy nghwestiwn yn wych—yn well nag y byddwn i wedi ei wneud. Felly, Weinidog, a gaf fi ddychwelyd at gwestiwn gwreiddiol Sandy Mewies ynglŷn â'r posibilrwydd o drethu ddwywaith? Rwyf wedi crybwyll hyn mewn datganiad blaenorol. Ar yr wyneb, credaf y gallai hynny fod yn syniad da, eto i gyd rwyf wedi sôn wrthych o'r blaen mai perygl trethu ddwywaith yw y gallech fod yn cyfreithloni'r gwaredu gwreiddiol drwy ei galw'n dreth yn hytrach na dirwy. Wrth wneud yn siŵr bod y rhai sy'n gwaredu'n anghyfrifol lle na ddylent wneud hynny—mewn safleoedd tirlenwi—er ein bod yn awyddus i wneud yn siŵr eu bod yn cael eu cosbi, a allwch sicrhau na fyddwn yn cyfreithloni eu gweithredoedd anghyfreithlon yn y pen draw?

13:37

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This is an important point. As Sandy Mewies rightly said, this is about how we ensure compliance and tackle tax evasion. It is difficult to recoup tax and illegal deposits at the moment because they don't come within the legal definition of landfill sites. This is about why we need a consultation—to consider the impact of the proposals we're making, if we were to charge landfill disposals tax where it is illegally deposited. Of course, we are also interested because, in Scotland, they've already adopted this in their legislation and they're ahead of us in that respect, and we'll see how they fare.

Mae hwn yn bwynt pwysig. Fel roedd Sandy Mewies yn iawn i ddweud, mae'n ymwneud â sut i sicrhau cydymffurfiaeth a mynd i'r afael ag efadu trethi. Mae'n anodd adennill trethi ar waredu anghyfreithlon ar hyn o bryd gan nad ydynt wedi eu cynnwys yn y diffiniad cyfreithiol o safleoedd tirlenwi. Dyma pam y mae angen yr ymgynghoriad—i ystyried effaith yr argymhellion rydym yn eu gwneud pe baem yn codi treth ar waredu gwastraff i safleoedd tirlenwi lle y caiff ei waredu'n anghyfreithlon. Wrth gwrs, mae gennym ddiddordeb hefyd oherwydd bod yr Alban eisoes wedi mabwysiadu hyn yn ei deddfwriaeth. Maent ar y blaen i ni yn hynny o beth a chawn weld sut y dônt yn eu blaenau.

13:38

## Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I wanted to come to the community fund aspect. We had petitioners, actually from your area, on Tuesday, talking to us about the prospect of wanting to ban polystyrene or to put a levy on it. I wonder whether, if you accrue enough funding from this new tax, you'd be able to put some of the money back into those campaigns that seek to minimise what is initially going into the landfill process in the first place?

Weinidog, rwy'n awyddus i droi at fater y gronfa gymunedol. Ddydd Mawrth, cawsom ddeisebwyr, o'ch ardal chi mewn gwirionedd, yn trafod y posibilrwydd o fod eisiau gwahardd polystyren neu roi ardoll arno. Pe baech yn cronni digon o arian o'r dreth newydd hon, tybed a allech roi rhywfaint o'r arian yn ôl i mewn i ymgyrchoedd sy'n ceisio cyfyngu ar yr hyn sy'n mynd i mewn i'r broses dirlenwi yn y lle cyntaf?

13:38

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do urge your constituents and the group that you represent to respond fully to this consultation, of course, which includes questions about the use of the landfill communities fund.

Rwy'n annog eich etholwyr a'r grŵp rydych yn ei gynrychioli i ymateb yn llawn i'r ymgynghoriad, wrth gwrs, sy'n cynnwys cwestiynau ynglŷn â'r defnydd o'r gronfa cymunedau tirlenwi.

13:39

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, there are residents in the Coedpoeth area of Wrexham who had clear environment searches and who now face bills of up to £100,000 for disposal of contaminated land. Quite a significant proportion of that is landfill tax. Going forward, although it may not help these particular instances, will you consider that, where there are clear environmental searches and residents are forced to pick up the bill, some kind of exemption would apply in those particular circumstances?

Weinidog, mae trigolion yn ardal Coed-poeth yn Wrecsam wedi cael chwiliadau amgylcheddol clir a bellach yn wynebu biliau o hyd at £100,000 am gael gwared ar dir halogedig. Treth dirlenwi yw cyfran sylweddol o'r swm hwn. Wrth edrych tua'r dyfodol, er na fydd hyn yn helpu'r achosion penodol hyn, efallai, pan geir chwiliadau amgylcheddol clir a'r trigolion yn gorfod talu'r bil, a wnewch chi ystyried rhyw fath o eithriad mewn amgylchiadau arbennig o'r fath?

13:39 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

This is an issue that we're looking at actively with the Minister for Natural Resources and Wrexham County Borough Council and, clearly, we are monitoring the situation very carefully in considering options.

Mae hwn yn fater rydym wrthi'n ei ystyried gyda'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, ac yn amlwg, rydym yn monitro'r sefyllfa'n ofalus iawn wrth ystyried yr opsiynau.

Senedd.tv Fideo Video

13:39 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Minister, power over landfill tax, of course, will allow you some discretion over the rates used, which might then be different from other parts of the UK. What plans are you developing to ensure that any different rate doesn't encourage new disposals from over the border, for example, or indeed illegal waste tourism?

Weinidog, bydd pŵer dros dreth dirlenwi, wrth gwrs, yn rhoi rhywfaint o ddisgresiwn i chi ynglŷn â'r cyfraddau a ddefnyddir, a gallent fod yn wahanol i gyfraddau rhannau eraill o'r DU. Pa gynlluniau rydych yn eu datblygu i sicrhau na fydd cyfradd wahanol yn annog pobl o'r ochr arall i'r ffin i ddod â'u gwastraff yma, er enghraifft, neu dwristiaeth gwastraff anghyfreithlon yn wir?

Senedd.tv Fideo Video

13:40 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

These are very important issues, and I met recently with the Confederation of British Industry north Wales committee, where there are, of course, close border operations between the north-east of Wales and over the border in England, and recognising that we have to be very careful in terms of impacts of changes that might occur. This is a very important point, to which I know there will, I'm sure, be extensive response in terms of those impacts in the consultation.

Mae'r rhain yn faterion pwysig iawn, a chefais gyfarfod yn ddiweddar gyda phwyllgor gogledd Cymru o Gydffederasiwn Diwydiant Prydain, lle y mae gweithrediadau trawsffiniol agos, wrth gwrs, rhwng gogledd-ddwyrain Cymru a thros y ffin yn Lloegr. Rydym yn cydnabod bod yn rhaid i ni fod yn ofalus iawn o ran effaith unrhyw newidiadau a allai ddigwydd. Mae'n bwynt pwysig iawn ac rwy'n sicr y bydd ymateb helaeth iddo yn yr ymgynghoriad o ran yr effeithiau hynny.

Senedd.tv Fideo Video

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from Party Spokespeople

13:40 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to questions from the party spokespeople and first this afternoon, the Welsh Conservatives' spokesperson, Nick Ramsay.

Symudwn yn awr at gwestiynau gan lefarwyr y pleidiau, ac yn gyntaf y prynhawn yma, dyma lefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Nick Ramsay.

Senedd.tv Fideo Video

13:40 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Diolch. Minister, why has the Welsh Government decided to write off £300,000 of the All Wales Ethnic Minority Association's debts?

Diolch. Weinidog, pam fod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu dileu £300,000 o ddyledion Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan?

Senedd.tv Fideo Video

13:40 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Clearly, this is an issue. Members here are clearly aware of the background in terms of the very unfortunate circumstances that led us to have to take action as far as AWEMA is concerned.

Yn amlwg, mae hon yn broblem. Mae'r Aelodau yma yn bendant yn ymwybodol o gefndir yr amgylchiadau anffodus iawn sydd wedi golygu bod yn rhaid i ni weithredu mewn perthynas ag AWEMA.

Senedd.tv Fideo Video

13:41 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Thank you, Minister. I quite agree with you; it is clearly an issue and Members are clearly aware—well, we do try to be. In your written statement of 2012 on the follow-up of the investigation report into AWEMA, you said that you were working to safeguard as much as possible of the public funding in AWEMA's accounts. This write-off of debt is basically conceding defeat on AWEMA, isn't it?

Diolch, Weinidog. Cytunaf â chi; mae'n amlwg yn broblem ac mae'r Aelodau yn amlwg yn ymwybodol—wel, rydym yn ceisio bod. Yn eich datganiad ysgrifenedig yn 2012 ynglŷn â'r gwaith dilynol yn sgil adroddiad yr ymchwiliad i AWEMA, fe ddywedoch eich bod yn gweithio i ddiogelu cymaint â phosibl o'r arian cyhoeddus yng nghyfrifon AWEMA. Yn y bôn, onid yw dileu'r ddyled yn gyfystyr â chyfaddef methiant mewn perthynas ag AWEMA?

Senedd.tv Fideo Video

13:41 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think we've handled it very responsibly and, if you want to go back to the record, I'm sure you would want to read the Wales Audit Office report. Of course, we brought the auditor general in to do an independent report as soon as we identified, as a result of concerns raised, that we had to take action. Of course, this has meant that we've had to clearly respond to not only the Wales Audit Office, but also our own Public Accounts Committee, as regards handling this very unfortunate and regrettable incident in terms of funding for what were very important projects, which actually carried on in terms of the beneficiaries from minority ethnic communities in Wales.

Credaf ein bod wedi trin y mater yn gyfrifol iawn, ac os hoffech fynd yn ôl at y cofnod, rwy'n sicr y byddech eisiau darllen adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru. Wrth gwrs, gwahoddwyd yr archwilydd cyffredinol i lunio adroddiad annibynnol cyn gynted ag y gwelsom fod yn rhaid i ni roi camau ar waith o ganlyniad i'r pryderon a godwyd. Wrth gwrs, mae hyn wedi golygu ein bod wedi gorfod ymateb yn glir, nid yn unig i Swyddfa Archwilio Cymru, ond hefyd i'n Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ein hunain, ynghylch ein hymdriniaeth o'r digwyddiad anffodus hwn mewn perthynas â'r cyllid ar gyfer prosiectau pwysig iawn, a aeth yn eu blaenau mewn gwirionedd, o ran y budd i gymunedau lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru.

13:42 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I'm glad that you recognised that there was a need to respond responsibly. I'm not sure that Assembly Members think that that response did measure up. In fact, we still are, I think, waiting for a full response to some of the reports that have been made on AWEMA.

Wel, rwy'n falch eich bod wedi cydnabod bod angen ymateb yn gyfrifol. Nid wyf yn sicr a yw Aelodau'r Cynulliad yn meddwl bod yr ymateb hwnnw'n ddigonol. Mewn gwirionedd, rwy'n meddwl ein bod yn dal i aros am ymateb llawn i rai o'r adroddiadau a luniwyd ar AWEMA.

I don't think that taxpayers in Wales share your confidence, Minister, about this issue. There was a fundamental flaw at the outset in Welsh Government procedures that allowed this fiasco to happen in the first place. What procedures have you put in place to make sure that this never happens again and that the hard-pressed Welsh taxpayer doesn't end up footing higher and higher bills in future, because of Welsh Government incompetence in dealing with these sorts of situations?

Nid wyf yn credu bod trethdalwyr Cymru yn rhannu eich hyder ynglŷn â'r mater hwn, Weinidog. Roedd gwendid sylfaenol yng ngweithdrefnau Llywodraeth Cymru o'r cychwyn a ganiataodd i'r ffiasgo hon ddigwydd yn y lle cyntaf. Pa weithdrefnau a roddwyd ar waith gennych i sicrhau nad yw hyn yn digwydd eto ac nad yw trethdalwyr Cymru sydd eisoes o dan bwysau yn talu biliau cynyddol yn y dyfodol, oherwydd anallu Llywodraeth Cymru i ymdopi â sefyllfaoedd fel hyn?

13:42 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The incompetence, unfortunately, lay in the hands of a charity, not the Welsh Government. A charity, unfortunately, as far as AWEMA is concerned, on which we took action immediately when it was brought to our attention that our funds may not be being used as they should've been. Of course, that involved other funds, not just Welsh Government funds, but also the Big Lottery, and that also required other interests, as well as local authority funds.

Elusen oedd yn gyfrifol am yr anallu, yn anffodus, nid Llywodraeth Cymru. Yn achos AWEMA, elusen oedd hi'n anffodus, a rhoesom gamau ar waith ar unwaith pan ddaeth i'n sylw nad oedd ein harian yn cael ei ddefnyddio fel y dylai. Wrth gwrs, roedd hynny'n cynnwys arian arall, nid arian Llywodraeth Cymru yn unig, ond arian y Loteri Fawr hefyd, ac roedd hynny'n cynnwys buddiannau eraill yn ogystal ag arian awdurdodau lleol.

It is very clear that our grant management system has been reviewed and is now considered regularly by the Public Accounts Committee, with an annual report, which, of course, is available to Members to consider.

Mae'n amlwg iawn fod ein system reoli grantiau wedi cael ei hadolygu ac yn cael ei hystyried yn rheolaidd bellach gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, gydag adroddiad blynyddol ar gael i Aelodau ei ystyried, wrth gwrs.

13:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the Plaid Cymru spokesperson, Alun Ffred Jones.

Symudwn yn awr at lefarydd Plaid Cymru, Alun Ffred Jones.

13:43 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr. Mae comisiwn Holtham wedi profi, wrth gwrs, fod Cymru'n cael ei thangyllido—£300 miliwn oedd y ffigwr a amcangyfrifodd o. Gan fod fformiwla Barnett yn amlwg yn annheg ac wedi bodoli ers y 1970au, a ydy Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Lywodraeth y Deyrnas Unedig am adolygiad o'r fformiwla?

Thank you very much. The Holtham commission has proved, of course, that Wales is being underfunded—£300 million was the estimate given by Holtham. As the Barnett formula is clearly unfair and has existed since the 1970s, has the Welsh Government asked the United Kingdom Government for a review of the formula?

13:44 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You know very well, Alun Ffred Jones, that we have worked very hard to secure reform of the Barnett formula—reform to benefit Wales in terms of recognition that we have been disadvantaged by the Barnett formula. As a result of that, of course, we also responded to Gerry Holtham's pioneering research to recognise that we could have a funding floor to tackle the unfair application of the Barnett formula in Wales.

Fe wyddoch yn iawn, Alun Ffred Jones, ein bod wedi gweithio'n galed iawn i sicrhau bod fformiwla Barnett yn cael ei diwygio—ei diwygio er budd Cymru o ran cydnabod ein bod dan anfantais oherwydd fformiwla Barnett. O ganlyniad i hynny, wrth gwrs, rydym wedi ymateb hefyd i ymchwil arloesol Gerry Holtham i gydnabod y gallem gael cyllid gwaelodol i fynd i'r afael â'r defnydd annheg o fformiwla Barnett yng Nghymru.

13:44 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch. Rydych chi wedi gweithio'n galed ac wedi cael dim ymateb gan eich Llywodraeth eich hun pan yr oedd hi mewn Llywodraeth yn Llundain, ac nid ydych chi wedi cael dim ymateb gan y Torïaid a'r Rhyddfrydwyr. Ond, mae arweinwyr y tair plaid—Mr Miliband, Mr Cameron a Mr Clegg—wedi cadarnhau setliad Barnett yr Alban, wrth gwrs, ac mae'r Alban yn derbyn bron £400 y pen yn fwy na Chymru yn flynyddol, er bod eu GDP nhw gymaint yn uwch. Pam fod y Blaid Lafur yn ystyried bod fformiwla Barnett yn deg i'r Alban ac yn annheg i Gymru?

Thank you. You have worked hard and have had no response from your own Government, when the Labour Party was in Government in London, and you've had no response from the Tories and Liberal Democrats. However, the leaders of the three parties—Mr Miliband, Mr Cameron and Mr Clegg—have confirmed the Barnett settlement for Scotland, of course, and Scotland receives almost £400 per capita more than Wales annually, although their GDP is that much higher. Why does the Labour Party believe that the Barnett formula is fair for Scotland and unfair for Wales?

13:45 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As far as the Barnett formula is concerned, I think there's no question we feel that it should be reformed. I think it's time has come. I think Joel Barnett, who, sadly, died at the end of last year, was waiting impatiently for reform of the Barnett formula. What we have to continue to do is to argue for fairness—for fair funding for Wales—and to ensure that we do get that fairness, not just in terms of the Barnett floor, which we know will make a huge difference in terms of our allocation, but also to recognise that, ultimately, we need a needs-based funding regime, which I think should be applicable to the whole of the UK. I think the First Minister said recently we want a union of fairness and equality between the four nations of the UK. Well, of course, I subscribe to that.

O ran fformiwla Barnett, ni chredaf fod unrhyw amheuaeth ein bod ni'n teimlo y dylai gael ei diwygio. Rwy'n credu bod yr amser wedi dod. Rwy'n credu bod Joel Barnett, a fu farw y llynedd yn anffodus, wedi bod yn aros yn ddiamynedd i weld fformiwla Barnett yn cael ei diwygio. Yr hyn y mae'n rhaid i ni barhau i'w wneud yw dadlau dros degwch—dros ariannu teg i Gymru—a sicrhau ein bod yn gwneud hynny i gael tegwch, nid yn unig o ran cyllid gwaelodol Barnett, y gwyddom y byddai'n gwneud gwahaniaeth mawr o ran ein dyraniad, ond hefyd i gydnabod, yn y pen draw, fod angen trefn gyllido sy'n seiliedig ar angen, a chredaf y dylai hynny fod yn gymwys ar gyfer y DU yn gyfan. Rwy'n credu bod y Prif Weinidog wedi dweud yn ddiweddar ein bod yn dymuno cael undeb o degwch a chydraddoldeb rhwng pedair gwlad y DU. Wel, rwy'n cefnogi hynny wrth gwrs.

13:46 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Ond mae arweinydd eich plaid chi wedi mynd i'r Alban efo Mr Cameron a Mr Clegg, ac wedi arwyddo bod setliad Barnett i'r Alban yn mynd i barhau hyd byth, hyd y gwyddom ni, heb unrhyw gyfeiriad at Gymru. Y cwestiwn ydy effaith y setliad hwnnw. Petaem ni'n cael ein hariannu ar yr un lefel â'r Alban, mi fyddai werth tua £1.2 biliwn y flwyddyn i ni yng Nghymru. Y cwestiwn ydy: pam fod eich plaid chi'n fodlon gyda setliad mor wael i Gymru?

But the leader of your party has gone to Scotland with Mr Cameron and Mr Clegg, and has signed a vow that the Barnett settlement will continue in perpetuity in Scotland, as far as we know, without any reference to Wales. The question is the impact of that settlement. If we were funded at the same level as Scotland, it would be worth some £1.2 billion per annum to us here in Wales. The question is: why is your party content with a settlement that is so poor for Wales?

13:46 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I do think we talk a lot about and recognise a great deal the important work of Gerry Holtham, which I know you recognise in Plaid Cymru as well. But I do think his recent comments in the blog are quite useful in terms of his recognition of the needs of Wales. He says:

'It was fine to ask for fairness; it is unworthy and undignified to plead for unfair special treatment.'

Wel, credaf ein bod yn aml yn trafod ac yn cydnabod gwaith pwysig Gerry Holtham, a gwn eich bod yn cydnabod hynny ym Mhlaid Cymru hefyd. Ond credaf fod ei sylwadau diweddar yn y blog yn eithaf defnyddiol o ran ei gydnabyddiaeth o anghenion Cymru. Mae'n dweud:

'Roedd hi'n iawn gofyn am degwch; mae'n annheilwng ac yn anurddasol i ymbil am driniaeth arbennig annheg.'

Quite clearly—[Interruption.] Quite clearly, the Barnett formula has always benefited Scotland more than Wales and the rest of the United Kingdom, to some respect. What is very clear is that we have to fight for Wales, and I wish you would also join us, as you did when we worked together in terms of the motion, which was supported by this Assembly, for a funding floor and for fair funding for Wales. [Interruption.]

Yn amlwg—[Torri ar draws.] Yn amlwg, mae fformiwla Barnett bob amser wedi bod o fwy o fudd i'r Alban nag i Gymru a gweddill y Deyrnas Unedig, i ryw raddau. Yr hyn sy'n glir iawn yw bod yn rhaid inni ymladd dros Gymru, a hoffwn pe baech chi hefyd yn ymuno â ni, fel y gwnaethoch wrth i ni weithio gyda'n gilydd ar y cynnig a gefnogwyd gan y Cynulliad hwn am gyllid gwaelodol ac am ariannu teg i Gymru. [Torri ar draws.]

13:47

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move on to the Welsh Liberal Democrat spokesperson, who won't need any help from the backbenches, I'm sure. Peter Black. [Laughter.]

Symudwn ymlaen at lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru na fydd angen unrhyw help gan y meinciau cefn, rwy'n sicr. Peter Black. [Chwerthin.]

13:48

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. Minister, can you tell me what the Welsh Government is doing to ensure that when local authorities procure large contracts, they're able to do so in a way that enables local companies to bid for that work?

Diolch, Lywydd. Weinidog, a allwch ddweud wrthyf beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod awdurdodau lleol, pan fyddant yn caffael contractau mawr, yn gallu gwneud hynny mewn ffordd sy'n galluogi cwmnïau lleol i wneud ceisiadau am y gwaith hwnnw?

13:48

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This is a key part of our Wales procurement policy, and, of course, what we have done through removing the barriers and increasing the opportunities for local companies in terms of the local supply chain with our community benefits policy is that we've actually increased the contracts to Wales-based and to Welsh small and medium-sized enterprises as a result of our policy.

Mae hyn yn rhan allweddol o'n polisi caffael ar gyfer Cymru, ac wrth gwrs, yr hyn rydym wedi'i wneud mewn gwirionedd, drwy gael gwared ar y rhwystrau a chynyddu'r cyfleoedd i gwmnïau lleol o ran y gadwyn gyflenwi leol gyda'n polisi budd i'r gymuned, yw cynyddu'r nifer y contractau i fentrau yng Nghymru ac i fentrau Cymreig bach a chanolig eu maint o ganlyniad i'n polisi.

13:48

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, thank you for that answer, Minister. The evidence, however, is that companies out there are still struggling to compete for local authority contracts, which remain too high. I give you an example of a company in my own region that wanted to supply LED streetlights. On one single contract, that company needed to provide 2,000 lights per month where they were only capable of supplying 1,000, and because the contract was not a smaller contract, effectively, they had been impeded from supplying those lights. As a result, the local authority concerned is going outside of Wales. Can you give an undertaking to do a review of what exactly local authorities are doing in terms of these contracts, particularly on issues like this, where you have LED lights that have been manufactured in Wales, but companies are not able to supply them because of the size of contracts, to see whether we can have a more level playing field for local companies?

Wel, diolch am eich ateb, Weinidog. Mae'r dystiolaeth yn dangos, fodd bynnag, fod cwmnïau'n dal i'w chael hi'n anodd cystadlu am gontractau awdurdodau lleol, sy'n parhau i fod yn rhy uchel. Rhoddaf enghraifft o gwmni yn fy rhanbarth i a oedd yn awyddus i gyflenwi goleuadau stryd LED. Ar un contract unigol, roedd gofyn i'r cwmni hwnnw ddarparu 2,000 o oleuadau y mis a hwythau ond yn gallu darparu 1,000, ac oherwydd nad oedd y contract yn gontract llai, cawsant eu rhwystro i bob pwrpas rhag cyflenwi'r goleuadau hynny. O ganlyniad, mae'r awdurdod lleol dan sylw yn mynd tu allan i Gymru. A allwch chi roi ymrwymiad i gynnal adolygiad o beth yn union y mae awdurdodau lleol yn ei wneud o ran y contractau hyn, yn enwedig ar faterion fel hyn, lle nad yw cwmnïau'n gallu cyflenwi goleuadau LED a gynhyrchwyd yng Nghymru oherwydd maint y contractau, er mwyn gweld a allwn sicrhau mwy o chwarae teg i gwmnïau lleol?

13:49

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, clearly, we're seeking a level playing field for local companies. The chair of our procurement board is the chief executive of a local authority and, of course, local government, alongside the health service and the rest of the public sector, are engaged in delivering on our Wales procurement policy statement. So, of course, this is an issue where we have to ensure that the barriers that we are tackling and the frameworks that we're developing with local government do deliver for SMEs in Wales, but, recognising that many Welsh companies are also winning contracts outside of Wales. We quite often forget that.

Wel, yn amlwg, rydym yn ceisio cael chwarae teg i gwmnïau lleol. Mae cadeirydd ein bwrdd caffael yn brif weithredwr awdurdod lleol, ac wrth gwrs, mae llywodraeth leol, ynghyd â'r gwasanaeth iechyd a gweddill y sector cyhoeddus, wedi ymrwymo i gyflawni ein datganiad polisi caffael Cymru. Felly, wrth gwrs, mae hwn yn fater lle y mae'n rhaid inni sicrhau bod y rhwystrau yr awn i'r afael â hwy a'r fframweithiau rydym yn eu datblygu gyda llywodraeth leol yn darparu ar gyfer busnesau bach a chanolig yng Nghymru, ond gan gydnabod bod llawer o gwmnïau o Gymru hefyd yn ennill contractau y tu allan i Gymru. Rydym yn aml yn anghofio hynny.

13:50 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, thank you for that answer, Minister. Local authorities, of course, are part of the problem here, and it doesn't give me any confidence to hear that you have a chief executive of a local authority trying to solve the problem, which possibly his authority is a part of. I agree with you that companies do have to win contracts outside of Wales, but can't we get it right in Wales first? Can you give us a statement sometime: an update of exactly how you are tackling this and what advice you are giving to local authorities in terms of making those contracts more manageable so that small companies—well, medium companies in this case—are able to compete for them and supply what is required?

Wel, diolch am eich ateb, Weinidog. Mae awdurdodau lleol, wrth gwrs, yn rhan o'r broblem ac nid yw'n rhoi hyder i mi glywed bod gennych brif weithredwr awdurdod lleol yn ceisio datrys problem y mae ei awdurdod ef yn rhan ohoni, o bosibl. Cytunaf â chi fod yn rhaid i gwmnïau ennill contractau y tu allan i Gymru, ond oni allwn ei chael hi'n iawn yng Nghymru gyntaf? A allwch roi datganiad i ni rywbryd: diweddariad ar sut yn union rydych yn mynd i'r afael â hyn a pha gyngor rydych yn ei roi i awdurdodau lleol o ran gwneud y contractau hynny'n haws eu trin er mwyn i gwmnïau bach—wel, cwmnïau canolig eu maint yn yr achos hwn—allu cystadlu amdanynt a chyflenwi'r hyn sydd ei angen?

13:50 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I think there are two examples I can give. First of all, last year, I launched a joint bidding guide to enable smaller companies to work together to bid for contracts. That's been very successful in terms of enabling, encouraging and supporting, providing guidance from the Wales Co-operative Centre, for example, for joint bidding. That has enabled more SMEs and microbusinesses to benefit. But I think also, you do need to look at our community of practice in terms of community benefits, which encourage, enable and support local government, particularly, in terms of supporting local supply chains, which of course will benefit as a result of the contracts.

Wel, credaf fod dwy enghraifft y gallaf eu rhoi. Yn gyntaf oll, y llynedd, lansiais arweiniad ar geisiadau ar y cyd er mwyn galluogi cwmnïau llai i weithio gyda'i gilydd i geisio am gontractau. Mae hynny wedi bod yn llwyddiannus iawn o ran galluogi, annog a chefnogi, gan ddarparu canllawiau gan Ganolfan Gydweithredol Cymru, er enghraifft, ar lunio ceisiadau ar y cyd. Mae hynny wedi galluogi mwy o fusnesau bach a chanolig eu maint a microfusnesau i elwa. Ond rwy'n credu hefyd fod angen i chi edrych ar ein cymuned o ymarferwyr o ran manteision i'r gymuned, sy'n annog, yn galluogi ac yn cynorthwyo llywodraeth leol yn enwedig drwy gefnogi cadwyni cyflenwi lleol, a fydd wrth gwrs yn elwa o ganlyniad i'r contractau.

13:51 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move back to the questions on the agenda. Question 3 is from Peter Black.

Symudwn yn ôl at y cwestiynau ar yr agenda yn awr. Daw cwestiwn 3 gan Peter Black.

### Fformiwla Barnett

### The Barnett Formula

13:51 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddiwygio fformiwla Barnett? OAQ(4)0520(FIN)*

*3. Will the Minister make a statement on reform of the Barnett formula? OAQ(4)0520(FIN)*

13:51 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Welsh Government is seeking a funding floor that addresses Welsh underfunding and prevents further convergence, as proposed by the Holtham commission, backed by the Silk commission and supported by all parties in the Assembly.

Mae Llywodraeth Cymru yn chwilio am gyllid gwaelodol sy'n mynd i'r afael â thanariannu yng Nghymru ac sy'n atal cydgyfeirio pellach, fel yr argymhellwyd gan gomisiwn Holtham ac a gefnogwyd gan gomisiwn Silk a phob plaid yn y Cynulliad.

13:51 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for that answer, Minister. You will know, of course, that the UK Government has offered the floor but we are still waiting to have the details of that. You'll know, from the extract of the blog that Gerry Holtham wrote, which you read out in earlier, that Gerry Holtham also said that if that floor was in place, it would effectively deal with the funding gap between Wales and England in terms of the money that we should be getting. Can I ask you what discussions you've had with UK Government since the St David's Day announcement in terms of trying to pin down the details of their offer and how the Welsh Government is going to take it forward?

Diolch am eich ateb, Weinidog. Fe fyddwch yn gwybod, wrth gwrs, fod Llywodraeth y DU wedi cynnig y cyllid gwaelodol, ond rydym yn dal i aros am y manylion ynghylch hynny. Fe fyddwch yn gwybod, o'r dyfyniad o'r blog a ysgrifennodd Gerry Holtham, a ddarllenoch yn gynharach, fod Gerry Holtham wedi dweud hefyd, pe bai'r cyllid gwaelodol hwnnw yn ei le, y byddai'n datrys y bwlch cyllido rhwng Cymru a Lloegr i bob pwrpas, o ran yr arian y dylem fod yn ei gael. A gaf fi ofyn i chi pa drafodaethau rydych wedi eu cael gyda Llywodraeth y DU ers cyhoeddiad Dydd Gŵyl Dewi o ran ceisio sicrhau manylion eu cynnig a sut y mae Llywodraeth Cymru am symud ymlaen ar y cynnig hwnnw?

13:52 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I will say that by confirming that a floor will be introduced in the next spending review, the UK Government has taken the smallest of steps towards addressing fair funding, which we welcome. But, of course, we need to move forward with those details in terms of how that would be delivered. There have been no approaches to me since the St David's Day statement, or to my officials, as to taking this forward. Obviously, we are moving into a pre-election period—we can recognise that—but, clearly, we have been working since 2009, and Gerry has demonstrated that very clearly in terms of his report, on how and when a floor should be set. We want to get on to ensure that it can be implemented.

Gallaf ddweud bod Llywodraeth y DU, drwy gadarnhau y bydd cyllid gwaelodol yn cael ei gyflwyno yn yr adolygiad nesaf o wariant, wedi cymryd y cam lleiaf tuag at fynd i'r afael ag ariannu teg, ac mae hynny i'w groesawu. Ond wrth gwrs, mae angen i ni symud ymlaen gyda'r manylion hynny o ran sut y gellid ei gyflawni. Ers datganiad Dydd Gŵyl Dewi, nid oes neb wedi trafod gyda mi na fy swyddogion sut y bwriedir symud hyn yn ei flaen. Rydym ar drothwy'r etholiad wrth gwrs—gallwn gydnabod hynny—ond yn amlwg, rydym wedi bod yn gweithio ers 2009, ac mae Gerry wedi dangos hynny'n glir iawn yn ei adroddiad, ar sut a phryd y dylid gosod cyllid gwaelodol. Rydym eisiau bwrw ymlaen er mwyn sicrhau bod modd ei weithredu.

13:53 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Obviously, as has already been said, Gerry Holtham made it clear in his report in 2009 that Wales was losing out to the tune of some £300 million. Can the Minister tell us what up-to-date assessments the Government has undertaken to ascertain the current funding gap? If it hasn't carried out any specific assessments, will the Minister commit to doing so?

Yn amlwg, fel y dywedwyd eisoes, gwnaeth Gerry Holtham yn glir yn ei adroddiad yn 2009 fod Cymru oddeutu £300 miliwn ar ei cholled. A all y Gweinidog ddweud wrthym pa asesiadau cyfredol y mae'r Llywodraeth wedi eu cynnal i ganfod beth yw'r bwlch cyllido presennol? Os nad yw wedi cynnal unrhyw asesiadau penodol, a wnaiff y Gweinidog ymrwymo i wneud hynny?

13:53 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, it is very important that we have a meaningful floor in relation to the Barnett formula. We have to make sure that the floor does address the underfunding of Welsh public services. As you rightly say, Paul Davies, Gerry Holtham rightly identified, back in 2009, that he felt we were underfunded by £300 million. The floor also must halt any risk of future convergence in Welsh relative funding. So, we have to make sure that we work with the Treasury to get the right levels in terms of the floor. If, of course, it is properly implemented, it will deliver substantial additional resources to Wales over time.

Wel, mae'n bwysig iawn fod gennym gyllid gwaelodol ystyrlon mewn perthynas â fformiwla Barnett. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod y cyllid gwaelodol yn mynd i'r afael â thanariannu'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Fel rydych yn iawn i nodi, Paul Davies, nododd Gerry Holtham yn gywir, yn ôl yn 2009, ei fod yn teimlo ein bod yn cael ein tanariannu o £300 miliwn. Hefyd, rhaid i'r cyllid gwaelodol atal unrhyw risg o gydgyfeirio cyllid cymharol Cymru yn y dyfodol. Felly, mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn gweithio gyda'r Trysorlys i gael y lefelau cywir o gyllid gwaelodol. Wrth gwrs, o gael ei weithredu'n gywir, bydd yn darparu adnoddau ychwanegol sylweddol i Gymru dros amser.

13:54 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Mae'n ddiddorol iawn, Weinidog, eich bod chi a'r Llywodraeth Lafur bellach yn cefnogi'n frwd adolygu Barnett. Rydych chi'n cyfeirio at 2009; onid yw hi'n fwy gwir i ddweud eich bod chi wedi dechrau cefnogi adolygu Barnett ar ôl etholiad cyffredinol 2010, pan nad oedd gan eich plaid chi unrhyw rym i newid y sefyllfa yn San Steffan? Yn y blynyddoedd cyn hynny—y degawd rhwng 1999 a 2009—fe wrthodoch chi bob galwad gan Blaid Cymru i adolygu Barnett pan oedd gennych chi, yn San Steffan, y cyfle i wneud hynny. A yw hyn yn golygu, os bydd Llywodraeth Lafur ar ôl yr etholaid ym mis Mai, y byddwch chi'n mynd yn dawel ar Barnett eto?

It's very interesting, Minister, that you and the Labour Government are now very enthusiastic supporters of Barnett reform. You referred to 2009; isn't it more accurate to say that you started to support Barnett reform after the general election of 2010, when your party was not in a position to change the situation in Westminster? In the previous years—the decade between 1999 and 2009—you rejected every call from Plaid Cymru to reform Barnett when you had the opportunity to do so in Westminster. Does this mean that, if there is a Labour Government after the May election, you will go quiet on Barnett again?

13:55 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, I was very delighted to hear Ed Balls last week in Cardiff say that he would also be implementing a funding floor when they win the general election on 7 May.

Wel, roeddwn wrth fy modd yn clywed Ed Balls yr wythnos diwethaf yng Nghaerdydd yn dweud y byddai yntau hefyd yn gweithredu cyllid gwaelodol pan fyddant yn ennill yr etholiad cyffredinol ar 7 Mai.

### Arbedion Effeithlonrwydd

### Efficiency Savings

13:55 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am arbedion effeithlonrwydd Llywodraeth Cymru yn y flwyddyn ariannol gyfredol? OAQ(4)0522(FIN)*

*4. Will the Minister make a statement on Welsh Government efficiency savings in the current financial year? OAQ(4)0522(FIN)*

13:55 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We've worked closely as a Government to carefully manage across our budgets to identify savings that could be made to meet pressures in the current financial year.

Rydym wedi gweithio'n agos fel Llywodraeth i reoli'n ofalus ar draws ein cyllidebau er mwyn nodi arbedion y gellid eu gwneud i ymdopi â phwysau yn y flwyddyn ariannol gyfredol.

13:55 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, one of the concerns held by the Public Accounts Committee has been the very high levels of administration costs associated with grants in recent years. We were very alarmed to read in the annual grants management report by the Welsh Government that some grants are as small as just £58 and have attached to them administration costs of us to £45—for a £58 grant. Clearly, that's an unacceptable level of administrative cost. What action are you taking specifically to address the administrative costs of grants, so that taxpayers can get better value for money?

Weinidog, un o bryderon y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yw'r lefelau uchel iawn o gostau gweinyddol sy'n gysylltiedig â grantiau yn y blynyddoedd diwethaf. Fe'n dychrynwyd i weld yn adroddiad rheoli grantiau blynyddol Llywodraeth Cymru bod rhai grantiau cyn lleied â £58 wedi creu costau gweinyddol o £45 i ni—am grant o £58. Yn amlwg, mae honno'n gost weinyddol annerbyniol. Pa gamau penodol rydych yn eu cymryd i fynd i'r afael â chostau gweinyddol grantiau er mwyn i'r trethdalwyr gael gwell gwerth am arian?

13:56 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, I welcome the scrutiny and work of the Public Accounts Committee. I mentioned earlier, in answer to a question, how important the annual grants management report is and that, of course, recommendations and lessons learned as a result of that report, and that annual report and review, are implemented. Clearly, we have to drive down those administrative costs.

Wel, rwy'n croesawu prosesau craffu a gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Soniais yn gynharach wrth ateb cwestiwn pa mor bwysig, wrth gwrs, yw'r adroddiad rheoli grantiau blynyddol a bod yr argymhellion a'r gwersi a ddysgwyd o ganlyniad i'r adroddiad hwnnw, a'r adroddiad blynyddol a'r adolygiad, yn cael eu rhoi ar waith. Yn amlwg, mae'n rhaid i ni leihau'r costau gweinyddol hynny.

13:56 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I was pleased to see your announcement on a new procurement advice note that deals with false self-employment and umbrella payments. I see that as an important step forward in ensuring a better deal for our public services, but also it means a better deal for the workers who deliver the services and the goods. Do you agree with me that this is a more effective procurement of goods and that it has a vital part to play in ensuring that we get efficiency savings, especially during challenging financial times?

Weinidog, roeddwn yn falch o weld eich cyhoeddiad ar nodyn cyngor caffael newydd sy'n delio â thaliadau hunangyflogaeth ac ambarél ffug. Ystyriaf hynny'n gam pwysig ymlaen o ran sicrhau bargen well i'n gwasanaethau cyhoeddus, ond hefyd mae'n golygu bargen well i'r gweithwyr sy'n darparu'r gwasanaethau a'r nwyddau. A ydych yn cytuno â mi bod hon yn ffordd fwy effeithiol o gaffael nwyddau a bod iddi ran hollbwysig yn y broses o sicrhau ein bod yn cael arbedion effeithlonrwydd, yn enwedig mewn cyfnod sy'n heriol yn ariannol?

13:57 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Ann Jones. Procurement and what we can do in terms of ensuring that there are fair employment practices, in terms of our public contracts, is vital. Today I did jointly announced the new procurement advice note on employment practices on public-funded projects, and it's going to provide guidance to require fair employment practices to be adopted, particularly to eradicate, as you say, unfair practices of false self-employment and unfair umbrella payment schemes. I have to say, we will now be the first administration in the United Kingdom to issue guidance of this kind, as we were the first in terms of tackling blacklisting as well.

Diolch i chi, Ann Jones. Mae caffael, a beth y gallwn ei wneud i sicrhau arferion cyflogi teg mewn perthynas â'n contractau cyhoeddus, yn hanfodol. Heddiw, cydgyhoeddwyd y nodyn cyngor caffael newydd ar arferion cyflogi prosiectau a ariennir yn gyhoeddus, ac mae'n mynd i ddarparu canllawiau i'w gwneud yn ofynnol mabwysiadu arferion cyflogi teg, yn enwedig, fel y dywedwch, er mwyn cael gwared ar arferion annheg o ran hunangyflogaeth ffug a chynlluniau taliadau ambarél annheg. Mae'n rhaid i mi ddweud mai ni fydd y weinyddiaeth gyntaf yn y Deyrnas Unedig i gyhoeddi canllawiau o'r fath, fel roeddem ni ar fynd i'r afael â chosbrestru.

## Atebolrwydd Ariannol

## Financial Accountability

13:57 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am atebolrwydd ariannol Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0531(FIN)*

*5. Will the Minister make a statement on the financial accountability of the Welsh Government? OAQ(4)0531(FIN)*

13:58 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Welsh Government is accountable to the people of Wales through the responsible management of its finances.

Mae Llywodraeth Cymru yn atebol i bobl Cymru drwy reolaeth gyfrifol ar ei chyllid.

13:58 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Thank you, Minister. I'm sure you'd agree with me that, as this institution takes its next step along the journey of greater powers, the issue of financial accountability cannot be ducked. Should, during the next spending review, a successful Barnett floor mechanism be negotiated and put in place, will you and your Government then take steps to prepare for a referendum on the devolution of income tax powers?

Diolch, Weinidog. Rwy'n sicr y byddech yn cytuno â mi, wrth i'r sefydliad hwn gymryd y cam nesaf tuag at fwy o bwerau, na ellir osgoi mater atebolrwydd ariannol. Os caiff mecanwaith cyllid gwaelodol Barnett llwyddiannus ei drafod a'i roi ar waith yn ystod yr adolygiad nesaf o wariant, a fyddech chi a'ch Llywodraeth yn rhoi camau ar waith i baratoi ar gyfer cynnal refferendwm ar ddatganoli pwerau treth incwm?

13:58 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I think the First Minister made it very clear last week in his statement that he welcomed the fact that the UK Government has, at last, recognised the need for a funding floor. We have been working for the implementation of that. We regard that as critical in terms of achieving fair funding, but also recognising that, as the Silk commission did, and I certainly do as finance Minister, we have to be very clear, when we are at the point, that we have that fair, sustainable footing in terms of our budget. I think I would only, again, repeat what the First Minister said last week: when the details of the funding floor are satisfactory and finalised, only at that point will we be able even to begin to consider the partial devolution of income tax.

Wel, credaf fod y Prif Weinidog wedi ei gwneud yn hollol glir yn ei ddatganiad yr wythnos diwethaf ei fod yn croesawu'r ffaith fod Llywodraeth y DU o'r diwedd wedi cydnabod yr angen am gyllid gwaelodol. Rydym wedi bod yn gweithio tuag at roi hynny ar waith. Rydym yn ystyried hynny'n hanfodol o ran sicrhau ariannu teg, ond gan gydnabod, fel y gwnaeth comisiwn Silk, a minnau'n sicr fel Gweinidog cyllid, fod yn rhaid i ni fod yn eglur iawn, pan gyrhaeddwn y pwynt hwnnw, fod y sylfaen deg a chynaliadwy honno gennym o ran ein cyllideb. Credaf fy mod yn ailadrodd, unwaith eto, yr hyn a ddywedodd y Prif Weinidog yr wythnos diwethaf: pan fydd manylion y cyllid gwaelodol yn foddhaol ac wedi'u cwblhau, bryd hynny'n unig y gallwn hyd yn oed ddechrau ystyried datganoli treth incwm yn rhannol.

13:59 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I heard the response that you gave to Peter Black and to Kirsty Williams now and I welcome the fact that you agree with a fair funding settlement for Wales. Now, the UK Conservative-led Government have announced a clear funding floor for Wales, which will mean a fair and sustainable footing for the future and the ability to devolve income tax and true accountability. Rhetoric aside, will you outline your position as the Minister for finance on the part-devolution of income tax, as in Scotland, and whether you support this, or are you content with the spending authority you preside over, with none of the, if any, responsibility to raise any money?

Weinidog, clywais yr ymateb a roesoch i Peter Black ac i Kirsty Williams yn awr ac rwy'n croesawu'r ffaith eich bod yn cytuno â setliad ariannu teg i Gymru. Nawr, mae Llywodraeth Geidwadol y DU wedi cyhoeddi cyllid gwaelodol clir ar gyfer Cymru, a fydd yn golygu sylfaen deg a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol, y gallu i ddatganoli treth incwm, a gwir atebolrwydd. Gan roi rhethreg o'r neilltu, a wnewch chi amlinellu eich barn fel Gweinidog cyllid ar ddatganoli treth incwm yn rhannol, fel yn yr Alban, ac a ydych yn cefnogi hyn, neu a ydych chi'n fodlon â'r awdurdod sydd gennych i wario heb gyfrifoldeb i godi unrhyw arian?

14:00 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I don't think you quite heard what I said, Byron Davies. I said: only when we can be confident that funding for Wales has been put on a fair, sustainable footing for the future. I think everybody across this Chamber would agree that that's the right thing to say. I think business outside would say that's the right thing to say, as well. Before we take any further steps, we have to, as the Silk commission said, be very clear, and it has to be an agreement between the Welsh Government and the UK Government, that we have got fair funding before we consider taking things forward.

Wel, nid wyf yn meddwl eich bod wedi clywed yr hyn a ddywedais yn iawn, Byron Davies. Dyma a ddwedais: ddim ond pan allwn fod yn hyderus fod cyllid i Gymru wedi ei roi ar sylfaen deg a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Credaf y byddai pawb yn y Siambr hon yn cytuno mai dyna'r peth iawn i'w ddweud. Credaf y byddai busnesau y tu allan hefyd yn dweud mai dyna'r peth iawn i'w ddweud. Cyn i ni gymryd unrhyw gamau pellach, mae'n rhaid i ni fod yn glir iawn, fel y dywedodd comisiwn Silk, ac mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fod yn gytûn, ein bod yn cael cyllid teg cyn i ni ystyried symud pethau yn eu blaenau.

But I also would have to say that it is very important to recognise that, at the moment, we do, of course, take our responsibility very clearly for our budget; our budget setting is very transparent. We look forward to the Finance Committee's report and review, which has already been published, of course, and the debate on the inquiry into best budget practice. So let's, you know, continue with what we're doing as we seek to have that final agreement, which we hope we will secure, in terms of fair funding for Wales.

Ond mae'n rhaid i mi ddweud hefyd ei bod yn bwysig iawn cydnabod ein bod, ar hyn o bryd wrth gwrs, yn ysgwyddo cyfrifoldeb clir dros ein cyllideb; mae ein proses o osod y gyllideb yn dryloyw iawn. Edrychwn ymlaen at adroddiad ac adolygiad y Pwyllgor Cyllid, sydd eisoes wedi ei gyhoeddi, wrth gwrs, a'r ddadl ynglŷn â'r ymchwiliad i arferion cyllidebol gorau. Felly, wyddoch chi, gadewch i ni barhau â'r hyn rydym yn ei wneud wrth i ni geisio cael y cytundeb terfynol hwnnw y gobeithiwn ei sicrhau o ran cyllid teg i Gymru.

14:01 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Minister, can you at least acknowledge that you had 13 years in Government in Westminster and in Cardiff bay to sort out a fair and sustainable funding model for Wales? You did not do it, and now you blame other parties for not delivering on something you signally failed to do for over a decade. Can you agree that any Government's financial accountability is massively improved and boosted if it is responsible for the taxation it raises in its own country and for the spending of that taxation? That would be a major step forward, both in terms of Welsh democracy and the interest in voting for this institution. In that context, and in light of what's been promised—the Smith commission in Scotland, the vow, which Alun Ffred Jones referred to, and the Silk commission recommendations—surely there's no need now for a referendum on income tax powers in Wales. Let's get on and have income tax powers here in Wales and make Welsh Government of any political colour more financially accountable to the people of Wales.

Weinidog, a allwch o leiaf gydnabod eich bod wedi cael 13 mlynedd yn y Llywodraeth yn San Steffan ac ym mae Caerdydd i drefnu model cyllid teg a chynaliadwy i Gymru? Ni wnaethoch hynny, ac yn awr rydych yn rhoi'r bai ar bleidiau eraill am beidio â chyflawni rhywbeth rydych wedi methu'n lân â'i wneud ers dros ddegawd. A allwch chi gytuno bod atebolrwydd ariannol unrhyw Lywodraeth yn cael ei wella a'i atgyfnerthu os yw hi'n gyfrifol am y trethi y mae'n eu codi yn ei gwlad ei hun ac am wario'r trethi hynny? Byddai'n gam mawr ymlaen o ran democratiaeth yng Nghymru a'r diddordeb mewn pleidleisio i'r sefydliad hwn. Yn y cyd-destun hwnnw, ac yng ngoleuni'r hyn sydd wedi'i addo—comisiwn Smith yn yr Alban, yr adduned, y cyfeiriodd Alun Ffred Jones ati, ac argymhellion comisiwn Silk—'does bosibl nad oes angen refferendwm yn awr ar bwerau treth incwm yng Nghymru. Gadewch i ni fynd yn ein blaenau a chael pwerau treth incwm yma yng Nghymru a sicrhau bod Llywodraeth Cymru, beth bynnag ei lliw gwleidyddol, yn fwy atebol yn ariannol i bobl Cymru.

Senedd.tv Fideo Video

14:02 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I don't know why you, Simon Thomas, and your colleagues, are trying to make this into an argument when we have got cross-party—[Interruption.] We have got cross-party agreement in this Assembly. I don't remember the debate that we had in October—we had a very good debate where we all agreed a motion—[Interruption.]

Nid wyf yn gwybod pam eich bod chi, Simon Thomas, a'ch cydweithwyr, yn ceisio troi hon yn ddadl pan fo gennym gytundeb trawsbleidiol—[Torri ar draws.] Mae gennym gytundeb trawsbleidiol yn y Cynulliad hwn. Nid wyf yn cofio'r ddadl a gawsom ym mis Hydref—cawsom ddadl dda iawn gyda phawb yn gytûn ar gynnig—[Torri ar draws.]

Senedd.tv Fideo Video

14:02 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I'm sorry, Minister. Minister, just hold on. I need to hear what people are saying in response to questions. Can we have less noise from the side benches, please? Minister.

Mae'n ddrwg gen i, Weinidog. Weinidog, arhoswch am funud. Mae angen i mi glywed beth y mae pobl yn ei ddweud mewn ymateb i gwestiynau. A gawn ni lai o sŵn o'r meinciau ochr, os gwelwch yn dda? Weinidog.

Senedd.tv Fideo Video

14:02 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I just think it is important that, in that motion, the future of devolution for Wales, there was a clear call from all parties in this Assembly for securing rapid implementation of a funding floor that both addresses underfunding in a way that is consistent with Welsh needs and halts future convergence. There is nothing in that motion that says, 'and that means you must have a referendum for income tax varying powers', and it certainly—. There's nothing in that motion that says that, and, of course, it's in the Wales Act 2014 that we should have a referendum when that time comes. So, it is very important to also recognise that the people of Wales, that you represent, that we represent in this Government, benefited from doubling our budget as a result of a Labour Government—benefited from the doubling of our budget to improve public services in Wales.

Rwy'n meddwl ei bod hi'n bwysig, yn y cynnig hwnnw, dyfodol datganoli yng Nghymru, fod galw clir gan bob plaid yn y Cynulliad hwn am i gyllid gwaelodol gael ei weithredu cyn gynted ag y bo modd ar gyfer mynd i'r afael â thanariannu mewn ffordd sy'n berthnasol i anghenion Cymru ac sy'n atal cydgyfeirio yn y dyfodol. Nid oes unrhyw beth yn y cynnig hwnnw sy'n dweud, 'ac mae hynny'n golygu bod yn rhaid i chi gael refferendwm ar bwerau i amrywio trethi', ac yn sicr—. Nid oes unrhyw beth yn y cynnig hwnnw sy'n dweud hynny, ac wrth gwrs, mae Deddf Cymru 2014 yn nodi y dylem gael refferendwm pan ddaw'r amser hwnnw. Felly, mae'n bwysig iawn cydnabod hefyd fod pobl Cymru rydych chi'n eu cynrychioli, ac rydym ni'n eu cynrychioli yn y Llywodraeth hon wedi elwa o ddyblu ein cyllideb o ganlyniad i Lywodraeth Lafur—wedi elwa o ddyblu ein cyllideb i wella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Senedd.tv Fideo Video

### Refferendwm ar Dreth Incwm

### Income Tax Referendum

14:03 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*6. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ynghylch cynnal refferendwm ar dreth incwm yng Nghymru? OAQ(4)0526(FIN)*

*6. What discussions has the Minister had with Welsh Government officials regarding holding an income tax referendum in Wales? OAQ(4)0526(FIN)*

Senedd.tv Fideo Video

14:03 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Only when the details of the funding floor are satisfactorily finalised will we be able even to begin to consider the partial devolution of income tax.

Ni allwn hyd yn oed ddechrau ystyried datganoli treth incwm yn rhannol hyd oni fydd manylion y cyllid gwaelodol wedi eu cwblhau yn foddhaol.

14:04 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv Fideo Video

Minister, that's bitterly disappointing, that you're making no preparations at all, considering many announcements have been made around the funding floor, and the St David's Day announcement really does give the impetus now for the Government to get its act together. I would have thought some initial assessment should have been taken to the run-in for such a referendum. So, do I take it from your answer to me earlier that you are undertaking no preparatory work at all, even just to assess the time frame that would be required to have a reasonable debate on both sides of the argument, and thus have a referendum that could have real bite and voter participation?

Weinidog, mae'n siomedig iawn nad ydych yn gwneud unrhyw baratoadau o gwbl, o gofio bod nifer o gyhoeddiadau wedi'u gwneud ynghylch y cyllid gwaelodol ac mae cyhoeddiad Dydd Gŵyl Dewi yn rhoi'r ysgogiad go iawn yn awr i'r Llywodraeth roi trefn arni ei hun. Fe fyddwn wedi meddwl y byddai rhywfaint o asesu cychwynnol wedi ei wneud yn ystod y cyfnod cyn refferendwm o'r fath. Felly, a gaf fi gymryd o'ch ateb cynharach nad ydych yn gwneud unrhyw waith paratoi o gwbl, hyd yn oed i asesu'r amserlen y byddai ei hangen er mwyn cael trafodaeth resymol ar y ddwy ochr i'r ddadl, a chael refferendwm felly a allai sicrhau gwir effaith a chyfranogiad pleidleiswyr?

14:04 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I don't think there is any disagreement—well, I hope not—across this Chamber that, if we have secured this goal of getting a commitment to a funding floor, which all parties, all parties, have signed up to, which should be delivered after the general election, hopefully by a Labour Government—. The fact that we have secured that commitment—. When Labour wins that election—. We've secured that commitment, and we now have to ensure that we get the right funding floor at the right time to deliver fair funding. Now, as a responsible Minister for Finance I could say nothing else, but that is critical, and I look forward to those detailed discussions to ensure we do get the right funding floor at the right time delivering that fair funding for Wales.

Nid wyf yn credu bod unrhyw anghytuno—wel, rwy'n gobeithio nad oes—yn y Siambr hon, os ydym wedi sicrhau'r nod o gael ymrwymiad i gyllid gwaelodol, gyda phob plaid, pob plaid, yn ei gefnogi, ac a ddylai gael ei gyflwyno ar ôl yr etholiad cyffredinol, gan Lywodraeth Lafur gobeithio—. Mae'r ffaith ein bod wedi sicrhau'r ymrwymiad hwnnw—. Pan fydd Llafur yn ennill yr etholiad—. Rydym wedi sicrhau'r ymrwymiad hwnnw ac mae angen i ni'n awr sicrhau ein bod yn cael y cyllid gwaelodol iawn ar yr adeg iawn er mwyn darparu cyllid teg. Nawr, fel Gweinidog Cyllid cyfrifol gallwn beidio â dweud rhagor, ond mae hynny'n hollbwysig, ac edrychaf ymlaen at y trafodaethau manwl hynny i sicrhau ein bod yn cael y cyllid gwaelodol iawn ar yr adeg iawn er mwyn darparu cyllid teg i Gymru.

14:05 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Leanne Wood. [Interruption.] Rhodri Glyn Thomas, I called Leanne Wood, not you. Leanne Wood.

Leanne Wood. [Torri ar draws.] Rhodri Glyn Thomas, gelwais ar Leanne Wood, nid arnoch chi. Leanne Wood.

14:05 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. Minister, Plaid Cymru are deeply disappointed that so many of the cross-party Silk recommendations have been cast to one side. One of the recommendations is the publication of annual accounts to show the state of public finances in Wales, something that most of us here as politicians are in the dark about, let alone the wider public out there. Now, this lack of transparency harms knowledge and it harms debate, and those are both crucial for this country as we take greater fiscal responsibility with levers including some income tax. Will you now pledge to fulfil that recommendation of the Silk report and publish comprehensive public accounts for Wales along the lines of the Government Expenditure and Revenue Scotland report that is published in Scotland?

Diolch yn fawr. Weinidog, mae Plaid Cymru yn siomedig iawn fod cynifer o'r argymhellion Silk trawsbleidiol wedi cael eu bwrw o'r neilltu. Un o'r argymhellion yw cyhoeddi cyfrifon blynyddol i ddangos cyflwr cyllid cyhoeddus yng Nghymru, rhywbeth nad oes gan y rhan fwyaf ohonom yma fel gwleidyddion syniad yn ei gylch, heb sôn am y cyhoedd yn gyffredinol. Nawr, mae'r diffyg tryloywder hwn yn niweidio gwybodaeth ac yn niweidio trafodaeth, ac mae'r rheini'n hanfodol ar gyfer y wlad hon wrth i ni ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb ariannol gydag ysgogiadau gan gynnwys rhywfaint o dreth incwm. A wnewch chi addo Cyflawni'r argymhelliad hwnnw o adroddiad Silk yn awr a chyhoeddi cyfrifon cyhoeddus cynhwysfawr ar gyfer Cymru yn debyg i'r adroddiad Government Expenditure and Revenue Scotland sy'n cael ei gyhoeddi yn yr Alban?

14:06 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I think, as far as Silk 1 is concerned, there is no question. We've supported every recommendation and I think I would also, in terms of the reports that come out from Scotland, take issue with many of the points that are made in that report. Of course, the Treasury has responsibility as far as this is concerned, but I would also say that, in my representations over the last few weeks in terms of the St David's Day process, I've asked for the funding flexibilities that we need in Wales, which also were in Silk 1, which would be very easy to give, and certainly they've been given to Northern Ireland as part of the Stormont agreement, and the response to the Smith Commission. I hope Plaid Cymru would also back me in looking for those financial flexibilities in terms of our budget.

Wel, o ran Silk 1, nid oes amheuaeth yn fy marn i. Rydym wedi cefnogi pob argymhelliad a chredaf y byddwn i hefyd, o ran yr adroddiadau sy'n dod o'r Alban, yn anghytuno â llawer o'r pwyntiau a wneir yn yr adroddiad hwnnw. Wrth gwrs, y Trysorlys sy'n gyfrifol yn hyn o beth, ond byddwn hefyd yn dweud, yn fy sylwadau dros yr wythnosau diwethaf o ran proses Dydd Gŵyl Dewi, fy mod wedi gofyn am yr hyblygrwydd cyllido sydd ei angen arnom yng Nghymru, a oedd i'w weld yn Silk 1 hefyd, ac a fyddai'n hawdd iawn ei roi. Yn sicr mae wedi ei roi i Ogledd Iwerddon yn rhan o gytundeb Stormont, a'r ymateb i Gomisiwn Smith. Gobeithio y byddai Plaid Cymru hefyd yn fy nghefnogi wrth i mi edrych am yr hyblygrwydd ariannol hwnnw yn ein cyllideb.

14:07 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you answer the question, though, please?

Ond a wnewch chi ateb y cwestiwn, os gwelwch yn dda?

14:07 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Questions, questions. The Minister answered the question. Question 7, Ann Jones.

Cwestiynau, cwestiynau. Mae'r Gweinidog wedi ateb y cwestiwn. Cwestiwn 7, Ann Jones.

### Grant Bloc Cymru

### The Welsh Block Grant

14:07 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith gostyngiadau i'r grant bloc Cymru ar bobl yn Nyffryn Clwyd? OAQ(4)0535(FIN)*

*7. Will the Minister make a statement on the effect of reductions to the Welsh block grant on people in the Vale of Clwyd? OAQ(4)0535(FIN)*

14:07 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Despite a 9 per cent real-terms cut to our budget over this spending review period, we are doing all we can to mitigate the impact of spending reductions on the people of Wales.

Er gwaethaf toriad o 9 y cant mewn termau real i'n cyllideb dros gyfnod yr adolygiad o wariant, rydym yn gwneud popeth yn ein gallu i liniaru effaith gostyngiadau yn y gwariant ar bobl Cymru.

14:07 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. We have seen, or we're going to see, the consequences for public services of the pressures now of the £1.5 billion reduction to our Welsh block grant. The Chancellor has indicated that, should a Tory Government be returned in May—and I won't say what I was going to say—they are going to continue to ruthlessly reduce public spending to 35 per cent of gross domestic product, a level that has not been seen since the 1930s, before we had the creation of the NHS and the welfare state. Has the Welsh Government made any assessment of the potential impact that this would have should the Tories win the election in May?

Diolch, Weinidog. Rydym wedi gweld, neu rydym yn mynd i weld, canlyniadau'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus bellach o ganlyniad i'r gostyngiad o £1.5 biliwn i'n grant bloc yng Nghymru. Pe bai Llywodraeth Doriaidd yn dychwelyd ym mis Mai—ac nid wyf am ddweud yr hyn roeddwn yn mynd i'w ddweud—mae'r Canghellor wedi nodi y byddant yn parhau i dorri gwariant cyhoeddus yn ddidrugaredd i lawr i 35 y cant o'r cynnyrch domestig gros, lefel na welwyd ei thebyg ers y 1930au cyn i'r GIG a'r wladwriaeth les gael eu sefydlu. A yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw asesiad o'r effaith bosibl pe bai'r Toriaid yn ennill yr etholiad ym mis Mai?

14:08

## Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, the cumulative cuts to our budget caused by the Chancellor's austerity policies, of course, are the root cause of the tough choices that we've had to make in terms of our budget. It's interesting, when you look at the coalition's social policy record, that only a few weeks ago, London School of Economics and Manchester University researchers were warning that cuts to benefits and tax credits hit low-income families hardest, and caps to tax credits and benefits made no impact on the deficit, which, of course, lays bare the failure of their economic and fiscal policies. But I happen to agree with Chris Leslie, the shadow Chief Secretary to the Treasury, who says:

'People won't forget George Osborne has raised VAT and cut tax credits...while giving millionaires a huge tax cut. This chancellor gives with one hand, but takes much more away with the other'.

Wel, y toriadau cronnus i'n cyllideb a achoswyd gan bolisïau caledi'r Canghellor, wrth gwrs, yw achos sylfaenol y dewisiadau anodd rydym wedi gorfod eu gwneud ynghylch ein cyllideb. Wrth edrych ar record y glymblaid ar bolisi cymdeithasol, mae'n ddiddorol fod ymchwilwyr yn Ysgol Economeg Llundain a Phrifysgol Manceinion yn rhybuddio ychydig wythnosau yn ôl yn unig mai teuluoedd ar incwm isel oedd yn cael eu heffeithio waethaf gan doriadau i fudd-daliadau a chredydau treth, ac nad oedd capio credydau treth a budd-daliadau yn cael unrhyw effaith ar y diffyg, sy'n dangos methiant eu polisïau economaidd ac ariannol wrth gwrs. Ond rwy'n digwydd cytuno â Chris Leslie, Prif Ysgrifennydd Trysorlys yr wrthblaid, sy'n dweud:

'Ni fydd pobl yn anghofio bod George Osborne wedi codi TAW a thorri credydau treth... gan roi toriad treth enfawr i filiwnyddion. Mae'r canghellor hwn yn rhoi gydag un llaw, ond yn cymryd llawer mwy yn ôl gyda'r llall'.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

14:09

## Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Of course, this was the Chancellor who walked into his job with a note from the Labour Party saying, sorry, there's no money left, and the biggest peacetime deficit ever in our country's history. Minister, it's all very well for you to make comments about the reduction of the block grant, but your Government itself could be making savings in the way that it spends its money. During this Assembly, we've seen £52 million spent on an airport, £3.2 million on furnishing Welsh Government offices, £100,000 spent on—

Wrth gwrs, dyma'r Canghellor a gerddodd i mewn i'w swydd gyda nodyn gan y Blaid Lafur yn dweud, mae'n ddrwg gennym, nid oes unrhyw arian ar ôl, a'r diffyg mwyaf erioed mewn cyfnod o heddwch yn hanes ein gwlad. Weinidog, mae'n ddigon hawdd i chi wneud sylwadau am y gostyngiad yn y grant bloc, ond gallai eich Llywodraeth eich hun wneud arbedion yn y ffordd y mae'n gwario ei harian. Yn ystod y Cynulliad hwn, rydym wedi gweld £52 miliwn yn cael ei wario ar faes awyr, £3.2 miliwn ar ddodrefnu swyddfeydd Llywodraeth Cymru, gwario £100,000 ar—

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

14:09

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Is there a question coming here?

A oes cwestiwn ar y ffordd yma?

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

14:09

## Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Continues.]—a hospitality suite at the Millennium Stadium, and £300,000 written off on the All Wales Ethnic Minority Association, as well as a delivery unit that doesn't deliver. What efforts have your Government put into cutting wasteful Government expenditure in order to improve the lives of the citizens of the Vale of Clwyd?

[Parhau.]—ystafell letygarwch yn Stadiwm y Mileniwm, a dileu dyled o £300,000 gan Gymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, yn ogystal ag uned gyflawni nad yw'n cyflawni. Pa ymdrechion y mae eich Llywodraeth wedi eu gwneud i dorri gwariant gwastraffus y Llywodraeth er mwyn gwella bywydau dinasyddion Dyffryn Clwyd?

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

14:10

## Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, you know, we've had five years of your coalition Tory-led Government—five years and £35 billion-worth of cuts, and, as Ann Jones rightly asked me just a few minutes ago, if the Conservatives were to win the next election in May, another £55 billion of cuts to come. I would also say that the Prime Minister seems to delight in the fact that he's pledging not only lower spending but also tax cuts as well. I think, Presiding Officer, we're very close to an election and also, of course, financial issues are crucial. What we have to make sure is that we make use of our funding appropriately and responsibly and we unite in terms of the opportunities we have to get fair funding for Wales.

Wel, wyddoch chi, rydym wedi cael pum mlynedd o'ch Llywodraeth glymblaid o dan arweiniad y Torïaid—pum mlynedd a gwerth £35 biliwn o doriadau ac fel roedd Ann Jones yn iawn i ofyn i mi ychydig funudau yn ôl, pe bai'r Ceidwadwyr yn ennill yr etholiad nesaf ym mis Mai, £55 biliwn o doriadau eraill i ddod. Fe ddywedwn hefyd fod y Prif Weinidog i'w weld yn ymhyfrydu ei fod yn addo, nid yn unig llai o wariant, ond toriadau treth yn ogystal. Lywydd, rwy'n credu ein bod yn agos iawn at etholiad a hefyd, wrth gwrs, mae materion ariannol yn hollbwysig. Yr hyn sy'n rhaid i ni sicrhau yw ein bod yn gwneud defnydd priodol a chyfrifol o'n cyllid a'n bod yn uno o ran y cyfleoedd sydd gennym i sicrhau cyllid teg i Gymru.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

### Fformiwla Barnett

### The Barnett Formula

14:11 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o ffactorau cymaroldeb fformiwla Barnett? OAQ(4)0538(FIN)*

*8. What assessment has the Minister made of Barnett formula comparability factors? OAQ(4)0538(FIN)*

14:11 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I expect the Barnett formula comparability factors to be reviewed and updated as part of the next UK Government spending review, following the forthcoming UK parliamentary elections.

Rwy'n disgwyl i ffactorau cymaroldeb fformiwla Barnett gael eu hadolygu a'u diweddaru yn rhan o adolygiad nesaf o wariant Llywodraeth y DU, wedi'r etholiadau seneddol sydd i ddod.

14:11 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Silk commission recommended that, whenever a function is not reserved to Westminster, there should be a transfer of funding agreed by both the Welsh and UK Governments and also that the comparability factors should be updated. This recommendation is essential, of course, when it comes to ensuring transparency and fairness. I was concerned to read in the St David's Day command paper that this recommendation is, in the words of the UK Government, and I quote:

'Subject to established machinery of government principles'.

Recent experience suggests that the established UK Government machinery is not fit for purpose. Are you confident therefore that the existing UK Government machinery can handle fair and agreed transfers of power and funding? Will you make a statement saying how you are influencing the next statement of funding policy for the devolved administrations?

Pan nad yw swyddogaeth wedi'i neilltuo i San Steffan, argymhellodd comisiwn Silk y dylai Llywodraethau Cymru a'r DU gytuno i drosglwyddo cyllid a hefyd y dylid diweddaru'r ffactorau cymaroldeb. Mae'r argymhelliad hwn yn hanfodol, wrth gwrs, er mwyn sicrhau tryloywder a thegwch. Testun pryder i mi oedd darllen ym mhapur gorchymyn Dydd Gŵyl Dewi fod yr argymhelliad hwn, yng ngeiriau Llywodraeth y DU:

'Yn amodol ar egwyddorion systemau llywodraeth sefydledig'.

Mae profiad diweddar yn awgrymu nad yw systemau sefydledig Llywodraeth y DU yn addas at y diben. A ydych yn hyderus, felly, y gall systemau presennol Llywodraeth y DU ymdopi â throsglwyddo pwerau a chyllid yn deg a chytûn? A fyddwch yn gwneud datganiad yn dweud sut rydych yn dylanwadu ar y datganiad polisi cyllid nesaf ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig?

14:12 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm grateful for that question. It is quite clear we do need to update the statement for funding policy. We haven't had a quadrilateral and we haven't had an update in the statement for funding policy and substantial changes have been made, not least in Scotland, and of course now in Wales as a result of recent legislation. But the comparability factors haven't been updated since the last spending review in 2010, and we have to make the statement for funding policy fit for purpose in order to reflect those changes in responsibilities and spending priorities.

Diolch am y cwestiwn. Mae'n eithaf amlwg bod angen i ni ddiweddaru'r datganiad polisi cyllido. Nid ydym wedi cael cyfarfod rhwng y pedair gwlad ac nid ydym wedi cael diweddariad i'r datganiad polisi cyllido ac mae newidiadau sylweddol wedi cael eu gwneud, yn enwedig yn yr Alban, ac wrth gwrs yng Nghymru erbyn hyn o ganlyniad i ddeddfwriaeth ddiweddar. Ond nid yw'r ffactorau cymaroldeb wedi cael eu diweddaru ers yr adolygiad diwethaf o wariant yn 2010, ac mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr fod y datganiad polisi cyllido yn addas i'r diben er mwyn adlewyrchu'r newidiadau yn y cyfrifoldebau a blaenoriaethau gwario.

14:12 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

So, Minister, will you then list to us now the details of the correspondence and communication that you've had with the UK Government to raise that issue with them?

Felly, Weinidog, a wnewch chi restru manylion yr ohebiaeth a'r cyfathrebiadau rydych wedi eu cael gan Lywodraeth y DU i drafod y mater gyda hwy?

14:13 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This is an issue, as we wait for the spending review, where there will be an update; there will be a process for updating. Of course, I will share that with the Assembly.

Tra rydym yn aros am yr adolygiad o wariant, mae hwn yn fater lle y bydd diweddariad; bydd yna broses o ddiweddaru. Wrth gwrs, byddaf yn rhannu hynny gyda'r Cynulliad.

### Budsoddi mewn Seilwaith

### Infrastructure Investment

14:13 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

*9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith yng Nghymru? OAQ(4)0524(FIN)*

*9. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's priorities for infrastructure investment in Wales? OAQ(4)0524(FIN)*

Senedd.tv Fideo Video

14:13 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Last week, I had constructive discussions with the European Commission to consider how we can make the most of President Juncker's European fund for strategic investment to support increased investment across Wales, in line with the priorities of our Wales infrastructure investment plan.

Yr wythnos diwethaf, cefais drafodaethau adeiladol gyda'r Comisiwn Ewropeaidd i ystyried sut y gallwn fanteisio i'r eithaf ar gronfa Ewropeaidd yr Arlywydd Juncker ar gyfer buddsoddi strategol i gefnogi mwy o fuddsoddi ledled Cymru, yn unol â blaenoriaethau ein cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru.

Senedd.tv Fideo Video

14:13 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Minister, you'll be aware that your colleague, the Minister for Economy, Science and Transport, is looking at the feasibility of dualling the A40 in Pembrokeshire. I'm sure you'd agree with me that dualling this road could potentially transform the economy in the area that I represent. Given that a project like this would require substantial investment, can you tell us what input are you having, as Finance Minister, into this particular review?

Weinidog, fe fyddwch yn ymwybodol fod eich cydweithiwr, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, yn edrych ar y posibilrwydd o ddeuoli'r A40 yn Sir Benfro. Rwy'n siŵr y byddech yn cytuno â mi y gallai deuoli'r ffordd hon drawsnewid economi'r ardal rwyf yn ei chynrychioli. O gofio y byddai prosiect fel hwn yn galw am fuddsoddiad sylweddol, a allwch ddweud wrthym pa fewnbwn sydd gennych, fel y Gweinidog Cyllid, yn yr adolygiad penodol hwn?

Senedd.tv Fideo Video

14:14 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

The Minister for Economy, Science and Transport, as you know, has requested acceleration of the trunk road improvements. There's urgent work being undertaken to look at additional ways to improve the A40, with the potential for dualling. I know the work's going to be completed by May of this year, 2015. Of course, this is going to be subject to the Treasury's five-case model. But all schemes of this type, we will consider whether this would be an appropriate candidate for the Juncker plan.

Fel y gwyddoch, mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi galw am gyflymu'r gwelliannau i'r cefnffyrdd. Mae gwaith brys yn cael ei wneud i edrych ar ffyrdd ychwanegol o wella'r A40 gyda'r posibilrwydd o ddeuoli. Rwy'n gwybod y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau erbyn mis Mai eleni, 2015. Wrth gwrs, bydd hyn yn amodol ar fodel pum achos y Trysorlys. Ond fel gyda pob cynllun o'r math hwn, byddwn yn ystyried a fydd hwn yn ymgeisydd addas ar gyfer y cynllun Juncker.

Senedd.tv Fideo Video

14:14 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

A ydy'r Gweinidog yn cytuno y bydd hi'n llai tebygol y bydd blaenoriaethau pwysig iawn o ran isadeiledd yn cael eu gwireddu, oherwydd i arweinydd cangen Gymreig y Blaid Lafur gytuno i adael i Lywodraeth Llundain benderfynu sut i ddefnyddio ein pwerau gwariant ni yn y dyfodol, ac oherwydd i'r Llywodraeth yma benderfynu defnyddio'r pwerau gwariant hynny i gyd ar un prosiect, sef yr M4?

Does the Minister agree that it will be less likely that very important priorities in terms of infrastructure will be achieved because the leader of the Welsh branch of the Labour Party agreed to allow the London Government to decide how to use our spending powers in the future, and because this Government decided to use those spending powers on one project, namely the M4?

Senedd.tv Fideo Video

14:15 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I think the Wales infrastructure investment plan is the key vehicle to deliver all our strategic capital investment decisions, and, of course, our borrowing powers will be available for the whole of Wales.

Rwy'n credu mai cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru yw'r cyfrwng allweddol i gyflawni ein holl benderfyniadau buddsoddi cyfalaf strategol ac wrth gwrs, bydd ein pwerau benthyca ar gael i Gymru gyfan.

Senedd.tv Fideo Video

14:15 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I'm sure you share my delight that the spend-to-save bid submitted by Powys teaching health board for £167,000 towards LED lighting, infrastructure and voltage optimisation across the entire hospital estate, which I raised with you in Plenary last month, has been successful. Minister, in the context of the public service boards that are envisaged by the Well-being of Future Generations (Wales) Bill, will you please commit to the Welsh Government prioritising in the meantime exactly this kind of spend-to-save infrastructure funding, so as to make significant progress in the battle to mitigate climate change, but also to save significant amounts of public money?

Weinidog, rwy'n siŵr eich bod yn rhannu'r un llawenydd â minnau fod y cais gwario i arbed a gyflwynwyd gan fwrdd addysgu iechyd Powys am £167,000 tuag at oleuadau LED, seilwaith ac optimeiddio foltedd ar draws yr ystâd ysbytai, y tynnais eich sylw ato yn y Cyfarfod Llawn y mis diwethaf, wedi bod yn llwyddiannus. Weinidog, yng nghyd-destun y byrddau gwasanaethau cyhoeddus a ragwelir gan y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), a wnewch chi ymrwymo i sicrhau y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth yn y cyfamser i'r math hwn o gyllido seilwaith ar sail gwario i arbed er mwyn gwneud cynnydd sylweddol yn y frwydr i liniaru newid yn yr hinsawdd, a hefyd i arbed symiau sylweddol o arian cyhoeddus?

14:16 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank William Powell for welcoming that invest-to-save announcement for Powys local health board, and I think the fact that I prioritised energy efficiency schemes in that round demonstrates my commitment.

Diolch i William Powell am groesawu'r cyhoeddiad ar fuddsoddi i arbed ar gyfer bwrdd iechyd lleol Powys, ac rwy'n credu bod y ffaith fy mod wedi blaenoriaethu cynlluniau effeithlonrwydd ynni yn y cylch hwnnw'n dangos fy ymrwymiad.

14:16 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch i chi, Weinidog.

We now move to item 2, which is questions to the Minister for Public Services. Question 1 is Suzy Davies's.

Symudwn yn awr at eitem 2, sef cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus. Daw Cwestiwn 1 gan Suzy Davies.

## 2. Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus

## 2. Questions to the Minister for Public Services

### Monitro Awdurdodau Lleol

### Monitoring Local Authorities

14:16 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i adolygu sut y mae awdurdodau lleol yn gweithredu ac yn monitro sut y caiff y gwasanaethau cyhoeddus eu cyflenwi? OAQ(4)0535(PS)*

*1. What plans does the Welsh Government have to review how local authorities implement and monitor their delivery of public services? OAQ(4)0535(PS)*

14:16 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

I set out our vision for local government in Wales, including proposals for improving services, in our White Paper, 'Reforming Local Government: Power to Local People' on 3 February.

Nodais ein gweledigaeth ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys cynigion ar gyfer gwella gwasanaethau, yn ein Papur Gwyn, 'Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol' ar 3 Chwefror.

14:16 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Thank you for that answer, Minister. I wonder how that applies to this situation. We've had encouraging news, of course, about the number of businesses achieving top scores under the Food Hygiene Rating (Wales) Act 2013. Constituents tell me, though, that some inspectors take a tick-box approach and don't really check thoroughly for cleanliness, while others dock a disproportionate number of points for paperwork non-compliance or dock points when a warning on a very minor infraction might be appropriate. Two years after Royal Assent, do you plan to report on the consistency of local authority inspections under the Act?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Tybed sut y mae hynny'n berthnasol i'r sefyllfa hon. Rydym wedi cael newyddion calonogol, wrth gwrs, am nifer y busnesau sy'n cyflawni'r sgorau uchaf o dan Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013. Mae etholwyr yn dweud wrthyf, fodd bynnag, nad yw rhai arolygwyr ond yn ticio blychau ac nad ydynt yn gwirio glendid yn drylwyr, ac eraill yn tynnu nifer anghymesur o bwyntiau am beidio â chydymffurfio â gwaith papur neu'n tynnu pwyntiau am dorri rheol fach iawn lle y gallai rhybudd fod yn fwy addas. Aeth dwy flynedd heibio ers y Cydsyniad Brenhinol: a ydych yn bwriadu adrodd ar gysondeb archwiliadau awdurdodau lleol o dan y Ddeddf hon?

Senedd.tv
Fideo Video

14:17 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

I've not had any representations on this before. I will give consideration to that. I want to discuss that with other portfolio Ministers, however, before reaching that conclusion.

Nid wyf wedi cael unrhyw sylwadau ynglŷn â hyn o'r blaen. Byddaf yn ystyried y mater. Rwyf am ei drafod gyda Gweinidogion portffolio eraill, fodd bynnag, cyn dod i'r casgliad hwnnw.

Senedd.tv
Fideo Video

14:17 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Weinidog, yn ddiweddar, fe wnaethoch chi fel Llywodraeth ddatganiad ynglŷn â sut oedd cymunedau lleol yn gallu rheoli yr hyn sydd yn cael ei roi mewn i 'community asset transfer'—rwy'n methu cofio'r enw yn y Gymraeg. Rwy'n cydnabod y bydd hynny'n ddefnyddiol iawn, ond nid yw hynny eto yn ateb y cwestiwn ynglŷn â sut mae pobl yn gallu monitro beth sydd yn digwydd yn y sector hwnnw wedyn. Sut ydym ni fel pobl leol wedyn yn gallu sicrhau bod y cyngor lleol yn atebol yn ddemocrataidd am yr hyn sydd yn digwydd? A oes yna unrhyw ddiweddariad ar hyn, gan fy mod i wedi gofyn cwestiwn i chi yn y gorffennol ar y mater yma?

Minister, you as a Government recently made a statement on how local communities could manage what's put into a community asset transfer— I can't remember the Welsh term for it. I do acknowledge that that will be very useful, but that doesn't answer the question as to how people can monitor what's happening within that particular sector. How can we, as local people, ensure that the local council is democratically accountable for what's happening? Can you give us any update on this, because I have raised this question with you in the past?

Senedd.tv
Fideo Video

14:18 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

I understand the question that the Member is asking; I think it is an important issue. I think there are a series of aspects to this. First of all, I think we need to ensure that local authorities are armed, if you like, with effective guidance and, indeed, examples of successful practice in this area that are already taking place in Wales, and, indeed, in other places, and we're working on that at the present time. We then need to ensure that there are appropriate consultations on community asset transfers as they take place. We've certainly put in place in one or two areas the development of toolkits for local communities, so that they understand the issues that are involved, and we're currently working on further guidance for local authorities in this area at the present time.

Rwy'n deall y cwestiwn y mae'r Aelod yn ei ofyn; Rwy'n credu ei fod yn fater pwysig. Rwy'n meddwl bod yna sawl agwedd ar hyn. Yn gyntaf oll, rwy'n credu bod angen i ni sicrhau bod awdurdodau lleol wedi eu harfogi, os mynnwch, gydag arweiniad effeithiol ac yn wir, enghreifftiau o arfer llwyddiannus yn y maes sydd eisoes yn digwydd yng Nghymru, ac mewn mannau eraill yn wir. Rydym yn gweithio ar hynny ar hyn o bryd. Yna, mae angen i ni sicrhau bod ymgynghoriadau priodol yn cael eu cynnal ar drosglwyddiadau asedau cymunedol wrth iddynt ddigwydd. Rydym yn sicr wedi dechrau ar y gwaith o ddatblygu pecynnau cymorth ar gyfer cymunedau lleol mewn un neu ddwy o ardaloedd er mwyn iddynt ddeall y materion sydd dan sylw ac rydym yn gweithio ar ganllawiau pellach ar gyfer awdurdodau lleol yn y maes ar hyn o bryd.

Senedd.tv
Fideo Video

## Gwasanaethau ar gyfer Personél y Lluoedd Arfog

## Services for Armed Forces Personnel

14:19 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

*2. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda chyd-Weinidogion Cymru ynghylch gwasanaethau ar gyfer personél y lluoedd arfog yng Nghymru? OAQ(4)0532(PS)*

*2. What discussions has the Minister had with Welsh ministerial colleagues regarding services for armed forces personnel in Wales? OAQ(4)0532(PS)*

Senedd.tv
Fideo Video

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

*10. A wnaiff y Gweinidog amlinellu hyd a lled ei rôl fel pwynt cyswllt ar gyfer y lluoedd arfog a chyn-filwyr yng Nghymru ? OAQ(4)0545(PS)*

*10. Will the Minister outline the extent of his role as liaison point for the armed forces in Wales and veterans? OAQ(4)0545(PS)*

14:19

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llywydd, I understand you've given your permission for questions 2 and 10 to be grouped.

Lywydd, rwy'n deall eich bod wedi rhoi eich caniatâd i grwpio cwestiynau 2 a 10.

I engage regularly with colleagues across the ministerial portfolios to ensure our armed forces personnel receive the support that they deserve.

Rwy'n ymgysylltu'n rheolaidd â chydweithwyr ar draws y portffolios gweinidogol i sicrhau bod ein personél lluoedd arfog yn cael y gefnogaeth y maent yn ei haeddu.

14:19

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. You know, of course, that last June the Welsh Government announced a one-off additional £100,000 for Veterans' NHS Wales to reduce waiting times for therapy for veterans with service-related mental health problems, the base budget of £485,000 having been frozen since 2010. How are you—bearing in mind you're the liaison point for the armed forces in Wales and for veterans—and your colleagues going to respond to calls for that £100,000 to be now embedded with the £485,000 so that veteran therapist capacity within Wales can be sustained and the reduction in waiting times from seven months to two months can be continued?

Diolch yn fawr. Rydych yn gwybod, wrth gwrs, fod Llywodraeth Cymru, fis Mehefin diwethaf, wedi cyhoeddi taliad un-tro ychwanegol o £100,000 ar gyfer GIG Cymru y Cyn-filwyr i leihau amseroedd aros am therapi ar gyfer cyn-filwyr â phroblemau iechyd meddwl sy'n gysylltiedig â'u gwasanaeth, gyda'r gyllideb sylfaenol o £485,000 wedi ei rhewi ers 2010. Sut rydych chi—gan gofio mai chi yw'r pwynt cyswllt ar gyfer y lluoedd arfog yng Nghymru ac ar gyfer cyn-filwyr—a'ch cydweithwyr yn mynd i ymateb i'r galwadau am gynnwys y £100,000 gyda'r £485,000 yn awr er mwyn gallu cynnal gwasanaeth therapyddion cyn-filwyr yng Nghymru ac er mwyn i'r lleihad yn yr amseroedd aros o saith mis i ddau fis gael ei barhau?

14:20

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, the additional investment of £100,000 in the service during 2014-15 has enabled the service to enter a steady state and to manage capacity within existing resources, now that waiting lists have been reduced. Welsh Government has invested £650,000 in improving access to psychological therapies during the current year. To embed talking therapies in the longer term, we've also commissioned a national action plan, which will enable health boards to ensure consistent provision of talking therapies for all their population, including veterans. These are matters I know that my colleague, the Minister for Health and Social Services, is keeping under close review.

Wel, mae'r buddsoddiad ychwanegol o £100,000 i'r gwasanaeth yn ystod 2014-15 wedi galluogi'r gwasanaeth i sefydlogi a'i alluogi i reoli capasiti o fewn yr adnoddau presennol, gan fod y rhestrau aros wedi cael eu lleihau bellach. Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £650,000 i wella mynediad at therapïau seicolegol yn ystod y flwyddyn gyfredol. Er mwyn ymgorffori therapïau siarad yn y tymor hir, rydym hefyd wedi comisiynu cynllun gweithredu cenedlaethol a fydd yn galluogi byrddau iechyd i sicrhau darpariaeth gyson o therapïau siarad i'w holl boblogaethau, gan gynnwys cyn-filwyr. Rwy'n gwybod bod fy nghyd-Aelod, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn cadw llygad manwl ar y materion hyn.

14:21

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A ydych chi wedi cael unrhyw gyfle, Weinidog, i drafod ymgyrch y Lleng Brydeinig Frenhinol, 'Insult to Injury'? Rwy'n siŵr eich bod chi'n ymwybodol o'r broblem ynglŷn â chanllawiau'r Llywodraeth, sydd yn delio ag iawndal ar ôl 2005 yn wahanol i'r iawndal cynt. Nid oedd y Gweinidog cyllid yn ymwybodol ai mater i Lywodraeth Prydain oedd hyn neu i Lywodraeth Cymru, ond rwy'n cael ar ddeall mai canllawiau Llywodraeth Cymru sy'n creu'r sefyllfa, er bod dau gyngor ar hyn o bryd yn delio â'r iawndal yn yr un modd. A ydych chi wedi cael unrhyw gyfle i drafod hyn â'ch cyd-Weinidogion?

Have you had any opportunity, Minister, to discuss the Royal British Legion campaign, Insult to Injury? I'm sure that you're aware of the problem with the Government guidelines, which deal with compensation after 2005 differently from previously. The finance Minister wasn't aware whether this was a matter for the UK Government or the Welsh Government, but I understand that it's the Welsh Government guidelines that created this situation, although two councils are currently dealing with compensation in the same way. Have you had any opportunity to discuss this with your fellow Ministers?

14:21 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I haven't had a recent opportunity to discuss it with colleagues, but I did discuss it with the director general of the Royal British Legion, in fact, on Monday when I visited the Pop In centre in Cardiff. I think that we are aware of the issues. He will be aware of the decisions that have been taken at a UK level. He will also be aware of the impact of the spending cuts imposed by his party in Government in London on this Government.

Wel, nid wyf wedi cael cyfle yn ddiweddar i'w drafod gyda fy nghyd-Aelodau ond fe drafodais y mater gyda phrif gyfarwyddwr y Lleng Brydeinig Frenhinol ddydd Llun, mewn gwirionedd, pan ymwelais â'r ganolfan galw heibio yng Nghaerdydd. Rwy'n credu ein bod yn ymwybodol o'r materion sy'n codi. Fe fydd yn ymwybodol o'r penderfyniadau sydd wedi cael eu gwneud ar lefel y DU. Fe fydd hefyd yn ymwybodol o effaith y toriadau gwariant a gafodd eu gorfodi ar y Llywodraeth hon gan ei blaid yn y Llywodraeth yn Llundain.

14:22 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, of course, we all know who left the legacy that led to those spending cuts, but, Minister, the question still remains whether or not it's appropriate that, among councils in Wales, one council treats former veterans in one way while another council doesn't. It effectively creates a postcode lottery. So, in those circumstances, will you look at issuing guidance that standardises the approach across Wales?

Wel, wrth gwrs, rydym ni i gyd yn gwybod pwy adawodd yr etifeddiaeth a arweiniodd at y toriadau gwariant hynny ond mae'r cwestiwn yn aros, Weinidog: a yw'n briodol fod un cyngor yng Nghymru yn trin cyn-filwyr mewn un ffordd a chyngor arall yn eu trin mewn ffordd wahanol. O ganlyniad, mae'n creu loteri cod post. Felly, yn yr amgylchiadau hynny, a wnewch chi ystyried cyhoeddi canllawiau sy'n safoni'r ymagwedd ledled Cymru?

14:22 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, Llywydd, these are matters that we keep under consideration. I think the reality of the situation is as I described it in my answer to Aled Edwards. He knows the decisions that have been taken by the UK Government and their impact on the Government here.

Wel, Lywydd, mae'r rhain yn faterion rydym yn eu cadw o dan ystyriaeth. Rwy'n meddwl bod realiti'r sefyllfa fel a ddisgrifiais yn fy ateb i Aled Edwards. Mae'n gwybod y penderfyniadau a wnaed gan Lywodraeth y DU a'u heffaith ar y Llywodraeth yma.

14:22 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think you meant Aled Roberts actually, yes?

Rwy'n credu mai Aled Roberts rydych yn ei olygu mewn gwirionedd, onid e?

14:23 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Sorry, Aled Edwards. I'm—. Sorry, Aled Roberts. They look so alike. [Laughter.]

Mae'n ddrwg gennyf, Aled Edwards. Rwy'n—. Mae'n ddrwg gennyf, Aled Roberts. Maent yn edrych mor debyg i'w gilydd. [Chwerthin.]

14:23 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, recent casework that I've been involved with in north Powys, involving a member of the armed forces awaiting discharge from the military on health grounds has identified something of a grey area in terms of housing provision. Whilst still formally the responsibility of the army until discharge, the clunking bureaucracy of the Ministry of Defence has proved somewhat impenetrable both to me and to others who've sought to help. In such circumstances, is there scope within Wales for housing authorities to be more proactive in facilitating transitional arrangements for armed forces personnel facing genuine housing need?

Weinidog, mae gwaith achos diweddar y bûm yn ynghlwm wrtho yng ngogledd Powys mewn perthynas ag aelod o'r lluoedd arfog sy'n aros am gael ei ryddhau o'r fyddin ar sail iechyd wedi tynnu sylw at rywfaint o niwlogrwydd o ran y ddarpariaeth dai. Er mai cyfrifoldeb y fyddin yw hyn yn ffurfiol hyd nes y caiff yr unigolyn ei ryddhau, mae biwrocratiaeth glogyrnaidd y Weinyddiaeth Amddiffyn wedi bod braidd yn ddyrys i mi ac i eraill sydd wedi ceisio helpu. Mewn amgylchiadau o'r fath, a oes lle yng Nghymru i awdurdodau tai fod yn fwy rhagweithiol wrth hwyluso trefniadau trosiannol ar gyfer personél y lluoedd arfog sy'n wynebu angen gwirioneddol o ran tai?

14:23 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

I think the Member will be aware that we've allocated an additional £2 million of capital funding in 2013-14 to provide housing for armed forces service leaders, which was allocated to local authorities. Of course, we now have the Housing (Wales) Act 2014, which brings in a new framework for tackling homelessness in Wales, and consultation on the statutory guidance to support this legislation has invited views from the armed forces welfare sector on how this guidance can be strengthened. So, I think there are a number of ways in which we are taking this forward. I know that, if he has specific issues he wants to raise, then my colleague, the Minister for Communities and Tackling Poverty, will be happy to hear from him.

Rwy'n credu y bydd yr Aelod yn ymwybodol ein bod wedi dyrannu £2 filiwn ychwanegol o gyllid cyfalaf yn 2013-14 i ddarparu tai ar gyfer pobl sy'n gadael y lluoedd arfog. Dyrannwyd yr arian i'r awdurdodau lleol. Wrth gwrs, bellach mae gennym Ddeddf Tai (Cymru) 2014, sy'n cyflwyno fframwaith newydd ar gyfer mynd i'r afael â digartrefedd yng Nghymru, ac mae ymgynghoriad ar y canllawiau statudol i gefnogi'r ddeddfwriaeth hon wedi gwahodd sylwadau gan sector lles y lluoedd arfog ar sut y gellid cryfhau'r canllawiau. Felly, rwy'n meddwl ein bod yn bwrw ymlaen â hyn mewn sawl ffordd. Os oes ganddo faterion penodol y mae'n dymuno eu trafod, gwn y bydd fy nghyd-Aelod, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, yn hapus i glywed ganddo.

Senedd.tv
Fideo Video

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from Party Spokespeople

14:24 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to questions from party spokespeople. First this afternoon is Plaid Cymru spokesperson, Rhodri Glyn Thomas.

Symudwn yn awr at gwestiynau gan lefarwyr y pleidiau. Yn gyntaf y prynhawn yma, llefarydd Plaid Cymru, Rhodri Glyn Thomas.

Senedd.tv
Fideo Video

14:24 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Weinidog, mae'r gyllideb ar gyfer llywodraeth leol wedi'i chytuno ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, gyda thoriad o 3.4 y cant yn gyffredinol. Mae'r penderfyniad hwnnw wedi cael ei wneud er mwyn diogelu y gyllideb iechyd, ac ychwanegu ati. I ba raddau y rhoddwyd ystyriaeth i'r ffaith bod llawer iawn o'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig gan lywodraeth leol yng Nghymru yn wasanaethau sy'n ymwneud ag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, ac y byddai torri ar y gwasanaethau hynny'n ychwanegu, mewn gwirionedd, at gyllideb y gwasanaeth iechyd?

Minister, the budget for local government has been agreed for the next financial year, with a cut of 3.4 per cent overall. That decision was taken in order to protect the health budget, and to add to it. To what extent was consideration given to the fact that very many of the services offered by local government in Wales are services relating to health and social services, and that cutting back on those services would add, in fact, to the health service budget?

Senedd.tv
Fideo Video

14:25 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Well, I think we were very conscious of the impact of reductions in local authority spending, and obviously, we put additional money into the settlement for local authorities in respect of social services as a result of those considerations. The fact is, of course, that local authorities in Wales are being protected better than they're being protected in England.

Wel, rwy'n credu ein bod yn ymwybodol iawn o effaith y gostyngiadau yng ngwariant awdurdodau lleol, ac yn amlwg, rhoesom arian ychwanegol tuag at y setliad i awdurdodau lleol o ran gwasanaethau cymdeithasol o ganlyniad i'r ystyriaethau hynny. Wrth gwrs, y ffaith amdani yw bod awdurdodau lleol yng Nghymru yn cael eu hamddiffyn yn well nag y maent yn cael eu hamddiffyn yn Lloegr.

Senedd.tv
Fideo Video

14:25 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Weinidog, rwy'n derbyn bod llywodraeth leol yng Nghymru wedi cael ei hamddiffyn yn well na llywodraeth leol yn Lloegr. Eto i gyd, rwy'n siŵr y byddech chi'n cytuno bod llywodraeth leol yng Nghymru'n wynebu toriadau sylweddol yn ei chyllideb, ac oherwydd hynny, mae awdurdodau'n wynebu gwneud penderfyniadau anodd iawn ynglŷn â thoriadau o ran gwasanaethau. Pa drafodaethau ŷch chi wedi'u cael gydag arweinwyr llywodraeth leol yng Nghymru ynglŷn â'r blynyddoedd sydd i ddod a'r math o setliad y gallan nhw ei ddisgwyl am y ddwy, tair, neu'r pum mlynedd nesaf, er mwyn iddyn nhw allu cynllunio ar gyfer y dyfodol?

Minister, I accept that local government in Wales has been better protected than local government in England. Yet again, I'm sure you'd agree that local government in Wales is facing significant cuts in its budget, and because of that, authorities are having to face very difficult decisions on cuts in services. What discussions have you had with the leaders of local government in Wales about the years that are ahead of us, and the kind of settlement that they could expect for the next two, three, or even five years, so that they can plan for the future?

Senedd.tv
Fideo Video

14:26 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Well, as they are aware, it is very difficult for us to plan ahead for them when we don't know the likely settlement for ourselves.

Wel, fel y maent yn gwybod, mae'n anodd iawn i ni gynllunio ymlaen llaw ar eu cyfer pan nad ydym yn gwybod beth fydd y setliad tebygol ein hunain.

Senedd.tv Fideo Video

14:26 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Wel, Weinidog, canlyniad uniongyrchol peidio â chynllunio ar gyfer y dyfodol ydy eich bod chi'n mynd i wneud penderfyniadau byr dymor a allai fod yn gwbl ddifaol o ran gwasanaethau. Onid ŷch chi'n credu ei fod e'n gyfrifoldeb arnoch chi fel Gweinidog i weithio gyda llywodraeth leol i gynllunio ar gyfer y dyfodol a cheisio rhagweld beth fydd yn digwydd? Nid yw cynlluniau gwariant Llywodraeth Lafur yn annhebyg i Lywodraeth Geidwadol: rŷm ni i gyd yn gwybod bod yna doriadau sylweddol yn mynd i ddod—am y pum neu'r 10 mlynedd i ddod. Onid eich cyfrifoldeb chi ydy gweithio gyda llywodraeth leol er mwyn sicrhau eu bod nhw'n gallu cynllunio ar gyfer y dyfodol a pheidio â chymryd y penderfyniadau yma o flwyddyn i flwyddyn?

Well, Minister, the direct result of not planning for the future is that you are going to be taking short-term decisions that could be totally devastating as far as services are concerned. Don't you believe that you are duty bound, as a Minister, to work with local government to plan for the future and to try to anticipate what will happen? A Labour Government's spending plans are not dissimilar to those of a Conservative Government: we all know that significant cuts are on their way—for the next five or 10 years. Isn't it your responsibility to work with local government to ensure that they are able to plan for the future and do not have to take these decisions on a year-on-year basis?

Senedd.tv Fideo Video

14:27 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Llywydd, I think the general election campaign has started.

Lywydd, rwy'n credu bod ymgyrch yr etholiad cyffredinol wedi cychwyn.

Senedd.tv Fideo Video

14:27 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I had noticed, yes.

Roeddwn i wedi sylwi, do.

Senedd.tv Fideo Video

14:27 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

The reality is that the spending plans of a future Labour Government would be very significantly different from a future Conservative Government's, and we will fight that campaign over the weeks to come. The reality that we have to contend with is that we have very limited knowledge of our own budgets, moving forward. What we do know, of course, is that local authorities have very significant amounts of money in reserves. Many of those local authorities are starting to use those reserves constructively. I would encourage more to look carefully at the reserves that they have and to use those to plan for changes in service provision.

Y gwir amdani yw y byddai cynlluniau gwariant Llywodraeth Lafur yn y dyfodol yn wahanol iawn i gynlluniau gwariant Llywodraeth Geidwadol yn y dyfodol, a byddwn yn ymladd yr ymgyrch honno dros yr wythnosau sydd i ddod. Y realiti sy'n rhaid i ni ymdopi ag ef yw mai cyfyngedig iawn yw ein gwybodaeth am ein cyllidebau eu hunain wrth symud ymlaen. Yr hyn y gwyddom, wrth gwrs, yw bod gan awdurdodau lleol arian sylweddol iawn mewn cronfeydd wrth gefn. Mae llawer o'r awdurdodau lleol hynny'n dechrau defnyddio'r cronfeydd wrth gefn hynny'n adeiladol. Byddwn yn annog mwy ohonynt i edrych yn ofalus ar y cronfeydd wrth gefn sydd ganddynt a'u defnyddio i gynllunio ar gyfer newidiadau o ran y modd y caiff gwasanaethau eu darparu.

Senedd.tv Fideo Video

14:27 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to the Welsh Conservatives' spokesperson, Janet Finch-Saunders.

Symudwn yn awr at lefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Janet Finch-Saunders.

Senedd.tv Fideo Video

14:28 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Thank you, Presiding Officer. Will the Minister provide the Chamber with an update on his plans for local government reorganisation to be submitted before the summer, and on whether he intends to include any further options on voluntary mergers?

Diolch i chi, Lywydd. A wnaiff y Gweinidog roi diweddariad i'r siambr ynglŷn â'i gynlluniau ar gyfer ad-drefnu llywodraeth leol sydd i'w cyflwyno cyn yr haf, ac a yw'n bwriadu cynnwys unrhyw opsiynau pellach ar uno gwirfoddol?

Senedd.tv Fideo Video

14:28 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Llywydd, as we've said, we expect to produce a map looking at future options before the summer recess, and I have nothing to add to that.

Lywydd, fel rydym wedi dweud, rydym yn disgwyl cynhyrchu map sy'n edrych ar yr opsiynau ar gyfer y dyfodol cyn toriad yr haf ac nid oes gennyf ddim i'w ychwanegu at hynny.

Senedd.tv Fideo Video

14:28 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, in terms of any proposed voluntary mergers, I note that, in your White Paper and Bill, there are talks of transition committee costs for authorities of £77,000. Clearly, this comes on the back of you rejecting the Conway and Denbighshire bid for voluntary merger. Incidentally, under a freedom of information request, I have a letter here from the director for local government, saying that you were extremely impressed by the approach they had taken, and that both you and he were committed to helping and supporting them through the process. Also, I believe that, as late as the Friday before the rejection, I'm told that Wrexham and Flintshire were advised that the voluntary merger between Conway and Denbighshire was to go ahead and that they had, in fact, missed a trick. Why are there so many inconsistencies in your approach?

Weinidog, o ran unrhyw uno gwirfoddol arfaethedig, yn eich Bil a'ch Papur Gwyn, rwy'n nodi bod sôn am gostau o £77,000 ar gyfer pwyllgorau pontio'r awdurdodau. Yn amlwg, daw hyn yn sgil y ffaith eich bod wedi gwrthod cais Conwy a Sir Ddinbych i uno'n wirfoddol. Gyda llaw, o dan gais rhyddid gwybodaeth, mae gennyf lythyr yma gan y cyfarwyddwr llywodraeth leol, sy'n dweud fod y dull o weithredu a ddefnyddiwyd ganddynt wedi creu argraff fawr iawn arnoch, a'ch bod chi ac yntau wedi ymrwymo i'w helpu a'u cefnogi drwy gydol y broses. Hefyd, mor ddiweddar â'r dydd Gwener cyn y gwrthodiad, rwy'n credu, cefais wybod bod Wrecsam a Sir y Fflint wedi cael gwybod bod yr uno gwirfoddol rhwng Conwy a Sir Ddinbych yn mynd i ddigwydd a'u bod hwy, mewn gwirionedd, wedi colli cyfle. Pam fod cymaint o anghysonderau yn eich ymagwedd?

14:29 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I don't know who they were advised by in that context. I had very robust discussions with the leader of Wrexham, that's certainly true. Also, I had a number of conversations with the leader of Flintshire. In respect of the proposed merger of Denbighshire and Conwy, as I've said in this Chamber before, when you are faced with a situation where one of the chief executives indicates that it would be hard to complete the necessary business case according to the timescale, you aren't left with very many options.

Nid wyf yn gwybod gan bwy y cawsant y wybodaeth yn y cyd-destun hwnnw. Cefais drafodaethau trylwyr iawn gydag arweinydd Wrecsam, mae hynny'n sicr yn wir. Hefyd, cefais nifer o sgyrsiau gydag arweinydd Sir y Fflint. Mewn perthynas â'r cynnig i uno Sir Ddinbych a Chonwy, fel y dywedais yn y Siambr hon o'r blaen, pan rydych yn wynebu sefyllfa lle y mae un o'r prif weithredwyr yn nodi y byddai'n anodd cwblhau'r achos busnes angenrheidiol o fewn yr amserlen, nid yw hynny'n gadael llawer iawn o opsiynau i chi.

14:29 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. Also, there was evidence taken in committee that any recommendations made on the draft Bill could be withdrawn at the next election, and clearly, there's been rhetoric here from yourself, and the First Minister, that it's the opposition parties that haven't come up with that plan. Clearly, the buck stops with you to make that plan, but what discussions have you had with other parties, and is this really a cohesive way to take forward any form of local government reorganisation?

Diolch i chi, Weinidog. Hefyd, cafwyd tystiolaeth yn y pwyllgor y gellid tynnu unrhyw argymhellion a wneid ar y Bil drafft yn ôl yn yr etholiad nesaf, ac yn amlwg, cafwyd rhethreg yn hyn o beth gennych chi a'r Prif Weinidog mai'r gwrthbleidiau sydd heb feddwl am y cynllun hwnnw. Yn amlwg, eich cyfrifoldeb chi yw llunio'r cynllun hwnnw ond pa drafodaethau rydych wedi'u cael gyda phleidiau eraill, ac a yw hon, mewn gwirionedd, yn ffordd gydlynol o ddatblygu unrhyw ffurf ar ad-drefnu llywodraeth leol?

14:30 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm very happy to have a meeting with the Member to discuss her preferred map if she would like to do so, and I'm sure the First Minister would be very happy to have a meeting with the leader of the opposition to do the same. I think the issue for us is that, clearly, it would be preferable if we could achieve a consensus on the map going forward. I think that makes sense around the Chamber in practice. Whether people are willing to commit to that, of course, in advance of 2016, we'll just have to wait and see, I guess.

Rwy'n hapus iawn i gael cyfarfod gyda'r Aelod i drafod ei map dewisol pe bai'n dymuno ac rwy'n siŵr y byddai'r Prif Weinidog yn hapus iawn i gyfarfod gydag arweinydd yr wrthblaid i wneud yr un peth. Rwy'n meddwl mai'r broblem i ni, yn amlwg, yw y byddai'n well pe gallem sicrhau consensws ar y map wrth symud ymlaen. Rwy'n credu y byddai hynny'n gwneud synnwyr ymarferol o gwmpas y Siambr. Mae'n debyg y bydd yn rhaid i ni aros i weld a yw pobl yn barod i ymrwymo i hynny, wrth gwrs, cyn 2016.

14:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Peter Black.

Symudwn yn awr at lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.

14:30 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, in your letters to the leaders of Denbighshire and Conwy county councils, setting out why you rejected the proposed merger, you stated, as you have just done to Janet Finch-Saunders, that the timescales were not sufficient to do the additional work and commitment required to develop a comprehensive merger proposal, but you also said that another area of significant concern related to the lack of initial consultation and engagement with a wide range of stakeholders and clear plans for addressing this going forward. Given that this is a theme in terms of all the voluntary merger rejections, apart from obviously Bridgend, which had other issues, do you think that you actually left enough time for the voluntary merger proposals to come forward? Do you not think that you could have left more time for local authorities to draw up these merger plans?

Weinidog, yn eich llythyrau at arweinwyr cynghorau sir Ddinbych a Chonwy, sy'n nodi pam eich bod wedi gwrthod yr uno arfaethedig, fe ddywedoch, fel rydych newydd ei ddweud wrth Janet Finch-Saunders, nad oedd yr amserlen yn caniatáu digon o amser i wneud y gwaith ychwanegol a rhoi'r ymrwymiad angenrheidiol ar gyfer datblygu cynnig cynhwysfawr i uno. Ond fe ddywedoch hefyd mai mater arall a oedd yn peri pryder sylweddol oedd y diffyg ymgynghori ac ymgysylltu cychwynnol ag ystod eang o randdeiliaid, a diffyg cynlluniau clir ar gyfer mynd i'r afael â hyn yn y dyfodol. O ystyried bod hon yn thema berthnasol i'r holl geisiadau uno gwirfoddol a gafodd eu gwrthod, ar wahân i Ben-y-bont ar Ogwr, yn amlwg, lle'r oedd materion eraill yn codi, a ydych yn credu eich bod wedi gadael digon o amser, mewn gwirionedd, i'r cynigion uno gwirfoddol gael eu cyflwyno? Onid ydych yn credu y gallech fod wedi gadael mwy o amser i awdurdodau lleol lunio'r cynlluniau uno hyn?

14:31 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

To be honest with you, I think that given that the idea of voluntary mergers was first flagged up in the Williams commission report, which was published over 12 months ago now, and as a Government we published a White Paper in July, which amplified that and spoke again about the likelihood of voluntary mergers, prior to our issuing the voluntary merger prospectus this autumn, I think there was ample time for local authorities to prepare for discussions with their local communities.

I fod yn onest, o gofio bod y syniad o uno gwirfoddol wedi cael sylw am y tro cyntaf yn adroddiad comisiwn Williams a gyhoeddwyd dros 12 mis yn ôl bellach, a'n bod ni, fel Llywodraeth, wedi cyhoeddi Papur Gwyn ym mis Gorffennaf a dynnai sylw at y mater ac a soniai eto am y tebygolrwydd o uno gwirfoddol, cyn cyhoeddi ein prosbectws uno gwirfoddol yr hydref hwn, rwy'n credu bod awdurdodau lleol wedi cael digon o amser i baratoi ar gyfer cynnal trafodaethau gyda'u cymunedau lleol.

14:32 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Minister. Could you actually outline what level of consultation and engagement with stakeholders you would require for a local authority to go ahead with a voluntary merger?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. A allech chi amlinellu pa lefel o ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid y byddech ei angen mewn gwirionedd er mwyn i awdurdod lleol fwrw ymlaen â chynlluniau i uno'n wirfoddol?

14:32 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We set that out in the voluntary merger prospectus and I think we were very clear about what our requirements were in that prospectus. It was obvious to us that the commitment to that was not necessarily shared across Wales.

Rydym wedi nodi hynny yn y prosbectws uno gwirfoddol ac rwy'n credu bod ein gofynion yn glir iawn yn y prosbectws hwnnw. Roedd yn amlwg i ni nad oedd yr ymrwymiad hwnnw o reidrwydd yn cael ei rannu ar draws Cymru.

14:32 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Okay. Well, I think it's quite clear that the commitment is not shared across Wales, but given that this is the criteria that you have set for voluntary mergers, when you come to publish your map in the summer, and then whoever brings forward the Bill after the Assembly elections, will you also be requiring authorities that are going to be merged compulsorily to have the same level of consultation and engagement, and the same level of preparation and commitment, that you required of those authorities that sought voluntary merger? Are you going to be setting that out as a pre-condition before you can move ahead with those compulsory mergers?

Iawn. Wel, rwy'n credu ei bod yn gwbl amlwg nad yw'r ymrwymiad yn cael ei rannu ar draws Cymru, ond o ystyried mai dyma'r meini prawf rydych wedi'u gosod ar gyfer uno gwirfoddol, pan fyddwch yn mynd ati i gyhoeddi eich map yn yr haf, a phwy bynnag fydd yn cyflwyno'r Bil ar ôl etholiadau'r Cynulliad, a fyddwch hefyd yn mynnu bod awdurdodau sy'n mynd i gael eu huno'n orfodol yn sicrhau'r un lefel o ymgynghori, ymgysylltu a pharatoi, a'r un lefel o ymrwymiad a wnaethoch yn ofynnol gan yr awdurdodau a oedd yn ceisio uno'n wirfoddol? A ydych yn mynd i osod hynny fel rhagamod cyn y gallwch fwrw ymlaen i uno'n orfodol?

14:33

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There will need to be consultation and engagement. Whether that is to be carried out by local authorities that are being merged compulsorily themselves, or whether it would be something that we should institute as Welsh Government, I think is a matter for us to determine later.

Bydd angen ymgynghori ac ymgysylltu. Rwy'n credu mai mater i ni ei benderfynu yn nes ymlaen yw pa un a fydd hynny'n cael ei gyflawni gan yr awdurdodau lleol sy'n cael eu huno'n orfodol eu hunain neu'n rhywbeth y dylem ni ei sefydlu fel Llywodraeth Cymru.

14:33

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move back to questions on the paper and question 3 is, again, Peter Black.

Symudwn yn ôl yn awr at y cwestiynau ar y papur a daw cwestiwn 3, unwaith eto, gan Peter Black.

### Trefniadau Pensiwn ar gyfer Diffoddwyr Tân

### Pension Arrangements for Firefighters

14:33

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am drefniadau pensiwn ar gyfer diffoddwyr tân? OAQ(4)0531(PS)*

*3. Will the Minister make a statement on pension arrangements for firefighters? OAQ(4)0531(PS)*

14:33

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I announced details of the new firefighters' pension scheme in my written statement on 16 February.

Cyhoeddais fanylion cynllun pensiwn newydd y diffoddwyr tân yn fy natganiad ysgrifenedig ar 16 Chwefror.

14:33

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Minister. In your letter to me of 3 March 2015, you set out your reasons why you felt that you could not make the same provision for firefighters who had been ex-service personnel as they have done in Scotland, and claimed that one of the reasons was the cost of around £6 million over the next seven years. Actually, that amounts to less than £1 million a year. Do you not think that the fact that you're not following the same route as Scotland for those ex-service personnel means that they are effectively losing out as a result of having served for their country before they went on to serve in the fire service?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Yn eich llythyr ataf ar 3 Mawrth 2015, fe nodoch eich rhesymau pam eich bod yn teimlo na allech roi'r un ddarpariaeth i ddiffoddwyr tân a oedd yn gyn-filwyr, fel y maent wedi'i wneud yn yr Alban, ac fe honnoch mai un o'r rhesymau am hynny oedd y gost o tua £6 miliwn dros y saith mlynedd nesaf. A dweud y gwir, mae hynny'n gyfystyr â llai na £1 filiwn y flwyddyn. Drwy beidio â dilyn yr un llwybr â'r Alban ar gyfer y cyn-filwyr, onid ydych yn credu bod hynny'n golygu eu bod ar eu colled am wasanaethu eu gwlad cyn mynd ymlaen i wasanaethu yn y gwasanaeth tân ?

14:34

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I don't accept that they are losing out. Let's be clear first of all that the scheme that we have announced has been welcomed publicly by the Fire Brigades Union. The general secretary said that it was a significant improvement in the proposals and would be welcomed by firefighters in Wales. And, as he will be aware, the Fire Brigades Union has suspended strike action in Wales and strikes now continue in England only. So, I think we've reached a good settlement. The proposals do not, in any way, treat armed forces veterans who have joined the fire service differently from other members of the fire service. They are treated on the same basis. There are significant costs to making any changes to those proposals and, of course, the Member will be aware that the budget settlement has been reached for the next financial year.

Nid wyf yn derbyn eu bod ar eu colled. Gadewch i ni fod yn glir yn gyntaf oll fod y cynllun rydym wedi'i gyhoeddi wedi cael ei groesawu'n gyhoeddus gan Undeb y Brigadau Tân. Dywedodd yr ysgrifennydd cyffredinol ei fod yn welliant mawr yn yr argymhellion ac y byddai'n cael ei groesawu gan ddiffoddwyr tân yng Nghymru. Ac fel y bydd yn gwybod, mae Undeb y Brigadau Tân wedi atal streic yng Nghymru, ac yn Lloegr yn unig y mae'r streiciau'n parhau erbyn hyn. Felly, rwy'n credu ein bod wedi cael setliad da. Nid yw'r cynigion, mewn unrhyw ffordd, yn trin cyn-filwyr y lluoedd arfog sydd wedi ymuno â'r gwasanaeth tân yn wahanol i aelodau eraill o'r gwasanaeth tân. Maent yn cael eu trin ar yr un sail. Mae costau sylweddol ynghlwm wrth unrhyw newidiadau i'r cynigion hynny ac wrth gwrs, fe fydd yr Aelod yn ymwybodol fod setliad y gyllideb wedi ei bennu ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

14:35 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Minister, and I welcome the work the Welsh Government has actually done in tackling the issue and putting a positive position forward with the FBU on firefighters' pensions. But, like Peter Black, I also question the issue about the time at which people's consideration for which scheme they go into is important. Most people operate in a scheme of age and then most other public sector workers—and I was one of the ones who was strongly advocating supporting the public sector against the current coalition Government's attacks on their pensions—pensions are based on age, and they give a 10-year period on age. Therefore, if you were within 10 years of age retirement, they could look at keeping you in the existing scheme. Now, the complexities of the firefighters' pension scheme are such that it is age or length of service. As Peter Black has highlighted, Scotland has done 10 years within the end of both. There are situations—and I accept that armed forces personnel are treated equally, and it's important that they are treated equally—and there are circumstances where either armed forces personnel or ordinary people could be reaching the end of 30 years' service prior to their now technical age of retirement, namely 55 or 60, possibly, or the old one, 55. You could have effectively done that at the age of 53—

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog, ac rwy'n croesawu'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud yn mynd i'r afael â'r mater a chyflwyno safbwynt cadarnhaol i Undeb y Brigadau Tân ar bensiynau diffoddwyr tân. Ond fel Peter Black, rwyf fi hefyd yn cwestiynu'r mater ynglŷn â'r ffaith fod yr adeg y bydd pobl yn ystyried pa gynllun i ymuno ag ef yn bwysig. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn gweithredu o fewn cynllun oedran ac i'r rhan fwyaf o weithwyr sector cyhoeddus eraill—ac roeddwn yn un o'r rhai a oedd yn gryf o blaid cefnogi'r sector cyhoeddus yn erbyn ymosodiadau'r Llywodraeth glymblaid gyfredol ar eu pensiynau—mae pensiynau'n seiliedig ar oedran, ac maent yn rhoi cyfnod o 10 mlynedd mewn perthynas ag oedran. Felly, pe baech o fewn 10 mlynedd i oedran ymddeol, gallent ystyried eich cadw yn y cynllun presennol. Yn awr, mae cymhlethdodau cynllun pensiwn y diffoddwyr tân yn golygu mai oedran neu hyd y gwasanaeth yw'r hyn sy'n cyfrif. Fel y mae Peter Black wedi ei dangos, mae'r Alban wedi dweud 10 mlynedd o ddiwedd y ddau. Ceir sefyllfaoedd—ac rwy'n derbyn bod personél y lluoedd arfog yn cael eu trin yn gyfartal, ac mae'n bwysig eu bod yn cael eu trin yn gyfartal—ac fe geir amgylchiadau lle y gallai naill ai personél y lluoedd arfog neu bobl gyffredin fod yn agos at orffen 30 mlynedd o wasanaeth cyn eu hoedran ymddeol technegol bellach, sef 55, neu 60 oed o bosibl, neu'r hen un, 55. Gallech fod wedi gwneud hynny'n 53 mlwydd oed i bob pwrpas—

14:36 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Are you coming to the question?

A ydych yn dod at y cwestiwn?

14:36 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'll come to the question. This is about clarifying the point and it's about when someone hits the age of retirement. Will you look at the situation—the 30-year service and 10 years within the end of that—so that we could be treated equally with any other public sector worker, who knows that, within 10 years of retirement, they will get equal treatment?

Rwy'n dod at y cwestiwn. Pwrpas hyn yw egluro'r pwynt ac mae'n ymwneud â phan fydd rhywun yn cyrraedd oedran ymddeol. A wnewch chi edrych ar y sefyllfa—y gwasanaeth 30 mlynedd a 10 mlynedd o ddiwedd hwnnw—er mwyn i ni gael ein trin yn gyfartal ag unrhyw weithiwr arall yn y sector cyhoeddus, sy'n gwybod y bydd, o fewn 10 mlynedd i ymddeol, yn cael ei drin yn gyfartal ?

14:37 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think my colleague the Member for Aberavon is right to stress that veterans from the armed forces are not treated differently from other scheme members. What I do need to say, of course, is that the new scheme will offer these rights to all those who are within 10 years of normal pension age on 1 April 2012. That is normal in terms of pension scheme reform. If the Member wants to take this further with me, I am very happy to meet and discuss it with him.

Rwy'n credu bod fy nghydweithiwr, yr Aelod dros Aberafan, yn iawn i bwysleisio nad yw cyn-filwyr o'r lluoedd arfog yn cael eu trin yn wahanol i aelodau eraill yn y cynllun. Yr hyn sydd angen i mi ei ddweud, wrth gwrs, yw y bydd y cynllun newydd yn cynnig yr hawliau hyn i bawb sydd o fewn 10 mlynedd i oedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012. Mae hynny'n arferol o ran diwygio cynlluniau pensiwn. Os yw'r Aelod am drafod hyn ymhellach gyda mi, rwy'n hapus iawn i gyfarfod ag ef i drafod y mater.

14:37 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I'm going to continue on the same theme. First of all, thank you for the correspondence that I've received from you on it. But, don't you think that it's fair for our armed service veterans, who leave the services and continue to serve the public as firefighters, to be penalised by your Government by ignoring the length-of-service protection afforded to their peers? Do you not accept that we are highlighting here the difference between age-based protection and length of service and this is an anomaly? Would you please give this further consideration?

Weinidog, rwy'n mynd i barhau ar yr un thema. Yn gyntaf oll, diolch i chi am yr ohebiaeth rwyf wedi ei chael gennych ar y mater hwn. Ond a ydych yn credu ei bod yn deg fod ein cyn-filwyr yn y lluoedd arfog, sy'n gadael gwasanaeth ac yn parhau i wasanaethu'r cyhoedd fel diffoddwyr tân, yn cael eu cosbi gan eich Llywodraeth drwy anwybyddu'r diogelwch hyd gwasanaeth sy'n cael ei roi i'w cymheiriaid? Onid ydych yn derbyn ein bod yn tynnu sylw yma at y gwahaniaeth rhwng diogelwch ar sail oedran a diogelwch hyd gwasanaeth a'i fod yn anghyson? A wnewch chi roi ystyriaeth bellach i hyn os gwelwch yn dda?

14:38 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There are complexities in all pension schemes in relation to whether or not judgments are made on the basis of years of service or on an age basis. As I've said, certainly veterans who are going into the fire service scheme from the armed forces are not being penalised—they are being treated exactly the same as other scheme members. As I just said in answer to my colleague the Member for Aberavon, the new scheme will offer rights to all those within 10 years of normal pension age on 1 April 2012. What I have to say to the Conservative Member for South Wales West is that the scheme that we are adopting is a better scheme than the scheme that has been adopted by his party in England, and it has been recognised as such by the Fire Brigades Union, who have said that it would be widely welcomed by firefighters in Wales.

Mae cymhlethdodau ym mhob cynllun pensiwn o ran a ddyfernir ar sail blynyddoedd o wasanaeth neu ar sail oedran. Fel rwyf wedi ei ddweud, rwy'n sicr nad yw cyn-filwyr sy'n mynd i mewn i'r cynllun gwasanaeth tân o'r lluoedd arfog yn cael eu cosbi—maent yn cael eu trin yn union yr un fath ag aelodau eraill yn y cynllun. Fel rwyf newydd ei ddweud wrth ateb fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Aberafan, bydd y cynllun newydd yn cynnig hawliau i bawb a oedd o fewn 10 mlynedd i oedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012. Yr hyn sydd gennyf i'w ddweud wrth yr Aelod Ceidwadol dros Orllewin De Cymru yw bod y cynllun rydym yn ei fabwysiadu yn gynllun gwell na'r cynllun sydd wedi cael ei fabwysiadu gan ei blaid yn Lloegr, ac mae wedi cael ei gydnabod felly gan Undeb y Brigadau Tân, sydd wedi dweud y byddai'n cael ei groesawu'n eang gan ddiffoddwyr tân Cymru.

14:39 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Un peth sydd am danseilio gallu ymladdwyr tân i adeiladu cynllun pensiwn llawn ydy cytundeb ansicr. Ac er i'r Gweinidog ddweud mewn llythyr wrthyf fi yn ddiweddar mai dim ond i gyn ymladdwyr tân wrth gefn neu rai 'retained' y mae cytundebau 21 awr newydd yn cael eu cynnig yn y gogledd, a'u bod nhw'n gytundebau poblogaidd iawn, y dystiolaeth, meddai'r staff, ydy bod llawer o'r rhai sydd ar y cytundebau yna eisiau bod yn llawnamser; maen nhw yn gweithio'n llawnamser yn amlach na pheidio, ond heb y sicrwydd. Rŵan, mae gwasanaeth tân y gogledd, chwarae teg, wedi ymateb i bryderon rwyf wedi'u codi efo nhw drwy ddweud y bydden nhw am gael gwared ar y cytundebau yma dros amser. A ydy'r Gweinidog yn cytuno felly na ddylai cytundebau 21 awr, sy'n siŵr o greu problemau efo pensiynau, gael eu defnyddio yn lle cytundebau llawn? Os ydy'r Gweinidog yn cytuno, a fydd o'n gwneud hynny'n glir i wasanaeth tân y gogledd?

One thing that will undermine the ability of firefighters to build a full pension scheme is uncertainty on contracts. Although the Minister told me recently in a letter that it's only for former retained firefighters that the new 21-hour contracts are to be offered in north Wales, and that they are very popular, the evidence according to staff is that many of those on those contracts want to work full time; they do work full time more often than not, but they don't have that certainty in terms of contract. Now, the fire service in north Wales, to be fair, has responded to concerns that I have raised with them saying that they want to abolish these contracts over time. Does the Minister agree therefore that 21-hour contracts, which are sure to create problems with pensions, should not be used in place of full-time contracts? If the Minister does agree, will he make that clear to the north Wales fire service?

14:40 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I'm glad that the Member has been taking these issues up with the north Wales fire service. That is the right place for him to have those conversations, and I'm glad that he is getting a response that he believes will be productive in the longer term.

Wel, rwy'n falch fod yr Aelod wedi bod yn trafod y materion hyn gyda gwasanaeth tân gogledd Cymru. Dyna'r lle cywir iddo gael y trafodaethau hynny, ac rwy'n falch ei fod yn cael ymateb a fydd yn gynhyrchiol yn y tymor hir yn ei farn ef.

### Cronfeydd Wrth Gefn Awdurdodau Lleol

### Local Authority Reserves

14:40 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gydag arweinwyr llywodraeth leol ynghylch defnyddio cronfeydd wrth gefn awdurdodau lleol? OAQ(4)0537(PS)*

*4. What discussions has the Minister had with local government leaders regarding the use of local authority reserves? OAQ(4)0537(PS)*

14:40 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwyf wedi trafod y defnydd o gronfeydd wrth gefn gyda llywodraeth leol sawl gwaith yn bersonol ac mewn gohebiaeth.

I have frequently raised the use of reserves with local government in person and in correspondence.

14:40 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wel, rwy'n falch iawn bod y Gweinidog yn gynharach, wrth ateb cwestiwn blaenorol gennyf, wedi dweud y dylid edrych ar y cronfeydd wrth gefn. Fe ddywedodd y Prif Weinidog yr un peth ddoe, mewn ymateb i gwestiwn gennyf. Ond, y gwir yw, Weinidog, fod rhai o'ch cyd-aelodau chi o'r Blaid Lafur, fel cynghorwyr sir Gaerfyrddin, yn dewis anwybyddu cronfeydd wrth gefn sylweddol iawn, ac yn dewis rhoi toriadau i wasanaethau sylfaenol. A ydyn nhw yn gwrthod gwrando arnoch chi, neu beth arall a allwch chi ei wneud i ddylanwadu ar y bobol yma i sicrhau eu bod nhw yn edrych yn strategol ar ddefnydd o'r cronfeydd yma wrth gefn?

Well, I am very pleased that the Minister earlier, in response to a previous question of mine, said that the reserve funds should be looked at. The First Minister said the same thing yesterday, in response to a question from me. But, the truth of the matter is, Minister, that some of your fellow members in the Labour Party, such as the Carmarthenshire councillors, choose to ignore very significant reserve funds, and choose to cut basic services. Are they refusing to listen to you, or what else can you do to influence these people to ensure that they are looking strategically at the use of these reserve funds?

14:41 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, all councils across Wales, whether they're led by Labour, the Conservatives, independents or Plaid Cymru, are having to make very difficult choices with regard to service provision. I think that's obvious to anybody who reads the media. However, I will reiterate that I do expect local authorities to make good use of the reserves that are available to them.

Wel, mae pob cyngor ledled Cymru, pa un a ydynt yn cael eu harwain gan y Blaid Lafur, y Ceidwadwyr, y Blaid Annibynnol neu Blaid Cymru, yn gorfod gwneud dewisiadau anodd iawn o ran darparu gwasanaethau. Rwy'n credu bod hynny'n amlwg i unrhyw un sy'n dilyn y cyfryngau. Fodd bynnag, rwyf am ailadrodd fy mod yn disgwyl i awdurdodau lleol wneud defnydd da o'r arian wrth gefn sydd ar gael iddynt.

14:41 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you may have heard my question to the First Minister yesterday about how local authorities should meet unanticipated costs that arise through questionable decisions, whether that's reserves, via council tax, cuts in services or other means, and whether there's any Government guidance on this. I did get a response from the First Minister, but not an answer, and I'm wondering if you might be able to answer that question for me today.

Weinidog, efallai eich bod wedi clywed fy nghwestiwn i'r Prif Weinidog ddoe ynglŷn â sut y dylai awdurdodau lleol dalu costau annisgwyl sy'n codi o benderfyniadau amheus, boed hynny'n gronfeydd wrth gefn, drwy'r dreth gyngor, toriadau mewn gwasanaethau neu ddulliau eraill, ac a oes unrhyw ganllawiau gan y Llywodraeth ar hyn. Cefais ymateb gan y Prif Weinidog, ond ni chefais ateb, a thybed a allwch chi ateb y cwestiwn hwnnw i mi heddiw.

14:42 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I thought the Member got an excellent answer from the First Minister yesterday about the investments that were being made by Bridgend County Borough Council in education and a whole series of other areas. There is clear guidance that is available to local authorities, and I'm sure that the Member is actually aware of it.

Wel, roeddwn yn meddwl fod yr Aelod wedi cael ateb ardderchog gan y Prif Weinidog ddoe am y buddsoddiadau a oedd yn cael eu gwneud gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ym maes addysg a llu mawr o feysydd eraill. Mae canllawiau clir ar gael i awdurdodau lleol ac rwy'n siŵr fod yr Aelod yn ymwybodol ohonynt mewn gwirionedd.

### Swyddogaethau Cefn Swyddfa

### Back-office functions

14:42 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. Pa gynnydd a wnaed o ran bwrw ymlaen ag argymhelliad y Comisiwn Williams ynglŷn â chreu un gweithrediad cydwasanaethau i ddarparu swyddogaethau cefn swyddfa ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(4)0547(PS)*

*5. What progress has been made in taking forward the recommendation of the Williams Commission regarding the creation of a single shared service operation for back-office functions across the public sector in Wales? OAQ(4)0547(PS)*

14:42 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We're currently scoping the options for a shared services operation for public services in Wales.

Ar hyn o bryd rydym yn cwmpasu'r opsiynau ar gyfer gweithrediad cydwasanaethau i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

14:42 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Minister. The journey, of course, towards the creation of the NHS Wales shared services partnership began with a study commissioned from the University of Bath by the Welsh Government in 2009. Within two years of this study commencing, the partnership had launched and has, since then, saved considerable amounts of money for our health service. I appreciate the challenges attendant in repeating that task for local government. It may be that the business case does not stack up in that area of our public services, but given the success of the NHS partnership and the potential savings that could be made, do you agree that this research that you are mentioning and the scope of it that you have just mentioned need to look at bringing together at least some of the back office functions of our councils?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Cychwynnodd y daith, wrth gwrs, tuag at greu partneriaeth cydwasanaethau GIG Cymru gydag astudiaeth a gomisiynodd Llywodraeth Cymru gan Brifysgol Caerfaddon yn 2009. Ddwy flynedd ar ôl cychwyn yr astudiaeth, roedd y bartneriaeth wedi ei lansio ac ers hynny, mae hi wedi arbed arian sylweddol i'n gwasanaeth iechyd. Rwy'n sylweddoli'r heriau y mae llywodraeth leol yn eu hwynebu o ailadrodd y dasg honno. Efallai na fydd yr achos busnes yn dal dŵr yn y maes hwn o'n gwasanaethau cyhoeddus ond o ystyried llwyddiant partneriaeth y GIG a'r arbedion posibl y gellid eu gwneud, a ydych yn cytuno bod angen i'r gwaith ymchwil rydych yn sôn amdano a'r gwaith o'i graffu rydych newydd ei grybwyll edrych ar ddwyn ynghyd rhai o swyddogaethau cefn swyddfa ein cynghorau, fan lleiaf?

14:43 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think my colleague the Member for Neath makes a very important point. I think there are significant opportunities within local government for shared services and, certainly, in scoping the options for a shared services operation, we've looked at the NHS Wales shared service partnership experience and had discussions with them about how that operation was set up. We certainly want to learn from that experience and consider whether we could take a similar approach.

Rwy'n credu bod fy nghydweithiwr, yr Aelod dros Gastell-nedd, yn gwneud pwynt pwysig iawn. Rwy'n credu bod yna gyfleoedd sylweddol o fewn llywodraeth leol ar gyfer cydwasanaethau ac yn sicr, o ran cwmpasu'r opsiynau i weithredu cydwasanaethau, rydym wedi edrych ar brofiad partneriaeth cydwasanaethau GIG Cymru ac wedi cael trafodaethau gyda hwy ynghylch y modd y cafodd y gweithrediad ei sefydlu. Rydym yn sicr eisiau dysgu o'r profiad ac ystyried a allem ddefnyddio dull tebyg.

14:44 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Clearly, the Minister identified there is enormous scope for co-operation right across the public sector in Wales. I'd ask him: would he take into account the lessons learned from the failure of the south-east Wales regional partnership for shared services, which was an excellent scheme for human resources, payroll and training?

Yn amlwg, nododd y Gweinidog fod potensial enfawr i gydweithio ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Hoffwn ofyn iddo: a fyddai'n ystyried y gwersi a gafodd eu dysgu o fethiant partneriaeth ranbarthol de-ddwyrain Cymru ar gyfer cydwasanaethau a oedd yn gynllun ardderchog ar gyfer adnoddau dynol, y gyflogres a hyfforddiant?

14:44 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, indeed. I'm aware of the scheme that the Member mentions, and I think, in learning from past experience, we have to look at what has worked and what has not worked.

Byddwn, yn sicr. Rwy'n ymwybodol o'r cynllun y mae'r Aelod yn sôn amdano, ac rwy'n credu, o ddysgu o brofiad y gorffennol, mae'n rhaid i ni edrych ar yr hyn sydd wedi gweithio a'r hyn nad yw wedi gweithio.

### Effaith Ad-drefnu ar Bowys

### The Impact of Reorganisation on Powys

14:44 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith ad-drefnu llywodraeth leol ar Bowys? OAQ(4)0538(PS)*

*6. Will the Minister make a statement on the impact of local government reorganisation on Powys? OAQ(4)0538(PS)*

14:44 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Both Powys County Council and Powys Teaching Local Health Board continue to work on options for further integration between both organisations.

Mae Cyngor Sir Powys a Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys yn parhau i weithio ar opsiynau ar gyfer integreiddio pellach rhwng y ddau sefydliad.

14:44 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much for that answer, Minister. As you sharpen up your cartography skills in anticipation of your map before the summer, will you give a guarantee that the communities of Ystradgynlais and the neighbouring communities in the upper Swansea valley and in the Nedd valley will not be annexed into a greater Swansea Neath Port Talbot authority?

Diolch yn fawr am eich ateb, Weinidog. Wrth i chi hogi eich sgiliau cartograffeg ar gyfer llunio eich map cyn yr haf, a wnewch chi warantu na fydd cymunedau Ystradgynlais a'r cymunedau cyfagos yng Nghwm Tawe uchaf ac yng nghwm Nedd yn cael eu cyfuno'n awdurdod Abertawe Castell-nedd Port Talbot mwy o faint?

14:45 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I think it would be unwise for me to comment on any amateur cartography that Members here may wish to bring to our discussions. I think that the Member is well aware that our preferred option remains Williams's option 1, but, as the First Minister has said, if we find parties who are willing to explore other options with us in the interest of getting consensus, we would certainly look at those.

Wel, credaf y byddai'n annoeth i mi wneud sylwadau ar unrhyw gartograffeg amatur y byddai'r Aelodau yma'n dymuno eu cynnwys yn ein trafodaethau, o bosibl. Credaf fod yr Aelod yn ymwybodol iawn ein bod yn parhau i ffafrio opsiwn 1 Williams, ond fel y mae'r Prif Weinidog wedi ei ddweud, os gwelwn fod pleidiau'n barod i archwilio opsiynau eraill gyda ni er mwyn cael consensws, byddem yn sicr yn edrych arnynt.

14:45 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, one of the obstacles that has previously prevented further integration of Powys County Council and the health board is the different governance arrangements between both organisations. Powys County Council is a directly elected body, of course, and the health board is appointed. Now, Minister, you have just confirmed your happiness with the proposal. Can I ask what you have done with regard to what new legislation will be required to facilitate a change in governance arrangements to allow the further integration process? Clearly, this is an issue for you rather than the health board or Powys County Council.

Weinidog, un o'r rhwystrau sydd wedi atal integreiddio pellach rhwng Cyngor Sir Powys a'r bwrdd iechyd yn flaenorol yw'r trefniadau llywodraethu gwahanol rhwng y ddau sefydliad. Mae Cyngor Sir Powys yn gorff sy'n cael ei ethol yn uniongyrchol, wrth gwrs, ac mae'r bwrdd iechyd yn cael ei benodi. Nawr, Weinidog, rydych newydd gadarnhau eich bod yn hapus gyda'r cynnig. A gaf fi ofyn beth rydych wedi ei wneud o ran y ddeddfwriaeth newydd fydd ei hangen i hwyluso newid y trefniadau llywodraethu er mwyn caniatáu i'r broses integreiddio fynd rhagddi? Yn amlwg, problem i chi yw hon yn hytrach na'r bwrdd iechyd neu Gyngor Sir Powys.

14:46 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I'm not proposing to abolish the Member's role as a councillor at this stage, although, of course, we are consulting on that in respect of the White Paper at the present time. However, I think the Member needs to distinguish between integration and merger. I think the governance issues clearly would arise in the context of a merger of the health board and the local authority. What the question was about, and what I said in answer, was in respect of better integration.

Wel, nid wyf yn bwriadu diddymu rôl yr Aelod fel cynghorydd ar y cam hwn, er ein bod yn ymgynghori ar hynny mewn perthynas â'r Papur Gwyn ar hyn o bryd, wrth gwrs. Fodd bynnag, rwy'n credu bod angen i'r Aelod wahaniaethu rhwng integreiddio ac uno. Rwy'n credu y byddai'r materion llywodraethu yn amlwg yn codi yng nghyd-destun uno'r bwrdd iechyd a'r awdurdod lleol. Roedd y cwestiwn yn ymwneud ag integreiddio gwell, a dyna a ddywedais yn fy ateb.

14:46 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yn sicr, mae gan Blaid Cymru ddiddordeb i weld yr hyn fyddai'n gallu digwydd rhwng y gwasanaeth iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol yng Nghyngor Sir Powys, achos rŷm ni wedi annog cydweithio mwy agos ar y lefel honno. Ond, o droi at lywodraeth leol yn fwy eang ym Mhowys, ar gyfer sawl rhan o'r gweithredoedd ym Mhowys, megis addysg, datblygu economaidd a'r gwasanaethau cymdeithasol, mae Powys yn cydweithio, a dweud y gwir, â Cheredigion, ond ni fyddai model 1 yn Williams yn caniatáu i hynny barhau. Beth yw'r cyngor y byddech chi'n ei roi, felly, i Gyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys ynglŷn â'r cydweithrediad presennol rhyngddyn nhw?

Certainly, Plaid Cymru is interested in seeing what could happen between the health service and social services within Powys County Council, because we have encouraged closer collaboration at that level. But, in turning to local government more broadly in Powys, for much of the activities of Powys, namely education, economic development and social services, Powys now collaborates, if truth be told, with Ceredigion, but Williams option 1 would not allow that to continue. What advice would you therefore give to Ceredigion County Council and Powys County Council on the current collaboration that they are undertaking?

14:47 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I don't see that there is any problem with them continuing the current collaboration.

Nid wyf yn gweld bod unrhyw broblem ynghylch parhau â'r cydweithio presennol rhyngddynt.

## Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghaerdydd

## Public Services in Cardiff

14:47

### Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghaerdydd? OAQ(4)0546(PS)*

*7. Will the Minister make a statement on the delivery of public services in Cardiff? OAQ(4)0546(PS)*

14:47

### Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Delivery of public services in Cardiff is the responsibility of the local authority, the local health board and other statutory bodies, including non-devolved bodies.

Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol, y bwrdd iechyd lleol a chyrff statudol eraill, gan gynnwys cyrff heb eu datganoli, yw darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghaerdydd.

14:47

### Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. Cardiff council have just announced proposals to replace existing household bins with smaller ones at an estimated cost of £1.5 million, in a bid to tackle its falling recycling rates. Residents who've contacted me are understandably angry that, at a time when their council tax is going up by 15 times the rate of inflation, when cuts have been made to street sweeping and other parts of that department, and when the council couldn't even provide residents with food recycling bags for the first six weeks of this year, that is an astonishing choice of priorities. Do you share my constituents' frustration that Cardiff council is spending this kind of money on bins when they might actually improve their recycling rates by simply not forgetting to order the recycling bags?

Diolch i chi, Weinidog. Mae cyngor Caerdydd newydd gyhoeddi argymhellion i gyfnewid biniau cyfredol ar gyfer y cartref am rai llai o faint ar gost o £1.5 miliwn mewn ymgais i fynd i'r afael â'r gostyngiad yn ei gyfraddau ailgylchu. Mae'r trigolion sydd wedi cysylltu â mi yn ddig, sy'n ddealladwy: mae'n flaenoriaeth ryfeddol i'w dewis ar adeg pan fo'r trigolion yn wynebu treth gyngor sy'n codi 15 gwaith y gyfradd chwyddiant, pan wnaed toriadau i drefniadau glanhau strydoedd a rhannau eraill o'r adran honno, a phan nad oedd y cyngor yn gallu darparu bagiau ailgylchu bwyd hyd yn oed dros chwe wythnos gyntaf y flwyddyn hon. A ydych yn rhannu rhwystredigaeth fy etholwyr fod cyngor Caerdydd yn gwario'r math hwn o arian ar finiau pan allent fod yn gwella eu cyfraddau ailgylchu yn syml iawn drwy beidio ag anghofio archebu'r bagiau ailgylchu?

14:48

### Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, recycling of course is a matter for my colleague, the Minister for Natural Resources. I do think, of course, that—. Also, let me say that my colleague, the Minister for Natural Resources, is doing extraordinary well in this area since Wales is fourth in Europe and leading the UK in terms of recycling. I'm sure that the provisions within Cardiff council are contributing to that performance as well.

Wel, yn amlwg mae ailgylchu yn fater i fy nghyd-Aelod, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol. Rwy'n credu, wrth gwrs, fod—. Hefyd, gadewch i mi ddweud bod fy nghyd-Aelod, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, yn gwneud yn arbennig o dda yn y maes hwn o ystyried bod Cymru yn y pedwerydd safle drwy Ewrop ac yn arwain y DU o ran ailgylchu. Rwy'n siŵr fod darpariaethau cyngor Caerdydd yn cyfrannu at y perfformiad hwnnw hefyd.

14:49

### Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Moving away from the Lib Dems' obsession with bin work, I just want to emphasise, Minister, that the Wales Audit Office's recent report on managing the impact of welfare reform changes on social housing tenants in Wales commended the work of Cardiff council in having a strategic focus on the approach to welfare reform, and also their collaborative working with partner agencies such as the credit union, Shelter Cymru and Want to Work, to provide people with the right advice, particularly in relation to the impact of the bedroom tax and other reductions in welfare benefits. Minister, do you share my enthusiasm for the fact that Cardiff has gripped this agenda, which is often little recognised by some of the opposition Members?

Gan symud oddi wrth obsesiwn y Democratiaid Rhyddfrydol â gwaith biniau, rwyf am bwysleisio, Weinidog, fod adroddiad diweddar Swyddfa Archwilio Cymru ar reoli effaith newidiadau diwygio lles ar denantiaid tai cymdeithasol yng Nghymru yn canmol gwaith cyngor Caerdydd am ei ffocws strategol ar ddiwygio lles, a hefyd am ei waith ar y cyd ag asiantaethau partner megis yr undeb credyd, Shelter Cymru ac Yn Awyddus i Weithio, i ddarparu'r cyngor cywir i bobl, yn enwedig mewn perthynas ag effaith y dreth ystafell wely a gostyngiadau eraill mewn budd-daliadau lles. Weinidog, a ydych yn rhannu fy mrwdfrydedd fod Caerdydd wedi mynd i'r afael â'r agenda hon, agenda nad yw'n cael ei chydnabod yn aml gan rai o Aelodau'r gwrthbleidiau?

14:50 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

My colleague the Member for Cardiff Central is right. Cardiff is one of the councils to receive recognition in the report for their good practice and comes in for particular praise around effective and clear leadership on welfare reform issues. It's also been held as the best example of clear accountability, demonstrating that key people are fully engaged and committed to driving forward the council's agenda on welfare reform, and, of course, it's been highly proactive in dealing with the impacts of welfare reform. One example is the way in which they've dealt with the increased demands on discretionary housing payments as a consequence of the bedroom tax, as my colleague the Member for Cardiff Central has said. So, I think they are to be congratulated on these developments.

Mae fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Ganol Caerdydd, yn iawn. Mae Caerdydd yn un o'r cynghorau sydd wedi cael cydnabyddiaeth yn yr adroddiad am eu harfer da a chânt ganmoliaeth arbennig am eu harweinyddiaeth effeithiol a chlir ar faterion diwygio lles. Cafodd y cyngor ei enwi hefyd fel yr enghraifft orau o atebolrwydd clir, gan ddangos bod pobl allweddol yn ymgysylltu'n llwyr ac yn gwbl ymrwymedig i yrru agenda'r cyngor ar ddiwygio lles yn ei blaen, ac wrth gwrs, mae wedi bod yn rhagweithiol iawn wrth ymdrin ag effeithiau diwygio lles. Un enghraifft yw'r ffordd y mae wedi delio â'r galwadau cynyddol am daliadau tai yn ôl disgresiwn o ganlyniad i'r dreth ystafell wely, fel y mae fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Ganol Caerdydd, wedi ei ddweud. Felly, rwy'n credu eu bod yn haeddu cael eu llongyfarch ar y datblygiadau hyn.

14:50 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you talk of clear leadership in Cardiff city council; I think that's one thing that can't really be talked about in the current climate of the last two to three weeks in that council. But, it is important that there is good leadership, because the delivery of public services is dependent on that leadership. Would you, like me, endorse that other politicians sitting in other institutions should avoid leaking e-mails to the press that undermine leaders and local authorities and cause such bedlam and confusion that demoralises the staff and the people who rely on those public services? Would you expect your colleagues to stop this leaking exercise against Phil Bale?

Weinidog, rydych yn sôn am arweinyddiaeth glir yng nghyngor dinas Caerdydd; rwy'n credu bod hynny'n un peth na ellir ei drafod mewn gwirionedd yn yr hinsawdd bresennol dros y ddwy neu dair wythnos ddiwethaf yn y cyfryw gyngor. Ond mae'n bwysig cael arweinyddiaeth dda gan fod darparu gwasanaethau cyhoeddus yn dibynnu ar arweinyddiaeth o'r fath. A wnewch chi, fel finnau, gadarnhau y dylai gwleidyddion mewn sefydliadau eraill osgoi rhyddhau negeseuon e-bost i'r wasg sy'n tanseilio arweinwyr ac awdurdodau lleol ac sy'n achosi cymaint o ddiflastod a dryswch, gan ddigalonni staff a'r bobl sy'n dibynnu ar y gwasanaethau cyhoeddus hynny? A fyddech chi'n disgwyl i'ch cyd-Aelodau atal y datgeliadau hyn yn erbyn Phil Bale?

14:51 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I certainly think that politicians of all parties need to be very careful about the things that they say or leak in public. I was very amused by the Twitter exchange that went on amongst your own Members in recent weeks. I think, perhaps, you might want to practice what you preach.

Rwy'n sicr yn credu bod angen i wleidyddion o bob plaid fod yn ofalus iawn ynghylch y pethau y maent yn ei ddweud neu'n eu trafod yn gyhoeddus. Cefais fy nifyrru'n ofnadwy gan y drafodaeth ar Twitter rhwng eich Aelodau eich hun dros yr wythnosau diwethaf. Credaf efallai y dylech ddilyn eich pregeth eich hun.

14:51 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We've seen the Labour-run council in Cardiff thrown into chaos as they implement deeply unpopular cuts, and a major factor in all of that, of course, is the reduced budgets to local authorities as a result of the reduced block grant here from Westminster. Do you therefore regret the actions of your Labour Party colleagues in Westminster, including the actions of the Rhondda MP, in supporting more cuts over the course of the next Parliament? I wonder whether you could tell us what impact you think more austerity will have on the delivery of public services in Cardiff and across local authorities more widely.

Rydym wedi gweld y cyngor Llafur yng Nghaerdydd mewn anhrefn wrth iddynt weithredu toriadau hynod o amhoblogaidd, a ffactor pwysig yn hyn i gyd, wrth gwrs, yw'r cyllidebau llai i awdurdodau lleol o ganlyniad i'r lleihad yn y grant bloc o San Steffan. Felly, a ydych yn edifar ynghylch gweithredoedd eich cydweithwyr Llafur yn San Steffan, gan gynnwys cefnogaeth Aelod Seneddol y Rhondda i fwy o doriadau yn ystod y Senedd nesaf? Tybed a allech ddweud wrthym pa effaith, yn eich barn chi, fydd mwy o galedi yn ei gael ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghaerdydd ac ar draws yr awdurdodau lleol yn ehangach.

14:52 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

As I said in answer to the Plaid Cymru local government spokesperson, the reality is that local authorities across Wales, whether they are run by Labour, Conservative, independent or Plaid Cymru administrations, are making very difficult choices around local service provision. She is aware that our budget has been cut by £1.5 billion by the Tory-Liberal Democrat coalition in Westminster. She is also aware that the financial plans of a Labour Government would be vastly different to the plans currently on offer from the UK coalition. [Interruption.]

Fel y dywedais yn fy ateb i lefarydd llywodraeth leol Plaid Cymru, y realiti yw bod awdurdodau lleol ledled Cymru, pa un a ydynt yn cael eu harwain gan y Blaid Lafur, y Blaid Geidwadol, y Blaid Annibynnol neu Blaid Cymru, yn gwneud penderfyniadau anodd iawn ynghylch darparu gwasanaethau lleol. Mae'n ymwybodol fod £1.5 biliwn wedi cael ei dorri oddi ar ein cyllideb gan glymblaid y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan. Mae hi hefyd yn ymwybodol y byddai cynlluniau ariannol Llywodraeth Lafur yn wahanol iawn i'r cynlluniau sy'n cael eu cynnig ar hyn o bryd gan glymblaid y DU. [Torri ar draws.]

Senedd.tv
Fideo Video

14:53 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Have you finished? Thank you. [Interruption.] You've had an answer. You may not like it, but you've had an answer.

A ydych chi wedi gorffen? Diolch yn fawr. [Torri ar draws.] Rydych wedi cael ateb. Efallai nad ydych yn ei hoffi, ond rydych wedi cael ateb.

Senedd.tv
Fideo Video

## Fformiwla Ariannu Awdurdodau Lleol

## The Local Authority Funding Formula

14:53 **Russell George** Bywgraffiad Biography

*8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fformiwla ariannu awdurdodau lleol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus? OAQ(4)0533(PS)*

*8. Will the Minister make a statement on the local authority funding formula for public services? OAQ(4)0533(PS)*

Senedd.tv
Fideo Video

14:53 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

The local authority funding formula in Wales is developed and maintained in consultation with local government. The formula is designed to reflect relative need, using information reflecting the demographic, physical, economic and social characteristics of each local authority.

Mae fformiwla ariannu awdurdodau lleol yng Nghymru yn cael ei datblygu a'i chynnal drwy ymgynghori â llywodraeth leol. Mae'r fformiwla wedi ei chynllunio i adlewyrchu angen cymharol, gan ddefnyddio gwybodaeth sy'n adlewyrchu nodweddion demograffig, ffisegol, economaidd a chymdeithasol pob awdurdod lleol.

Senedd.tv
Fideo Video

14:53 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Well, Minister, rural authorities, in my view, continue to be disproportionately penalised by the local government funding formula, which doesn't sufficiently take into account the issue of rurality. There are proposals to close secondary schools and concerns that some high schools will lose completely Welsh-medium streams in some local authority areas. Can I ask what you intend to do to address the unfairness in the local government funding formula to ensure that schools in my constituency are adequately funded?

Wel, Weinidog, mae awdurdodau gwledig, yn fy marn i, yn parhau i gael eu cosbi'n anghymesur gan fformiwla ariannu llywodraeth leol, am nad yw'n rhoi digon o ystyriaeth i faterion gwledig. Ceir argymhellion i gau ysgolion uwchradd ac mae yna bryderon y bydd rhai ysgolion uwchradd yn colli ffrydiau cyfrwng Cymraeg yn gyfan gwbl yn rhai o ardaloedd yr awdurdodau lleol. A gaf fi ofyn beth rydych yn bwriadu ei wneud i fynd i'r afael â'r annhegwch hwn yn fformiwla ariannu llywodraeth leol er mwyn sicrhau bod ysgolion yn fy etholaeth yn cael eu hariannu'n ddigonol?

Senedd.tv
Fideo Video

14:54 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

I do not believe that the funding formula is unfair and I've yet to find a single local authority leader in Wales who believes that the formula is fair to his or her authority. That suggests to me that, like all formulas, it is not perfect. It is difficult, and every administration will have its own views on that. But, what I'm clear about, of course, is that this formula is drawn up in collaboration with local government, with all the local authorities in Wales who sit on the distribution sub-group, which works through the detail of the formula.

Nid wyf yn credu bod y fformiwla ariannu yn annheg ac nid wyf wedi dod o hyd i'r un arweinydd awdurdod lleol yng Nghymru sy'n credu bod y fformiwla'n deg i'w awdurdod neu i'w hawdurdod eto. Mae hynny'n awgrymu i mi, fel pob fformiwla, nad yw'n berffaith. Mae'n anodd, a bydd gan bob gweinyddiaeth ei safbwyntiau ei hun ar hynny. Ond yr hyn rwy'n glir yn ei gylch, wrth gwrs, yw bod y fformiwla hon wedi cael ei llunio ar y cyd â llywodraeth leol, gyda'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n aelodau o'r is-grŵp dosbarthu, y grŵp sy'n gweithio ar fanylion y fformiwla.

Senedd.tv
Fideo Video

14:54 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Every local authority actually believes that if you change the formula, they'll get more money out of the same block, which, obviously, is not possible. I believe Powys is overfunded compared with Swansea. I would say that, wouldn't I? But, would the Minister publish a table showing the rate support grant per person by local authority, so that we can actually see how much money is going to Powys and how much money is going to the other authorities in Wales?

Mae pob awdurdod lleol yn credu mewn gwirionedd y byddent yn cael mwy o arian o'r un bloc pe baech yn newid y fformiwla, ond yn amlwg nid yw hynny'n bosibl. Rwy'n credu bod Powys yn cael gormod o gyllid o gymharu ag Abertawe. Fe fyddwn i'n dweud hynny, oni fyddwn? Ond a fyddai'r Gweinidog yn cyhoeddi tabl yn dangos y grant cynnal ardrethi y pen yn ôl awdurdod lleol er mwyn inni weld faint o arian sy'n cael ei roi i Bowys a faint o arian sy'n mynd i awdurdodau eraill yng Nghymru?

14:55 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

My colleague the Member for Swansea East may be pleased to know that I already have. A table showing the total of revenue support grant and redistributed non-domestic rates allocated to each authority was published as part of the information with the final local government settlement on 10 December.

Efallai fod fy nghydweithiwr, yr Aelod dros Ddwyrain Abertawe, yn falch o wybod fy mod wedi gwneud hynny'n barod. Cyhoeddwyd tabl sy'n dangos cyfanswm y grant cynnal refeniw ac ardrethi annomestig wedi eu hailddyrannu a ddyrannwyd i bob awdurdod yn rhan o'r wybodaeth gyda'r setliad llywodraeth leol terfynol ar 10 Rhagfyr.

### Cam-drin Domestig

### Domestic Abuse

14:55 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*9. Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i weithio gyda dynion er mwyn lleihau nifer yr achosion o gam-drin domestig yng Nghymru? OAQ(4)0541(PS)*

*9. What plans does the Welsh Government have to work with men in order to reduce the incidence of domestic abuse in Wales? OAQ(4)0541(PS)*

14:55 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Our Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill, approved by this Assembly yesterday, is of course concerned with services to men and women.

Wrth gwrs, mae ein Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru), a gymeradwywyd gan y Cynulliad hwn ddoe, yn ymwneud â gwasanaethau i ddynion a menywod.

14:55 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I thank the Minister for that response. In view of how widespread domestic abuse is—and we did debate this yesterday—I'm sure we would all recognise that there's no way that we're going to end domestic abuse in Wales unless we work with the men who are perpetrators of domestic abuse. So, I know that school is the key to this, but does the Welsh Government plan any specific programmes for men in order to prevent domestic abuse?

Diolch i'r Gweinidog am yr ymateb. O ystyried pa mor eang yw cam-drin domestig—a chawsom y ddadl hon ddoe—rwy'n siŵr y byddem i gyd yn cydnabod nad oes unrhyw ffordd y gallwn roi diwedd ar gam-drin domestig yng Nghymru oni bai ein bod yn gweithio gyda'r dynion sy'n cyflawni cam-drin domestig. Felly, gwn fod yr ysgol yn allweddol i hyn, ond a yw Llywodraeth Cymru yn cynllunio unrhyw raglenni penodol ar gyfer dynion er mwyn atal cam-drin domestig?

14:56 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Llywydd, it may be of interest to Members to know that we are in fact launching a major TV and online campaign next week, which will be raising awareness on the issue of domestic abuse and, the following week, we will launch an awareness-raising campaign specifically targeting perpetrators. The objective of that campaign is to engage with perpetrators to encourage behaviour change. It aims to increase front-line staff awareness and knowledge of domestic violence management courses, to encourage perpetrators to question their behaviour and seek support, to increase their own understanding of the impact of domestic violence, and to empower prisoners and offenders who have anger management issues to seek support.

Lywydd, efallai y bydd o ddiddordeb i'r Aelodau wybod ein bod yn lansio ymgyrch fawr ar y teledu ac ar-lein yr wythnos nesaf mewn gwirionedd i godi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig a'r wythnos ganlynol, byddwn yn lansio ymgyrch codi ymwybyddiaeth i dargedu troseddwyr yn benodol. Amcan yr ymgyrch honno yw ymgysylltu â throseddwyr er mwyn annog newid ymddygiad. Ei nod yw cynyddu ymwybyddiaeth staff y rheng flaen a'u gwybodaeth am gyrsiau rheoli trais domestig, er mwyn annog troseddwyr i gwestiynu eu hymddygiad ac i chwilio am gymorth, cynyddu eu dealltwriaeth eu hunain o effaith trais domestig a grymuso carcharorion a throseddwyr sydd â phroblemau rheoli dicter i chwilio am gymorth.

14:57

## Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography

Minister, there have been a number of proposals recently about how we can use schools to make pupils aware that domestic abuse is unacceptable. We know that, recently, rugby player Adam Jones supported a project to encourage men to speak out against domestic violence, given that boys and young men often look up to their sporting heroes. Will the Minister consider introducing a scheme to encourage Welsh sportsmen to get involved in school visits to speak out against domestic abuse in Wales?

Weinidog, cafwyd llawer o gynigion yn ddiweddar ynglŷn â sut y gallwn ddefnyddio ysgolion i wneud disgyblion yn ymwybodol fod cam-drin domestig yn annerbyniol. Rydym yn gwybod fod Adam Jones, y chwaraewr rygbi, wedi cefnogi prosiect yn ddiweddar i annog dynion i siarad yn erbyn trais domestig o gofio bod bechgyn a dynion ifanc yn aml yn edmygu arwyr chwaraeon. A wnaiff y Gweinidog ystyried cyflwyno cynllun i annog dynion ym maes chwaraeon yng Nghymru i ymweld ag ysgolion i siarad yn erbyn cam-drin domestig yng Nghymru?

Senedd.tv
Fideo Video

14:57

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Well, the Member's quite right to speak of the work of Adam Jones, and I'm sure the Member will also be familiar with campaigns such as the White Ribbon campaign. Certainly, I think what he says about the importance of male role models in this regard could be a significant factor in addressing the education awareness issues, and I would certainly expect us to want to engage with sporting bodies, many of which have already taken up these issues.

Wel, mae'r Aelod yn llygad ei le wrth grybwyll gwaith Adam Jones ac rwy'n siŵr y bydd yr Aelod hefyd yn gyfarwydd ag ymgyrchoedd megis ymgyrch y Rhuban Gwyn. Yn sicr, rwy'n credu y gall yr hyn y mae'n ei ddweud am bwysigrwydd modelau rôl gwrywaidd yn hyn o beth fod yn ffactor sylweddol wrth fynd i'r afael ag ymwybyddiaeth ym maes addysg, a byddwn yn sicr yn disgwyl i ni fod eisiau ymgysylltu â chyrff chwaraeon, gyda llawer ohonynt eisoes yn gysylltiedig â'r materion hyn.

Senedd.tv
Fideo Video

14:58

## Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography

Minister, I believe there is a collaborative campaign between the Welsh Government and the National Probation Service that is, in fact, targeting perpetrators, as you've just said, who maybe seeking help so they can change their patterns of behaviour and break this cycle of abuse. Could you tell us, please, what support there is for other agencies, like Atal y Fro and Respect, which work with males of all ages to prevent domestic violence in the first place by teaching people about positive relationships, and can you guarantee their funding will not be cut?

Weinidog, rwy'n credu bod yna ymgyrch ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol sy'n mynd ati i dargedu troseddwyr mewn gwirionedd, fel rydych chi newydd ei ddweud—troseddwyr sydd efallai'n ceisio cymorth er mwyn gallu newid eu patrymau ymddygiad a thorri'r cylch hwn o gam-drin. A allwch ddweud wrthym, os gwelwch yn dda, pa gefnogaeth sydd ar gael i asiantaethau eraill, fel Atal y Fro a Respect, sy'n gweithio gyda dynion o bob oed i atal trais domestig yn y lle cyntaf drwy addysgu pobl ynghylch sefydlu perthynas gadarnhaol ac a allwch warantu na fydd eu cyllid yn cael ei dorri?

Senedd.tv
Fideo Video

14:58

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Well, we've in fact allocated slightly more funding in the budget for this area of work going forward. I'm glad the Member has highlighted the schemes that he has; these are schemes in which we have an interest and we want to see develop, and I'm certainly keen that we explore the implications of those schemes and see whether there are ways of spreading the learning to other areas of Wales.

Wel, mewn gwirionedd, rydym wedi dyrannu rhywfaint yn rhagor o gyllid i gyllideb y maes gwaith hwn ar gyfer y dyfodol. Rwy'n falch fod yr Aelod wedi tynnu sylw at y cynlluniau sydd ganddo; mae'r rhain yn gynlluniau y mae gennym ddiddordeb ynddynt ac rydym eisiau eu gweld yn datblygu, ac rwy'n sicr yn awyddus ein bod yn archwilio goblygiadau'r cynlluniau hynny a gweld a oes ffyrdd o ledaenu'r dysgu i ardaloedd eraill o Gymru.

Senedd.tv
Fideo Video

14:59

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Question 10 was grouped with question 2, so we move to question 11—Nick Ramsay.

Cafodd cwestiwn 10 ei grwpio gyda chwestiwn 2, felly symudwn at gwestiwn 11—Nick Ramsay.

Senedd.tv
Fideo Video

### Gwasanaethau Cyhoeddus yn Ne-ddwyrain Cymru

### Public Services in South-east Wales

14:59

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

*11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus lleol yn ne-ddwyrain Cymru? OAQ(4)0540(PS)*

*11. Will the Minister make a statement on the delivery of public services in south-east Wales? OAQ(4)0540(PS)*

Senedd.tv
Fideo Video

14:59 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Public services in south-east Wales are delivered by a range of statutory services.

Mae gwasanaethau cyhoeddus yn ne-ddwyrain Cymru yn cael eu darparu gan ystod o wasanaethau statudol.

14:59 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister, for that enlightening answer. You said earlier, in your answer to Kirsty Williams, that the Welsh Government still preferred option 1 of the Williams commission for local government reorganisation. You'll be aware that the Chartered Institute of Public Finance and Accountancy have estimated that local government mergers could cost in the region of £286 million, and there's a very real danger that this money will be siphoned away from the public services that you are seeking to improve and protect. How is local government reorganisation currently compatible with your Government's current cuts for local government budgets?

Diolch i chi, Weinidog, am yr ateb goleuedig hwnnw. Fe ddywedoch yn gynharach, yn eich ateb i Kirsty Williams, fod Llywodraeth Cymru yn dal i ffafrio opsiwn 1 comisiwn Williams ar gyfer ad-drefnu llywodraeth leol. Fe fyddwch yn ymwybodol fod y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth wedi amcangyfrif y gallai uno llywodraeth leol gostio oddeutu £286 miliwn, ac mae yna berygl gwirioneddol y bydd yr arian hwn yn cael ei dynnu o'r arian ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus rydych yn ceisio eu gwella a'u diogelu. Sut y mae ad-drefnu llywodraeth leol yn cydweddu â thoriadau cyfredol eich Llywodraeth yng nghyllidebau llywodraeth leol ar hyn o bryd?

15:00 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Member is a little disingenuous, I think, in his question. Let's be clear, firstly, about the costs of merger. I recall that, when the Williams commission review was reported, the Welsh Local Government Association, for example, was saying that the cost of the mergers would be £400 million. It then commissioned a Chartered Institute of Public Finance and Accountancy report, and costs have come down to £286 million. Now, within those estimates there were further figures, let me say, that we do not accept—for example, the cost of harmonising council tax payments. So, I think there is a legitimate debate around the costs. What the Member has not recognised, of course, is that there is a significant cost to avoiding merger. We are aware, as very many Members have already said in this Chamber this afternoon, that there are costs in the duplication of services, there are significant opportunities for shared services, and clearly all of these issues have to be explored in the round.

Mae'r Aelod ychydig yn ffuantus, rwy'n credu, yn ei gwestiwn. Gadewch i ni fod yn glir, yn gyntaf, ynghylch costau uno. Pan ddaeth yr adroddiad ar adolygiad comisiwn Williams i law, rwy'n cofio Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, er enghraifft, yn dweud y byddai'r uno'n costio £400 miliwn. Yna, comisiynwyd adroddiad gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ac mae'r costau wedi gostwng i £286 miliwn. Nawr, yn yr amcangyfrifon hynny roedd ffigurau pellach, gadewch i mi ddweud, nad ydym yn eu derbyn—er enghraifft, y gost o gysoni taliadau'r dreth gyngor. Felly, rwy'n credu bod yna ddadl ddilys i'w chael ynghylch y costau. Yr hyn nad yw'r Aelod wedi ei gydnabod, wrth gwrs, yw bod yna gost sylweddol i osgoi uno. Rydym yn ymwybodol, fel y mae llawer iawn o'r Aelodau eisoes wedi ei ddweud yn y Siambr y prynhawn yma, fod costau i ddyblygu gwasanaethau, fod cyfleoedd sylweddol i gael cydwasanaethau ac mae'n amlwg fod yn rhaid i'r holl faterion hyn gael eu harchwilio'n llawn.

### Cyfrifoldebau Awdurdodau Lleol yn y Dyfodol

### Local Authorities' Future Responsibilities

15:01 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*12. Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o gyfrifoldebau awdurdodau lleol yn y dyfodol, yn dilyn gweithredu argymhellion y Comisiwn Williams? OAQ(4)0536(PS)*

*12. What assessment has the Minister made of local authorities' future responsibilities, following the implementation of the Williams Commission recommendations? OAQ(4)0536(PS)*

15:01 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Our White Paper, published on 3 February, clarifies the relationship between Welsh Government and local government, and our expectation that activist councils must share power and responsibility with the communities they serve.

Mae ein Papur Gwyn, a gafodd ei gyhoeddi ar 3 Chwefror, yn egluro'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol, a'n disgwyliad fod yn rhaid i gynghorau gweithredol rannu grym a chyfrifoldeb â'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

15:01 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Of course, it's important that local authorities' responsibilities are clear going forward, but it's equally important that power is devolved as close to people as possible. Does the Minister agree with me that we should be devolving as much responsibility as possible to town and community councils? What assessment has he made of town and community councils' capacity to take on more responsibilities?

Wrth gwrs, mae'n bwysig fod cyfrifoldebau awdurdodau lleol yn glir ar gyfer y dyfodol ond mae'r un mor bwysig fod pŵer yn cael ei ddatganoli mor agos at y bobl â phosibl. A yw'r Gweinidog yn cytuno â mi y dylem ddatganoli cymaint o gyfrifoldeb â phosibl i gynghorau tref a chymuned? Pa asesiad a wnaeth o allu cynghorau tref a chymuned i ysgwyddo mwy o gyfrifoldebau?

15:01 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, I certainly agree with the Member that we need to explore the role of town and community councils, and our White Paper has a number of sections devoted to exploring the potential role that they have in the future, and the role that they currently have at present. He will, I know, be aware that there is significant inconsistency in the size and performance of town and community councils, and there are also issues in a number with an absence of electoral challenge, shall I say, as well. What we've said in the White Paper is that we believe it should be the responsibility of principal councils to review the town and community councils within their area, and that those reviews should be carried out by 2020. So, we certainly believe there is a role for town and community councils. I know some are already taking on additional responsibilities, but I do think there is a big issue in the future around consistency of provision.

Wel, rwy'n sicr yn cytuno â'r Aelod fod angen i ni edrych ar rôl cynghorau tref a chymuned, ac mae nifer o adrannau yn ein Papur Gwyn wedi'u neilltuo ar gyfer archwilio'r rôl bosibl sydd ganddynt yn y dyfodol, a'r rôl sydd ganddynt ar hyn o bryd. Rwy'n gwybod y bydd yr Aelod yn ymwybodol fod yna anghysondeb sylweddol ym maint a pherfformiad cynghorau tref a chymuned, ac mae llawer ohonynt yn broblemus hefyd o ran absenoldeb her etholiadol, os caf fi ddweud. Yr hyn rydym wedi ei ddweud yn y Papur Gwyn yw ein bod yn credu y dylai fod yn gyfrifoldeb i'r prif gynghorau adolygu'r cynghorau tref a chymuned yn eu hardal, ac y dylai'r adolygiadau hynny gael eu cyflawni erbyn 2020. Felly, rydym yn sicr yn credu bod rôl i gynghorau tref a chymuned. Rwy'n gwybod bod rhai eisoes yn ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol, ond rwy'n credu y bydd problem fawr yn y dyfodol ynghylch cysondeb y ddarpariaeth.

### Gwasanaethau Cyhoeddus yn Nhorfaen

### Public Services in Torfaen

15:02 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*13. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yn Nhorfaen? OAQ(4)0544(PS)*

*13. Will the Minister make a statement on the delivery of public services in Torfaen? OAQ(4)0544(PS)*

15:02 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Public services in Torfaen are delivered by Torfaen County Borough Council, the Aneurin Bevan Local Health Board and a number of devolved and non-devolved service providers.

Mae gwasanaethau cyhoeddus yn Nhorfaen yn cael eu darparu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan a nifer o ddarparwyr gwasanaethau datganoledig a heb eu datganoli.

15:03 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Minister. Although there was obviously disappointment locally that you chose not to pursue the voluntary merger plan proposed by councils in Torfaen and Blaenau Gwent, I have been very encouraged by your commitment to work with local authorities that are willing to embrace change as you move forward with your reform agenda. Minister, will you restate that important commitment in the Chamber this afternoon, and can you set out your vision as to how that important process will work in the weeks and months ahead?

Diolch i chi, Weinidog. Er y siom amlwg yn lleol eich bod wedi dewis peidio â mynd ar drywydd y cynllun uno gwirfoddol a gynigiwyd gan y cynghorau yn Nhorfaen a Blaenau Gwent, mae eich ymrwymiad i weithio gydag awdurdodau lleol sy'n barod i groesawu newid wrth i chi ddatblygu eich agenda diwygio wedi bod yn galonogol iawn i mi. Weinidog, a wnewch chi ailddatgan yr ymrwymiad pwysig hwnnw yn y Siambr y prynhawn yma, ac a allwch nodi eich gweledigaeth ynglŷn â sut y bydd y broses bwysig honno'n gweithio dros yr wythnosau a'r misoedd sydd i ddod?

15:03 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course, our White Paper on local government, which we launched on 3 February, sets out our vision for the future of local government, and we want to engage with the public and with local government on the deliberations over that White Paper. The closing date for consultation is 28 April, and I look forward to receiving responses from all of local government. As she will be aware, when we had the White Paper in July, only 11 out of the 22 local authorities actually replied, but what we've done with that White Paper is, I think, to provoke a national debate across Wales about the future of local government. I'm very happy to take part in that debate, and I look forward to engaging with councillors in her area and around Wales in that debate.

Wrth gwrs, mae ein Papur Gwyn ar lywodraeth leol, a lansiwyd ar 3 Chwefror, yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer dyfodol llywodraeth leol, ac rydym yn awyddus i ymgysylltu â'r cyhoedd a llywodraeth leol i drafod y Papur Gwyn hwnnw. Y dyddiad cau ar gyfer ymgynghori yw 28 Ebrill ac edrychaf ymlaen at gael ymatebion o bob rhan o lywodraeth leol. Fel y bydd hi'n gwybod, pan gawsom y Papur Gwyn ym mis Gorffennaf, 11 yn unig o'r 22 awdurdod lleol a atebodd mewn gwirionedd, ond yr hyn rydym wedi ei wneud gyda'r Papur Gwyn, rwy'n credu, yw ysgogi trafodaeth genedlaethol ar draws Cymru ar ddyfodol llywodraeth leol. Rwy'n hapus iawn i gymryd rhan yn y ddadl honno ac edrychaf ymlaen at ymgysylltu â chynghorwyr yn ei hardal a ledled Cymru yn y drafodaeth honno.

## Cryfhau Democratiaeth Leol

## Strengthening Local Democracy

15:04 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*14. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei gynlluniau i gryfhau democratiaeth leol yng Nghymru? OAQ(4)0539(PS)*

*14. Will the Minister provide an update on his plans to strengthen local democracy in Wales? OAQ(4)0539(PS)*

15:04 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The White Paper, 'Reforming Local Government: Power to Local People', is currently the subject of consultation and contains many proposals that, I believe, will lead to a stronger, more effective and democratic system of local government in Wales in the future.

Mae'r Papur Gwyn, 'Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol', yn destun ymgynghori ar hyn o bryd ac mae'n cynnwys llawer o gynigion a fydd, yn fy marn i, yn arwain at system lywodraeth leol gryfach sy'n fwy effeithiol ac yn fwy democrataidd yng Nghymru yn y dyfodol.

15:04 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. I note the requirement in the 'Devolution, Democracy and Delivery' White Paper for authorities to establish youth councils. We know that older people are twice as likely to vote as younger people, so this could play an important role in encouraging greater participation. What discussions have you had with the Minister for Education and Skills to see how this can be linked into any review of the curriculum?

Diolch i chi, Weinidog. Rwy'n nodi'r gofyniad yn y Papur Gwyn 'Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni' i awdurdodau sefydlu cynghorau ieuenctid. Gwyddom fod pobl hŷn ddwywaith yn fwy tebygol o bleidleisio na phobl iau, felly gallai hyn chwarae rhan bwysig wrth annog mwy o gyfranogiad. Pa drafodaethau a gawsoch gyda'r Gweinidog Addysg a Sgiliau i weld sut y gellir cysylltu hyn ag unrhyw adolygiad o'r cwricwlwm?

15:04 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

My colleague the Member for the Cynon Valley is right that youth councils can be a very good way of enabling young people to express their views at a local level. That's why the White Paper proposes that establishment of a youth council should become a statutory responsibility for a chief executive. I will certainly arrange to discuss this further with the Minister for Education and Skills. I can also say that, in respect of the engagement of young people in voting, yesterday, I met with Bite The Ballot, NUS Wales and Youth Cymru to discuss this issue and how we might promote greater participation by young people in the future.

Mae fy nghydweithiwr, yr Aelod dros Gwm Cynon, yn gywir i ddweud y gall cynghorau ieuenctid fod yn ffordd dda iawn o alluogi pobl ifanc i fynegi eu barn ar lefel leol. Dyna pam y mae'r Papur Gwyn yn cynnig y dylai sefydlu cyngor ieuenctid fod yn gyfrifoldeb statudol i brif weithredwr. Byddaf yn sicr yn trefnu i drafod hyn ymhellach gyda'r Gweinidog Addysg a Sgiliau. A gaf fi ddweud hefyd, mewn perthynas â denu pobl ifanc i bleidleisio, fy mod wedi cael cyfarfod ddoe â Bite The Ballot, UCM Cymru a Youth Cymru i drafod y mater a sut y gallem hyrwyddo mwy o gyfranogiad gan bobl ifanc yn y dyfodol.

## Amseru Etholiadau Llywodraeth Leol

## The Timing of Local Government Elections

15:05 **William Graham** Bywgraffiad Biography

*15. A wnaiff y Gweinidog gadarnhau'r trefniadau ar gyfer amseru etholiadau llywodraeth leol a drefnwyd ar gyfer Mai 2017? OAQ(4)0534(PS)*

*15. Will the Minister confirm the arrangements for the timing of local government elections scheduled for May 2017? OAQ(4)0534(PS)*

Senedd.tv Fideo Video

15:05 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Llywydd, the Order to change the year of local government elections in Wales, from May 2016 to May 2017, came into force on 9 December.

Lywydd, daeth y Gorchymyn i newid blwyddyn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru o fis Mai 2016 i fis Mai 2017 i rym ar 9 Rhagfyr.

Senedd.tv Fideo Video

15:05 **William Graham** Bywgraffiad Biography

I thank the Minister for his answer. The proposed delay in elections for local authorities that had previously agreed to voluntary merging until 2018—is it still considered an option?

Diolch i'r Gweinidog am ei ateb. Y cynnig i ohirio etholiadau'r awdurdodau lleol a oedd wedi cytuno'n flaenorol i uno'n wirfoddol tan 2018—a yw'n dal i gael ei ystyried yn opsiwn?

Senedd.tv Fideo Video

15:06 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Certainly, if we receive any voluntary merger proposals under the paving Bill that is currently under discussion in the Assembly, then it certainly remains an option.

Yn sicr, os daw unrhyw gynigion uno gwirfoddol i law o dan y Bil ymbaratoi sy'n cael ei drafod yn y Cynulliad ar hyn o bryd, yna mae'n sicr yn parhau i fod yn opsiwn.

Senedd.tv Fideo Video

15:06 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Thank you, Minister.

Diolch i chi, Weinidog.

Senedd.tv Fideo Video

15:06

## 3. Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

## 3. Questions to the Counsel General

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to questions to the Counsel General. Question 1 is Simon Thomas.

Symudwn yn awr at gwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol. Daw Cwestiwn 1 gan Simon Thomas.

### Model Pwerau a Gedwir yn ôl

### The Reserved Powers Model

15:06 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

*1. Pa sylwadau cyfreithiol y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u gwneud ar ran Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r model pwerau a gedwir yn ôl? OAQ(4)0074(CG)*

*1. What legal representations has the Counsel General made on behalf of the Welsh Government in relation to the reserved powers model? OAQ(4)0074(CG)*

Senedd.tv Fideo Video

15:06 **Theodore Huckle**

*Y Cwnsler Cyffredinol / The Counsel General*

Good afternoon, everyone. I have made no legal representations on behalf of the Welsh Government in relation to a reserved powers model.

Prynhawn da, bawb. Nid wyf wedi gwneud unrhyw sylwadau cyfreithiol ar ran Llywodraeth Cymru mewn perthynas â model cadw pwerau.

Senedd.tv Fideo Video

15:06 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Diolch am yr ateb roeddwn yn hanner ei ddisgwyl. A gaf i dynnu eich sylw chi at dystiolaeth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i gomisiwn Silk? Dyfynnaf yn y Saesneg gwreiddiol:

Thank you for the response that I half expected. Can I draw your attention to the evidence of the Equality and Human Rights Commission to the Silk commission? I will quote in the original English:

Senedd.tv Fideo Video

'There are concerns that introducing the reserved model could inadvertently harm the equality and human rights agenda in Wales. It is important that care is taken to safeguard against this and that competence in this area is increased in the drafting of the new competence of the National Assembly.'

'Mae pryderon y gallai cyflwyno'r model cadw pwerau niweidio agenda cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru yn anfwriadol. Mae'n bwysig bod yn ofalus i warchod rhag hyn a bod cymhwysedd yn y maes hwn yn cael ei gynyddu wrth ddrafftio cymhwysedd newydd y Cynulliad Cenedlaethol.'

Y pwynt mae'r comisiwn yn ei wneud, wrth gwrs, yw bod cydraddoldeb wedi'i gadw yn ôl, yn achos yr Alban, i San Steffan a bod rhywfaint o ryddid wedi bod yn y setliad presennol sydd gennym ni yng Nghymru sydd wedi caniatáu i Lywodraeth Cymru adeiladu cydraddoldeb i mewn i, er enghraifft, reoliadau iechyd a gofal cymdeithasol. A ydych yn rhannu pryderon y comisiwn cydraddoldeb? Pa gamau y gallwn ni eu cymryd i wneud yn siŵr nad ydym yn colli ein cymhwysedd yn yr ardal yma?

The point the commission is making, of course, is that equality is reserved, in Scotland's case, to Westminster, and there has been some flexibility in the current settlement here in Wales that has allowed the Welsh Government to build equalities into, for example, health and social care regulations. Do you share the concern of the equality commission? What steps can we take to ensure that we don't lose competence in this area?

15:07

## Theodore Huckle

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

As I understand it, the devolution of equality matters is important but delimited very clearly in Schedule 7. It would not be right for me to engage in a discussion of how that should be translated, if I can use that word, into the reserved powers model. That is, to some extent, a drafting question. But, more importantly, it is a political question as to what the shape of the settlement will be, going forward. It seems to me that that is for others to take forward—in particular, the First Minister, I think.

Fel rwy'n deall, mae datganoli materion cydraddoldeb yn bwysig ond gosodir y terfynau'n glir iawn yn Atodlen 7. Ni fyddai'n iawn i mi gymryd rhan mewn trafodaeth ar sut y dylid ei drosglwyddo, os caf ddefnyddio'r gair hwnnw, i'r model cadw pwerau. Cwestiwn ynghylch drafftio yw hynny i ryw raddau. Ond yn bwysicach, mae'n gwestiwn gwleidyddol ynglŷn â ffurf y setliad yn y dyfodol. Mae'n ymddangos i mi fod hynny'n rhywbeth i bobl eraill fwrw ymlaen ag ef—y Prif Weinidog, yn benodol, rwy'n credu.

### Model Pwerau a Gedwir yn ôl

### The Reserved Powers Model

15:08

## Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*2. Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cynnal gyda swyddogion y gyfraith eraill ynglŷn a'r model pwerau a gedwir yn ôl? OAQ(4)0075(CG)*

*2. What discussions has the Counsel General had with other law officers regarding the reserved powers model? OAQ(4)0075(CG)*

15:08

## Theodore Huckle

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

It is not my intention to make statements about discussions I have had with law officers or to disclose the content of any such discussions. This is an established convention designed to preserve the confidentiality of those discussions and the relationship between law officers.

Nid yw'n fwriad gennyf wneud datganiadau am y trafodaethau a gefais gyda swyddogion y gyfraith na datgelu cynnwys unrhyw drafodaethau o'r fath. Mae hwn yn gonfensiwn sefydledig a gynlluniwyd i warchod cyfrinachedd y trafodaethau hynny a'r berthynas rhwng swyddogion y gyfraith.

15:08

## Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Yn wir, a diolch am yr ateb, Gwnsler. A gaf i ofyn un peth ichi, ychydig yn wahanol i'r arfer, efallai, ynglŷn â'r mater yma? Wrth inni symud at y model yma—ac mae pawb yn gytûn bellach mai dyma'r model ar gyfer gwneud deddfwriaeth yng Nghymru—rydym yn mynd i ddeddfu o dan y model yn y ddwy iaith. Mae modd, ar hyn o bryd, yn y Ddeddf Llywodraeth Cymru bresennol—adran 156—i'r Cynulliad basio rhyw fath o Ddeddf ddehongli, yn enwedig yn yr iaith Gymraeg, sy'n diffinio'r termau sy'n mynd i gael eu defnyddio o dan y gyfraith. Felly, wrth inni symud tuag at y model yma, a allwch chi ddweud unrhyw beth ynglŷn â sut y gallwn ni wella'r ffordd rydym yn deddfu o dan y model pwerau a gedwir yn ôl? Yn arbennig, a oes angen rhyw fath o Ddeddf ddehongli ar gyfer y termau rydym yn eu defnyddio'n Gymraeg a Saesneg, er mwyn eglurder i'r cyhoedd?

Indeed, and thank you for that response, Counsel. May I just ask you one question that is slightly out of the ordinary on this issue, perhaps? As we move towards this model—and everyone seems to be agreed that this is the model for making legislation in Wales—we are going to be legislating under the model in two languages. There is a means at present, under the current Government of Wales Act—section 156—for the Assembly to pass some sort of interpretation Act, particularly in Welsh, which defines the terms used in law. So, as we move towards this model, can you tell us anything at all about how we can improve the way we legislate under the reserved powers model, and, particularly, do we need some sort of interpretation Act for the terms that we use in Welsh and in English, for clarity for the public?

15:09 **Theodore Huckle** Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I find it interesting that the question is framed in relation to the reserved powers model. Of course, it is part of the process that the first question you asked derived an obvious answer. The second question raises some very interesting issues that I have not had the opportunity to think about, because I was not forewarned of it. And, admittedly off the top of my head, I'm struggling to see how there is a difference between the importance and the resolution of this issue in the current model, as opposed to the reserved powers model. It is obviously a very important matter. It was thought to be a very important matter, which is why the Government of Wales Act dealt with it. I would anticipate that any settlement on a reserved powers-model basis would likewise deal with it. Again, the way in which it is to be dealt with and the drafting and the translation of the political settlement, such as it may be, into a further Government of Wales Act, or whatever it may be called, are matters that will be addressed in due course by those given responsibility for them.

Mae'n ddiddorol fod y cwestiwn yn cael ei fframio mewn perthynas â'r model cadw pwerau. Wrth gwrs, mae'n rhan o'r broses fod y cwestiwn cyntaf a ofynnoch yn gofyn am ateb amlwg. Mae'r ail gwestiwn yn codi rhai materion diddorol iawn nad wyf wedi cael cyfle i feddwl amdanynt, oherwydd ni chefais rybudd ymlaen llaw. A heb feddwl am y peth yn iawn, rwy'n cyfaddef, rwy'n ei chael yn anodd gweld sut y mae gwahaniaeth rhwng pwysigrwydd y mater hwn a'i ddatrysiad yn y model presennol, yn hytrach na'r model cadw pwerau. Mae'n amlwg yn fater pwysig iawn. Roedd yn cael ei ystyried yn fater pwysig iawn a dyna pam yr ymdriniodd Deddf Llywodraeth Cymru ag ef. Fe fyddwn yn rhagweld y byddai unrhyw setliad ar sail model cadw pwerau yn ymdrin ag ef yn yr un modd. Eto, mae'r ffordd y bydd yn cael ei drin, a'r modd y caiff y setliad gwleidyddol, pa ffurf bynnag a fydd arno, ei ddrafftio a'i drosglwyddo i Ddeddf Llywodraeth Cymru arall, neu beth bynnag y caiff ei galw, yn faterion a fydd yn cael sylw maes o law gan y rhai a fydd â chyfrifoldeb amdanynt.

15:10 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Counsel General.

Diolch i chi, Gwnsler Cyffredinol.

15:10 Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

## 4. Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar yr Ymchwiliad i Ailgylchu yng Nghymru

## 4. Debate on the Environment and Sustainability Committee's Report on its Inquiry into Recycling in Wales

### Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to item 4, which is a debate on the Environment and Sustainability Committee's report on its inquiry into recycling in Wales. I call on the Chair of the committee, Alun Ffred Jones.

Symudwn yn awr at eitem 4, sef dadl ar adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar ei ymchwiliad i ailgylchu yng Nghymru. Rwy'n galw ar Gadeirydd y pwyllgor, Alun Ffred Jones.

Cynnig NDM5716 Alun Ffred Jones

Motion NDM5716 Alun Ffred Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar ei ymchwiliad i Ailgylchu, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Rhagfyr 2014.

Notes the report of the Environment and Sustainability Committee on its inquiry into Recycling, which was laid in the Table Office on 18 December 2014.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

15:11 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Diolch yn fawr. Rwy'n falch o gael agor y ddadl yma fel Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd.

I am pleased to open this debate as Chair of the Environment and Sustainability Commitee.

Fe gynhaliodd y pwyllgor ymgynghoriad ar ailgylchu yn ystod haf 2014. Pwrpas y gwaith oedd ystyried arferion presennol o ran ailgylchu gwastraff cartref, gan gynnwys y wybodaeth sydd ar gael i breswylwyr a sut y gellir gwella cyfraddau ailgylchu. Fe dderbyniodd y pwyllgor 50 o ymatebion ysgrifenedig gan wahanol sefydliadau, ac a gaf i ddiolch i bawb a gymerodd ran ac a roddodd dystiolaeth i'r ymchwiliad? Fe glywodd y pwyllgor gan dros 3,000 o bobl ledled Cymru drwy arolwg a gafodd ei ddosbarthu mewn gweithdai a gwahanol ddigwyddiadau, ac rwy'n ddiolchgar iawn i'r bobl hynny ddaru ymateb.

The committee held a consultation on recycling during the summer of 2014. The purpose of that work was to consider current practices with regard to household waste, including the information available to householders and how recycling rates could be improved. The committee received 50 written responses from organisations, and can I take this opportunity to thank everyone who took the time to give evidence as part of the inquiry? The committee heard from over 3,000 people across Wales via a survey distributed in workshops and at various events, and I am very grateful to those people who did respond.

Fel cefndir i'r ymchwiliad, 10 mlynedd yn ôl, roedd yn amlwg bod Cymru yn wynebu her go sylweddol—y gyfradd ailgylchu ar gyfer gwastraff oedd 10%. Erbyn 2013-14, roedd y ffigur hwnnw wedi codi i 54%, felly mae'n glir bod pobl Cymru wedi ymateb yn bositif i'r her honno. Roedd nifer y bobl ifanc a ymatebodd i'r ymchwiliad hefyd yn galonogol iawn.

As background to the inquiry, 10 years ago, it was clear that Wales faced a substantial challenge—the recycling rate for waste was 10%. By 2013-14, that figure had increased to 54%, so it's clear that the people of Wales have responded positively to that challenge. The number of young people who responded to the inquiry was also very encouraging.

O ran y prif ganfyddiadau ac ymateb y Gweinidog, mae yna saith o argymhellion, ac mae'r pwyllgor yn falch bod y Gweinidog wedi derbyn chwech ohonynt, ac wedi derbyn un mewn egwyddor. Fe wnaf i sôn am yr argymhellion yn y man, ond rydym yn arbennig o falch bod y Gweinidog wedi derbyn y ddau argymhelliad yma: yr argymhelliad ynglŷn ag adolygu'r sail dystiolaeth ar gyfer y glasbrint casgliadau, sef y ffordd orau o gasglu ac ailgylchu deunydd, a hefyd adolygu'r targedau sy'n seiliedig ar bwysau, oherwydd dyna oedd dwy o'r prif negeseuon a ddaeth o'r ymchwiliad.

In terms of the main findings and the Minister's response, there are 7 recommendations, and the committee is pleased that the Minister has accepted six of these and has accepted the other in principle. I will talk about the individual recommendations in a moment, but we are particularly pleased that the Minister has accepted these two recommendations: the recommendation on reviewing the evidence base for the collections blueprint, which is the best way of collecting and redistributing waste material, and reviewing weight-based targets, because these were two of the strongest messages arising from the inquiry.

Ar y llaw arall, mae yna rai achosion lle mae'n ymddangos bod y Gweinidog yn credu bod y Llywodraeth eisoes yn bodloni'r argymhellion; mae un yn ymwneud â chyhoeddi lle mae deunydd ailgylchu yn cael ei anfon, ac o ran ymgyrch ailgylchu genedlaethol. Felly, buasem yn ddiolchgar cael sicrwydd gan y Gweinidog ynglŷn â pha bethau ychwanegol mae'n mynd i'w gwneud i sicrhau ein bod ni'n cwrdd â'r her o ailgylchu mwy yn y dyfodol, ac fel y gwyddom ni, mi fydd honno'n her ychwanegol sylweddol iawn.

However, in some cases, it appears that the Minister is saying that the Goverment is already fulfilling the requirements of the recommendations; one deals with publishing information about where recyclates are sent, and in terms of a national recycling campaign. So, we seek reassurance from the Minister about what additional things he is going to do to ensure that we rise to the challenge of recycling more in future, and, as we know, that will be a substantial additional challenge.

O ran sut rydym yn perfformio, wrth gwrs, mae Cymru yn perfformio'n dda, yn sicr o gymharu â'r gwledydd eraill yn y Deyrnas Unedig; yn sicr, ni ydy'r unig wlad sydd wedi cyflwyno targedau statudol ar gyfer ailgylchu. Ond mae'r targedau hynny yn cynyddu, ac mewn 10 mlynedd mi fydd y targed statudol ar gyfer ailgylchu gwastraff trefol yn 70%, ac mi fydd hynny yn her fawr.

In terms of how we are performing, Wales is performing well, certainly as compared to other countires within the UK; we are certainly the only country that has introduced statutory targets for recycling. However, the statutory targets are increasing, and, in 10 years, the statutory target for recycling urban waste will be 70%, and that will be a great challenge.

O ran y dulliau casglu, fe edrychom ni ar y gwahanol ddulliau casglu yn y 22 awdurdod lleol. Mae naw awdurdod yn gweithredu system didoli ar garreg y drws, pump yn gweithredu system dau ffrwd ac wyth yn gweithredu system gymysg—'co-mingling'. Wrth gwrs, didoli wrth ymyl y ffordd ydy'r dull mae Llywodraeth Cymru bellach yn ei ffafrio—dyna ydy'r glasbrint casgliadau yma—ond, yn rhyfedd iawn, nid oedd y dystiolaeth a gawsom ni yn dangos fod un system benodol yn well na'r llall o ran cost, perfformiad nac effeithlonrwydd. Yn wir, mae yna enghreifftiau o awdurdodau sy'n perfformio'n wael ac yn perfformio'n dda yn achos pob un o'r tri dull yma. Ond, wrth gwrs, wrth edrych ymlaen, ac wrth i'r targedau gynyddu, mae'r dystiolaeth a gafwyd efallai yn dod â ni i'r casgliad y dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad annibynnol o'r glasbrint casgliadau yma, ac wedyn cyhoeddi ei ganfyddiadau ym mis Mawrth 2016, er mwyn helpu awdurdodau lleol i gyrraedd eu targed 2019-20, sef 64 y cant. Rydym yn falch bod y Llywodraeth wedi cytuno i hynny.

In terms of collection methods, we examined the different collection methods employed by the 22 local authorities. Nine authorities operate a system of kerbside sorting; five authorities operate a twin-stream system; and eight operate a co-mingling system. The method now favoured by the Welsh Government is the kerbside sort system—that is outlined in its collections blueprint—but, strangely enough, the evidence that we received didn't show that any one specific system was better than the others in terms of cost, performance or efficiency. Indeed, there are examples of authorities performing poorly and authorities performing well using all three methods. But, of course, in looking forward, and as the targets increase, the evidence received perhaps brings us to the conclusion that the Government should commission an independent review of the collections blueprint and publish its findings by March 2016 to help local authorities to hit their targets for 2019-20, namely 64 per cent. We're very pleased that the Government has agreed to that.

O ran cydweithio, ychydig iawn o dystiolaeth a gawsom bod yna lawer iawn o gydweithio rhwng awdurdodau, yn arbennig o ran caffael offer ar gyfer casglu a storio gwastraff, ac mae hynny, ynddo ei hun, yn ymarfer gwastraffus iawn iawn.

In terms of collaboration, we received very little evidence that there has been a great deal of collaboration between authorities, especially in terms of procuring receptacles for collecting and storing waste, and that in itself is a very wasteful exercise.

Fel rwy’n dweud, o ran y berthynas rhwng arferion ailgylchu a chyfraddau ailgylchu, mae yna un neu ddwy o wersi rydym wedi eu dysgu. Barn llawer iawn o’r tystion oedd bod targedau sy'n seiliedig ar bwysau yn gallu arwain at ymddygiad anghywir: hynny yw, eich bod yn casglu eitemau trymach achos eu bod yn ychwanegu at eich canrannau ailgylchu, er efallai mai nid dyna’r ffordd orau i fynd i’r afael â, neu wynebu, y her yma. Felly, er bod y targedau yma yn bwysig, rwy’n credu bod eisiau edrych yn fanwl iawn iawn ar beth rydym yn ei ailgylchu ac i ble, hefyd, mae’r deunydd hwnnw—pa defnydd sydd yn cael ei wneud o’r deunydd hwnnw wedyn.

As I say, in terms of the relationship between recycling practices and recycling rates, there are one or two lessons that we have drawn from this relationship. The opinion of a great many witnesses was that weight-based targets could lead to the wrong behaviours: that is, that you collect heavier items because they add to your percentages in terms of recycling, even though perhaps that is not the best way of getting to grips with or facing that challenge. So, even though these targets are important, I do think that we need to look in a great deal of detail at what we recycle and where, too, that material—what use is made of that material.

O ran sut y gallem wella i’r dyfodol, fel roeddwn yn nodi, mae hynny’n her enfawr, achos rydym wedi cael gwared ar rai pethau hawdd: rydym wedi cael pobl i ailgylchu, ac wedi llwyddo perswadio cyfran helaeth o bobl i ailgylchu, ond mae trio cynyddu’r ffigwr yna yn anodd. Yn ôl yr ymateb i'n hymchwiliad, un o'r prif rwystrau i ailgylchu mwy oedd diffyg gwybodaeth am beth sy’n gallu cael ei ailgylchu. Hefyd, roedd yn ein harolwg cyhoeddus yn awgrymu y byddai mwy o wybodaeth am fanteision amgylcheddol ailgylchu yn annog lefelau uwch o gyfranogiad. Fe fuon ni’n trafod y mater o gosbi pobl oedd yn dewis peidio ag ailgylchu, ond nid oedd neb—dim un o'r tystion—yn teimlo bod hyn yn ffordd gall na resymol o fynd ymlaen. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno bod cyfathrebu ac ymgysylltu da yn bwysig. Mae trio cael peth deialog gyda thrigolion yn eithriadol o bwysig—hefyd, wrth gwrs, lleihad mewn casgliadau gwastraff gweddilliol, hynny yw, bagiau du. Wrth gwrs, mae yna enghreifftiau. Yn sicr, yng Ngwynedd, mae rhan o’r sir wedi mynd bellach i gasglu’r gwastraff cyffredinol yma bob tair wythnos yn unig. Er bod yna wrthwynebiad mawr yn lleol i ddechrau, y gwir amdani yw mae pob tystiolaeth yn dangos bod y lefelau ailgylchu yn cynyddu fel eich bod yn gorfod yn meddwl yn galetach am beth sy’n mynd mewn i’r bag du. Felly, yn amlwg, mae’r hynny’n rhywbeth bydd yn rhaid i bawb wynebu maes o law.

In terms of how we can improve in future, as I noted, that is a huge challenge because we have gotten rid of some of the easy matters: we’ve encouraged people to recycle, and we’ve succeeded in encouraging the vast majority of people to recycle, but how to increase those rates is very difficult. According to the response to our inquiry, one of the major barriers to recycling more seems to be the lack of information about what can be recycled. Also, our public survey suggested that more information about the environmental benefits of recycling would encourage a higher level of engagement. We did discuss the issue of penalties for people who choose not to recycle, but no-one —none of the witnesses—felt that that was a sensible or reasonable way of moving forward. The majority of respondents agreed that good communication and engagement were important. Trying to establish a dialogue with residents is exceptionally important—and also, of course, a decrease in the collection of residual waste, namely black bags. Of course, there are examples. Certainly in Gwynedd, part of the county is now down to collecting general waste every three weeks only. Even though there was great opposition locally at the beginning, the truth is that all evidence shows that the recycling rates increase as you have to think harder about what goes into the black bag. So, obviously, that is something that everyone will have to face in due course.

Ond, fel rwy’n dweud, rwy’n credu bod ymgysylltu â thrigolion yn bwysig, ac rydym ni’n credu hefyd y dylai fod yna ymgyrch genedlaethol i godi ymwybyddiaeth pobl o’r angen i ailgylchu a manteision ailgylchu. Rydym ni’n cytuno, ac yn credu, bod y lefelau uchel o ymgysylltu â'r cyhoedd ynghylch y mater o ailgylchu yn darparu sylfaen ragorol ar gyfer datblygu cyfathrebu o gwmpas agweddau eraill ar bolisi gwastraff a fydd yn cael mwy o effaith ar leihau'r ôl troed ecolegol. Fel rwy’n dweud, mae angen cyfleu gwybodaeth am fanteision ailgylchu’n well a hefyd am beth sy’n digwydd i’r deunydd hwnnw. Rwy’n credu bod cymunedau ac unigolion yn ymateb yn dda i’r math yna o wybodaeth, a hefyd, nifer y swyddi sydd wedi'u creu yng Nghymru o ganlyniad i ailgylchu, a pa fathau o gynnyrch newydd sy’n cael eu cynhyrchu gan eu deunyddiau wedi'u hailgylchu.

But, as I say, I think that engagement with residents is important, and we also believe that there should be a national campaign to raise people’s awareness of the need to recycle and the advantages of doing so. We agree, and believe, that the high level of engagement with the public on the issue of recycling lays an excellent foundation for developing communication on other aspects of waste policy that will have a greater effect on decreasing our ecological footprint. As I say, there is a need to better convey information about the benefits of recycling and also what happens to that material. I think that communities and individuals respond very well to that kind of information, and also the number of posts created in Wales as a result of recycling, and what kind of new products are being produced using their recycled materials.

Rwy'n meddwl byddai'r math yna o wybodaeth yn sbarduno pobl i ailgylchu mwy ac yn denu'r bobl nad ydynt yn gwneud hynny i ddechrau gwneud hynny yn fwy systematig. Fel rwy'n dweud, yn yr adroddiad, rydym wedi argymell y dylai'r Llywodraeth ystyried buddsoddi mewn ymgyrch ailgylchu cenedlaethol. Tra ein bod yn falch bod y Gweinidog wedi derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor, rydym braidd yn siomedig nad yw'r Gweinidog wedi ymrwymo i gynnal ymgyrch newydd. Yn lle hynny, mae'n sôn am ymestyn ymgyrchoedd presennol. Felly, byddwn yn edrych ymlaen at glywed gan y Gweinidog beth yn union sydd ganddo fo mewn golwg, yn hyn o beth. Mae hon yn stori o lwyddiant, ac rwy'n credu y dylid cydnabod hynny: bod y Llywodraeth, ers 10 mlynedd, wedi mabwysiadu polisi sy'n gyson, wedi ariannu'r polisi hwnnw dros y cyfnod hwnnw, ac y mae wedi dwyn ffrwyth.

I think that that kind of information would encourage people to recycle more and would encourage those people who don't recycle already to do so more systematically. As I say, in the report, we have recommended that the Government consider investing in a national recycling campaign. While we are pleased that the Minister has accepted this recommendation in principle, we are somewhat disappointed that the Minister has not committed to launching a new campaign. Instead, he talks about extending current campaigns. So, we do look forward to hearing from the Minister what exactly he has in mind in this regard. This is a success story, and I think that that should be acknowledged: that the Government, for 10 years, has adopted a policy that is consistent, has funded that policy over that period, and that's borne fruit.

Rŵan te, mae hynny wedi dod â ni'n bell iawn iawn, ond mi fydd angen yr un ymroddiad ac efallai mwy o ddychymyg, yn enwedig gyda chyllidebau sydd yn crebachu, i fynd â ni i fyny at y trothwy i gyrraedd y targedau sydd wedi'u gosod gan y Llywodraeth. Maen nhw'n uchelgeisiol; maen nhw'n gyraeddadwy, ond mi fydd hi'n heriol iawn iawn, ac fe fydd yn ddiddorol iawn clywed gan y Gweinidog beth sydd ganddo fo mewn golwg ar gyfer cyflawni'r uchelgais honno. Diolch yn fawr.

Now, that has taken us a very long way, but that same commitment, perhaps with greater imagination, especially with shrinking budgets, is needed to take us to the threshold of reaching the targets set by the Government. They are ambitious; they are achievable, but it will be very challenging, and it will be very interesting to hear from the Minister what he has in mind for achieving that ambition. Thank you very much.

15:21

## Julie Morgan Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I think the Chair of the committee has summed up, generally, what took place in the committee and I think we have to say it is a success story, that Wales has made huge advances in terms of recycling. It's currently one of the best-performing countries in Europe and I think Welsh local authorities hold some of the highest percentages of recycled waste in the UK. So, I'm starting from the basis that this is a great success, but, obviously, we still want to go further, because what we want to do is reduce our ecological footprint.

Rwy'n credu bod Cadeirydd y pwyllgor wedi crynhoi, yn gyffredinol, yr hyn a ddigwyddodd yn y pwyllgor ac rwy'n credu bod yn rhaid i ni ddweud bod hyn yn llwyddiant a bod Cymru wedi gwneud datblygiadau enfawr ym maes ailgylchu. Mae'n un o'r gwledydd sy'n perfformio orau yn Ewrop ar hyn o bryd ac rwy'n credu mai awdurdodau lleol Cymru sydd â rhai o'r canrannau uchaf o wastraff wedi ei ailgylchu yn y DU. Felly, rwy'n dechrau ar y sail fod hyn yn llwyddiant mawr, ond yn amlwg, rydym yn dal yn awyddus i fynd ymhellach, oherwydd yr hyn rydym am ei wneud yw lleihau ein hôl troed ecolegol.

The other point I'd like to echo is what the Chair said about how much enthusiasm there is in Wales about recycling. There's no doubt it has gripped the public's imagination, and the range of people, including young people, who responded to us I think shows how important recycling is and how they can see the longer term benefit.

Y pwynt arall yr hoffwn ei adleisio yw'r hyn a ddywedodd y Cadeirydd ynglŷn â pha mor frwdfrydig yw pobl ynghylch ailgylchu yng Nghymru. Nid oes amheuaeth ei fod wedi cydio yn nychymyg y cyhoedd ac rwy'n credu bod yr amrywiaeth o bobl, gan gynnwys pobl ifanc, a ymatebodd i ni yn dangos pa mor bwysig yw ailgylchu a sut y gallant weld y manteision hirdymor.

One of the issues that we were very concerned about is the weight-based targets. We did believe that we should move away from the weight-based targets and we did ask the Welsh Government to investigate whether this would be the right thing to do. I am concerned that the weight-based target removes the imperative to look at the behaviour generally, and to look at the ways that you can actually reduce waste right at the beginning, so that you don't have to recycle it afterwards, because you've reduced it at the beginning.

Un o'r materion rydym yn bryderus iawn yn ei gylch yw'r targedau sy'n seiliedig ar bwysau. Roeddem yn credu y dylem symud oddi wrth y targedau pwysau ac fe ofynnon ni i Lywodraeth Cymru ymchwilio i weld ai dyma oedd y peth iawn i'w wneud. Rwy'n poeni bod y targed pwysau yn dileu'r rheidrwydd i edrych ar yr ymddygiad yn gyffredinol, ac i edrych ar ffyrdd o leihau gwastraff ar y cychwyn cyntaf, fel na fydd rhaid ailgylchu wedyn, gan y byddwch wedi ei leihau ar y dechrau.

As a bit of an aside, I just cannot believe it when you go into a country area where people with lots of gardens and things recycle green waste and you see a lot of that outside in bags, when you would've thought that they would've used it to compost. I think that is something that perhaps we ought to get to grips with to try to get more people composting.

Gyda llaw, rwy'n methu credu, pan ewch i ardal wledig, lle y mae pobl sydd â llawer o erddi ac yn y blaen yn ailgylchu gwastraff gwyrdd a llawer o'r gwastraff hwnnw i'w weld y tu allan mewn bagiau, pan fyddech yn meddwl y byddent wedi ei ddefnyddio i gompostio. Credaf efallai ei fod yn rhywbeth y dylem fynd i'r afael ag ef i geisio annog mwy o bobl i gompostio.

I also think there are other things we could do that would actually reduce the amount of waste: encouraging reusable containers for drinks, I think, can greatly reduce the amount of waste that is thrown away. Of course, I think we have discussed here in this Assembly before a deposit refund scheme, which adds a small deposit to the cost of a drink, which is refunded when the container is returned. That certainly used to be the case with pop bottles when I was younger. I think, when it's been suggested here before, it's been said here that that's not necessary, because we're using other means, but I actually think we should look at that again, because I think it would be a very definite step that would actually reduce waste, so we don't have to get into—you know, before you actually have to recycle. I think Sweden, which is one of the greenest countries in Europe, does have such a scheme and I know Scotland is looking at it as well, as part of their recycle and reward scheme. So, I would like to ask the Minister whether that is something that might be considered.

Hefyd, rwy'n credu bod pethau eraill y gallem eu gwneud a fyddai'n gostwng lefelau gwastraff: rwy'n credu y gallai hyrwyddo cynwysyddion diod y gellir eu hailddefnyddio ostwng lefelau gwastraff yn sylweddol. Wrth gwrs, rwy'n credu ein bod wedi sôn o'r blaen yn y Cynulliad am gynllun ad-dalu blaendal, sy'n ychwanegu blaendal bach at gost diod, a gaiff ei ad-dalu wrth i'r cynhwysydd gael ei ddychwelyd. Yn sicr, dyna oedd yr arfer gyda photeli pop pan oeddwn yn iau. Pan gafodd hynny ei awgrymu yma o'r blaen, rwy'n credu i rywun ddweud nad oedd hynny'n angenrheidiol am ein bod yn defnyddio dulliau eraill, ond rwy'n credu y dylem edrych ar hynny eto gan y byddai'n gam pendant iawn a fyddai'n lleihau gwastraff mewn gwirionedd, fel na fydd angen i ni—wyddoch chi, cyn bod gofyn ailgylchu. Rwy'n credu bod gan Sweden, sy'n un o'r gwledydd mwyaf gwyrdd yn Ewrop, gynllun o'r fath ac rwy'n gwybod bod yr Alban yn edrych arno hefyd fel rhan o'u cynllun ailgylchu a gwobrwyo. Felly, hoffwn ofyn i'r Gweinidog a yw hynny'n rhywbeth y gellid ei ystyried.

The other thing that I think should be looked at is encouraging less use of disposable nappies. Now, I know when my children were little, I was absolutely thrilled to have disposable nappies and it did change my life, but I am aware that they are a huge sort of burden in terms of the waste collection, and I wonder if—. I know there have been some campaigns, I think they're called real nappy campaigns, to encourage less use of disposable nappies, and I just wondered if that, again, was something that the Welsh Government or the Minister, in his response, could comment on.

Y peth arall rwy'n meddwl y dylid edrych arno yw annog llai o ddefnydd o gewynnau tafladwy. Nawr, pan oedd fy mhlant yn fach, roeddwn wrth fy modd yn cael cewynnau tafladwy ac fe newidiodd fy mywyd ond rwy'n ymwybodol eu bod yn faich enfawr o ran casglu gwastraff, a thybed os —. Rwy'n gwybod bod rhai ymgyrchoedd wedi bod, ac rwy'n credu eu bod yn cael eu galw'n ymgyrchoedd cewynnau go iawn, er mwyn annog llai o ddefnydd o gewynnau tafladwy, a thybed a yw hynny, unwaith eto, yn rhywbeth y gallai Llywodraeth Cymru neu'r Gweinidog roi sylw iddo yn ei ymateb.

I support very strongly that there should be a national campaign, which the committee, I think, said very strongly there should be. I also think there are things that can be done to make householders more aware of what they are actually recycling. I think it was somewhere in Australia—they've got a scheme where officers go out and open up the bags, and go through them with the householders so that that brings it home to them immediately what is being recycled and whether it's done in the right way. I don't know whether we have any schemes like that in Wales, but perhaps the Minister could comment on that as well when he responds.

Rwy'n ategu'n gryf iawn y dylid cael ymgyrch genedlaethol, ac rwy'n credu bod y pwyllgor wedi dweud hynny'n bendant iawn. Rwyf hefyd yn credu bod pethau y gellir eu gwneud er mwyn gwneud deiliaid tai yn fwy ymwybodol o'r hyn y maent yn ei ailgylchu mewn gwirionedd. Rwy'n credu mai yn Awstralia yn rhywle—mae ganddynt gynllun lle y mae swyddogion yn mynd o gwmpas yn agor y bagiau ac yn mynd drwyddynt gyda'r deiliaid tai er mwyn iddynt ddeall ar unwaith beth sy'n cael ei ailgylchu ac a yw'n cael ei wneud yn y ffordd iawn. Nid wyf yn gwybod a oes gennym gynlluniau fel hyn yng Nghymru ond efallai y gallai'r Gweinidog wneud sylwadau ar hynny hefyd yn ei ymateb.

So, in conclusion, I thought it was a really very interesting, very worthwhile inquiry, which came forward with a lot of important points. I think we've done so well now that we should also be switching to see how we can prevent the need for so much recycling.

Felly, i gloi, roeddwn yn credu ei fod yn ymchwiliad hynod o ddiddorol a gwerth chweil a gyflwynai lawer o bwyntiau pwysig. Rwy'n credu ein bod wedi gwneud cystal bellach fel y dylem newid hefyd i weld sut y gallwn atal yr angen am gymaint o ailgylchu.

15:26 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, I do agree with Julie Morgan that this is a rare success story for Welsh Government. I'm delighted to see how well the Welsh Government has done on this occasion and the fact that your response, Minister, is overwhelmingly positive.

Wel, rwy'n cytuno â Julie Morgan fod hwn yn llwyddiant anghyffredin i Lywodraeth Cymru. Rwy'n falch iawn o weld pa mor dda mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud ar yr achlysur hwn a'r ffaith fod eich ymateb yn eithriadol o gadarnhaol, Weinidog.

It is clear that the recycling targets that have been achieved to date effectively include what I would call the low-hanging fruit, and it was clear that the next level of recycling that would take us up to the 75% target would be much more difficult to achieve. In approaching that, Minister, one of the themes that came through was standardising the colour of the receptacles into which people place their recycling. Obviously, local authorities have had the discretion of what machinery to use and also what receptacles to use, and I accept that some may be relevant for one authority and it may be different for another. But it does seem to me that, if the colours are standardised, when people move, there's less room for confusion. Also, that would allow a more consistent message nationally. So, some people have a green box for their green waste, as it were, namely the gardening waste, and some have a brown. It's the contradictions in those areas.

Mae'n amlwg fod y targedau ailgylchu a gyflawnwyd hyd yma yn cynnwys yr hyn y byddwn yn ei alw yn dargedau nad yw'n cymryd llawer i'w cyflawni ac roedd hi'n amlwg y byddai'r lefel nesaf o ailgylchu a fyddai'n mynd â ni at y targed o 75% yn llawer anos i'w chyflawni. Wrth drafod hynny, Weinidog, un o'r themâu a grybwyllwyd oedd safoni lliwiau'r cynwysyddion y mae pobl yn rhoi eu deunydd ailgylchu ynddynt. Yn amlwg, mae awdurdodau lleol wedi cael dewis pa beiriannau i'w defnyddio yn ogystal â pha gynwysyddion i'w defnyddio, ac rwy'n derbyn y gallai rhai ohonynt fod yn berthnasol i un awdurdod a rhai gwahanol yn berthnasol i awdurdod arall. Ond mae'n ymddangos i mi, os yw'r lliwiau'n cael eu safoni, pan fydd pobl yn symud, bydd llai o le i ddryswch. Hefyd, byddai hynny'n sicrhau neges fwy cyson yn genedlaethol. Felly, mae gan rai pobl focs gwyrdd ar gyfer eu gwastraff gwyrdd, fel petai, sef y gwastraff garddio, ac mae gan rai focs brown. Mae yna anghysondeb yn hynny o beth.

I appreciate it's expensive to do, and it may well be that it should be something that local councils should do when those units are at the end of their life cycle and need to be replaced—that at that stage they get replaced. I'm not suggesting we should spend public funding on changing all the colours, but it should be something that maybe is considered for the future. If there was standardisation of the receptacles, that may well also have cost-saving implications in the future, again, for local councils.

Rwy'n sylweddoli ei fod yn ddrud i'w wneud ac mae'n ddigon posibl y dylai fod yn rhywbeth y dylai cynghorau lleol ei wneud ar ddiwedd oes yr unedau hynny ac angen eu hadnewyddu—mai ar yr adeg honno y dylid eu hadnewyddu. Nid wyf yn awgrymu y dylem wario arian cyhoeddus ar newid yr holl liwiau, ond dylai fod yn rhywbeth y gellid ei ystyried ar gyfer y dyfodol. Pe bai'r cynwysyddion yn cael eu safoni, mae'n ddigon posibl y byddai hynny hefyd yn arbed costau yn y dyfodol, eto, i gynghorau lleol.

Minister, in your response, you were very clear that information about the route that recycling takes when it leaves the kerbside is already available and it has been published since 2012. The fact that that evidence wasn't before the committee, despite the fact that we undertook an inquiry on it and that lots of people gave evidence to us that they were unclear on the routes that recycling takes indicates that, although that evidence is in the public domain, people don't know how to access it. They don't know where to get that information from, and that's clearly an issue. You know, maybe councils should have on their websites information about what happens to your recycling when it leaves the kerb so that people know and feel more engaged.

Weinidog, yn eich ymateb, roeddech yn glir iawn fod y wybodaeth ynglŷn â thaith deunydd ailgylchu ar ôl ei gasglu ar gael yn barod ac wedi ei chyhoeddi ers 2012. Mae'r ffaith nad oedd y dystiolaeth honno gerbron y pwyllgor, er ein bod wedi cynnal ymchwiliad ar y mater a bod llawer o'r bobl a roddodd dystiolaeth yn aneglur ynglŷn â thaith deunydd ailgylchu, yn dangos nad yw pobl yn gwybod sut i gael gafael ar y dystiolaeth honno er ei bod ar gael i'r cyhoedd. Nid ydynt yn gwybod lle i ddod o hyd i'r wybodaeth ac mae hynny'n amlwg yn broblem. Wyddoch chi, efallai y dylai cynghorau roi gwybodaeth ar eu gwefannau ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd i'w deunydd ailgylchu ar ôl ei gasglu er mwyn i bobl wybod a theimlo'n fwy o ran o'r broses.

I know, for example, Minister, you're aware in north Wales that there's an anaerobic digestion plant now that takes food waste from a number of north Wales councils and turns it into energy locally. That's fantastic. I don't know how many other people know about it, unless they live quite near that site, but it seems to me that that's a great incentive for people to improve their recycling.

Weinidog, rwy'n gwybod, er enghraifft, eich bod yn ymwybodol fod yna safle treulio anaerobig yng ngogledd Cymru bellach sy'n cymryd gwastraff bwyd gan nifer o gynghorau gogledd Cymru ac yn ei drawsnewid yn ynni yn lleol. Mae hynny'n wych. Nid wyf yn gwybod faint o bobl eraill sy'n gwybod amdano oni bai eu bod yn byw yn eithaf agos at y safle hwnnw, ond mae'n ymddangos i mi fod hyn yn gymhelliad gwych i bobl wella eu harferion ailgylchu.

Finally, the collections blueprint, Minister. If nothing else, the success of the recycling strategy in Wales has sent out a clear message that a one-size-fits-all approach does not work, and one of the reasons for the success of this, I would argue, which came through in the evidence, was the fact that local authorities were effectively free to make the decisions about how best to implement these decisions in their areas. By and large, they've done an exceptionally good job in doing that. So, there are concerns about the collections blueprint and we clearly got evidence from local authorities that they liked the flexibility of choosing their own pathways. The committee report recommended an independent review of the collections blueprint. Minister, I know that you've agreed to that, so, in your response, can you provide us with dates and timescales as to when this will happen and when we'll receive the report?

Yn olaf, y glasbrint casgliadau, Weinidog. Os nad yw wedi gwneud dim arall, mae llwyddiant y strategaeth ailgylchu yng Nghymru wedi cyfleu neges glir nad yw cael un dull addas i bawb yn gweithio ac fe fyddwn yn dadlau mai un o'r rhesymau am lwyddiant hyn, a ddaeth yn amlwg yn y dystiolaeth, oedd y ffaith fod awdurdodau lleol fwy neu lai'n rhydd i benderfynu ar y ffordd orau o weithredu'r penderfyniadau hyn yn eu hardaloedd. Ar y cyfan, maent wedi gwneud gwaith eithriadol o dda ar hynny. Felly, ceir pryderon ynglŷn â'r glasbrint casgliadau a chawsom dystiolaeth eglur gan awdurdodau lleol eu bod yn hoffi hyblygrwydd i ddewis eu llwybrau eu hunain. Roedd adroddiad y pwyllgor yn argymell adolygiad annibynnol o'r glasbrint casgliadau. Weinidog, gwn eich bod wedi cytuno i hynny, felly, yn eich ymateb, a allwch roi dyddiadau ac amserlenni i ni o ran pa bryd y bydd hyn yn digwydd a pha bryd y byddwn yn cael yr adroddiad?

Overall, it's an eight out of 10 for Welsh Government. You've done well. Recycling has become an everyday part of people's lives in Wales, and it's 'well done'.

Ar y cyfan, wyth allan o 10 i Lywodraeth Cymru. Rydych wedi gwneud yn dda. Bellach, mae ailgylchu'n rhan o fywydau bob dydd pobl yng Nghymru, ac mae hynny'n 'dda iawn'.

15:31

## William Powell Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm very pleased indeed that the Minister, in responding to our committee report, has accepted the recommendations that we've made in whole or in part. It is heartening to see the degree of cross-party agreement that there is within this Chamber and beyond on these matters. At this point, I would like to pay tribute to the Chair of the committee, Alun Ffred Jones, both for his exposition of the key points this afternoon but also for his leadership, and also to the work of the clerking team in giving direction to the overall inquiry. Thanks also to the many witnesses and stakeholders who contributed to it, thereby making it possible.

Rwy'n falch iawn fod y Gweinidog, wrth ymateb i'n hadroddiad pwyllgor, wedi derbyn yr argymhellion a wnaethom yn llwyr neu'n rhannol. Mae'n galonogol gweld cymaint o gytundeb trawsbleidiol yn y Siambr hon a thu hwnt ar y materion hyn. Ar y pwynt hwn, hoffwn dalu teyrnged i Gadeirydd y pwyllgor, Alun Ffred Jones, nid yn unig am ei esboniad o'r pwyntiau allweddol y prynhawn yma, ond hefyd am ei arweiniad, yn ogystal â gwaith y tîm clercio am roi cyfarwyddyd i'r ymchwiliad yn gyffredinol. Diolch hefyd i'r nifer o dystion a rhanddeiliaid a gyfrannodd ato, a'i wneud yn bosibl drwy hynny.

What I would like to see much more of in the future is a greater emphasis upon cross-border agreement and co-operation between local authorities, and I shall return to that theme just a little later. I agree with the report's conclusions that whilst there needs to be flexibility so as to allow councils to take account of local circumstances, there is also a case for greater consistency in certain respects. The key issues here, of course, revolve around the sharing of good practice and adopting also better procurement procedures. The Welsh Liberal Democrats are keen to see the expansion of green jobs, and the recycling industry as a whole provides the opportunity for the creation of more such good, high-quality jobs. However, the procurement process must be favourable and provide opportunities wherever possible for Welsh firms and local companies to take advantage of the scope for growth within this important sector.

Yr hyn yr hoffwn ei weld yn amlach yn y dyfodol yw bod mwy o bwyslais yn cael ei roi ar gytundeb trawsffiniol a chydweithredu rhwng awdurdodau lleol a byddaf yn dychwelyd at y thema honno yn nes ymlaen. Rwy'n cytuno â chasgliadau'r adroddiad sy'n nodi, er bod angen hyblygrwydd i alluogi cynghorau i ystyried amgylchiadau lleol, fod achos hefyd dros gael mwy o gysondeb mewn rhai agweddau. Wrth gwrs, y materion allweddol yw rhannu arferion da a mabwysiadu gweithdrefnau caffael gwell hefyd. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn awyddus i weld mwy o swyddi gwyrdd, ac mae'r diwydiant ailgylchu yn gyffredinol yn rhoi cyfle i greu mwy o swyddi da a safonol o'r fath. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r broses gaffael fod yn ffafriol a darparu cyfleoedd lle bynnag y bo modd i gwmnïau yng Nghymru a chwmnïau lleol allu manteisio ar y cyfle i ehangu'r sector pwysig hwn.

It was disappointing recently to hear that Neath Port Talbot County Borough Council had gone forward with purchasing new wheelie bins imported from Germany when there were available high-quality products from a Welsh-based manufacturer, although I understand that, after an initial outcry, they did seek an alternative solution. Congratulations are, of course, due to local authorities, and indeed to the wider Welsh public, for the efforts that they've made in terms of increasing the levels of recycling. That is to be celebrated. We need, however, to persist and to encourage, and if the public are to continue to switch to further recycling, then the balance between carrot and stick must be reviewed. One of the conclusions in the report is, and I quote:

Siom oedd clywed yn ddiweddar bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi prynu biniau olwyn newydd wedi eu mewnforio o'r Almaen pan oedd cynnyrch o ansawdd uchel ar gael gan wneuthurwr o Gymru, er fy mod yn deall eu bod wedi chwilio am ateb arall ar ôl i bobl leisio'u protest. Llongyfarchiadau, wrth gwrs, i'r awdurdodau lleol, ac yn wir i'r cyhoedd yng Nghymru yn gyffredinol, am eu hymdrechion i gynyddu lefelau ailgylchu. Mae hynny'n rhywbeth i'w ddathlu. Fodd bynnag, mae angen i ni barhau ac annog, ac os yw'r cyhoedd yn parhau i ailgylchu ymhellach, yna rhaid adolygu'r cydbwysedd rhwng gwobrwyo a chosbi. Un o gasgliadau'r adroddiad oedd hyn:

'Whilst financial penalties could play a role in the future, it would be premature to consider their introduction until other avenues of encouragement have been exhausted.'

'Er y gallai fod rôl i ddefnyddio cosbau ariannol yn y dyfodol, byddai'n rhy gynnar i ystyried eu cyflwyno hyd nes bod y ffyrdd eraill o annog pobl wedi methu.'

Yet, in some areas, residents are already subject to financial penalties for their transgressions. In Cardiff, for example, fines of up to £100 can be imposed on anyone putting food waste in with residual waste. Rhondda Cynon Taf fine anyone who puts out more than the allowed limit of four black bags per fortnight. This represents a considerable inconsistency in approach, and it is one that I would not like to see become more widespread. Yet, there is currently no comprehensive guidance from Welsh Government on these matters.

Eto i gyd, mewn rhai ardaloedd, mae trigolion eisoes yn cael eu cosbi'n ariannol am eu camweddau. Yng Nghaerdydd, er enghraifft, gellir rhoi dirwy o hyd at £100 i unrhyw un sy'n rhoi gwastraff bwyd gyda gwastraff gweddilliol. Mae Rhondda Cynon Taf yn rhoi dirwy i unrhyw un sy'n gadael mwy na phedwar bag du, y nifer uchaf a ganiateir, i'w casglu bob pythefnos. Mae yna gryn anghysondeb o ran agwedd, ac mae'n anghysondeb na hoffwn ei weld yn dod yn fwy cyffredin. Serch hynny, ni cheir unrhyw ganllawiau cynhwysfawr gan Lywodraeth Cymru ar y materion hyn ar hyn o bryd.

Another area that has been raised during our inquiry, one that I referred to earlier, was the need for genuine consultation across local authority boundaries, especially in the event of the reconfiguring of a service or the closure of recycling and civic amenity facilities. The recent closure of Potters yard at Machynlleth is something of a cause célèbre locally and residents in north-west Powys, in southern Gwynedd and also in the east of Ceredigion are currently fearful of fly-tipping on an industrial scale, resulting from this retrograde decision.

Maes arall a gafodd sylw yn ystod ein hymchwiliad, maes y cyfeiriais ato yn gynharach, oedd yr angen am ymgynghori go iawn ar draws ffiniau awdurdodau lleol, yn enwedig lle y ceir ad-drefnu gwasanaethau neu gau cyfleusterau ailgylchu ac amwynderau dinesig. Mae cau iard Potters ym Machynlleth yn ddiweddar, wedi cael cryn sylw yn lleol, ac mae trigolion yng ngogledd-orllewin Powys, de Gwynedd a dwyrain Ceredigion yn ofni gweld tipio anghyfreithlon ar raddfa ddiwydiannol yn deillio o'r penderfyniad llesteiriol hwn.

On a final point, I join committee colleagues in welcoming the Minister's commitment to look at reviewing weight-based targets for local authorities, for all the reasons outlined in the report. Whilst we need to ensure that the excellent progress towards greater recycling is maintained, we also need to cut down on the amount of waste, recyclable or otherwise, that is being produced. As well as this, we need to encourage people to re-use items as far as possible, rather than simply discarding them, and I strongly endorse the comments made across the Chamber by Julie Morgan. With regard to the deposit return scheme—and I know that Keep Wales Tidy has been somewhat sceptical in this regard and I think this needs revisiting—as a fellow member of the Corona generation, I would ask the Minister, please, to give his thoughts on the possibility of reviewing and reintroducing such a scheme. The imposition of purely weight-based targets is a disincentive to progress, and I would be pleased to see the Minister addressing this important point.

Yn olaf, rwy'n ymuno â fy nghyd-Aelodau ar y pwyllgor i groesawu ymrwymiad y Gweinidog i ystyried adolygu targedau sy'n seiliedig ar bwysau ar gyfer awdurdodau lleol, am yr holl resymau a amlinellwyd yn yr adroddiad. Er bod angen i ni sicrhau bod y cynnydd ardderchog tuag at fwy o ailgylchu yn cael ei gynnal, mae angen i ni hefyd leihau'r gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu, boed yn addas i'w ailgylchu neu fel arall. Yn ogystal â hyn, mae angen i ni annog pobl i ailddefnyddio eitemau cyn belled ag y bo modd yn hytrach na'u taflu ac rwy'n ategu'n gryf y sylwadau a wnaeth Julie Morgan yn y Siambr. O ran y cynllun dychwelyd blaendal—a gwn fod Cadwch Gymru'n Daclus wedi bod braidd yn amheus ynglŷn â hyn ac rwy'n credu bod angen ailedrych arno—fel aelod o genhedlaeth Corona, hoffwn ofyn i'r Gweinidog, os gwelwch yn dda, i ystyried y posibilrwydd o adolygu ac ailgyflwyno cynllun o'r fath. Nid yw gosod targedau sy'n seiliedig ar bwysau yn unig yn cymell cynnydd, a byddwn yn falch o weld y Gweinidog yn mynd i'r afael â'r pwynt pwysig hwn.

15:36

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister to speak on behalf of the Government—Carl Sargeant.

Y Gweinidog i siarad ar ran y Llywodraeth—Carl Sargeant.

15:36 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Presiding Officer, and I thank the committee for their inquiry and support their findings. I agree that the people of Wales have made a superb effort in recycling their waste. Presiding Officer, it must pain Antoinette Sandbach to congratulate the Government on doing something really good. She even said it was eight out of 10. We're actually the best in the UK and fourth in Europe. I'm incredibly proud of our local authorities doing their lines in terms of delivering for the people of Wales. Unfortunately, the Member opposite still has a downer on Wales and talks down Wales at every opportunity. Wales now leads in the UK on recycling by a significant margin, and, as I said, moreover, we've taken over even in Europe.

Diolch i chi, Lywydd, a diolch i'r pwyllgor am eu hymchwiliad. Rwy'n cefnogi eu canfyddiadau. Rwy'n cytuno bod pobl Cymru wedi gwneud ymdrech wych i ailgylchu eu gwastraff. Lywydd, mae'n rhaid ei bod yn anodd i Antoinette Sandbach longyfarch y Llywodraeth ar wneud rhywbeth yn wirioneddol dda. Mae hi hyd yn oed wedi dweud ein bod yn haeddu wyth allan o 10. Mewn gwirionedd, ni yw'r gorau yn y DU a'r gorau ond tair gwlad arall yn Ewrop. Rwy'n hynod o falch o'n hawdurdodau lleol yn gwneud eu gwaith ac yn cyflawni ar gyfer pobl Cymru. Yn anffodus, mae gan yr Aelod gyferbyn â mi agwedd negyddol tuag at Gymru ac yn difrïo Cymru ar bob cyfle. Cymru sydd bellach yn arwain ar ailgylchu yn y DU o gryn dipyn, ac fel y dywedais, ar ben hynny, rydym ar y blaen yn Ewrop hefyd hyd yn oed.

In respect of the detail in recommendation 1, the blueprint approach will help local authorities to better provide high-quality recyclate to the market, thus increasing the chances of it being used by reprocessers and manufacturing companies in Wales. This will help local authorities deliver their wellbeing goals as proposed in the Well-being of Future Generations (Wales) Bill yesterday, especially in goal 1, 'a prosperous Wales', and goal 2, 'a resilient Wales'. I know Julie Morgan is very interested in goal 7, 'a responsible Wales'. This will, in turn, help Wales to move towards that circular economy, creating new jobs and building certainly a better, resilient environment for businesses, and using only our fair share of the world's resources.

O ran manylion argymhelliad 1, bydd y glasbrint yn helpu awdurdodau lleol i wella'r ddarpariaeth o ddeunyddiau ailgylchu o ansawdd uchel i'r farchnad, gan gynyddu'r gobaith y caiff ei ddefnyddio gan ailbroseswyr a chwmnïau gweithgynhyrchu yng Nghymru. Bydd hyn yn helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu hamcanion lles fel y cawsant eu hargymell ym Mil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ddoe, yn enwedig yn nod 1, 'Cymru lewyrchus', a nod 2, 'Cymru gydnerth'. Rwy'n gwybod fod gan Julie Morgan ddiddordeb mawr yn nod 7, 'Cymru gyfrifol'. Bydd hyn, yn ei dro, yn helpu Cymru i symud at yr economi gylchol honno, gan greu swyddi newydd a sicrhau amgylchedd gwell a mwy cydnerth i fusnesau, heb ddefnyddio mwy na'n cyfran deg o adnoddau'r byd.

Some local authorities believe that the separate collection and kerbside sort approach, advocated in the blueprint, won't work in their type of council area. However, experience across Wales shows that kerbside sort works well across all types of local authorities, from rural Conway and Powys to Valley authorities such as Bridgend and Torfaen and cities like Newport. It can be done. We are already planning to update the blueprint in 2015. In gathering and reviewing the evidence and updating the blueprint, we will work closely with key stakeholders, including the Welsh Local Government Association.

Mae rhai awdurdodau lleol yn credu na fydd y dull o gasglu a didoli ar ymyl y ffordd, sy'n cael ei argymell yn y glasbrint, yn gweithio yn ardal eu cyngor hwy. Fodd bynnag, mae profiad ledled Cymru yn dangos bod didoli ar ymyl y ffordd yn gweithio'n dda i bob math o awdurdod lleol, o gefn gwlad Conwy a Phowys i awdurdodau yn y Cymoedd megis Pen-y-bont ar Ogwr a Thorfaen a dinasoedd fel Casnewydd. Mae modd ei wneud. Rydym eisoes yn cynllunio i ddiweddaru'r glasbrint yn 2015. Wrth gasglu ac adolygu'r dystiolaeth a diweddaru'r glasbrint, byddwn yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

I think what I learned from listening to the inquiry process, and certainly talking to stakeholders, was that the problem we have is that the investment made by local authorities currently is significant and they've gone down a pathway to change, and we have evidence in the amount of recycling rates, which is clear, but there is some nervousness about the change of vehicles or receptacles longer term. I think that's the discussion we have. We all realise that the blueprint, we believe, is the right method to move to, but it's about giving the authorities the resilience and time to get there—to the other side—in terms of how they will manage that process.

Rwy'n credu mai'r hyn a ddysgais o wrando ar broses yr ymchwiliad, ac yn sicr o siarad â rhanddeiliaid, oedd mai'r broblem sydd gennym yw bod y buddsoddiad a wneir gan awdurdodau lleol yn sylweddol ar hyn o bryd ac maent wedi dilyn llwybr tuag at newid. Mae gennym dystiolaeth yn y cyfraddau ailgylchu, sy'n glir, ond mae rhywfaint o nerfusrwydd ynglŷn â newid cerbydau neu gynwysyddion yn y tymor hir. Rwy'n credu mai dyna yw testun y drafodaeth rhyngom. Rydym i gyd yn sylweddoli mai'r glasbrint yw'r dull cywir i symud tuag ato yn ein barn ni, ond mae'n ymwneud â chryfhau awdurdodau a rhoi amser iddynt gyrraedd yno—i'r ochr arall—o ran sut y byddant yn rheoli'r broses honno.

The review will take into account the recent testing of the blueprint approach that has been a part of the collaborative change programme. That reviewed a number of local authorities and, in each case, the blueprint has been found to be the most cost-effective option. But, as I said earlier, it's about how we encourage local authorities to move from the here and now to a better blueprint provision. Therefore, while the reviewing of the blueprint is under way, it's imperative that local authorities do not delay their efforts to review their services and make any necessary changes to achieve significant cost savings.

Bydd yr adolygiad yn ystyried y profion diweddar ar y dull glasbrint sydd wedi bod yn rhan o'r rhaglen newid gydweithredol. Adolygodd nifer o awdurdodau lleol ac ym mhob achos, canfuwyd mai'r glasbrint oedd yr opsiwn mwyaf costeffeithiol. Ond fel y dywedais yn gynharach, mae'n ymwneud â sut rydym yn annog awdurdodau lleol i symud o'r fan hon i ddarparu glasbrintiau gwell. Felly, tra bod yr adolygiad ar y glasbrint ar y gweill, mae'n hanfodol nad yw awdurdodau lleol yn gohirio eu hymdrechion i adolygu eu gwasanaethau a gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i sicrhau arbedion sylweddol o ran costau.

I think, as we explained in the results, many authorities have taken many different approaches to their local environment, but it's clear from the buy-in from the consumer—the customer or the constituent—that we in Wales are leading the way.

Fel yr eglurwyd gennym yn y canlyniadau, rwy'n credu bod llawer o awdurdodau wedi dewis llawer o ddulliau gwahanol o ddiogelu eu hamgylchedd lleol, ond mae'n amlwg o gefnogaeth y defnyddiwr—y cwsmer neu'r etholwr—ein bod yn arwain y ffordd yng Nghymru.

On recommendation 2, I agree with the committee's views on a more standardised approach to the colours of receptacles, but I think we can and should go a lot further. Efficiencies will be significantly enhanced when the type of receptacle, the type of collection vehicle, and the design of the marketing materials are more standard across Wales. I do recognise this, and it's in accordance again with the collections blueprint.

O ran argymhelliad 2, rwy'n cytuno â barn y pwyllgor ar safoni lliwiau cynwysyddion yn well, ond rwy'n credu y gallwn ac y dylem fynd yn llawer pellach. Bydd arbedion effeithlonrwydd yn gwella'n sylweddol pan fydd y math o gynhwysydd, y math o gerbyd casglu a dyluniad y deunyddiau marchnata yn fwy safonol ledled Cymru. Rwy'n cydnabod hyn, ac unwaith eto mae'n cyd-fynd â'r glasbrint casgliadau.

On recommendation 3, local authorities have a legal duty to provide information on the recyclate that they collect and ultimately use. This information, as mentioned, is already available, but I will give further consideration in terms of how that is understood by constituents across Wales and how residents can use that information to the best of their ability.

O ran argymhelliad 3, mae dyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau lleol i roi gwybodaeth am y deunydd ailgylchu y maent yn ei gasglu ac yn ei ddefnyddio yn y pen draw. Mae'r wybodaeth hon ar gael eisoes, fel y crybwyllwyd, ond byddaf yn ystyried ymhellach sut y caiff ei deall gan etholwyr ledled Cymru a sut y gall trigolion ddefnyddio'r wybodaeth hyd eithaf eu gallu.

On recommendation 4, we will investigate the weight-based targets and whether they are having an unintended impact on reducing the ecological footprint of waste. I listened to Bill very carefully. What we're actually seeking to do is to reduce the amount of waste that we produce in the first place. So, there is irony in having a weight-based target. It seems slightly flawed to me, but it's worth noting. The EU waste directive targets are all weight-based, so we have to make sure we fit into that process.

O ran argymhelliad 4, byddwn yn ymchwilio i'r targedau sy'n seiliedig ar bwysau ac yn edrych a ydynt yn cael effaith anfwriadol ar leihau ôl troed ecolegol gwastraff. Gwrandewais ar y Bil yn ofalus iawn. Yr hyn rydym yn ceisio ei wneud, mewn gwirionedd, yw lleihau'r gwastraff rydym yn ei gynhyrchu yn y lle cyntaf. Felly, mae yna eironi mewn cael targed sy'n seiliedig ar bwysau. Mae'n ymddangos ychydig yn ddiffygiol i mi, ond mae'n werth ei nodi. Mae pob un o dargedau cyfarwyddeb wastraff yr UE yn seiliedig ar bwysau, felly mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr ein bod yn cydweddu â'r broses honno.

Julie Morgan mentioned the customer buy-in, what we recycle and how we recycle. I was visiting Conwy recently and looking at their recycling provision. They go out and talk to people. They go and talk to communities where they're having a low collection rate, asking them the reasons why and encouraging them to do it. I think that it was really interesting. The week I visited was Hallowe'en week. I'd never seen so many pumpkins being recycled in this site. It did actually a special type of newsletter or information programme, saying, 'Let's not just throw this away. You could use your pumpkin or recycle'. So, there are some clever things going on, just thinking differently, and there are some innovative programmes across Wales taking place.

Soniodd Julie Morgan am gefnogaeth y cwsmer, yr hyn rydym yn ei ailgylchu a sut rydym yn ailgylchu. Roeddwn yng Nghonwy yn ddiweddar ac yn edrych ar eu darpariaeth ailgylchu. Maent yn mynd allan i siarad â phobl. Maent yn mynd i siarad â chymunedau lle y mae'r gyfradd gasglu yn isel, yn gofyn iddynt am y rhesymau pam ac yn eu hannog i wneud. Rwy'n credu ei fod yn ddiddorol iawn. Es yno yn ystod wythnos Calan Gaeaf. Nid oeddwn erioed wedi gweld cymaint o bwmpenni ag a welais yn cael eu hailgylchu ar y safle. Mewn gwirionedd, roedd ganddynt rywfath o gylchlythyr neu raglen wybodaeth a ddywedai, 'Beth am i ni beidio â thaflu hwn. Gallech ddefnyddio eich pwmpen neu ei hailgylchu'. Felly, mae rhai pethau clyfar yn digwydd, drwy feddwl yn wahanol, ac mae rhaglenni arloesol i'w cael ledled Cymru.

On recommendation 5, we will investigate the relationship between projects from waste prevention, changes in the composition of waste, and the ability of local authorities to meet future recycling targets. It's going to be a huge challenge to meet the new targets, but we must do it and we must continue to do that by supporting local authorities in the way that they collect.

O ran argymhelliad 5, byddwn yn ymchwilio i'r berthynas rhwng prosiectau atal gwastraff, newidiadau yng nghyfansoddiad gwastraff, a gallu awdurdodau lleol i gyrraedd targedau ailgylchu yn y dyfodol. Mae cyrraedd y targedau newydd yn mynd i fod yn her enfawr, ond rhaid i ni wneud hynny ac mae'n rhaid i ni barhau i wneud hynny drwy gefnogi awdurdodau lleol o ran y ffordd y maent yn ei gasglu.

On recommendation 6, the Welsh Government has already asked the waste and resources action programme to help local authorities improve the marketing of materials for recycling. This includes assistance for the potential benefits of a brokerage system for local authorities' recyclate. We believe that if we can get the quality of recyclate up, and we have more of a mass, then there is certainly a financial benefit for many of the local authorities that engage in this process.

O ran argymhelliad 6, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi gofyn i raglen weithredu'r cynllun gwastraff ac adnoddau gynorthwyo awdurdodau lleol i wella'r gwaith o farchnata deunyddiau i'w hailgylchu. Mae hyn yn cynnwys cymorth ar gyfer manteision posibl system froceriaeth ar gyfer deunydd ailgylchu awdurdodau lleol. Yn sicr, os gallwn wella ansawdd y deunydd, a bod gennym fwy o fàs, rwy'n credu bod budd ariannol i lawer o'r awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan yn y broses hon.

Finally, on recommendation 7, a national campaign to promote awareness of the need for reduction, reuse and recycling to achieve behaviour change has been running since 2004. It's clearly worked in terms of driving this rate up. I've just received an e-mail today, actually, telling us how effective the communication programme is. I think actually talking to our young people in schools, that's where the key is for the future. We talk to eco-schools on how they talk around school councils and environment councils, and they certainly take the issue back home and encourage parents and their family members to recycle. I think that's something that we're trying to promote even more with third-party organisations.

Yn olaf, ynglŷn ag argymhelliad 7, mae ymgyrch genedlaethol i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r angen i leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu er mwyn newid ymddygiad wedi bod ar waith ers 2004. Mae'n amlwg ei bod wedi gweithio o ran codi'r gyfradd hon. Heddiw ddiwethaf mewn gwirionedd, cefais e-bost yn dweud pa mor effeithiol yw'r rhaglen gyfathrebu. Rwy'n credu mai'r hyn sy'n allweddol i ni ar gyfer y dyfodol yw mynd i siarad â phobl ifanc yn ein hysgolion. Rydym yn siarad ag eco-ysgolion ynglŷn â sut y maent yn trafod gyda chynghorau ysgol a chynghorau amgylchedd, ac maent yn sicr yn mynd â'r mater yn ôl adref ac yn annog rhieni ac aelodau o'u teuluoedd i ailgylchu. Rwy'n credu bod hynny'n rhywbeth rydym yn ceisio ei hyrwyddo'n fwy fyth i sefydliadau trydydd parti.

We will consider the merits of extending the existing campaigns, helping drive the higher rates of waste prevention, reuse and recycling; however, the higher priority may be communicating with householders more at a local level where we are seeing some low levels of recyclate.

Byddwn yn ystyried manteision ymestyn yr ymgyrchoedd presennol, gan helpu i ysgogi cyfraddau uwch o atal, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff; fodd bynnag, efallai mai'r brif flaenoriaeth fydd cyfathrebu gyda deiliaid tai ar lefel leol lle y gwelwn fod lefelau deunydd ailgylchu'n isel.

Finally, if I may, Presiding Officer, in conclusion, waste is a major success story for Wales, but we can and should do more. We need to create a truly circular economy in Wales whereby materials are kept in production for as long as possible. I was interested around the Corona factor that Members raised this afternoon on the deposit return scheme. I think, by virtue of the way we now purchase items—on the internet et cetera—we don't have the Corona van coming around delivering and taking the bottles back in most areas. [Interruption.] I'm not saying that that's a bad thing or a good thing; I'm saying the problem is we've got a different method of how we purchase things now. I think there is something in there. There is a scheme that does operate in the UK of recyclate—a recycle and reward scheme. I know some of the larger companies operate that. I am looking at that with my team and I will update the Assembly at the appropriate moment on that very principle.

Yn olaf, os caf gloi gyda hyn, Lywydd, mae gwastraff yn faes sydd wedi dod â llwyddiant mawr i Gymru, ond gallwn wneud rhagor, ac fe ddylem wneud rhagor. Mae angen i ni greu economi hollol gylchol yng Nghymru lle y gwneir defnydd o ddeunyddiau am gyn hired â phosibl. Roedd gennyf ddiddordeb yn y ffactor Corona a grybwyllwyd gan yr Aelodau y prynhawn yma mewn perthynas â'r cynllun dychwelyd blaendal. Yn rhinwedd y ffordd rydym yn awr yn prynu eitemau, rwy'n credu—ar y rhyngrwyd ac yn y blaen—nid yw'r fan Corona yn dod o gwmpas yn cyflenwi ac yn cymryd poteli'n ôl yn y rhan fwyaf o ardaloedd. [Torri ar draws.] Nid wyf yn dweud bod hynny'n beth drwg na'n beth da; rwy'n dweud mai'r broblem yw bod gennym ddulliau gwahanol o brynu pethau bellach. Rwy'n credu bod rhywbeth yn y peth. Ceir cynllun sy'n weithredol yn y DU ar gyfer deunydd ailgylchu—cynllun ailgylchu a gwobrwyo. Rwy'n gwybod bod rhai o'r cwmnïau mwy o faint yn ei weithredu. Rwy'n edrych ar hyn gyda fy nhîm a byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am y mater pan fo'n briodol.

Local authorities across Wales have done extremely well. We should be very proud of Wales's position in terms of recycling. Thank you.

Mae awdurdodau lleol ledled Cymru wedi gwneud yn hynod o dda. Dylem fod yn falch iawn o safle Cymru o ran ailgylchu. Diolch yn fawr.

15:45 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Minister. I call on the Chair of the committee to reply to the debate—Alun Ffred Jones.

Diolch i chi, Weinidog. Galwaf ar Gadeirydd y pwyllgor i ymateb i'r ddadl—Alun Ffred Jones.

15:45 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi cymryd rhan—y Gweinidog a'r Aelodau—ac mi fyddwn yn ailadrodd bod y pwyllgor wedi cael ei galonogi gan y ffaith bod Cymru ar y blaen o ran ailgylchu yn y Deyrnas Unedig.

Thank you very much to everyone who has contributed—the Minister and Members— and I would reiterate that the committee has been encouraged by the fact that Wales is in the vanguard with regard to recycling in the UK.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:45.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:45.*

**Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rŵan, mae'r pwyntiau sydd wedi cael eu gwneud gan yr Aelodau i gyd yn berthnasol ac yn rhai y dylai'r Llywodraeth, y Gweinidog ac, wrth gwrs, awdurdodau lleol gymryd sylw ohonyn nhw. O ran y pwynt, rwy'n credu, yr oedd Julie Morgan yn ei wneud wrth sôn am wastraff gwyrdd, nid ydym yn ailgylchu er mwyn ailgylchu, jest er ei fwyn ei hun. Mae'n rhaid bod yna bwrpas i ailgylchu, a hwnnw ydy ailddefnyddio neu ddefnyddio llai o adnoddau'r ddaear, a dyna ddylai'r ffocws fod arno. Dyna, mewn gwirionedd, wnaiff berswadio mwy o bobl i ailgylchu yn y tymor hir.

The points that have been made by Members are all relevant and are ones that the Government, the Minister and also local authorities should take note of. On the point that Julie Morgan made, when talking about green waste, we don't recycle for recycling's sake. There has to be a purpose to recycling, and that is reusing or to use less of the earth's resources, and that is what the focus should be on. That, in truth, is what will persuade more people to recycle in the longer term.

Mi ddaru'r Gweinidog sôn am gael cysondeb ar draws Cymru, ac mae hynny'n thema yn ein trafodaethau ni. Ond, y gwir amdani yw y byddem mewn lle gwell heddiw pe bai'r cysondeb hwnnw wedi digwydd 10 mlynedd yn ôl, yn hytrach na chael ein hunain, fel ag yr ydym, gyda systemau gwahanol a buddsoddi sylweddol wedi digwydd mewn gwahanol fathau o ffyrdd o gasglu. Ond, efallai y daw'r darlun yn gliriach wrth inni edrych ymlaen.

The Minister talked about consistency across Wales and that is a theme in our discussions. But, the truth is that we would be in a better situation today if that consistency had been achieved 10 years ago, rather than finding ourselves in a situation, as we are in today, with different systems and significant investment having been made in different methods of collection. Perhaps the picture will become clearer as we look to the future.

Wrth edrych ar gyfiawnhad dros ailgylchu, mi gafwyd cyfeiriad gan Antoinette Sandbach at yr 'anaerobic digester', ac mae hwnnw heb fod ymhell o'm cartref i, ac mae yna wers i'w dysgu yn y fan hyn. Y diwrnod yr agorwyd y safle, mi roedd yna nifer fawr o bobl leol, yn ffermwyr ac yn bobl gyffredin, yn aelodau o'r cyngor cymuned ac yn y blaen, wedi hel at ei gilydd, ac rwy'n credu bod gweld pen draw y broses ailgylchu, rywsut neu'i gilydd, yn gwneud llawer iawn mwy o synnwyr, felly, o'r alwad i ailgylchu. Mi roedd y ffaith eu bod nhw'n gallu casglu'r bwyd yma a mynd â fo i safle, a oedd ddim yn rhy bell i ffwrdd, a bod yna ganlyniad i hynny, sef trydan yn cael ei gynhyrchu ohono fo, yn cyfiawnhau'r peth ac, rwy'n credu, yn anogaeth i bobl ailgylchu rhagor. Dyna, rwy'n credu, ddylem ni fod yn anelu at wneud ymhob un maes ailgylchu, er mwyn inni nid yn unig, fel yr oedd y Gweinidog yn ei ddweud, gael budd economaidd allan o'r peth, ond hefyd er mwyn inni fyw yn llawer iawn gwell o ran ein defnydd ni o adnoddau'r ddaear. Diolch yn fawr iawn.

In looking at the justification for recycling, reference was made by Antoinette Sandbach to the anaerobic digester and that isn't too far away from my home. There is a lesson to be learnt here. On the day that the site was opened, there were a number of local people, farmers and people from the area, members of the community council and so on, who had gathered, and I think that seeing the end point of that recycling process, for some reason, made a great deal more sense of the call to recycle. The fact that they could collect this food waste and take it to a site that wasn't too far away and that there was a consequence to that, which was that electricity was generated, justified the process. I think it was an encouragement for people to recycle more. I think that's what we should be aiming to do in every aspect of recycling so that we, as the Minister said, not only derive economic benefit from it, but can also live a much better way of life in terms of our use of the earth's resources. Thank you.

15:48 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to note the Environment and Sustainability Committee's report. Does any Member object? The motion is therefore agreed, in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw nodi adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, mae'r cynnig yn cael ei dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## 5. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Twf Economaidd

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 2 a 4 yn enw Aled Roberts, a gwelliannau 3 a 5 yn enw Elin Jones. Os derbynnir gwelliant 2, bydd gwelliant 3 yn cael ei ddad-ddethol.*

## 5. Welsh Conservatives Debate: Economic Growth

*The following amendments have been selected: amendments 1, 2 and 4 in the name of Aled Roberts, and amendments 3 and 5 in the name of Elin Jones. If amendment 2 is agreed, amendment 3 will be deselected.*

15:48

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Item 5 is the Welsh Conservatives' debate on economic growth. I call on William Graham to move the motion.

Eitem 5 yw dadl y Ceidwadwyr Cymreig ar dwf economaidd. Galwaf ar William Graham i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5717 Paul Davies

Motion NDM5717 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi diffyg uchelgais Llywodraeth Cymru o ran gwella'r amodau ar gyfer twf economaidd yng Nghymru;

1. Notes the Welsh Government's lack of ambition to improve the conditions for economic growth in Wales;

2. Yn cydnabod cyfraniad sylweddol busnesau gwledig i economi Cymru, ond yn nodi'r potensial ar gyfer mwy o dwf; a

2. Recognises the significant contribution of rural businesses to the Welsh economy but notes the potential for increased growth; and

3. Yn annog Llywodraeth Cymru i gefnogi busnesau ledled Cymru drwy:

3. Urges the Welsh Government to support businesses across Wales by:

a) gwella isadeiledd, cysylltedd a sgiliau ledled Cymru;

a) Improving infrastructure, connectivity and skills throughout Wales;

b) gwella rôl awdurdodau lleol o ran eu cyfraniad at dwf economaidd;

b) enhancing the role of local authorities in their contribution to economic growth;

c) gwella mynediad at gyllid i bob busnes yng Nghymru; a

c) improving access to finance for all Welsh businesses; and

d) cynyddu'r gyfradd eithrio ar gyfer pob eiddo busnes sydd â gwerth ardrethol o lai na £12,000.

d) increasing rate exemption for all business premises with a rateable value of less than £12,000.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

15:48

### William Graham Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The purpose of our today's debate is to call upon the Welsh Government to ensure that we are all working towards the same goal: economic prosperity and success, jobs and growth. It is no secret that the previous Labour Government has left us with the biggest budget deficit in post-war history, a substantial build-up of uncontrollable private debt, accompanied by a global banking crisis, which in this country has largely been brought about by their lack of adequate fiscal control, and an erosion of our competitiveness in an era where global competition and the global race for economic future has rapidly accelerated.

Pwrpas ein dadl heddiw yw galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau ein bod i gyd yn gweithio tuag at yr un nod: ffyniant economaidd a llwyddiant, swyddi a thwf. Nid yw'n gyfrinach bod y Llywodraeth Lafur flaenorol wedi ein gadael gyda'r diffyg mwyaf yn y gyllideb ers y rhyfel, croniad sylweddol o ddyled breifat na ellir ei rheoli, ynghyd ag argyfwng bancio byd-eang a achoswyd i raddau helaeth yn y wlad hon gan eu diffyg rheolaeth ariannol, ac erydiad ein cystadleurwydd mewn cyfnod pan fo'r gystadleuaeth fyd-eang a'r ras fyd-eang i sicrhau dyfodol economaidd wedi cyflymu'n sydyn.

In order to stimulate the Welsh economy, the Welsh Conservatives want to see business rates cut and our enterprise zones thriving to the level of their English counterparts. We need to invest in people, and ensure that education and apprenticeships are preparing future generations for diverse and highly skilled employment. Through improving our infrastructure, via road, rail and air, we want Wales to become better connected with the rest of the United Kingdom and, of course, Europe. We need to embrace shared responsibility of business, and central Government and local government to be organised and structured for success in economic growth.

Er mwyn ysgogi economi Cymru, mae'r Ceidwadwyr Cymreig eisiau gweld ardrethi busnes yn gostwng a'n hardaloedd menter yn ffynnu ac yn cyrraedd yr un lefel â'u tebyg yn Lloegr. Mae angen i ni fuddsoddi mewn pobl, a sicrhau bod addysg a phrentisiaethau'n paratoi cenedlaethau'r dyfodol ar gyfer mathau amrywiol a medrus iawn o gyflogaeth. Drwy wella ein seilwaith ffyrdd, rheilffyrdd ac awyr, rydym am wella'r cysylltiad rhwng Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig ac Ewrop, wrth gwrs. Mae angen i ni fod yn barod i rannu cyfrifoldeb am fusnes, ac mae angen trefnu a strwythuro Llywodraeth ganolog a llywodraeth leol er mwyn cyflawni twf economaidd.

In November 2012, Lord Heseltine published 'No stone unturned: in pursuit of growth', a comprehensive exploration of how economic growth can be more effectively achieved. Taking full account of the Government's national growth strategy, he recommended that local authorities and enterprise zones, in collaboration with local stakeholders, should lead the development of a long-term strategy and a business plan for each area that will be used to bid for economic growth funds.

Ym mis Tachwedd 2012, cyhoeddodd yr Arglwydd Heseltine 'No stone unturned: in pursuit of growth', sef archwiliad cynhwysfawr o sut y gellir cyflawni twf economaidd yn fwy effeithiol. Gan roi ystyriaeth lawn i strategaeth twf cenedlaethol y Llywodraeth, roedd yn argymell y dylai awdurdodau lleol ac ardaloedd menter, ar y cyd â rhanddeiliaid lleol, arwain y gwaith o ddatblygu strategaeth hirdymor a chynllun busnes ar gyfer pob ardal i'w defnyddio ar gyfer gwneud ceisiadau am gyllid twf economaidd.

Local authorities should have an overarching duty to have regard to economic development in the exercise of all their activities and functions. Where local authorities share a functional economic market area, they should be required to collaborate on economic development and perhaps share a proportion of business rates levied locally. The Cardiff business partnership believes that the Welsh economy has fallen behind the rest of the United Kingdom in the last 20 years due to the lack of appropriate infrastructure. They commented that good transport connectivity is crucial for economic growth.

Dylai awdurdodau lleol gael dyletswydd gyffredinol i ystyried datblygiad economaidd wrth arfer eu holl weithgareddau a swyddogaethau. Mewn achosion lle y mae awdurdodau lleol yn rhannu ardal farchnad economaidd weithredol, dylai fod gofyn iddynt gydweithio ar ddatblygu economaidd a rhannu cyfran o'r ardrethi busnes sy'n cael eu codi'n lleol, o bosibl. Mae partneriaeth fusnes Caerdydd yn credu bod economi Cymru wedi llusgo y tu ôl i weddill y Deyrnas Unedig yn y 20 mlynedd diwethaf oherwydd diffyg seilwaith priodol. Nodwyd ganddynt fod cysylltedd trafnidiaeth da yn hanfodol ar gyfer twf economaidd.

Those who have listened to me in this Chamber and elsewhere know that I have continued to be an advocate in a personal capacity for the motorway solution of the M4 around Newport, and I acknowledge that many other parts of the network require early solution. Every day that the M4 continues to creak under the strain of congestion without a relief road means rising costs, more missed opportunities for companies to invest, and more lost trade for businesses in Wales.

Mae pawb sydd wedi gwrando arnaf yn y Siambr hon ac mewn mannau eraill yn gwybod fy mod fel unigolyn wedi dadlau o blaid traffordd i ddatrys problem yr M4 o amgylch Casnewydd, ac rwy'n cydnabod bod llawer o rannau eraill o'r rhwydwaith yn galw am ateb buan. Mae pob diwrnod y bydd yr M4 yn parhau i wichian dan straen tagfeydd heb ffordd liniaru yn golygu costau cynyddol, cwmnïau'n colli mwy o gyfleoedd i fuddsoddi a busnesau yng Nghymru yn colli mwy o fasnach.

15:51 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention on that point?

A wnewch chi dderbyn ymyriad ar y pwynt hwnnw?

15:51 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No.

Na wnaf.

The M4 corridor around Newport is a key economic gateway to Wales, yet its present inadequate condition is proving a huge burden on Wales's potential for economic growth. Discussions began in 1991 regarding the need for a relief road and now, in 2015, discussions are still continuing. The lack of pace is having considerable negative impacts on Wales's infrastructural integration with other parts of the United Kingdom.

Mae coridor yr M4 o amgylch Casnewydd yn borth economaidd allweddol i mewn i Gymru, eto i gyd, mae ei gyflwr annigonol ar hyn o bryd yn profi'n faich enfawr ar botensial Cymru i sicrhau twf economaidd. Dechreuodd trafodaethau yn 1991 ynghylch yr angen am ffordd liniaru ac yn awr, yn 2015, mae'r trafodaethau yn dal i barhau. Mae'r diffyg cyflymder yn cael effeithiau negyddol sylweddol ar integreiddio seilwaith Cymru â rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

As stated in the St David's Day 'Powers for a purpose' devolution settlement proposal, the Welsh Government will remain increasingly accountable for providing the people of Wales with diverse and appropriate skills. We know that the Conservative-led Government at Westminster have managed to improve the lives of hard-working families in the last few years. Inflation is now at its lowest level for 55 years. In economic terms, inflation destroys capital and erodes everybody's income. Unemployment is now just over 5.5 per cent— the lowest for six years—and 31 million people are in work throughout the United Kingdom, the highest level ever recorded in our history. Jobcentre Plus and the Work Programme will continue to operate in Wales to ensure that the highest levels of employment can be maintained. The Welsh Government retains responsibility for developing skills in Wales and the Welsh Ministers will have the powers to organise training. Thus there will be a need for better co-ordination between the two Governments to ensure that there's seamless delivery.

Fel y nodwyd yng nghynnig setliad datganoli Dydd Gŵyl Dewi, 'Pwerau at bwrpas', bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn gynyddol atebol am ddarparu sgiliau amrywiol a phriodol i bobl Cymru. Gwyddom fod y Llywodraeth dan arweiniad y Ceidwadwyr yn San Steffan wedi llwyddo i wella bywydau teuluoedd gweithgar yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae chwyddiant bellach yn is nag y bu ers 55 mlynedd. Mewn termau economaidd, mae chwyddiant yn dinistrio cyfalaf ac erydu incwm pawb. Mae diweithdra bellach ychydig dros 5.5 y cant—y lefel isaf ers chwe blynedd—ac mae 31 miliwn o bobl mewn gwaith ledled y Deyrnas Unedig, sef y lefel uchaf a gofnodwyd erioed yn ein hanes. Bydd y Ganolfan Byd Gwaith a'r Rhaglen Waith yn parhau i weithredu yng Nghymru er mwyn sicrhau y gallwn gynnal y lefelau uchaf o gyflogaeth. Mae Llywodraeth Cymru yn cadw cyfrifoldeb am ddatblygu sgiliau yng Nghymru a bydd gan Weinidogion Cymru bwerau i drefnu hyfforddiant. Felly, bydd angen cydlynu gwell rhwng y ddwy Lywodraeth er mwyn sicrhau darpariaeth ddi-dor.

During the Enterprise and Business Committee, we were considering the barriers to employment for both young people and for those over 50 years old, and we noted a perception arising from the evidence presented to us. There is a misunderstood barrier that suggests that younger people have the qualifications but not the experience, and older people have the experience but not the qualifications. This is a misunderstood barrier because, for both age groups, the answer is the same: they both need to acquire a strong knowledge and intelligence about the labour market, together with an understanding of how each potential employer recruits their employees. The failure to gain this knowledge too often results in people submitting numerous applications in a scattergun approach. Targeting employees with the vacancies that they particularly could actually attain is a key part of this policy.

Yn ystod y Pwyllgor Menter a Busnes, fe ystyriwyd y rhwystrau i gyflogaeth ymhlith pobl ifanc a rhai dros 50 oed, a gwelsom ganfyddiad a godai o'r dystiolaeth a gyflwynwyd i ni. Ceir rhwystr, sy'n cael ei gamddeall, sy'n awgrymu bod gan bobl iau gymwysterau ond nad oes ganddynt brofiad, a bod gan bobl hŷn brofiad ond nid oes ganddynt gymwysterau. Mae'n rhwystr sy'n cael ei gamddeall gan mai'r un yw'r ateb ar gyfer y ddau grŵp oedran: mae angen iddynt gael gwybodaeth gadarn am y farchnad lafur, ynghyd â dealltwriaeth ynglŷn â sut y mae pob darpar gyflogwr yn recriwtio eu gweithwyr. Yn rhy aml, mae methiant i ddod o hyd i'r wybodaeth hon yn golygu bod pobl yn cyflwyno ceisiadau niferus mewn modd gwasgaredig. Mae targedu gweithwyr â swyddi y gallent hwy'n benodol eu cael mewn gwirionedd yn rhan allweddol o'r polisi hwn.

Welsh Ministers have a responsibility to increase collaboration and strengthen ties between higher education institutions and businesses to ensure that school or university leavers have the correct skills. Too often we hear that Welsh businesses are facing challenges with recruitment. This links in to our long-term economic plan for Wales, as we need to invest in our people to create a more dynamic economy. In economic terms, going towards the future, we know that jobs and growth are the absolute mantra that we must employ in all our economic philosophies. Whilst it is great news that 14,000 businesses were created in 2014, this accounted for only 2.5 per cent of the total of new firms for the United Kingdom as a whole. As the Welsh economy's share of all UK business is around 4 per cent, this means that we are underperforming as a nation when it comes to creating new entrepreneurs. In addition, the 5 per cent growth in the number of new businesses in 2014 was also considerably behind that of other United Kingdom regions.

Mae gan Weinidogion Cymru gyfrifoldeb i wella cydweithrediad a chryfhau cysylltiadau rhwng sefydliadau addysg uwch a busnesau er mwyn sicrhau bod y sgiliau cywir gan y rhai sy'n gadael ysgol neu brifysgol. Yn rhy aml, fe glywn fod busnesau Cymru yn wynebu heriau gyda recriwtio. Mae hyn yn cysylltu â'n cynllun economaidd hirdymor ar gyfer Cymru, gan fod angen i ni fuddsoddi yn ein pobl er mwyn creu economi fwy dynamig. Mewn termau economaidd, wrth edrych tua'r dyfodol, gwyddom mai swyddi a thwf yw'r mantra diamod y mae'n rhaid i ni ei ddefnyddio yn ein holl athroniaethau economaidd. Er ei fod yn newyddion gwych fod 14,000 o fusnesau wedi cael eu creu yn 2014, 2.5 y cant yn unig o gyfanswm y cwmnïau newydd yn y Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd oedd hyn. Gan fod cyfran economi Cymru o holl fusnes y DU oddeutu 4 y cant, mae hyn yn golygu ein bod yn tangyflawni fel cenedl o ran creu entrepreneuriaid newydd. Yn ogystal, mae'r twf o 5 y cant yn nifer y busnesau newydd yn 2014 gryn dipyn yn llai na'r hyn a welwyd yn rhanbarthau eraill y Deyrnas Unedig.

The autumn statement saw a focus by George Osborne on generating a northern powerhouse by getting the cities of Liverpool, Manchester, Leeds, Sheffield and Newcastle to work more collaboratively together to set up a vast urban economic zone that could rival London and the south-east. Whilst this focus on bigger city regions in England could be seen as a threat, it could also be the catalyst to get Cardiff, Swansea, Newport and Bristol to work closely together to ensure there is greater collaboration and co-operation across their respective city regions.

Roedd datganiad yr hydref yn dangos ffocws George Osborne ar greu pwerdy yn y gogledd drwy gael dinasoedd Lerpwl, Manceinion, Leeds, Sheffield a Newcastle i gydweithio'n well i sefydlu ardal economaidd drefol helaeth a allai gystadlu â Llundain a'r de-ddwyrain. Er y gellid gweld y ffocws hwn ar ranbarthau dinesig mwy o faint yn Lloegr fel bygythiad, gallai hefyd fod yn gatalydd i gael Caerdydd, Abertawe, Casnewydd a Bryste i weithio'n agos gyda'i gilydd i sicrhau bod mwy o gydweithredu a chydweithio ar draws eu dinas-ranbarthau.

15:54 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm very grateful to you. In terms of a catalyst for sustainable economic growth, will you join me in supporting the Circuit of Wales proposal in Blaenau Gwent? [Laughter.]

Rwy'n ddiolchgar iawn i chi. O ran catalydd ar gyfer twf economaidd cynaliadwy, a wnewch chi ymuno â mi i gefnogi cais Cylchffordd Cymru ym Mlaenau Gwent? [Chwerthin.]

15:55 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for Blaenau Gwent and certainly endorse his sentiments in that nature.

Diolch i'r Aelod dros Flaenau Gwent ac rwy'n sicr yn ategu ei deimladau yn yr un natur.

There is a case for further funding to make a Severnside or great western cities economic region. We need to equip and give our businesses the right tools, especially in Wales, with our unique and verdant landscape. Welsh Conservatives have welcomed yesterday's report on a development bank for Wales, which sets out a series of recommendations aimed at improving access to finance for small businesses. The development bank for Wales will follow a hybrid model where the primary focus will be on addressing market failure in key sectors of the SME community by working more closely in partnership with key stakeholders to deliver a wider range of financial products and services—a bit like the WDA before 2006. We welcome the principles behind the recommendations, which emulate our 'Invest Wales' plans for local banks funded through the Welsh Government.

Mae yna achos dros gyllid pellach i greu Severnside neu ranbarth economaidd ar gyfer dinasoedd mawr y gorllewin. Mae angen i ni gyfarparu ein busnesau a rhoi'r offer cywir iddynt, yn enwedig yng Nghymru gyda'n tirwedd unigryw a gwyrdd. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi croesawu adroddiad ddoe ar fanc datblygu i Gymru, sy'n nodi cyfres o argymhellion gyda'r nod o wella mynediad busnesau bach at gyllid. Bydd banc datblygu i Gymru yn dilyn model hybrid gyda'r prif ffocws ar fynd i'r afael â methiant y farchnad mewn sectorau allweddol o'r gymuned o fusnesau bach a chanolig drwy weithio mewn partneriaeth agosach â rhanddeiliaid allweddol i gyflwyno amrywiaeth ehangach o gynhyrchion a gwasanaethau ariannol—ychydig fel Awdurdod Datblygu Cymru cyn 2006. Croesawn yr egwyddorion sydd wrth wraidd yr argymhellion, sy'n efelychu ein cynlluniau 'Buddsoddi Cymru' ar gyfer banciau lleol wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru.

Digital infrastructure plays a vital role in connecting the hinterlands of Wales with other areas, the United Kingdom and overseas, socially and with online businesses. However, rural Wales holds the second lowest average speed. IT and communications services are critical to the United Kingdom's economic success and social cohesion. They are used by the average United Kingdom adult for over half of their waking hours. The coverage, capacity and reliability of the digital infrastructure over which these services are provided are of fundamental importance to both consumers and businesses. Although Wales has seen one of the largest growths in its next generation access and superfast broadband services, it still has the lowest coverage and indeed only 69 per cent of residential premises have a fixed broadband connection.

Mae seilwaith digidol yn chwarae rhan hanfodol yn cysylltu rhannau gwledig o Gymru ag ardaloedd eraill, y Deyrnas Unedig a thramor, yn gymdeithasol a gyda busnesau ar-lein. Fodd bynnag, cefn gwlad Cymru sydd â'r cyflymder digidol cyfartalog isaf ond un. Mae gwasanaethau TG a chyfathrebu yn hanfodol i lwyddiant economaidd y Deyrnas Unedig a chydlyniant cymdeithasol. Cânt eu defnyddio gan oedolyn cyffredin yn y Deyrnas Unedig am dros hanner yr oriau y bydd yn effro. Mae cwmpas, gallu a dibynadwyedd y seilwaith digidol y darperir y gwasanaethau hyn arno yn sylfaenol bwysig i ddefnyddwyr a busnesau. Er bod Cymru ymhlith y mannau sydd wedi gweld y twf mwyaf yn y mynediad at dechnoleg y genhedlaeth nesaf a gwasanaethau band eang cyflym iawn, mae'n parhau i fod â'r lefelau cysylltu isaf ac yn wir, 69 y cant yn unig o safleoedd preswyl sydd â chysylltiad band eang sefydlog.

Undoubtedly we know that the private sector in Wales is too small. Offering comprehensive small business rate relief is an ideal way to stimulate enterprise births, regenerate local economies and give existing small businesses an opportunity to grow and prosper. I was glad to hear the Minister say in committee this morning that it is her long-term plan to explore the idea of looking at greater retention with regard to business rates with a mechanism of protection. Indeed, I welcome her intention to explore raising the relief threshold and looking at a more frequent revaluation.

Heb os, gwyddom fod y sector preifat yng Nghymru yn rhy fach. Mae cynnig rhyddhad ardrethi cynhwysfawr yn ffordd ddelfrydol o ysgogi pobl i sefydlu mentrau, adfywio economïau lleol a rhoi cyfle i fusnesau bach sydd eisoes yn bodoli i dyfu a ffynnu. Roeddwn yn falch o glywed y Gweinidog yn dweud yn y pwyllgor y bore yma fod ganddi gynllun hirdymor i archwilio'r syniad o gadw mwy o ardrethi busnes gyda mecanwaith diogelwch. Yn wir, rwy'n croesawu ei bwriad i archwilio codi'r trothwy rhyddhad ac i ystyried ailbrisio amlach.

The United Kingdom economy is improving, but there are steps Ministers in Wales should be taking to ensure Wales benefits. Access to finance: Finance Wales is not working, and needs to go. A new model should be adopted. More business rate relief is needed and continued improvements in infrastructure and skills for those who need it, right across Wales, must be implemented. The Welsh Ministers have the economic levers at their disposal. Now is the time to use them.

Mae economi'r Deyrnas Unedig yn gwella, ond mae camau y dylai Gweinidogion yng Nghymru eu cymryd i sicrhau buddiannau Cymru. Mynediad at gyllid: nid yw Cyllid Cymru yn gweithio, ac mae angen cael gwared arno. Dylem fabwysiadu model newydd. Mae angen mwy o ryddhad ardrethi busnes a gwelliannau pellach i seilwaith a sgiliau i'r rhai sydd eu hangen, ledled Cymru. Mae'r ysgogiadau economaidd ar gael i Weinidogion Cymru. Nawr yw'r amser i'w defnyddio.

15:57

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have selected the five amendments to the motion. If amendment 2 is agreed, amendment 3 will be deselected. I call on Eluned Parrott to move amendments 1, 2 and 4 tabled in the name of Aled Roberts.

Rwyf wedi dethol y pum gwelliant i'r cynnig. Os yw gwelliant 2 yn cael ei dderbyn, byddwn yn dad-ddethol gwelliant 3. Rwy'n galw ar Eluned Parrott i gynnig gwelliannau 1, 2 a 4 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Amendment 1—Aled Roberts*

*Yn is-bwynt 3c), ar ôl 'yng Nghymru', mewnosod 'drwy greu Banc Datblygu Cymru i weithredu fel "siop un stop" ar gyfer cyngor busnes a mynediad at gyllid a man galw cyntaf ar gyfer busnesau'.*

*In sub-point 3c), after 'businesses' insert 'by creating a Welsh Development Bank to act as a "one-stop shop" for business advice and access to finance and first port of call for businesses'.*

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Amendment 2—Aled Roberts*

*Dileu is-bwynt 3d) a rhoi yn ei le:*

*Delete sub-point 3d) and replace with:*

*galluogi cadw trethi busnes yn lleol er mwyn cymell twf economaidd lleol.*

*enabling local retention of business rates in order to incentivise local economic growth.*

*Gwelliant 4—Aled Roberts*

*Amendment 4—Aled Roberts*

*Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 3:*

*Add as new sub-point at end of point 3:*

*cefnogi trefi marchnad Cymru, canolfannau traddodiadol ein cymunedau, a'r seilwaith sylfaenol o'u cwmpas.*

*supporting the market towns of Wales, the traditional hubs of our communities, and base infrastructure around them.*

*Cynigiwyd gwelliannau 1, 2 a 4.*

*Amendments 1, 2 and 4 moved.*

15:57

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move those amendments.

Cynigiaf y gwelliannau hynny.

I'd like to thank the Welsh Conservatives for bringing this debate today. I think we would all recognise that Wales's economy as a whole can't prosper if that prosperity isn't driven from the whole of Wales, so we all would recognise the importance of rural Wales in finding a foundation point for our economy as a whole.

Hoffwn ddiolch i'r Ceidwadwyr Cymreig am gyflwyno'r ddadl hon heddiw. Rwy'n credu y byddai pob un ohonom yn cydnabod na all economi Cymru yn ei chyfanrwydd ffynnu os na chaiff y ffyniant hwnnw ei yrru gan Gymru gyfan, felly byddem i gyd yn cydnabod pwysigrwydd cefn gwlad Cymru wrth chwilio am sylfaen i'n heconomi yn ei chyfanrwydd.

We have, of course, a long tradition of market towns being hubs of our rural communities. I was born in Abergavenny, a very successful market town at that time, but over the years the decline of our market towns has been a real sadness to me. I believe that they are now under threat in many cases with closures of banks, post offices, pubs and high-street shops—all things that hasten the decline of a place if it is to be the place where people from surrounding villages come to to find their local services.

Wrth gwrs, mae gennym draddodiad hir o drefi marchnad sy'n ganolbwynt i'n cymunedau gwledig. Cefais fy ngeni yn y Fenni, tref farchnad lwyddiannus iawn ar y pryd, ond dros y blynyddoedd mae dirywiad ein trefi marchnad wedi peri tristwch mawr i mi. Credaf eu bod dan fygythiad yn awr mewn nifer o achosion gyda banciau, swyddfeydd post, tafarndai a siopau yn cau—popeth sy'n cyflymu dirywiad lle os mai dyna lle y daw pobl o bentrefi cyfagos i gael gafael ar eu gwasanaethau lleol.

I think the role of transport and communications is critical in this. If I look, for example, at Cowbridge, which is a very successful smaller market town in my own region, it's actually not possible for me to get from my village some seven or eight miles away to Cowbridge without having first gone into Cardiff, and that is a crazy situation. If the infrastructure is broken around our market towns, they can't operate effectively as a hub. We have great potential for our market towns to be driving growth in rural Wales, but we need to make sure that that infrastructure is right.

Rwy'n credu bod swyddogaeth trafnidiaeth a chyfathrebu yn allweddol yn hyn. Os edrychaf, er enghraifft, ar y Bont-faen, tref farchnad lwyddiannus iawn yn fy ardal i, nid yw'n bosibl i mi deithio saith neu wyth milltir o'm pentref i'r Bont-faen heb fynd i mewn i Gaerdydd yn gyntaf ac mae honno'n sefyllfa wallgof. Os yw'r seilwaith o amgylch ein trefi marchnad wedi torri, ni allant weithredu'n effeithiol fel canolfannau. Mae gan ein trefi marchnad yng Nghymru botensial mawr i annog twf yng nghefn gwlad Cymru ond mae angen i ni wneud yn siŵr fod y seilwaith yn iawn.

We also have to be cautious about being overly prescriptive and pushing through a top-down approach to market-town development. I think that we can approach it from a very much more ground-up kind of way. We need locally driven solutions, and I would like to see, as one example for local authorities, the local retention of an element of business rates to help incentivise local authorities in driving those changes that we need to see. That could be particularly important in encouraging some of those local authorities where economic development hasn't been strong to move forward.

Hefyd, mae'n rhaid i ni ofalu rhag bod yn rhy gyfarwyddol a gwthio dull o'r brig i lawr o ddatblygu trefi marchnad. Rwy'n credu y gallwn ddefnyddio dull sy'n llawer mwy o'r gwaelod i fyny. Rydym angen atebion sy'n cael eu hysgogi'n lleol, ac un enghraifft yr hoffwn ei gweld ar gyfer awdurdodau lleol yw cadw elfen o ardrethi busnes yn lleol er mwyn helpu i gymell awdurdodau lleol i ysgogi'r newidiadau hynny rydym angen eu gweld. Gallai hynny fod yn arbennig o bwysig o ran annog rhai awdurdodau lleol lle nad yw datblygu economaidd wedi bod yn gryf i edrych tua'r dyfodol.

In moving amendment 1 we call for the creation of a Welsh development bank. I think, in principle, there is quite a lot of support around this Chamber for that, but in practice, obviously, we need to be mindful of the details. I would like to see that development bank bring together advice and finance, because what we see when people are going for money for investment is that they're overcoming a boundary, they're overcoming a barrier in their development, in their growth. When they're doing that, the chances are that they need advice as well as money. If we pair together advice and finance in that way, we maximise the chances of success. We've seen that with the success of the small-loan scheme for businesses already. Governance is also critical to this. One of the biggest challenges to previous development banks, or, for example, the operation of the WDA, is a reported lack of accountability and lack of transparency. So, we need to make sure that, whatever form this development bank takes, we get that right and we have robust reporting and robust accountability mechanisms in place.

Wrth gynnig gwelliant 1 rydym yn galw am greu banc datblygu yng Nghymru. Rwy'n credu bod cryn dipyn o gefnogaeth mewn egwyddor i hynny yn y Siambr hon, ond yn ymarferol, mae'n amlwg fod angen i ni ystyried y manylion. Hoffwn weld y banc datblygu hwnnw'n dod a chyngor a chyllid at ei gilydd, oherwydd yr hyn a welwn pan fydd pobl yn mynd am arian i'w fuddsoddi yw eu bod yn goresgyn ffin, maent yn goresgyn rhwystr i'w datblygiad, i'w twf. Pan fyddant yn gwneud hynny, mae'n bur debygol fod angen cyngor yn ogystal ag arian. Pe baem yn dod â chyngor a chyllid at ei gilydd yn y ffordd hon, gallwn sicrhau'r gobaith gorau o lwyddo. Rydym wedi gweld hynny eisoes gyda llwyddiant y cynllun benthyciadau bach i fusnesau. Mae llywodraethu yn hanfodol i hyn hefyd. Un o'r heriau mwyaf i fanciau datblygu blaenorol, neu weithrediad Awdurdod Datblygu Cymru, er enghraifft, oedd y diffyg atebolrwydd a gofnodwyd, a'r diffyg tryloywder. Felly, mae angen i ni wneud yn siŵr ein bod yn cael hynny'n iawn, pa ffurf bynnag a fydd i'r banc datblygu a bod gennym systemau adrodd ac atebolrwydd cadarn ar waith.

In amendment 2, I talk about—sorry, I forget what I'm talking about in amendment 2. Anyway, business rates, as I say, are critical, especially to small businesses. [Laughter.] Dearie me. But, in talking about business rates in the round, we have to recognise that there are huge fixed costs, particularly to small business. But, whatever we do, we must have a robust evidence base. Our small business rate relief schemes are very highly valued by small businesses, but this kind of arbitrary Dutch auction between Plaid Cymru and the Tories about where that rate should be set is frankly not helpful in this debate. I'd much rather that we got an economist to come in and have a look at the evidence about where that should be set, where we get the maximum benefit for the costs that we choose to invest.

Yng ngwelliant 2, rwy'n siarad am—mae'n ddrwg gennyf, rwyf wedi anghofio beth rwy'n siarad yn ei gylch yng ngwelliant 2. Beth bynnag, mae ardrethi busnes, fel y dywedais, yn hollbwysig, yn enwedig i fusnesau bach. [Chwerthin.] Bobl annwyl. Ond wrth siarad am ardrethi busnes yn gyffredinol, rhaid i ni gydnabod bod yna gostau sefydlog enfawr, yn enwedig i fusnesau bach. Ond beth bynnag a wnawn, rhaid i ni gael sylfaen dystiolaeth gadarn. Mae ein cynlluniau rhyddhad ardrethi ar gyfer busnesau bach yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr iawn gan fusnesau bach, ond nid yw'r math hwn o ocsiwn o chwith mympwyol rhwng Plaid Cymru a'r Ceidwadwyr ynghylch lle y dylid gosod y gyfradd honno yn ddefnyddiol yn y ddadl hon. Byddai'n llawer gwell gennyf pe bai economegydd yn edrych ar y dystiolaeth ynglŷn â lle i'w gosod, lle y cawn y budd mwyaf posibl am y costau y dewiswn eu buddsoddi.

*Andrew R.T. Davies a gododd—*

*Andrew R.T. Davies rose—*

16:01

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, of course I'll take an intervention.

Gwnaf, wrth gwrs y gwnaf dderbyn ymyriad.

16:01

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful to you for taking an intervention. Our policy is a long-standing policy and was formulated by our former economic adviser, Dylan Jones-Evans.

Diolch i chi am dderbyn ymyriad. Mae ein polisi yn un hirsefydlog a luniwyd gan ein cyn-gynghorydd economaidd, Dylan Jones-Evans.

16:01

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that, but, as I say, we have in this report here, on the devolution of business rates to Wales, some costings that have been provided, and things have changed since then. On 1 April, we will have responsibility for business rates, and the pooling arrangements that previously existed between Wales and England will be at an end. That means that the costs of small business rate relief schemes will be very significantly altered. Just to continue with the small business rate relief scheme that England already has will cost the Welsh Government an additional £24 million every year, simply because we have responsibility for that ourselves, and here in Wales we have a far higher proportion of small businesses than they do in England. So, we have to be very cautious that we're making use of the most up-to-date information and that that is properly evidenced and informed.

Diolch am hynny, ond fel y dywedais, yn yr adroddiad hwn ar ddatganoli ardrethi busnes i Gymru, mae rhai costau wedi cael eu darparu, ac mae pethau wedi newid ers hynny. Ar 1 Ebrill, ein cyfrifoldeb ni fydd ardrethi busnes, a bydd y trefniadau cyfuno a oedd yn bodoli o'r blaen rhwng Cymru a Lloegr yn dod i ben. Mae hynny'n golygu y bydd costau cynlluniau rhyddhad ardrethi ar gyfer busnesau bach yn newid yn sylweddol iawn. Bydd parhau gyda'r cynllun rhyddhad ardrethi ar gyfer busnesau bach sydd gan Loegr eisoes yn costio £24 miliwn yn ychwanegol bob blwyddyn i Lywodraeth Cymru, yn syml oherwydd mai ni ein hunain fydd â'r cyfrifoldeb am hynny, ac yma yng Nghymru mae gennym gyfran lawer uwch na Lloegr o fusnesau bach. Felly, mae'n rhaid i ni fod yn ofalus iawn ein bod yn gwneud defnydd o'r wybodaeth fwyaf cyfredol a bod tystiolaeth a manylion priodol yn sail i'r wybodaeth honno.

As I say, the February report by the business rates panel is very useful in that regard, because they look at some of these costings. For example, on the Plaid Cymru proposal of £15,000 as a level, that would cost the Welsh Government £35 million to £44 million a year more than the current arrangements do, depending on the tapering level that you implement. If you take that £24 million we're already having to pay on top of that into the equation, then that's actually £68 million a year to implement. Thank you.

Fel y dywedais, mae adroddiad mis Chwefror gan y panel ardrethi busnes yn ddefnyddiol iawn yn hynny o beth, oherwydd eu bod yn edrych ar rai o'r costau hyn. Er enghraifft, o ran cynnig Plaid Cymru sy'n gosod lefel o £15,000, byddai hynny'n costio £35 miliwn i £44 miliwn y flwyddyn yn fwy i Lywodraeth Cymru na'r trefniadau presennol, yn dibynnu ar lefel y tapr a osodwch. Os ydych yn cynnwys y £24 miliwn rydym eisoes yn gorfod ei dalu, mae hynny mewn gwirionedd yn costio £68 miliwn y flwyddyn i'w weithredu. Diolch yn fawr.

16:03

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Rhun ap Iorwerth to move amendments 3 and 5 tabled in the name of Elin Jones.

Galwaf ar Rhun ap Iorwerth i gynnig gwelliannau 3 a 5 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

*Gwelliant 3—Elin Jones*

*Amendment 3—Elin Jones*

*Cynnwys ar ddiwedd is-bwynt 3d):*

*', ac ymestyn y cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach i fod yn gymwys i bob busnes sydd â gwerth ardrethol o £15,000 neu lai.'*

*Gwelliant 5—Elin Jones*

*Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 3:*

*cynyddu'r gyfran o gontractau caffael y sector cyhoeddus sy'n mynd i fusnesau Cymreig.*

*Cynigiwyd gwelliannau 3 a 5.*

*At the end of sub-point 3d) insert:*

*', and extend the small business rate relief scheme to cover all businesses with a rateable value of £15,000 or less'.*

*Amendment 5—Elin Jones*

*Add as new sub-point at end of point 3:*

*increasing the proportion of public sector procurement contracts that go to Welsh businesses.*

*Amendments 3 and 5 moved.*

16:03

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae'n braf cael siarad yn y ddadl yma sy'n cael ei chyflwyno gan y Ceidwadwyr, ac i gyflwyno'r gwelliannau yn enw Elin Jones. Nid oes yna'n sicr dim byd yn y cynnig yma sy'n mynd yn groes i'r hyn mae Plaid Cymru yn ei ddweud, felly rwy'n hapus i gefnogi'r cynnig yn ei gyfanrwydd. Rwy'n cytuno'n llwyr efo pwynt 3a) sy'n galw am wella seilwaith drafnidiaeth, cysylltedd a sgiliau, ond yn synnu rhywfaint o glywed y Ceidwadwyr yn galw am fuddsoddiad mewn isadeiledd fel hyn. Mae Plaid Cymru, wrth gwrs, wedi bod yn galw am fuddsoddiad cyfalaf mewn seilwaith trafnidiaeth ers y cwymp ariannol. Ond, dros y pum mlynedd diwethaf mewn grym, mae'n galwadau ni wedi cael eu hanwybyddu gan y Trysorlys ar sail yr angen i leihau'r diffyg.

Thank you, Deputy Presiding Officer. It is nice to speak in this debate tabled by the Conservatives, and I move the amendments in the name of Elin Jones. There is certainly nothing in this motion that runs contrary to what Plaid Cymru is saying, so I'm happy to support the motion in its entirety. I agree completely with point 3a), which calls for improving transport infrastructure, connectivity and skills, but I am a little surprised to hear the Conservatives calling for investment in infrastructure in this way. Plaid Cymru has, of course, been calling for capital investment in transport infrastructure since the financial collapse. But, over the last five years in power, our calls have been ignored by the Treasury on the basis of the need to reduce the deficit.

16:04

## Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm very grateful for the Member giving way, but of course there has been significant investment in infrastructure by the UK Government, including the electrification of the south Wales line and the Valleys lines. Do you accept that that now frees up the opportunity for investment in the A55 and investment in the electrification of the north Wales railway line?

Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Aelod am ildio, ond wrth gwrs mae Llywodraeth y DU wedi buddsoddi'n sylweddol yn y seilwaith, gan gynnwys trydaneiddio rheilffordd de Cymru a rheilffyrdd y Cymoedd. A ydych yn derbyn bod hynny bellach yn rhyddhau cyfle i fuddsoddi yn yr A55 a buddsoddi i drydaneiddio rheilffordd gogledd Cymru?

16:04

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wrth gwrs, y Llywodraeth Geidwadol a Democratiaid Rhyddfrydol wnaeth fynnu bod Llywodraeth Lafur Caerdydd yn gwario'r pwerau benthyg ar un prosiect arbennig. Nid yw'r Llywodraeth Geidwadol wedi bod yn rhoi rhyddid i Gymru. Fe allwn ni siarad am yr 1 y cant yn ychwanegol o GDP y byddem yn dymuno'i weld yn cael ei fuddsoddi mewn isadeiledd dros y blynyddoedd i ddod—rhywbeth arall sy'n cael ei wrthod gan Lywodraeth Prydain.

Beth bynnag, er gwaethaf amharodrwydd y Ceidwadwyr yn hanesyddol i ddangos ymrwymiad i fuddsoddi mewn isadeiledd, a'r rhagrith yna, rwy'n llwyr gytuno efo'r pwynt yn y cynnig. Gobeithio bod yr Aelodau gyferbyn yn gallu perswadio y Llywodraeth yn y dyddiau sydd ganddyn nhw ar ôl i newid meddwl a gweld a yw'n bosib troi'r dŵr tuag at felin Cymru, fel sydd ei angen ar ein economi ni.

Of course, it was the Conservative and Liberal Democrat Government that insisted that the Cardiff Labour Government used all its borrowing powers on one particular project. The Conservative Government hasn't given Wales that freedom. We can talk about the extra 1 per cent of GDP that we would want to see invested in infrastructure over the coming years—something else that is rejected by the UK Government.

However, despite the unwillingness of the Conservatives historically to demonstrate a commitment to infrastructure investment, and the hypocrisy there, I fully agree with the point made in the motion. I hope that the Members opposite can persuade the Government in the few days they have left to change their mind and see whether we can turn things in Wales's favour, as is required by our economy.

Mae pwynt 3c), wrth gwrs, yn rhywbeth arall mae Plaid Cymru wedi bod yn galw amdano ers 2009. Rwy'n croesawu'r ffaith bod trydydd adroddiad Dylan Jones-Evans ar ran y Llywodraeth unwaith eto yn adlewyrchu polisi Plaid Cymru ar hwn; rwy'n blino ar ddweud y frawddeg yna dro ar ôl tro yma yn y Senedd.

Point 3c) is, of course, another thing that Plaid Cymru has been calling for since 2009. I welcome the fact that the third report by Dylan Jones-Evans on behalf of the Government once again reflects Plaid Cymru policy on this issue; I'm tired of repeating that sentence time and again here in the Senedd.

Rwy'n falch iawn hefyd o gefnogi pwynt olaf y cynnig ar ardrethi busnes. Y cwbl mae ein gwelliant cyntaf ni wedyn yn ei wneud ydy ychwanegu manylion. Rwy'n ymwybodol bod y Ceidwadwyr, fel y dywedodd Eluned Parrott, yn cytuno efo Plaid Cymru ar y pwynt yma y dylai pob busnes sydd â 'rateable value' hyd at £15,000 dderbyn rhywfaint o ryddhad ar ei ardrethi busnes. Ac i ymateb i'r pwynt wnaeth Eluned Parrott ynglŷn â rhyw ocsiwn sy'n mynd ymlaen, rydym ni yn gwneud ein cynnig ni ac mae'r pleidiau eraill wedi gwneud eu cynnig nhw ynglŷn â sut y gallai pwerau dros ardrethi busnes gael eu defnyddio. Rwy'n gwerthfawrogi'r ffaith bod yr adroddiad gan banel y Gweinidog yn edrych ar y gwahanol opsiynau. O dalu allan mwy am ambell syniad o'i gymharu â syniad arall, y bwriad ydy creu mwy o fwrlwm economaidd er mwyn dod â rhagor o arian i mewn, felly nid yw dweud 'na' i un cynllun oherwydd ei fod o'n costio mwy yn dweud y stori yn llawn.

I am also delighted to support the final point of the motion on business rates. All our first amendment does then is add some detail. I am aware that the Conservatives, as Eluned Parrott said, agree with Plaid Cymru on this point, that every business with a rateable value of up to £15,000 should receive some relief on business rates. And to respond to the point made by Eluned Parrott about some sort of auction that is going on, we are making our proposal and other parties have made their proposals as to how powers for business rates could be used. I appreciate the fact that the report by the Minister's panel is also looking at the the various options available. In paying more out for some ideas, the intention is to create greater economic vitality in order to bring more funds in, so rejecting one proposal because it is more expensive doesn't tell the whole story.

Mi fyddai'r polisi yna—

That policy—

16:06 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention on that?

A wnewch chi dderbyn ymyriad ar hynny?

16:06 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes.

Gwnaf.

16:06 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

What analysis have you undertaken on the economic benefit in terms of growth to Wales of introducing a £15,000 barrier, as opposed to a £12,000 barrier?

Pa ddadansoddiad a wnaethoch o'r budd economaidd o ran y twf i Gymru o gyflwyno terfyn o £15,000, yn hytrach na therfyn o £12,000?

16:07 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And like the other parties, presumably—as Andrew R.T. Davies and the Conservatives said, they carried out their work under their former economic adviser; so has Plaid Cymru, and, presumably, and, if you're responsible, so will the Liberal Democrats before making your proposals.

Ac fel y pleidiau eraill, yn ôl pob tebyg—fel y dywedodd Andrew R.T. Davies a'r Ceidwadwyr, fe wnaethant eu gwaith o dan eu cyn-gynghorydd economaidd; mae Plaid Cymru wedi gwneud yr un peth, ac yn ôl pob tebyg, ac os ydych yn gyfrifol, bydd y Democratiaid Rhyddfrydol hefyd yn gwneud yr un peth cyn gwneud eich argymhellion.

Mi wnaf i gyfeirio'n sydyn at ein hail welliant ni, sy'n cyfeirio at y £4.3 biliwn mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn ei wario bob blwyddyn ar gaffael. Mae hwn yn rym sydd yn llwyr yn nwylo Llywodraeth Cymru. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ddefnyddio y grym i ddosbarthu'r arian yna hyd at eithaf eu gallu.

I will refer briefly to our second amendment, which refers to the £4.3 billion that the public sector in Wales spends each year on procurement. This is a power that is entirely in the hands of the Welsh Government. The Welsh Government must use the power to distribute that money to the best of its ability.

Reit te: y gwelliannau eraill. Aled Roberts, y gwelliant cyntaf ynglŷn â banc datblygu Cymreig: ydym, wrth gwrs yr ydym yn cefnogi hynny. Ymatal ein pleidlais fyddwn ni yn y fan hyn, achos nid ydym yn hollol argyhoeddedig mai y banc yna ddylai fod yr unig ffynhonnell o gyngor a chyllid ar gyfer busnesau yng Nghymru. Ei ail welliant, byddwn yn ei wrthod oherwydd ei fod o'n dileu gwelliant 3 gennym ni, er ein bod ni yn benagored ynglŷn â'r syniad o gadw peth o ardrethi busnes yn lleol. Gwelliant 4: ymatal ein pleidlais fyddem ni yn y fan hyn eto. Er fy mod i'n cytuno efo'r hyn roedd Eluned Parrott yn ei ddweud ynglŷn â'r angen i hybu trefi marchnad, rwyf eisiau hybu pob tref yng Nghymru ac nid yn angenrheidiol y rhai sy'n dwyn y label traddodiadol 'trefi marchnad'.

Right then: the other amendments. Aled Roberts's amendment 1 about a Welsh development bank: yes, of course we support that. We will be abstaining here, because we are not entirely convinced that the bank should be the only source of advice and funding for businesses in Wales. The second amendment we will reject, because it deletes our own amendment 3, although we are open-minded about the idea of retaining some element of business rates locally. Amendment 4: we will abstain here again. While I agree with what Eluned Parrott had to say about the need to promote market towns, I want to promote every town in Wales and not necessarily only those that hold the traditional 'market town' label.

Diolch am y cyfle i siarad, ac fel rwy'n dweud, o ran y cynnig fel ag y mae o, dim problemau o gwbl efo'r hyn sydd gan y Ceidwadwyr i'w gynnig.

Thank you for the opportunity to speak, and, as I say, in terms of the motion as it stands, we have no problem with what the Conservatives have proposed.

16:08

## Byron Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm very grateful for the opportunity to speak in this debate. I want to start off on a positive, and say that Wales saw the strongest growth in GVA of all UK nations, with 3.4% growth in 2013, and that compares to the UK average growth of 2.6%. This certainly paints an optimistic future for Wales's economy, and whilst there is still plenty of work to be done—and, of course, we need to stick with our long-term economic plan set out by the Prime Minister and his Government—it's a good start to 2015, I'm sure you'll agree.

Rwy'n ddiolchgar iawn am y cyfle i siarad yn y ddadl hon. Rwyf am ddechrau ar nodyn cadarnhaol a dweud mai Cymru sydd wedi profi'r twf cryfaf mewn gwerth ychwanegol gros o holl wledydd y DU, gyda thwf o 3.4% yn 2013, o gymharu â thwf cyfartalog y DU o 2.6%. Mae'n sicr yn creu darlun optimistaidd ar gyfer economi Cymru yn y dyfodol, ac er bod digon o waith i'w wneud—ac wrth gwrs, mae angen i ni gadw at ein cynllun economaidd hirdymor a luniwyd gan y Prif Weinidog a'i Lywodraeth yn San Steffan—rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno ei fod yn ddechrau da i 2015.

This, Members, though, is when optimism and positivity start to fade, because Wales sadly has consistently remained at the bottom of the economic league tables, with gaping economic disparities with other parts of the UK.

Fodd bynnag, Aelodau, dyma lle y mae optimistiaeth ac agwedd gadarnhaol yn dechrau pylu, gan fod Cymru, yn anffodus, wedi aros yn gyson ar waelod y tablau cynghrair economaidd, ac mae gwahaniaethau economaidd syfrdanol rhyngddi a rhannau eraill o'r DU.

Under this Government in Westminster, the British economy has been transformed, and we must ensure that Wales benefits from this economic prosperity. Sadly, the Welsh Government here has, since the creation of devolution, yet to add any real value to our economy and has no long-term plan or ambition. Now, after 15 years of successive Labour Governments—and I've said it here before—it is shameful that parts of Wales remain amongst the poorest parts of Europe, set to qualify for a third round of EU aid, despite £4 billion of EU funds having been spent by Labour since 2000.

O dan y Llywodraeth hon yn San Steffan, mae economi Prydain wedi cael ei thrawsnewid, ac mae'n rhaid i ni sicrhau fod Cymru'n elwa o'r ffyniant economaidd hwn. Yn anffodus, nid yw Llywodraeth Cymru, ers datganoli, wedi ychwanegu unrhyw werth gwirioneddol i'n heconomi ac nid oes ganddynt gynllun nac uchelgais hirdymor. Yn awr, ar ôl 15 mlynedd o Lywodraethau Llafur—ac rwyf wedi dweud hyn yma o'r blaen—mae'n gywilyddus fod rhannau o Gymru yn parhau i fod ymhlith y rhannau tlotaf yn Ewrop, ac mae disgwyl y bydd Cymru yn gymwys ar gyfer y trydydd cylch o gymorth yr UE, er gwaethaf y ffaith fod Llafur wedi gwario £4 biliwn o gyllid yr UE ers 2000.

Now, Members, I want to touch on some of the issues that William Graham mentioned when opening and tease some of the important detail out. Let's start with how we must encourage businesses to thrive. We have debated endlessly the role of business rates, which are a huge burden on small and medium-sized businesses, which account for 99% of the Welsh business stock. Despite numerous recommendations from the business sector, Welsh Labour have done very little to protect Welsh businesses. We need action on this now and more small business rate relief. We must invest in people. Whilst we welcome any improvement to the apprenticeship levels in Wales, the Welsh Government cannot simply present Jobs Growth Wales as a panacea. We want to see long-term sustainable employment for our young people and an increased acknowledgement of vocational skills. We must capitalise on the evident demand in the UK economy. The fact that there are 1.85 million new jobs thanks to the Conservative long-term economic plan should be a clear indication of what is possible with the right attitude and a plan.

Nawr, Aelodau, hoffwn grybwyll rhai o'r materion y soniodd William Graham amdanynt wrth agor a cheisio nodi rhai o'r manylion pwysig. Gadewch i ni ddechrau gyda'r modd y mae'n rhaid i ni annog busnesau i ffynnu. Rydym wedi trafod rôl ardrethi busnes yn ddiddiwedd. Maent yn faich enfawr ar fusnesau bach a chanolig eu maint, ac yn ffurfio 99% o stoc busnes Cymru. Er gwaethaf nifer o argymhellion gan y sector busnes, ychydig iawn y mae'r Blaid Lafur yng Nghymru wedi ei wneud i amddiffyn busnesau Cymru. Mae angen gweithredu ar hyn yn awr a mwy o ryddhad ardrethi i fusnesau bach. Mae'n rhaid i ni fuddsoddi mewn pobl. Er ein bod yn croesawu unrhyw welliant i lefelau prentisiaethau yng Nghymru, ni all Llywodraeth Cymru gyflwyno Twf Swyddi Cymru fel ateb syml i bob problem. Rydym am weld cyflogaeth gynaliadwy yn y tymor hir ar gyfer ein pobl ifanc a mwy o gydnabyddiaeth o sgiliau galwedigaethol. Mae'n rhaid i ni fanteisio ar y galw amlwg yn economi'r DU. Dylai'r ffaith fod 1.85 miliwn o swyddi newydd wedi'u creu, diolch i gynllun economaidd hirdymor y Ceidwadwyr, fod yn arwydd clir o'r hyn sy'n bosibl gyda'r agwedd gywir a chynllun.

I will at this point rightly praise the Welsh Government for finally starting to work with UK Trade & Investment and other UK bodies to strengthen exports and inward investment. Exports and inward investment are vital in creating a diverse and thriving economy, yet it seems that Wales has lost its way and its ability to attract investment. We want to develop Wales to remain competitive on the global stage and propose a proactive approach to simulating the Welsh economy. Now, since you abolished the Welsh Development Agency here, you do seem to have lost your purpose and key personnel to deliver on both exports and inward investment.

Yn y fan hon, mae'n iawn i mi ganmol Llywodraeth Cymru am ddechrau gweithio gyda Masnach a Buddsoddi y DU a chyrff eraill yn y DU o'r diwedd i gryfhau allforion a mewnfuddsoddi. Mae allforion a mewnfuddsoddi'n hanfodol ar gyfer creu economi amrywiol a ffyniannus, eto i gyd mae'n ymddangos bod Cymru wedi colli ei ffordd a'i gallu i ddenu buddsoddiad. Rydym am ddatblygu Cymru i barhau'n gystadleuol ar y llwyfan byd-eang a chynnig dull rhagweithiol o ysgogi economi Cymru. Nawr, ers i chi ddiddymu Awdurdod Datblygu Cymru, mae'n ymddangos eich bod wedi colli eich pwrpas a phersonél allweddol ar gyfer cyflawni ar allforion a mewnfuddsoddi.

Lastly, but not least, what on earth is happening with our enterprise zones in Wales? Time and again, we hear that enterprise zones have the potential to attract considerable investment to Wales. However, they continue to lag behind our English counterparts. The only recognisable accomplishment of the enterprise zone strategy, as far as I can see, is that it was announced. There's no follow-up, no detail, and very few jobs as a result: no clear missions for the zones, no key performance indicators—no indicators at all, from what I can see. Most community councils, frankly, across Wales have clearer mission statements and measurable outcomes than the enterprise zones here.

Yn olaf, ond nid yn lleiaf, beth ar y ddaear sy'n digwydd gyda'n hardaloedd menter yng Nghymru? Dro ar ôl tro, fe glywn fod potensial gan yr ardaloedd menter i ddenu buddsoddiad sylweddol i Gymru. Fodd bynnag, maent yn parhau i lusgo ar ôl ardaloedd cyfatebol yn Lloegr. Unig gyflawniad amlwg y strategaeth ardaloedd menter, hyd y gwelaf fi, yw ei bod wedi cael ei chyhoeddi. Ni chafwyd gwaith dilynol, dim manylion, ac ychydig iawn o swyddi'n unig o ganlyniad i hynny: ni cheir cenhadaeth glir ar gyfer yr ardaloedd, na dangosyddion perfformiad allweddol—nac unrhyw ddangosyddion o gwbl, hyd y gwelaf. A bod yn onest, mae gan y rhan fwyaf o'r cynghorau cymuned ledled Cymru ddatganiadau cenhadaeth a chanlyniadau mesuradwy cliriach na'r ardaloedd menter.

Now, Members, I want to focus on what you can achieve when you have a plan. Since 2010, the UK Conservative-led Government have been working to a long-term economic plan to turn Britain around. We're working hard to secure a better future for Britain through that plan. As a result, over the last five years, we will have seen that the deficit has been cut by half as a share of national income, income tax cut for 26 million people, benefits capped to reward work, 1.85 million more people in employment, and the state pension increased by £800. The Conservatives have shown the strong leadership that this country needs. David Cameron has turned Britain into the jobs factory of Europe by backing small business and enterprise, not putting those jobs at risk with short-term economic gimmicks. He has capped benefits so that our economy delivers for those who work hard and play by the rules, not giving into those who want a free-for-all in our welfare system. It is worth noting, Members, that, this year, the UK reached another economic milestone. In January, we had the largest monthly surplus in the public finances since the crises, putting us on track to meet our borrowing forecast and halve the deficit as a share of GDP this year. This came in the same week that we have seen the employment rate reach record highs, while the inflation rate has reached record lows. I suggest that this Government stops whingeing here from the side lines and joins the Welsh Conservatives' vision for Wales to deliver a positive outcome for our people.

Nawr, Aelodau, rwyf am ganolbwyntio ar yr hyn y gallwch ei gyflawni pan fydd gennych gynllun. Ers 2010, mae Llywodraeth y DU dan arweiniad y Ceidwadwyr wedi bod yn dilyn cynllun economaidd hirdymor i roi Prydain yn ôl ar y trywydd iawn. Rydym yn gweithio'n galed i sicrhau dyfodol gwell i Brydain drwy'r cynllun hwnnw. O ganlyniad, dros y pum mlynedd diwethaf, byddwn wedi gweld y diffyg yn cael ei haneru fel cyfran o'r incwm cenedlaethol, toriad treth incwm i 26 miliwn o bobl, capio budd-daliadau i wobrwyo gwaith, 1.85 miliwn yn fwy o bobl mewn gwaith, a chynnydd o £800 ym mhensiwn y wladwriaeth. Mae'r Ceidwadwyr wedi dangos yr arweinyddiaeth gref sydd ei hangen ar y wlad hon. Mae David Cameron wedi troi Prydain yn ffatri swyddi Ewrop drwy gefnogi busnesau bach a menter, a pheidio â rhoi swyddi o'r fath mewn perygl drwy ddefnyddio gimigau economaidd byrdymor. Mae wedi capio budd-daliadau er mwyn i'n heconomi ddarparu ar gyfer y rhai sy'n gweithio'n galed ac yn dilyn y drefn, heb ildio i'r rhai sydd am weld rhyddid i bawb wneud fel y mynno yn ein system les. Aelodau, mae'n werth nodi bod y DU wedi cyrraedd carreg filltir economaidd arall eleni. Ym mis Ionawr, gwelsom y gwarged misol mwyaf yn y cyllid cyhoeddus ers dechrau'r argyfwng gan ein rhoi ar y trywydd iawn i gyflawni ein rhagolwg benthyca a haneru'r diffyg fel cyfran o'r cynnyrch domestig gros eleni. Daeth hyn yn yr un wythnos ag y gwelsom y gyfradd cyflogaeth yn cyrraedd lefelau uwch nag erioed, a chyfradd chwyddiant yn cyrraedd lefelau is nag erioed. Awgrymaf y dylai'r Llywodraeth hon roi'r gorau i swnian o'r ochr ac ymuno â gweledigaeth y Ceidwadwyr Cymreig ar gyfer Cymru er mwyn sicrhau canlyniad cadarnhaol i'n pobl.

16:14 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n falch o gyfrannu y prynhawn yma. Rwy'n anghytuno'n llwyr gyda'r rhan fwyaf o'r pethau sydd wedi dod o fy mlaen i cyn belled. Mae'r Torïaid yng Nghymru yn hoff o ddilyn, ond nid mor hoff o arwain. Maen nhw'n dilyn eu harweinwyr yn San Steffan yn wasaidd. Yn eu cynnig ger ein bron y prynhawn yma, mae pwynt 3 yn cynnwys cymalau a) a b), sef gwella seilwaith a hybu rhan awdurdodau lleol wrth gyfrannu at dwf economaidd. Mae hyn yn hollbwysig. Mae clywed hyn gan y Torïaid, a gweld y Gweinidog yn eistedd fanna yn gwrando yn fy atgoffa o hen ddywediad Cymraeg, sef oen yn dysgu dafad sut i bori. Yr wythnos diwethaf, aeth rhai ohonom o'r Pwyllgor Menter a Busnes i Fanceinion. Mae'r Gweinidog yn Llywodraeth Cymru yn barod wedi arddel gweledigaeth o'r rhanbarthau dinesig, ac yn wir, yn ystod ein hymweliad, roedd rhannu syniadau a dysgu o'r un a'r llall yn hynod o bwysig.

I'm pleased to contribute this afternoon. I disagree entirely with the majority of what has come before me this afternoon. The Tories in Wales are happy to follow, but they're not so happy to lead. They follow their leaders in Westminster slavishly. In the motion before us this afternoon, point 3 includes clauses a) and b), which are to improve infrastructure and to promote local authorities in contributing towards economic growth. This is crucially important. Hearing this from the Tories and seeing the Minister sitting there listening reminds me of the old saying in Welsh about a lamb teaching a sheep how to graze. Last week, the Enterprise and Business Committee to Manchester. The Minister in the Welsh Government has already espoused a vision of the city regions, and indeed, during our visit, sharing ideas and learning from one another was vitally important.

Ym Manceinion, clywsom am awdurdodau lleol yn dod at ei gilydd mewn partneriaeth er mwyn cydweithio a chynllunio ar gyfer y dyfodol, ar y cyd, cyn eu bod yn cael eu gorfodi i wneud y fath beth. Unwaith bod y fframwaith mewn lle, mae denu buddsoddiad yn dod yn haws. Hynny yw, nid denu arian er mwyn creu fframwaith yw'r dacteg orau. Mae synnwyr cyffredin yn dangos gwirionedd hynny.

In Manchester, we heard about local authorities coming together in partnership to collaborate and to plan for the future, jointly, before being compelled to do so. Once the framework was in place, attracting investment has become easier. That is, attracting funding in order to create a framework is not the best tactic. Common sense shows the truth in that.

Yn yr iaith Ffrangeg, mae gan y ferf 'être', sef 'bod', a'r ferf 'suivre', sef 'dilyn', yr un ffurf yn y person cyntaf unigol. Mae plant ysgol yn Ffrainc yn gwybod ystyr, 'Je suis ce que je suis, mais je ne suis pas ce que je suis'. Hynny yw, person yn dilyn asyn sy'n siarad, ac mae'n dweud, 'Rydw i pwy yr ydw i, ond nid ydwyf yn rwy'n dilyn'. Yn anffodus, mae'r Torïaid yng Nghymru, wrth ddatgan 'Je suis', yn diffinio eu hunaniaeth trwy'r hyn y maent yn ei ddilyn, sef eu meistri yn San Steffan, yn Llundain. Wrth drafod sefyllfa'r dyfodol gan arweinwyr busnes ac awdurdodau lleol yn rhanbarth Manceinion, rydym yn trafod â phobl sy'n arwain y ffordd, nid gyda'r rhai sydd ond yn dilyn yn wasaidd. Dyna'r ffordd ymlaen i dyfu'r economi yng Nghymru. Diolch.

In the French language, the verb 'être', namely 'to be', and the verb 'suivre', namely 'to follow', have the same participle for the first person singular. Schoolchildren in France know the meaning of, 'Je suis ce que je suis, mais je ne suis pas ce que je suis'. It's a person following a donkey who is speaking and who says, 'I am who I am, but I am not I follow'. Unfortunately, the Tories in Wales, in declaring 'Je suis', define their identity through who they follow, namely their masters at Westminster, in London. In discussing the situation of the future business leaders and local authorities in the Manchester region, we discussed with people who are leading the way, not with those who only follow slavishly. That's the way forward to grow the economy in Wales. Thank you.

16:16

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The United Kingdom now has the fastest-growing economy in the G7. More than 25,000 new businesses have been created and more people are now in work than at any point in British history. Inflation has reached a record low and, thanks to the policies of the Conservative-led coalition, unemployment in Aberconway has nearly halved since 2010.

Erbyn hyn, y Deyrnas Unedig sydd â'r economi sy'n tyfu gyflymaf o blith gwledydd y G7. Mae mwy na 25,000 o fusnesau newydd wedi'u creu a mwy o bobl bellach mewn gwaith nag ar unrhyw adeg yn hanes Prydain. Mae chwyddiant wedi cyrraedd lefel is nag erioed a diolch i bolisïau'r glymblaid dan arweiniad y Ceidwadwyr, mae diweithdra yn Aberconwy wedi bron â haneru ers 2010.

Despite these fantastic headlines, Wales's economy is lagging behind the rest of the UK. We are still living in one of the poorest regions in Europe, known as the sick man of Europe. What a testimony and indictment of 15 years of Welsh Labour in power. Under scrutiny, all they can do is point the finger of blame to London, but in reality—

Er gwaethaf y penawdau gwych hyn, mae economi Cymru yn llusgo ar ôl gweddill y Deyrnas Unedig. Rydym yn dal i fyw yn un o ranbarthau tlotaf Ewrop, ac yn cael ein galw yn ddyn sâl Ewrop. Y fath dystiolaeth a'r fath gyhuddiad wedi 15 mlynedd o Lafur Cymru mewn grym. Wrth eu craffu, y cyfan a wnânt yw pwyntio bys at Lundain, ond mewn gwirionedd—

16:17

## Joyce Watson Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you give way?

A wnewch chi ildio?

16:17

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes.

Gwnaf.

16:17

## Joyce Watson Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Since you're doing so well, could you explain, please, why the budget deficit will be more than £90 billion this year and the national debt will have increased by £500 billion since the Tory-led UK Government came into power—since you came into power?

Gan eich bod yn gwneud mor dda, a wnewch chi egluro, os gwelwch yn dda, pam y bydd y diffyg yn y gyllideb yn fwy na £90 biliwn eleni a'r ddyled genedlaethol wedi cynyddu o £500 biliwn ers i Lywodraeth y DU dan arweiniad y Torïaid ddod i rym—ers i chi ddod i rym?

16:17

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Would the Member explain why it was your party that spent all the money and left a note saying, sorry, we've spent up?

A wnaiff yr Aelod esbonio pam y gwariodd eich plaid chi'r holl arian a gadael nodyn yn dweud, mae'n ddrwg gennym, rydym wedi gwario'r cyfan?

You have the levers to improve economic development here in Wales, and, as my colleague, Byron Davies, has said, they are not being used. Do you even know where they are?

Gennych chi y mae'r ysgogiadau i wella datblygiad economaidd yma yng Nghymru ac fel y mae fy nghyd-Aelod, Byron Davies, wedi dweud, nid ydynt yn cael eu defnyddio. A ydych chi hyd yn oed yn gwybod ble y maent?

Since the Conservative-led coalition Government took office, business births across the UK have increased by 46 per cent. England has seen an increase of 47 per cent; Scotland, 46 per cent. Yet, in Wales, the figure is 9 per cent lower than the average 35 per cent. Over the same time frame, though, the number of active business enterprises in Wales has decreased and the sad part is that a third of all business deaths in the UK between 2009 and 2013 were actually here in Wales. Dreadful.

Ers i'r Llywodraeth glymblaid dan arweiniad y Ceidwadwyr ddod i rym, gwelwyd cynnydd o 46 y cant yn y gyfradd o fusnesau newydd ar draws y Deyrnas Unedig. Cafwyd cynnydd o 47 y cant yn Lloegr; 46 y cant yn yr Alban. Eto i gyd, yng Nghymru, mae'r ffigur 9 y cant yn is na'r cyfartaledd, ar 35 y cant. Dros yr un cyfnod o amser, fodd bynnag, mae nifer y mentrau busnes sy'n weithredol yng Nghymru wedi gostwng, a'r hyn sy'n drist yw bod un rhan o dair o'r holl fusnesau a ddaeth i ben yn y DU rhwng 2009 a 2013 yma yng Nghymru mewn gwirionedd. Ofnadwy.

Rural Wales is heavily dependent on our tourism and agriculture, but they're struggling. Tourism, despite the fact it contributes £6.9 billion each year, despite the fact that agriculture contributes an estimated £211 million to our economy, despite all that, in recent years, farming, as a livelihood has become more and more unsustainable in Wales, and there is a blatant disregard for the true value of our farmers and the guardians of our countryside. The year 2013 saw the lowest recorded figure for people employed by agricultural holdings: just 52,964.

Mae cefn gwlad Cymru yn ddibynnol iawn ar ein twristiaeth ac amaethyddiaeth, ond maent yn ei chael hi'n anodd. Er bod twristiaeth yn cyfrannu £6.9 biliwn bob blwyddyn, er bod amaethyddiaeth yn cyfrannu £211 miliwn amcangyfrifiedig i'n heconomi, er gwaethaf hyn oll, yn y blynyddoedd diwethaf, mae ffermio fel bywoliaeth wedi mynd yn fwyfwy anghynaladwy yng Nghymru a cheir diffyg ystyriaeth amlwg o wir werth ein ffermwyr a gwarcheidwaid ein hardaloedd gwledig. Yn y flwyddyn 2013 cofnodwyd bod llai o bobl nag erioed yn cael eu cyflogi ar ddaliadau amaethyddol: dim ond 52,964.

The latest forecast for First Milk prices in April has caused further concern for the dairy industry. Last month, the president of the Farmers' Union of Wales said that the combined impact of reduced farm-gate prices, the Welsh Government's 15 per cent pillar transfer, a reduced CAP budget, and a single payment exchange rate of 0.773 of the euro has had a catastrophic impact on farm incomes. NFU Cymru's president said the opportunities for Welsh farming are clear. In the longer term, the global and domestic demand for food is set to increase, but for Welsh farmers and the economy of Wales to benefit, we need the Welsh Government to establish the right conditions through its policy and regulatory framework.

Mae'r rhagolwg diweddaraf o brisiau First Milk ym mis Ebrill wedi achosi pryder pellach i'r diwydiant llaeth. Y mis diwethaf, dywedodd llywydd Undeb Amaethwyr Cymru fod effaith gyfunol prisiau is wrth giât y fferm, trosglwyddo 15 y cant o golofn i golofn gan Lywodraeth Cymru, lleihad yng nghyllideb y PAC a chyfradd gyfnewid y taliad sengl yn 0.773 o'r ewro wedi cael effaith drychinebus ar incwm ffermydd. Dywedodd llywydd NFU Cymru fod y cyfleoedd ar gyfer ffermio yng Nghymru yn glir. Yn y tymor hwy, mae'r galw byd-eang a domestig am fwyd yn mynd i gynyddu, ond er mwyn i ffermwyr Cymru ac economi Cymru elwa, mae angen i Lywodraeth Cymru bennu'r amodau cywir drwy ei pholisi a'i fframwaith rheoleiddio.

16:20 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Will you accept that the basic payment scheme that's now in tatters because of the judicial review is also going to have a massive impact on Welsh farmers?

A wnewch chi dderbyn bod cynllun y taliad sylfaenol, sydd bellach yn chwilfriw oherwydd yr adolygiad barnwrol, yn mynd i gael effaith enfawr ar ffermwyr Cymru hefyd?

16:20 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I would, and that's nothing to do with London. That's down to the Welsh Labour Government.

Gwnaf, ac nid oes gan hynny ddim i'w wneud â Llundain. Llywodraeth Lafur Cymru sy'n gyfrifol am hynny.

Rural businesses across Wales are automatically at a competitive disadvantage to others, due to transportation, connectivity, infrastructure and funding formula problems. Sustrans Cymru recently reported that more than 1 million people in Wales are slipping into transport poverty. What do you do? You go and cut the funding to our local authorities for our community transport. A Bus Users Cymru senior officer has said the impact of cuts:

Mae busnesau gwledig ledled Cymru dan anfantais gystadleuol yn awtomatig o gymharu ag eraill oherwydd problemau'n ymwneud â chludiant, cysylltedd, seilwaith a fformiwla cyllido. Dywedodd Sustrans Cymru yn ddiweddar fod mwy nag 1 filiwn o bobl yng Nghymru yn llithro i dlodi trafnidiaeth. Beth rydych chi'n ei wneud? Rydych yn torri'r cyllid i'n hawdurdodau lleol ar gyfer trafnidiaeth gymunedol. Mae un o uwch swyddogion Defnyddwyr Bysiau Cymru wedi dweud y bydd effaith y toriadau:

'will particularly fall on rural areas and will reduce access to employment for people who do not have their own transport or who are looking for work.'

'i'w gweld yn arbennig mewn ardaloedd gwledig a bydd yn ei gwneud yn anos i bobl heb drafnidiaeth eu hunain gyrraedd eu gwaith neu i ddod o hyd i waith.'

Wales, still, of course, has the lowest coverage of broadband, despite £58 million, is it, from the UK Government?

Cymru sydd â'r lefelau isaf o gysylltiad band eang o hyd, wrth gwrs, er gwaethaf £58 miliwn, onid e, gan Lywodraeth y DU?

Enough criticism for now—there is more. What would the Welsh Conservatives do? Well, for a start, we would actually use the levers, and we actually have sensible policies: 'A Vision for the Welsh High Street', 'A Vision for Welsh Investment' and 'Securing Wales' Future'. According to the Welsh retail consortium, there is broad consensus that the business rates system is woefully out of date. Today, I was really proud to chair a meeting of the cross-party group on small shops, and we focused on this with Professor Dylan Jones-Evans and Chris Sutton, chair of the business rates panel, and several of the reps of the retail industry. They actually said there's support out there for the Welsh Conservatives' scheme of supporting the small business rate relief scheme by abolishing business rates for small businesses, but in particular the taper up to the £15,000—because there were so many. There was one there today: £12,750 he had to pay in business rates in one, but he didn't have to in another. We have the levers, we have the policies—

Digon o feirniadaeth am y tro—mae yna fwy. Beth fyddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn ei wneud? Wel, i ddechrau, byddem yn mynd ati i wneud defnydd o'r ysgogiadau, ac mewn gwirionedd mae gennym bolisïau synhwyrol: 'Gweledigaeth ar gyfer y Stryd Fawr yng Nghymru', 'Gweledigaeth ar gyfer Buddsoddi yng Nghymru' a 'Sicrhau Dyfodol Cymru'. Yn ôl consortiwm manwerthu Cymru, ceir consensws cyffredinol fod y system ardrethi busnes wedi dyddio'n druenus. Heddiw, roeddwn yn falch iawn o gadeirio cyfarfod o'r grŵp trawsbleidiol ar siopau bach, a rhoesom sylw i hyn gyda'r Athro Dylan Jones-Evans a Chris Sutton, cadeirydd y panel ardrethi busnes, a sawl un o gynrychiolwyr y diwydiant manwerthu. Roeddent yn dweud bod cefnogaeth yno mewn gwirionedd i gynllun y Ceidwadwyr Cymreig o gefnogi'r cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach drwy ddileu ardrethi busnes i fusnesau bach, ond yn arbennig i leihau'n raddol hyd at £15,000—gan fod cymaint ohonynt. Roedd un yno heddiw: bu'n rhaid iddo dalu £12,750 mewn ardrethi busnes yn un, ond ni fu'n rhaid iddo wneud mewn un arall. Mae gennym yr ysgogiadau, mae gennym y polisïau—

16:22

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Finish now, please.

Gorffennwch yn awr, os gwelwch yn dda.

16:22

## Janet Finch-Saunders

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

[Continues.]—and I think it's time that this Welsh Labour Government worked better with the UK Government and better with the opposition benches—

[Yn parhau.]—ac rwy'n credu ei bod yn bryd i'r Llywodraeth Lafur hon yng Nghymru weithio'n well gyda Llywodraeth y DU ac yn well gyda'r gwrthbleidiau—

16:22

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Quickly.

Yn gyflym.

16:22

## Janet Finch-Saunders

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

When we have good policies, adapt them.

Pan fo gennym bolisïau da, addaswch hwy.

16:22

## Mohammad Asghar

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Last week, in this Chamber, we debated the transformation of the UK economy, a transformation brought about by the effective economic policies of the Conservative-led coalition Government at Westminster. In that debate, we noted how the benefits of UK Government policies are seeping through to Wales: an extra 41,000 people in work in Wales compared with 2010, and the strongest growth in GVA of all the UK nations in 2013. Although the signs are encouraging, many challenges remain.

Yr wythnos diwethaf, yn y Siambr hon, roeddem yn trafod y gwaith o drawsnewid economi'r DU, trawsnewid a ddaeth yn sgil polisïau economaidd effeithiol gan y Llywodraeth glymblaid dan arweiniad y Ceidwadwyr yn San Steffan. Yn y ddadl honno, nodwyd sut y mae manteision polisïau Llywodraeth y DU yn treiddio drwodd i Gymru: 41,000 yn fwy o bobl mewn gwaith yng Nghymru o'i gymharu â 2010 a'r twf cryfaf yn y GYC o holl wledydd y DU yn 2013. Er bod yr arwyddion yn galonogol, mae llawer o heriau'n parhau.

Deputy Presiding Officer, I have been in this Chamber for the last seven years, and every year, we have debates on the economy. The economy hasn't been improved in Wales. Basically, we're talking about this bank. Now, I've been saying we are the only nation on earth that hasn't got a national bank. Now, thank God, after so long—our enterprise Bill, which they never passed—they're coming to their senses after four years, that side of the Chamber, to look for a Welsh development banking system. Also, there are certain areas that our party is going to work on to improve the economy. There's not only the banking system; we'll improve banking; remove the rates for the neediest; give the enterprise zones a big hand and improve them; and, also, we will make sure that entrepreneurship is encouraged, with high-tech research and development in our universities all over.

Ddirprwy Lywydd, rwyf wedi bod yn y Siambr hon ers saith mlynedd a bob blwyddyn, cawn ddadleuon ar yr economi. Nid yw'r economi wedi cael ei gwella yng Nghymru. Yn y bôn, rydym yn sôn am y banc. Nawr, rwyf wedi bod yn dweud mai ni yw'r unig genedl ar y ddaear heb fanc cenedlaethol. Diolch i Dduw, ar ôl cymaint o amser—mae ein Bil menter, na phasiwyd ganddynt—maent yn awr yn dod at eu coed ar ôl pedair blynedd ar yr ochr honno i'r Siambr ac yn ystyried system banc datblygu ar gyfer Cymru. Hefyd, mae rhai meysydd y mae ein plaid yn mynd i weithio arnynt er mwyn gwella'r economi. Nid y system fancio'n unig sydd dan sylw; byddwn yn gwella bancio; yn cael gwared ar y cyfraddau ar gyfer y mwyaf anghenus; yn rhoi cymorth mawr i'r ardaloedd menter ac yn eu gwella; a hefyd, byddwn yn sicrhau bod entrepreneuriaeth yn cael ei annog, gyda gwaith ymchwil a datblygu yn defnyddio uwch-dechnoleg yn ein holl brifysgolion.

We are an agricultural nation. We've got to improve our rural economy through tourism, which our Minister is doing very well. I'm not debating here about what the Minister's not doing, but I think the policy is not delivering. I cannot understand what the problem is there. The fact is, we will certainly make sure the economy of Wales is going to grow threefold if our party wins the next election.

Rydym yn genedl amaethyddol. Mae'n rhaid i ni wella ein heconomi wledig drwy dwristiaeth, sy'n rhywbeth y mae ein Gweinidog yn ei wneud yn dda iawn. Nid wyf yn dadlau yn y fan hon am yr hyn nad yw'r Gweinidog yn ei wneud, ond rwy'n credu nad yw'r polisi yn cyflawni. Ni allaf ddeall beth yw'r broblem. Y ffaith amdani yw y byddwn yn sicr yn gwneud yn siŵr y bydd cynnydd triphlyg yn economi Cymru os yw ein plaid yn ennill yr etholiad nesaf.

Wales remains the poorest part of the United Kingdom, at the bottom of the economic league table. This debate today calls on Welsh Government to fully utilise the means at its disposal, to maximise the economic benefits for Wales. Deputy Presiding Officer, the first thing they can do is act to ease the burden of business rates to make them fairer. According to the Federation of Small Businesses, everyone in Wales looking for a job could be employed if every small or medium-sized enterprise recruited one more person.

Cymru yw'r rhan dlotaf o'r Deyrnas Unedig o hyd, ar waelod y tabl cynghrair economaidd. Mae'r ddadl hon heddiw yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddefnyddio pob dull sydd ar gael iddi i wneud y gorau o'r manteision economaidd i Gymru. Ddirprwy Lywydd, y peth cyntaf y gallant ei wneud yw gweithredu i leddfu baich ardrethi busnes i'w gwneud yn decach. Yn ôl y Ffederasiwn Busnesau Bach, gallai pawb yng Nghymru sy'n chwilio am waith gael ei gyflogi pe bai pob menter fach neu ganolig ei maint yn recriwtio un unigolyn arall.

Business rates, rent and wages are the three largest outgoings for small businesses. In the long term, I would like to see the system reformed to make business rates more related to the companies' and businesses' ability to pay. Until then, abolishing rates for businesses with a rateable value of below £12,000 and providing tapered relief for those up to £15,000 would provide timely help to allow companies to focus on expanding their business and to take on new staff. This proposal would see 73 per cent of business premises in Wales taken out of rates altogether. It would also provide a much-needed boost for the retail sector. Empty shops blight our towns and cities, and we have a plan for how to make sure that these small and large shops on high streets are fulfilled with assistance given by the Government and the local government bodies.

Ardrethi busnes, rhenti a chyflogau yw'r tri thraul mwyaf ar fusnesau bach. Yn y tymor hir, byddwn yn hoffi gweld y system yn cael ei diwygio i gysylltu ardrethi busnes yn well â gallu cwmnïau a busnesau i dalu. Tan hynny, byddai diddymu ardrethi i fusnesau sydd â gwerth ardrethol is na £12,000 a darparu rhyddhad sy'n lleihau'n raddol i rai hyd at £15,000 yn rhoi cymorth amserol i ganiatáu i gwmnïau ganolbwyntio ar ehangu eu busnes a chyflogi staff newydd. Byddai'r argymhelliad hwn yn golygu na fyddai'n rhaid i 73 y cant o safleoedd busnes yng Nghymru dalu ardrethi o gwbl. Byddai hefyd yn rhoi hwb mawr ei angen i'r sector manwerthu. Mae siopau gwag yn difetha ein trefi a'n dinasoedd ac mae gennym gynllun ar gyfer sicrhau bod siopau bach a mawr ar y stryd fawr yn cael cymorth gan y Llywodraeth a'r cyrff llywodraeth leol.

Newport has one of the largest vacancy rates of empty shops in Wales. The Centre for Retail Research has forecast the disappearance of Welsh high streets within 20 years if the current closure level continues. What a sad scenario.

Casnewydd sydd ag un o'r cyfraddau uchaf o siopau gwag yng Nghymru. Mae'r Ganolfan Ymchwil Manwerthu wedi rhagweld diflaniad y stryd fawr yng Nghymru cyn pen 20 mlynedd os yw lefelau presennol y siopau sy'n cau yn parhau. Dyna sefyllfa drist.

Access to finance is vital for supporting small businesses. I have, in the past, raised concern about the lack of awareness of Finance Wales among small businesses. The Welsh Conservatives call on a review to enhance the systems in place to deliver finance to small and medium-sized businesses in Wales. We have already published our proposal in a document called, 'A Vision for Welsh Investment: Invest Cymru'. 'Invest Cymru' would regionalise access to finance in Wales. I welcome, therefore, the report on a development bank of Wales.

Mae mynediad at gyllid yn hanfodol ar gyfer cefnogi busnesau bach. Yn y gorffennol, rwyf wedi lleisio pryder ynglŷn â diffyg ymwybyddiaeth o Cyllid Cymru ymysg busnesau bach. Mae Ceidwadwyr Cymru yn galw am adolygiad er mwyn gwella'r systemau sydd ar waith i ddarparu cyllid i fusnesau bach a chanolig eu maint yng Nghymru. Rydym eisoes wedi cyhoeddi ein hargymhelliad mewn dogfen o'r enw, 'Gweledigaeth ar gyfer Buddsoddi yng Nghymru: Buddsoddi Cymru'. Byddai 'Buddsoddi Cymru' yn trefnu mynediad at gyllid yng Nghymru ar sail ranbarthol. Felly, rwy'n croesawu'r adroddiad ar fanc datblygu Cymru.

Finance Wales has had its day. It should be scrapped and replaced with a body based on local business banking. I believe that, by regionalising the ability of finance with a regional manager known to the local business community and aware of the needs and requirements of his or her region, we can raise awareness of the financial—

Mae Cyllid Cymru wedi cael ei ddydd. Dylid ei ddileu a chael corff yn ei le sy'n seiliedig ar fancio busnes lleol. Drwy drefnu gallu cyllidol ar sail rhanbarth gyda rheolwr rhanbarthol sy'n gyfarwydd i'r gymuned fusnes leol ac sy'n ymwybodol o anghenion a gofynion ei ranbarth, rwy'n credu y gallwn godi ymwybyddiaeth o'r cymorth ariannol—

16:27

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Finish with this, please.

Gorffennwch gyda hyn, os gwelwch yn dda.

16:27

## Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—assistance available through the supply of the funding. Thank you, Deputy Presiding Officer.

[Yn parhau.]—sydd ar gael drwy gyflenwi'r cyllid. Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd.

16:27

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister for Economy, Science and Transport to speak. Edwina Hart.

Galwaf ar Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i siarad. Edwina Hart.

16:27

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. I welcome this opportunity today to debate business and the economy in Wales. We're not really quite sure about the contributions we've had from Janet Finch-Saunders and Mohammad Asghar. Tourism figures are excellent in Wales. Trade figures are excellent. We had exports from Wales increase by 123.6 per cent since 1999, and there's all this talk that we haven't got anything to do with the UKTI, but we've provided more than 240 interventions using UKTI services during the period.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n croesawu'r cyfle hwn heddiw i drafod busnes a'r economi yng Nghymru. Nid ydym yn hollol siŵr ynghylch y cyfraniadau a gawsom gan Janet Finch-Saunders a Mohammad Asghar. Mae ffigurau twristiaeth yn rhagorol yng Nghymru. Mae ffigurau masnach yn ardderchog. Gwelsom gynnydd o 123.6 y cant mewn allforion o Gymru ers 1999 ac mae'r holl siarad hwn nad ydym yn gwneud dim â Masnach a Buddsoddi y DU, ond rydym wedi cyflawni mwy na 240 o ymyriadau gan ddefnyddio gwasanaethau Masnach a Buddsoddi y DU yn ystod y cyfnod.

I have to say, when we talk about milk prices, I thought they were the party that liked the market to operate properly. Perhaps that is the market operating in terms of how they might be, in my opinion, dealing very unfairly with farmers.

Rhaid i mi ddweud, wrth inni sôn am brisiau llaeth, roeddwn i'n meddwl mai hwy oedd y blaid a oedd yn hoffi gweld y farchnad yn gweithredu'n briodol. Efallai mai'r hyn y mae hynny'n ei olygu yw'r farchnad yn gweithredu mewn modd a allai fod, yn fy marn i, yn annheg iawn â ffermwyr.

However, I strongly reject the claim made in the Welsh Conservative motion that the Welsh Government lacks ambition to improve the conditions for economic growth in Wales. As a Government, we're committed to ensuring long-term economic growth, and Welsh Government economic policies are fostered, with marked improvements in economic conditions in Wales in recent years. For example, the gross value added per head increased by 3.4 per cent in 2013, the joint largest increase of any UK country or region, and compared with the GVA per head increase of 2.6% in the UK. I was very pleased when Byron Davies acknowledged this in the opening of his speech, but then of course he moved on to other comments that indicated he was more interested in being a parliamentary candidate, I think, for Gower than discussing the economic issues of the day.

Fodd bynnag, rwy'n bendant yn gwrthod yr honiad a wnaed yng nghynnig y Ceidwadwyr Cymreig fod Llywodraeth Cymru yn brin o uchelgais i wella'r amodau ar gyfer twf economaidd yng Nghymru. Fel Llywodraeth, rydym wedi ymrwymo i sicrhau twf economaidd hirdymor, ac mae polisïau economaidd Llywodraeth Cymru yn cael eu meithrin, gyda gwelliannau amlwg yn yr amodau economaidd yng Nghymru yn y blynyddoedd diwethaf. Er enghraifft, cynyddodd gwerth ychwanegol crynswth y pen 3.4 y cant yn 2013, sy'n gyfartal â'r cynnydd uchaf mewn unrhyw wlad neu ranbarth yn y DU, ac yn cymharu â'r cynnydd o 2.6% yn y GYC y pen yn y DU. Roeddwn yn falch iawn pan gydnabu Byron Davies hyn wrth agor ei araith, ond wedyn, wrth gwrs, symudodd ymlaen at sylwadau eraill a ddynodai fod ganddo fwy o ddiddordeb, rwy'n meddwl, mewn bod yn ymgeisydd seneddol dros Gŵyr na thrafod materion economaidd y dydd.

Now, since devolution, the numbers of people in employment in Wales have increased by 166,000 and over the same period both incomes and outputs have recorded significant increases, and gaps in rates of employment and economic inactivity relative to the UK have narrowed substantially. I think we should all welcome that. But the evidence lies not only in the statistics but in the success of companies in the market.

Yn awr, ers datganoli, mae nifer y bobl mewn gwaith yng Nghymru wedi cynyddu 166,000 ac yn ystod yr un cyfnod cofnodwyd cynnydd sylweddol mewn incwm ac allbynnau, ac mae'r bylchau rhwng cyfraddau cyflogaeth ac anweithgarwch economaidd o'i gymharu â'r DU wedi cau'n sylweddol. Rwy'n credu y dylem i gyd groesawu hynny. Ond mae'r dystiolaeth i'w gweld nid yn unig yn yr ystadegau ond yn llwyddiant cwmnïau yn y farchnad.

Only last week I attended the BioWales 2015 conference, which showcased the strength of the life science sector in Wales, which employs around 11,000 people in over 350 companies. In the recent 'Tech Nation' report for 2015, published by Tech City, south Wales has been identified as one of the top five fastest-growing digital clusters in the UK, with an increase of 87 per cent in new digital companies. TheCityUK, in a report published last week, 'Finance for Growth in the UK', stated that

Yr wythnos diwethaf, mynychais gynhadledd BioCymru 2015, a oedd yn arddangos cryfder y sector gwyddorau bywyd yng Nghymru, sy'n cyflogi tua 11,000 o bobl mewn mwy na 350 o gwmnïau. Yn adroddiad diweddar 'Tech Nation' ar gyfer 2015, a gyhoeddwyd gan Tech City, mae de Cymru wedi cael ei gydnabod fel un o'r pum clwstwr digidol sy'n tyfu gyflymaf yn y DU, gyda chynnydd o 87 y cant yn nifer y cwmnïau digidol newydd. Dywedodd TheCityUK, mewn adroddiad a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf, 'Finance for Growth in the UK':

'Wales has a growing reputation for providing high quality professional services and support functions, with particular expertise in insurance technology support, taxation and legal services.'

'Mae gan Gymru enw sy'n gwella am ddarparu gwasanaethau proffesiynol o ansawdd uchel a swyddogaethau cymorth, gydag arbenigedd penodol o ran cymorth technoleg ym maes yswiriant, trethi a gwasanaethau cyfreithiol.'

Our ambition for Wales is reflected in the measures we are taking to assimilate economic growth. We've established the seven enterprise zones across Wales, set up the two city region boards—and I was grateful for Keith Davies's comments about the visit to Manchester, which does reflect how well local authorities and others can work together to get economic growth—and, of course, two local growth zones. We have to work to address the needs of business to access finance to help them invest and grow, and we have got schemes: the Wales economic growth fund, SME, Welsh life sciences, microbusiness, SME capital investment fund and the digital development fund. We therefore support amendment 4, as we provide a wide range of financial and other initiatives to support business. I'm also considering the feasibility of establishing a development bank for Wales, following the publication of the latest report from Professor Dylan Jones-Evans and his group. I'll therefore be opposing amendment 1, because I am actually considering it, and also I do feel that Business Wales already provides the one-stop-shop approach.

Mae ein huchelgais ar gyfer Cymru yn cael ei adlewyrchu yn y mesurau rydym yn eu rhoi ar waith i gymathu twf economaidd. Rydym wedi sefydlu saith ardal fenter ledled Cymru, wedi sefydlu dau fwrdd y dinas-ranbarthau—ac roeddwn yn ddiolchgar am sylwadau Keith Davies am yr ymweliad â Manceinion, sy'n dangos pa mor dda y gall awdurdodau lleol ac eraill weithio gyda'i gilydd i sicrhau twf economaidd—a dwy ardal twf lleol wrth gwrs. Mae'n rhaid i ni weithio i fynd i'r afael ag angen busnesau i gael gafael ar gyllid i'w helpu i fuddsoddi a thyfu, ac mae gennym gynlluniau: cronfa twf economaidd Cymru, busnesau bach a chanolig, gwyddorau bywyd yng Nghymru, microfusnesau, cronfa buddsoddi cyfalaf busnesau bach a chanolig a'r gronfa datblygu digidol. Felly, rydym yn cefnogi gwelliant 4 gan ein bod yn darparu ystod eang o fentrau ariannol a mentrau eraill i gefnogi busnes. Rwyf hefyd yn ystyried y posibilrwydd o sefydlu banc datblygu ar gyfer Cymru yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad diweddaraf gan yr Athro Dylan Jones-Evans a'i grŵp. Felly, byddaf yn gwrthwynebu gwelliant 1 gan fy mod wrthi'n ei ystyried mewn gwirionedd a hefyd rwy'n teimlo bod Busnes Cymru eisoes yn darparu siop un stop.

In December, I published the national transport plan, which is currently out for consultation, setting out the future planned investments in transport infrastructure. I think we all recognise that there is a challenge in terms of transport infrastructure that we have to deal with, but the plan is out there now for people to comment on. Our priority is to ensure that we have a transport system that helps improve the economic competitiveness of Wales, providing good access to jobs and services and boosting the prosperity of the people of Wales.

Ym mis Rhagfyr, cyhoeddais y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol, sydd ar hyn o bryd yn destun ymgynghoriad, ac sy'n nodi'r buddsoddiadau a gynlluniwyd ar gyfer y seilwaith trafnidiaeth yn y dyfodol. Rwy'n credu ein bod i gyd yn gwerthfawrogi'r her sy'n rhaid inni ei hwynebu o ran seilwaith trafnidiaeth, ond mae'r cynllun ar gael bellach i bobl gynnig sylwadau arno. Ein blaenoriaeth yw sicrhau bod gennym system drafnidiaeth sy'n helpu i wella cystadleurwydd economaidd Cymru, sy'n darparu mynediad da at swyddi a gwasanaethau ac sy'n hybu ffyniant pobl Cymru.

I've also announced our intention to establish a not-for-dividend, wholly-owned subsidiary company of the Welsh Government as a key part of our approach to delivering a more effective integrated transport system. This company will concentrate on providing advice and expertise to drive forward the linked projects of the metro, the next Wales and borders franchise and the Valleys modernisation and electrification project. We've also taken action to secure the future of Cardiff Airport and safeguard the crucial role it plays in our economy.

Rwyf hefyd wedi cyhoeddi ein bwriad i sefydlu is-gwmni di-ddifidend, sy'n eiddo llwyr i Lywodraeth Cymru fel rhan allweddol o'n dull o gyflwyno system drafnidiaeth integredig fwy effeithiol. Bydd y cwmni'n canolbwyntio ar ddarparu cyngor ac arbenigedd ar gyfer datblygu prosiectau cysylltiedig y metro, masnachfraint nesaf Cymru a'r gororau a phrosiect moderneiddio a thrydaneiddio'r Cymoedd. Rydym hefyd wedi rhoi camau ar waith i sicrhau dyfodol Maes Awyr Caerdydd a diogelu'r rôl hanfodol y mae'n ei chwarae yn ein heconomi.

Finally, in terms of our economic ambition, it was announced last week that over 346,000 homes and businesses in Wales are now able to access fast fibre broadband, thanks to the Superfast Cymru project, working towards our target of 96 per cent of premises in Wales to have the ability to access fast fibre broadband by the end of spring 2016. Now, we've got a good record on broadband and I'm sick and tired of people criticising and saying it's any different.

Yn olaf, o ran ein huchelgais economaidd, cyhoeddwyd yr wythnos diwethaf fod dros 346,000 o gartrefi a busnesau yng Nghymru bellach yn gallu cael cysylltiad band eang ffibr cyflym, diolch i brosiect Cyflymu Cymru, gan weithio tuag at ein targed o sicrhau bod gan 96 y cant o safleoedd yng Nghymru y gallu i gael cysylltiad band eang ffibr cyflym erbyn diwedd y gwanwyn 2016. Nawr, mae ein record ar y band eang yn dda ac rwyf wedi blino ar glywed pobl yn beirniadu ac yn honni i'r gwrthwyneb.

I believe that our programme is ambitious, imaginative and innovative, but, most importantly, we're taking it forward in partnership with business and the trade unions, using their experience and knowledge to help build a more prosperous Wales.

Credaf fod ein rhaglen yn uchelgeisiol, yn ddychmygus ac yn arloesol, ond yn bwysicaf oll, rydym yn ei datblygu mewn partneriaeth â busnesau a'r undebau llafur, gan ddefnyddio eu profiad a'u gwybodaeth i helpu i greu Cymru fwy ffyniannus.

I will now turn to some of the specific points in the motion. William Graham outlined, where I did agree with him, the importance of skills that are needed in Wales, which is why our ambition remains to develop a skills system in Wales that supports our future competitiveness, helps us evolve into a highly skilled society, as well as one that tackles poverty and, of course, is sustainable. I thank him for his other comments on some major infrastructure projects as well. In terms of skills, the regional skills partnerships were formally announced in October 2014 to drive investment and align regional learning provision to wider strategic investments and growth opportunities, including the priorities identified in enterprise zones and city regions. We have a good relationship with local authorities on economic development, as we have facilitated the development of a memorandum of understanding.

Trof yn awr at rai o'r pwyntiau penodol yn y cynnig. Amlinellodd William Graham bwysigrwydd y sgiliau sydd eu hangen yng Nghymru, ac rwy'n cytuno ag ef ar hynny. Dyna pam mai ein huchelgais o hyd yw datblygu system sgiliau yng Nghymru sy'n cefnogi ein cystadleurwydd yn y dyfodol, yn ein helpu i esblygu'n gymdeithas fedrus iawn, yn ogystal ag un sy'n mynd i'r afael â thlodi ac wrth gwrs, un sy'n gynaliadwy. Diolch iddo hefyd am ei sylwadau eraill ar brosiectau seilwaith mawr. O ran sgiliau, cafodd y partneriaethau sgiliau rhanbarthol eu cyhoeddi'n ffurfiol ym mis Hydref 2014 i ysgogi buddsoddiad ac i alinio'r ddarpariaeth ddysgu ranbarthol â buddsoddiadau strategol ehangach a chyfleoedd ehangach ar gyfer twf, gan gynnwys y blaenoriaethau a nodwyd mewn ardaloedd menter a dinas-ranbarthau. Mae gennym berthynas dda ag awdurdodau lleol ar ddatblygu economaidd, gan ein bod wedi hwyluso datblygiad memorandwm cyd-ddealltwriaeth.

Now, I think it's key from all contributions that business rates is an important area to support businesses, as small businesses play a vital role in building a strong economy, encouraging growth and creating jobs. I'm committed to supporting their creation and growth. I'm pleased to support amendment 2 and concur with the comments made by Eluned Parrott on the issues around business rates and the complexity of schemes. We do have to take our time and look at them in terms of what their real value is. So, it is one area we can use to assist small businesses. We will have full devolution of rates and we had an excellent discussion in committee this morning about the issues around business rates.

Yn awr, rwy'n credu ei bod yn allweddol o'r holl gyfraniadau fod ardrethi busnes yn faes pwysig ar gyfer cefnogi busnesau, gan fod busnesau bach yn chwarae rhan hanfodol yn y broses o ddatblygu economi gref, gan annog datblygiad a chreu swyddi. Rwy'n ymrwymedig i gefnogi'r broses o greu a datblygu swyddi. Rwy'n falch o gefnogi gwelliant 2 ac yn cytuno â'r sylwadau a wnaed gan Eluned Parrott ar y materion sy'n ymwneud ag ardrethi busnes a chymhlethdod cynlluniau. Mae'n rhaid i ni gymryd ein hamser ac edrych arnynt o ran yr hyn yw eu gwerth go iawn. Felly, mae'n un maes y gallwn ei ddefnyddio i helpu busnesau bach. Bydd ardrethi yn cael eu datganoli'n llawn i ni a chawsom drafodaeth ardderchog yn y pwyllgor y bore yma ynglŷn â'r materion sydd ynghlwm wrth ardrethi busnes.

Can I say I will be opposing amendment 3? The business task and finish group frequently pointed out a lack of evidence about some issues as well around business rates.

A gaf fi ddweud y byddaf yn gwrthwynebu gwelliant 3? Roedd y grŵp gorchwyl a gorffen ar fusnes yn aml yn tynnu sylw at ddiffyg tystiolaeth ynghylch rhai materion, yn ogystal â materion yn ymwneud ag ardrethi busnes.

Finally, I'll turn, if I may, to amendment 5, which we will be supporting. I have to say that we continue to encourage procurement approaches that enable businesses in Wales to access our contract opportunities. We are not able to discriminate, however, in favour of Wales-based suppliers, but our focus is on developing their capability to win a greater proportion of contracts. Through Business Wales and Sell2Wales, we remain committed to providing tendering support and open access to opportunities for Welsh SMEs.

Yn olaf, hoffwn droi, os caf, at welliant 5, y byddwn yn ei gefnogi. Rhaid i mi ddweud ein bod yn parhau i annog dulliau caffael sy'n galluogi busnesau yng Nghymru i fanteisio ar ein cyfleoedd contractio. Ni allwn wahaniaethu, fodd bynnag, o blaid cyflenwyr yng Nghymru, ond mae ein ffocws ar ddatblygu eu gallu i ennill cyfran fwy o gontractau. Drwy Busnes Cymru a Sell2Wales, rydym yn parhau'n ymrwymedig i ddarparu cymorth tendro a mynediad agored at gyfleoedd i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru.

16:35

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will the Minister take an intervention?

A wnaiff y Gweinidog dderbyn ymyriad?

16:35

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Are you giving way, or have you finished?

A ydych yn ildio, neu a ydych wedi gorffen?

16:35

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. Does the Minister—

Diolch yn fawr. A yw'r Gweinidog—

16:35

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Have you given way, Minister?

A ydych chi wedi ildio, Weinidog?

16:35

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes.

Ydw.

16:35

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Does the Minister recognise, though, that there have been changes in European regulations that do allow for making decisions in favour of companies, say, within a locality for environmental reasons, which does give you more power than you would have had in the past?

A yw'r Gweinidog yn cydnabod, fodd bynnag, y bu newidiadau yn y rheoliadau Ewropeaidd sy'n caniatáu ar gyfer gwneud penderfyniadau o blaid cwmnïau mewn ardal am resymau amgylcheddol, dyweder, sy'n rhoi mwy o bŵer i chi nag y byddai wedi bod gennych yn y gorffennol?

16:35 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes. If I hadn't accepted your intervention, I would have gone on to say that the opportunities to strengthen the Wales procurement policy statement through the new EU directives will be maximised, and I have the assurance of the finance Minister on that particular issue. So, I finally say that I thank Members for their contributions and I hope that I have responded to many of the points that were raised.

Ydw. Pe na bawn wedi derbyn eich ymyriad, byddwn wedi mynd ymlaen i ddweud y byddwn yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i gryfhau datganiad polisi caffael Cymru drwy gyfarwyddebau newydd yr UE, ac rwyf wedi cael sicrwydd y Gweinidog Cyllid ar y mater penodol hwnnw. Felly, i orffen, diolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau ac rwy'n gobeithio fy mod wedi ymateb i lawer o'r pwyntiau a godwyd.

16:35 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And Nick Ramsay to reply to debate.

A Nick Ramsay i ymateb i'r ddadl.

16:36 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. Can I thank everyone who has taken part in today's debate and given their tentative support at least for today's debate? It was US President Bill Clinton who once famously said, 'It's the economy, stupid', in response to a journalist's question, and, of course, if we can't get the economy right, then what can we get right? Over the last five years, the UK coalition Government has been getting to grips with the debt it inherited, laying the foundations of a stable and sustainable economy. We look to the Welsh Government to play its part here to build a successful and prosperous Welsh economy.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. A gaf fi ddiolch i bawb sydd wedi cymryd rhan ac wedi rhoi eu cefnogaeth betrus fan lleiaf i'r ddadl heddiw? Bill Clinton, Arlywydd yr Unol Daleithiau, a ddywedodd unwaith 'Yr economi ydyw, twpsyn', mewn ymateb i gwestiwn gan newyddiadurwr, ac wrth gwrs, os na allwn gael yr economi'n iawn, yna beth allwn ni ei wneud yn iawn? Dros y pum mlynedd diwethaf, mae Llywodraeth glymblaid y DU wedi bod yn mynd i'r afael â'r ddyled a etifeddodd, gan osod y sylfaen ar gyfer economi sefydlog a chynaliadwy. Disgwyliwn i Lywodraeth Cymru chwarae ei rhan yma i adeiladu economi Gymreig lwyddiannus a llewyrchus.

The second part of the Welsh Conservative motion today recognises the key features of our economy here: the rural dimension, as alluded to by Janet Finch-Saunders, and the subsequent need to give specific support to rural businesses. You can't simply deal with the problems of businesses in urban areas and not tackle the problems facing rural businesses. There are similarities, but there are also differences that need to be recognised, and AMs representing rural areas will know that. Sadly, after 15 years of this Assembly and different combinations of Labour Welsh Governments, Wales does remain, as many contributors have said, the poorest part of the UK. Yes, the Welsh economy has suffered from severe long-term structural problems over many decades, and, yes, Minister, we start from a lower base, but this should not be a barrier to our ambitions for our economy and our ambitions for a better Wales.

Mae'r ail ran i gynnig y Ceidwadwyr Cymreig heddiw yn cydnabod nodweddion allweddol ein heconomi: y dimensiwn gwledig, fel y cyfeiriodd Janet Finch-Saunders ato, a'r angen yn sgil hynny i roi cymorth penodol i fusnesau gwledig. Ni allwch ddelio'n syml â phroblemau busnesau mewn ardaloedd trefol a pheidio â mynd i'r afael â'r problemau sy'n wynebu busnesau gwledig. Mae tebygrwydd rhyngddynt, ond mae yna wahaniaethau sy'n rhaid eu cydnabod hefyd, a bydd ACau sy'n cynrychioli ardaloedd gwledig yn gwybod hynny. Yn anffodus, ar ôl 15 mlynedd o'r Cynulliad hwn a gwahanol gyfuniadau o Lywodraethau Llafur Cymru, fel y mae sawl cyfrannwr wedi dweud, Cymru yw'r rhan dlotaf o'r Deyrnas Unedig o hyd. Ydy, mae economi Cymru wedi dioddef problemau strwythurol hirdymor difrifol dros ddegawdau lawer, ac ydym, Weinidog, rydym yn dechrau o sylfaen is, ond ni ddylai hyn fod yn rhwystr i'n huchelgeisiau ar gyfer ein heconomi a'n huchelgeisiau ar gyfer sicrhau Cymru well.

Turning to some of the contributions, Rhun ap Iorwerth, I'm not sure why you were surprised we were calling for capital infrastructure investment, other than being mischievous. I would remind you that the UK coalition's investment might well have resulted in capital cuts over the last few years, thanks to the inheritance it received from the previous UK Labour Government, but I do ask the question: how much money would we have received from Westminster for capital projects if Wales was an independent country? I think it would be significantly less. You also mentioned the £500 million of advanced borrowing specifically for an M4 solution. I think you need to revisit that legislation in terms of advanced borrowing powers; that is wider than it initially was, so there is more funding available for projects across the board thanks to that deal.

Gan droi at rai o'r cyfraniadau, Rhun ap Iorwerth, nid wyf yn siŵr pam roeddech yn synnu ein bod yn galw am fuddsoddi cyfalaf seilwaith, ar wahân i fod yn ddireidus. Hoffwn eich atgoffa y gallai buddsoddiad clymblaid y DU yn hawdd fod wedi arwain at doriadau cyfalaf dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, diolch i'r etifeddiaeth a gafodd gan Lywodraeth Lafur flaenorol y DU, ond rwy'n gofyn y cwestiwn: faint o arian y byddem wedi ei gael gan San Steffan ar gyfer prosiectau cyfalaf pe bai Cymru yn wlad annibynnol? Rwy'n credu y byddai'n llawer llai. Fe sonioch hefyd am £500 miliwn o fenthyciad ymlaen llaw yn benodol fel ateb i'r M4. Rwy'n meddwl bod angen i chi edrych eto ar y ddeddfwriaeth o ran pwerau benthyca ymlaen llaw; mae'n ehangach nag oedd yn wreiddiol, felly mae mwy o arian ar gael ar gyfer prosiectau ar draws y bwrdd, diolch i'r cytundeb hwnnw.

Byron Davies, you clearly show that you have the interests of Gower and the interests of Wales at your beating heart. Mumbles does indeed matter for Byron Davies, as does the rest of Wales. It's only a shame, isn't it, that other people don't share your commitment to improving the Welsh economy and your willingness to get out there on the stump and bat for Wales and bat for a better future for all of us. You mentioned Welsh Conservative policy 'Destination Cymru', which looks to do this and looks to develop the export part of our economy, and which features a better aftercare element—developing the aftercare element—which was a feature of the Welsh Development Agency days, but is not such a strong aspect now. I admit that aftercare is there, but it could certainly be a lot better than it is.

Byron Davies, rydych yn dangos yn glir fod buddiannau Gŵyr a buddiannau Cymru yn agos iawn at eich calon. Mae Mwmbwls yn wir yn bwysig i Byron Davies, fel y mae gweddill Cymru. Mae'n drueni, onid yw, nad yw pobl eraill yn rhannu eich ymrwymiad i wella economi Cymru a'ch parodrwydd i fynd allan i ymladd dros Gymru ac i ymladd dros well dyfodol ar ein cyfer ni i gyd. Roeddech yn sôn am bolisi'r Ceidwadwyr Cymreig, 'Cyrchfan Cymru', sy'n anelu i ddatblygu allforion fel rhan o'n heconomi, ac sy'n cynnwys gwella'r elfen ôl-ofal—datblygu'r elfen ôl-ofal—a oedd yn un o nodweddion dyddiau Awdurdod Datblygu Cymru, ond nad yw'n elfen mor gryf erbyn hyn. Rwy'n cyfaddef bod yna ôl-ofal, ond gallai'n sicr fod yn llawer gwell na'r hyn ydyw.

Keith Davies. I enjoyed your speech immensely, Keith; you taught us the basics of French grammar, specifically the different forms of 'être', the verb 'to be'. It took me back to my school days. I appreciate it massively. I'm not quite sure what point you were making, other than it was a novel way of growing the economy, but I think it was different, so 10 out of 10, top of the class, for uniqueness there.

Keith Davies. Mwynheais eich araith yn fawr iawn, Keith; fe ddysgoch elfennau sylfaenol o ramadeg Ffrangeg i ni, yn enwedig y gwahanol ffurfiau ar 'être', y ferf 'bod'. Aeth â mi yn ôl i fy nyddiau ysgol. Rwy'n ei werthgawrogi'n fawr iawn. Nid wyf yn hollol siŵr beth oedd y pwynt roeddech chi'n ei wneud heblaw ei fod yn ffordd newydd o ddatblygu'r economi, ond rwy'n credu ei fod yn wahanol, felly 10 allan o 10, i ben y dosbarth am wreiddioldeb.

I mentioned Janet Finch-Saunders and your comments about the rural economy. Those remain to be said. And, Mohammad Asghar, you're right that we have debates month after month, year after year on improving the economy, and it's good that, with policies like the Welsh development bank, you can certainly see the seeds of that in our plan, which I have a copy of here: 'Invest Wales: A Vision for Welsh Investment'. You can see the seeds of it within that document, so we're always pleased when the Welsh Government—they might not admit to listening to us—takes on board some of our concerns and some of our ideas do appear in Welsh policy.

Soniais am Janet Finch-Saunders a'ch sylwadau ar yr economi wledig. Mae'n dal i fod angen eu dweud. A Mohammad Asghar, rydych chi'n iawn ein bod yn cael dadleuon fis ar ôl mis, flwyddyn ar ôl blwyddyn ar wella economi, a gyda pholisïau fel banc datblygu Cymru, mae'n dda eich bod yn sicr yn gallu gweld hadau hynny yn ein cynllun. Mae gennyf gopi ohono yma: 'Buddsoddi Cymru: Gweledigaeth ar gyfer Buddsoddi yng Nghymru'. Gallwch weld ei hadau yn y ddogfen honno, felly rydym bob amser yn falch pan fydd Llywodraeth Cymru—efallai na fyddent yn cyfaddef eu bod yn gwrando arnom—yn ystyried rhai o'n pryderon a phan fo rhai o'n syniadau yn ymddangos yn y polisïau ar gyfer Cymru.

But I would agree with Eluned Parrott that we do need to see the detail of that. It's one thing to say that a Welsh development bank would be a good thing, but we need to see exactly what comes forward in terms of the detail of that arrangement, and of course it cannot be the only solution for Welsh business. But I think that anything that makes Finance Wales a more publicly facing, localised bank, and more responsive to the concerns of local businesses, and not an inward-looking organisation, which is probably unfair in some respects to many in Finance Wales, but is certainly the way the organisation has become perceived to be. If we can deal with those issues and really get Finance Wales restructured and out there in a way that responds to local businesses, then that will be a good thing for us all.

Ond byddwn yn cytuno ag Eluned Parrott fod angen i ni weld y manylion. Un peth yw dweud y byddai banc datblygu ar gyfer Cymru yn beth da, ond mae angen i ni weld yn union beth sy'n cael ei gyflwyno o ran manylion y trefniant hwnnw ac wrth gwrs, ni all fod yr unig ateb ar gyfer busnesau Cymru. Ond rwy'n credu bod unrhyw beth sy'n gwneud Cyllid Cymru yn fanc sy'n fwy ar gyfer y cyhoedd, mwy lleol, a mwy ymatebol i bryderon busnesau lleol, ac nid yn sefydliad mewnblyg, sy'n annheg mewn rhai ffyrdd i lawer yn Cyllid Cymru yn ôl pob tebyg, ond yn sicr, dyma sut y mae'r sefydliad wedi dod i gael ei weld bellach. Os gallwn ymdrin â'r materion hynny a sicrhau ein bod yn ailstrwythuro Cyllid Cymru yn iawn a'i gyflwyno mewn ffordd sy'n ymateb i fusnesau lleol, yna bydd hynny'n beth da i ni i gyd.

William Graham in opening the debate today, to go back to William's comments, successfully drew attention to the Welsh Conservative infrastructure proposals, and our policy on the M. I think we all agree that we do need a solution to the M4 congestion at peak times, but Welsh Conservative policy is certainly to call for a rerunning of that consultation because we do not believe that it was an adequate and effective consultation, and it should certainly have included all options, including the blue route, and indeed including the original options that Carl Sargeant, the previous Minister, was looking at in terms of improvements to the existing route. I think when you look at the Assembly's sustainability agenda and the proposals to drive a motorway through so many sites of special scientific interest, you do have to raise questions about the reasons why we are here, and whether we could actually form policies that are more beneficial to the economy and to the environment.

I fynd yn ôl at sylwadau William Graham wrth agor y ddadl heddiw, llwyddodd William i dynnu sylw at gynigion y Ceidwadwyr Cymreig ar y seilwaith, a'n polisi ar yr M4. Rwy'n credu ein bod i gyd yn cytuno bod angen ateb problem y tagfeydd ar yr M4 ar adegau brig, ond polisi'r Ceidwadwyr Cymreig yn bendant yw galw am ail-gynnal yr ymgynghoriad am nad oeddem yn credu ei fod yn ymgynghoriad digonol ac effeithiol, a dylai'n sicr fod wedi cynnwys yr holl opsiynau, gan gynnwys y llwybr glas, ac yn wir yr opsiynau gwreiddiol a oedd dan ystyriaeth gan Carl Sargeant, y Gweinidog blaenorol, o ran gwelliannau i'r llwybr presennol. Pan edrychwch ar agenda cynaliadwyedd y Cynulliad a'r cynigion i redeg traffordd drwy gymaint o safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig, rwy'n credu y bydd yn rhaid i chi ofyn cwestiynau ynglŷn â pham rydym ni yma, ac a allem ffurfio polisïau sy'n fwy o fudd i'r economi ac i'r amgylchedd mewn gwirionedd.

Thank you, everyone, for contributing today. I urge you to support the motion. There is a lot that we can all find agreement in. Let's support this motion, move forward and develop the economy of urban and rural Wales in a way that is sustainable to the future generations of this country, and also the environment.

Diolch i chi, bawb, am gyfrannu heddiw. Fe'ch anogaf i gefnogi'r cynnig. Mae yna lawer y gallwn i gyd gytuno arno. Gadewch inni gefnogi'r cynnig hwn, symud ymlaen a datblygu economi drefol a gwledig Cymru mewn ffordd sy'n gynaliadwy i genedlaethau'r dyfodol yn y wlad hon, a hefyd i'r amgylchedd.

16:42

### Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] I defer voting under this item until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Rwy'n gohirio pleidleisio dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

## 6. Dadl Plaid Cymru: Newid yn yr Hinsawdd

## 6. Plaid Cymru Debate: Climate Change

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw yn enw Jane Hutt, gwelliant 2 yn enw Aled Roberts, a gwelliant 3 yn enw Paul Davies. Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliannau 2 a 3 yn cael ei ddad-ddethol.*

*The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Jane Hutt, amendment 2 in the name of Aled Roberts, and amendment 3 in the name of Paul Davies. If amendment 1 is agreed, amendments 2 and 3 will be deselected.*

16:42

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Eitem 6, dadl Plaid Cymru ar newid yn yr hinsawdd. Galwaf ar Llyr Gruffydd i wneud y cynnig.

Item 6, the Plaid Cymru debate on climate change. I call on Llyr Gruffydd to move the motion.

Cynnig NDM5718 Elin Jones

Motion NDM5718 Elin Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi Adroddiad Synthesis y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd (IPCC) ar gyfer 2014 sy'n datgan:

1. Notes the IPCC Climate Change 2014 Synthesis Report which states that:

a) bod dylanwad dynol ar y system hinsawdd yn glir, ac mai'r allyriadau anthropogenig diweddar o nwyon tŷ gwydr yw'r rhai uchaf mewn hanes;

a) 'Human influence on the climate system is clear, and recent anthropogenic emissions of greenhouse gases are the highest in history,'

b) bod yr awyrgylch a'r môr wedi cynhesu, bod cyfanswm yr eira a'r rhew wedi lleihau, a lefel y môr wedi codi; a

b) 'The atmosphere and ocean have warmed, the amounts of snow and ice have diminished, and sea level has risen' and

c) y gall gostyngiadau sylweddol mewn allyriadau dros y degawdau nesaf leihau risgiau i'r hinsawdd yn yr 21ain ganrif a thu hwnt, cynyddu rhagolygon ar gyfer addasu effeithiol, lleihau costau a heriau lliniaru yn y tymor hwy, a chyfrannu at lwybrau datblygu cynaliadwy sy'n gallu dygymod â'r newid yn yr hinsawdd.

c) 'Substantial emissions reductions over the next few decades can reduce climate risks in the 21st century and beyond, increase prospects for effective adaptation, reduce the costs and challenges of mitigation in the longer term, and contribute to climate-resilient pathways for sustainable development.'

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno targedau statudol i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru.

2. Calls upon the Welsh Government to introduce statutory targets to reduce greenhouse gas emissions in Wales.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

16:42

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae'n bleser gennyf ddod â'r cynnig yma gerbron y Cynulliad yn enw Plaid Cymru oherwydd rwyf i a Phlaid Cymru yn gyson wedi bod yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno targedau statudol ar newid hinsawdd. Rŷm ni wedi codi'r mater, wrth gwrs, fel y byddwch chi'n gwybod, lawer tro mewn dadleuon, mewn cwestiynau, mewn pwyllgorau, ac yn y blaen. Yn fwyaf diweddar, fe holais i'r Gweinidog bythefnos yn ôl fan hyn, yn y Siambr, os oedd ef o blaid creu targedau statudol i Gymru, ac er rhoi dau gyfle iddo fe, fe fethodd e roi ateb clir a diamwys bryd hynny. Yr wythnos diwethaf, yn y pwyllgor amgylchedd, fe ofynnais i eto, ac unwaith eto fe gawsom ni ateb a oedd yn gwrthod cadarnhau na gwadu os oedd y Llywodraeth o blaid targedau statudol ar newid hinsawdd. Felly, fe osododd Plaid Cymru y cynnig hwn heddiw gyda'r bwriad o geisio cael datganiad clir gan y Cynulliad yma ein bod ni o'r farn y dylai Cymru gael targedau statudol ar newid hinsawdd.

It is a pleasure to bring this motion before the Assembly in the name of Plaid Cymru because I and Plaid Cymru have consistently called on the Welsh Government to introduce statutory targets on climate change. We've raised the issue, of course, as you will know, on numerous occasions, in debates, questions, committees, and so on and so forth. Most recently, I asked the Minister a fortnight ago in this very place, in the Chamber, if he was in favour of the creation of statutory targets for Wales, and despite giving him two opportunities, he failed to give a clear and unambiguous response at that time. Last week, in the environment committee, I asked him once again, and again we were given an answer that was a refusal to confirm or deny if the Government was in favour of statutory targets on climate change. Therefore, Plaid Cymru tabled this motion today with the intention of seeking a clear statement from this Assembly that we are of the opinion that Wales should have statutory targets on climate change.

Yna, ym amsersol iawn, fe ddysgais i bore ddoe gan newyddiadurwyr fod Llywodraeth Cymru wedi ryddhau datganiad i'r wasg yn cyhoeddi eu bod nhw am sefydlu targedau statudol. Nid datganiad inni fel Aelodau Cynulliad—nid wyf yn meddwl bod hynny'n ddelfrydol, o bell ffordd—ond dyna ni: y peth pwysig i fi, ac i Blaid Cymru, ar ôl ymgyrchu cyhyd yw bod y penderfyniad wedi'i wneud, a bod Llywodraeth Cymru, o'r diwedd, wedi cytuno gyda Phlaid Cymru ar hyn, ac ein bod ni wedi eich darbwyllo chi fel Llywodraeth i fynd ati i gyflwyno'r targedau yma. Mae'n hen bryd gwneud hynny, hefyd.

Then, in a very timely fashion, I learnt from journalists yesterday morning that the Welsh Government had released a statement to the press, announcing that they were to establish statutory targets. It wasn't a statement to us as Assembly Members—I don't think that's ideal, by any means—but there we are: the important thing for me, and for Plaid Cymru, having campaigned for so long, is that the decision has now been taken and that the Welsh Government has, at last, agreed with Plaid Cymru on this issue, and that we have convinced you as a Government to introduce the targets here. It is about time that was done, too.

This announcement by the Welsh Government is long overdue. Wales is currently the only UK nation with no targets or proposed targets in place. In the meantime, the Northern Ireland Executive is taking forward proposals for a Northern Ireland climate change Act, and the Scottish Government has put statutory targets in place through the Climate Change (Scotland) Act 2009. Scotland's targets are to reduce emissions by 2050 by 80 per cent compared to 1990 levels, with an interim 42 per cent target for 2020. Beneath this, it sets annual targets through secondary legislation. It also has targets in place to generate the equivalent of 100 per cent of Scotland's gross annual electricity consumption through renewable sources by 2020 and for renewable sources to provide the equivalent of 11 per cent of Scotland's heat demand by 2020 as well.

Mae'n hen bryd inni gael y cyhoeddiad hwn gan Lywodraeth Cymru. Cymru yw'r unig wlad yn y DU heb unrhyw dargedau na thargedau arfaethedig ar waith ar hyn o bryd. Yn y cyfamser, mae Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn datblygu cynigion ar gyfer Deddf Newid yn yr Hinsawdd Gogledd Iwerddon, a Llywodraeth yr Alban wedi rhoi targedau statudol ar waith drwy Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd (yr Alban) 2009. Targedau'r Alban yw lleihau allyriadau 80 y cant erbyn 2050 o gymharu â lefelau 1990, a tharged interim o 42 y cant erbyn 2020. O dan hyn, mae'n gosod targedau blynyddol drwy is-ddeddfwriaeth. Mae ganddi dargedau ar waith hefyd i gynhyrchu'r hyn sy'n cyfateb i 100 y cant o ddefnydd trydan blynyddol gros yr Alban drwy ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2020 ac i ffynonellau adnewyddadwy ddarparu'r hyn sy'n cyfateb i 11 y cant o alw'r Alban am wres erbyn 2020 hefyd.

Wales led the way in introducing an annual carbon emission reduction target of 3 per cent in the 'One Wales' programme for government and followed it a few years later with a cross-party commitment to cut all our emissions 40 per cent by 2020. Climate change is one of the biggest challenges facing the world today. We must take immediate action to tackle this. The evidence of global warming and its effects, of course, are clear for all to see.

Arweiniodd Cymru'r ffordd drwy gyflwyno targed lleihau allyriadau carbon blynyddol o 3 y cant yn y rhaglen 'Cymru'n Un' ar gyfer y llywodraeth a dilynodd hynny ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach gydag ymrwymiad trawsbleidiol i dorri ein holl allyriadau 40 y cant erbyn 2020. Newid hinsawdd yw un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r byd heddiw. Mae'n rhaid i ni roi camau ar waith ar unwaith i fynd i'r afael â hyn. Mae'r dystiolaeth ynghylch cynhesu byd-eang a'i effeithiau yn glir i bawb eu gweld, wrth gwrs.

Earth's average temperature has increased by about 0.8 degrees centigrade since the year 1900. A wide range of other observations, such as sea-level rise, reduced arctic sea ice extent, and increased ocean heat content, provide incontrovertible evidence of a warming earth. Best estimates of the global average sea-level rise over the last two decades suggest 3.2 mm per year. Now, the overall observed rise since 1901 is about 20 cm. If carbon dioxide and other greenhouse gases continue to increase on their current trajectories, it's projected that sea levels may rise by a further half to one metre by 2100. If emissions continue on their present trajectory—easy enough for me to say—then global warming of between 2.6 and 4.8 degrees centigrade in addition to that which has already occurred would be expected by the end of the century. And my children will still be alive then.

Mae tymheredd cyfartalog y Ddaear wedi codi tua 0.8 gradd canradd ers y flwyddyn 1900. Mae ystod eang o arsylwadau eraill megis lefel y môr yn codi, llai o rew môr yn yr Arctig a mwy o wres cefnforol, yn cynnig tystiolaeth ddiymwad fod y ddaear yn cynhesu. Mae'r amcangyfrifon gorau yn awgrymu bod lefel y môr ar gyfartaledd wedi codi 3.2 mm y flwyddyn yn fyd-eang dros y ddau ddegawd diwethaf. Nawr, mae'r codiad cyffredinol a welwyd ers 1901 oddeutu 20 cm. Os yw lefelau carbon deuocsid a nwyon tŷ gwydr eraill yn parhau i gynyddu yn ôl eu tuedd bresennol, rhagwelir y gallai lefel y môr godi rhwng hanner metr ac un metr pellach erbyn 2100. Os bydd allyriadau yn parhau ar eu trywydd presennol—sy'n ddigon hawdd i mi ei ddweud—yna byddem yn disgwyl gweld cynhesu byd-eang rhwng 2.6 a 4.8 gradd canradd uwchlaw'r hyn sydd eisoes wedi digwydd erbyn diwedd y ganrif. A bydd fy mhlant yn dal i fod yn fyw bryd hynny.

Even though an increase of a few degrees in global average temperature doesn't sound like much, global average temperature during the last ice age was only about four to five degrees centigrade colder than now. Global warming, therefore, of just a few degrees will be associated with widespread changes in regional and local temperature and rainfall as well as with increases in some types of extreme weather events. These and other changes, such as sea-level rise and storm surges, will have serious impacts on human societies and the natural world.

Er nad yw cynnydd o ychydig raddau yng nghyfartaledd y tymheredd byd-eang yn swnio'n llawer, nid oedd cyfartaledd y tymheredd byd-eang yn ystod yr oes iâ ddiwethaf ond oddeutu 4 i 5 gradd canradd yn oerach nag ydyw'n awr. Felly, bydd cynhesu byd-eang o ychydig raddau'n unig yn gysylltiedig â newidiadau eang yn y tymheredd a glawiad yn rhanbarthol a lleol yn ogystal â lefelau cynyddol o rai mathau o dywydd eithafol. Bydd hyn a newidiadau eraill, fel lefel y môr yn codi ac ymchwydd stormydd yn effeithio'n ddifrifol ar gymdeithasau dynol a'r byd naturiol.

So, how seriously are we in Wales taking our responsibilities to play our part in tackling climate change? Wales has, in broad terms, led the rest of the UK on environmental policies and legislation in the past, as the first nation to introduce statutory recycling targets—and, of course, they were highly lauded earlier this afternoon—and the first UK nation as well, of course, to introduce a plastic bag charge. And, as stated by the Minister for Natural Resources—when the latest recycling figures were released back in November, he told us that we're still the only UK Government that has set statutory recycling targets and this focus is delivering results. So, I'm glad that we're now moving to replicate that in terms of wider climate change.

Felly, pa mor ddifrifol rydym ni yng Nghymru yn ystyried ein cyfrifoldebau i chwarae ein rhan wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd? Yn gyffredinol, mae Cymru wedi arwain gweddill y DU ar bolisïau a deddfwriaeth amgylcheddol yn y gorffennol fel y wlad gyntaf i gyflwyno targedau ailgylchu statudol—a chawsant glod mawr iawn yn gynharach y prynhawn yma, wrth gwrs—a'r genedl gyntaf yn y DU hefyd i gyflwyno tâl am fagiau plastig. Fel y nododd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol—pan ryddhawyd y ffigurau ailgylchu diweddaraf yn ôl ym mis Tachwedd, dywedodd wrthym mai ni yw'r unig Lywodraeth yn y DU sydd wedi gosod targedau ailgylchu statudol ac mae'r ffocws hwn yn cyflawni canlyniadau. Felly, rwy'n falch ein bod yn awr yn cynnig ailadrodd hynny o ran newid yn yr hinsawdd yn fwy eang.

But Wales isn't performing as well on cutting carbon emissions as it is on increasing recycling. A number of the Welsh Government's recent decisions have called into question its true commitment to this issue. These include its decision on the M4 corridor and its rollback on improving the energy efficiency of new homes. Now, the Government's recent climate change annual report showed that carbon emissions were up 3.3 per cent, despite a target of an annual 3 per cent reduction. There was an increase of 5 per cent against the target of a 40 per cent reduction in emissions by 2020. These decisions, coupled with the missed targets that I've just mentioned, call into question whether enough is being done to shoulder our share of the huge effort needed to tackle climate change.

Ond nid yw Cymru yn perfformio gystal ar leihau allyriadau carbon ag y mae ar gynyddu lefelau ailgylchu. Mae nifer o benderfyniadau diweddar Llywodraeth Cymru wedi bwrw amheuaeth ar ei hymrwymiad gwirioneddol i'r mater hwn. Mae'r rhain yn cynnwys ei phenderfyniad ar goridor yr M4 a'i gwaith ar wella effeithlonrwydd ynni cartrefi newydd. Nawr, dangosodd adroddiad blynyddol diweddar y Llywodraeth ar newid yn yr hinsawdd fod allyriadau carbon 3.3 y cant yn uwch, er gwaethaf targed o ostyngiad blynyddol o 3 y cant. Cafwyd cynnydd o 5 y cant yn erbyn y targed o ostyngiad o 40 y cant mewn allyriadau erbyn 2020. Mae'r penderfyniadau hyn, ynghyd â'r targedau na chawsant eu cyrraedd, yn bwrw amheuaeth ynghylch a oes digon yn cael ei wneud i ysgwyddo ein cyfran o'r ymdrech enfawr sydd ei hangen i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

In October, the previous Minister expressed significant concerns that the place and importance of climate change is not fully recognised by the Welsh Minister and that this Government could well find itself with a record worse than that of the UK Government or any of the other devolved nations. Now, if your own backbenchers have little faith in the Government's competence, then we should all be very concerned. But your support for statutory climate change targets is a positive step in the right direction. It isn't sufficient on its own, of course—I'm sure we all recognise that—but it is a key part of upscaling our efforts to tackle one of the biggest challenges facing humanity today.

Ym mis Hydref, mynegodd y Gweinidog blaenorol gryn dipyn o bryder nad oedd y Gweinidog yn cydnabod pwysigrwydd newid yn yr hinsawdd yn llawn ac y gallai'r Llywodraeth hon yn hawdd orfod wynebu bod ganddi record waeth nag un Llywodraeth y DU neu unrhyw un o'r cenhedloedd datganoledig eraill. Nawr, os nad oes gan eich meinciau cefn eich hun lawer o ffydd yng nghymhwysedd y Llywodraeth, yna dylem i gyd fod yn bryderus iawn. Ond mae eich cefnogaeth i dargedau newid yn yr hinsawdd statudol yn gam cadarnhaol yn y cyfeiriad cywir. Nid yw'n ddigon ar ei ben ei hun, wrth gwrs—rwy'n siwr ein bod i gyd yn cydnabod hynny—ond mae'n rhan allweddol o ddwysáu ein hymdrechion i fynd i'r afael ag un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r ddynoliaeth heddiw.

So, we welcome your announcement and your intention to use the environment Bill to deliver statutory targets. We look forward to working with the Government to achieve the strongest possible commitments in the Bill when the time comes. But the Bill of course must be backed up by a strong climate strategy for Wales, which should include an evaluation of existing programmes to reduce emissions and be backed up with a clear package of measures to help meet the necessary targets. That includes an action plan to achieve emission reduction targets, emission impact assessments for large-scale infrastructure and strategies, and measuring the emissions impact of annual budgets. Our future generations demand as much and deserve no less.

Felly, rydym yn croesawu eich cyhoeddiad a'ch bwriad i ddefnyddio Bil yr amgylchedd i gyrraedd y targedau statudol. Edrychwn ymlaen at weithio gyda'r Llywodraeth i sicrhau'r ymrwymiadau cryfaf posibl yn y Bil pan ddaw'r amser. Ond wrth gwrs, rhaid i'r Bil gael ei gefnogi gan strategaeth hinsawdd gref i Gymru a ddylai gynnwys gwerthusiad o raglenni sy'n bodoli eisoes i leihau allyriadau wedi'i gefnogi gan becyn clir o fesurau i helpu i gyrraedd y targedau angenrheidiol. Mae hynny'n cynnwys cynllun gweithredu i gyrraedd targedau lleihau allyriadau, asesiadau o effaith allyriadau ar gyfer seilwaith a strategaethau ar raddfa fawr a mesur effaith allyriadau cyllidebau blynyddol. Dyma'r hyn y mae cenedlaethau'r dyfodol yn galw amdano ac nid ydynt yn haeddu llai na hynny.

16:50

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Rwyf wedi dethol y tri gwelliant i'r cynnig. Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliannau 2 a 3 eu dad-ddethol. Galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol i gynnig yn ffurfiol welliant 1 a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt.

I have selected the three amendments to the motion. If amendment 1 is agreed, amendments 2 and 3 will be deselected. I call on the Minister for Natural Resources to move formally amendment 1 tabled in the name of Jane Hutt.

*Gwelliant 1—Jane Hutt*

*Amendment 1—Jane Hutt*

*Dileu pwynt 2 a rhoi'r canlynol yn ei le:*

*Delete point 2 and replace with:*

*Yn edrych ymlaen at Fil yr Amgylchedd a fydd yn gyfrwng i Lywodraeth Cymru ddeddfu ar gyfer targedau statudol i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.*

*Looks forward to the Environment Bill through which the Welsh Government will legislate for statutory targets to reduce greenhouse gas emissions.*

*Cynigiwyd gwelliant 1.*

*Amendment 1 moved.*

16:50

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

Formally.

Yn ffurfiol.

Senedd.tv Fideo Video

16:50

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Galwaf ar William Powell i gynnig gwelliant 2, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

I call on William Powell to move amendment 2, tabled in the name of Aled Roberts.

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Amendment 2—Aled Roberts*

*Ym mhwynt 2, ar ôl 'targedau' mewnosoder 'yn y Bil amgylchedd arfaethedig'.*

*In point 2, after 'targets' insert 'in the upcoming environment Bill'.*

*Cynigiwyd gwelliant 2.*

*Amendment 2 moved.*

Senedd.tv Fideo Video

16:50

## William Powell Bywgraffiad Biography

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I rise to move amendment 2 tabled in the name of Aled Roberts on behalf of the Welsh Liberal Democrat group.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n codi i gynnig gwelliant 2 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts ar ran grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru.

As a group, we welcome the opportunity to debate climate change, which is, as Llyr Gruffydd has stated, without a shadow of doubt one of the most serious threats facing our planet today. In the midst of economic crises, sometimes the environment can appear to take a back seat, but it is absolutely vital that this is not allowed to be the case. As I said just yesterday in the Chamber in the context of the Well-being of Future Generations (Wales) Bill debate, I welcome the fact that the Minister, both in a written statement and also by putting the weight of the Government behind our amendments to the Well-being of Future Generations (Wales) Bill, has formally committed to bringing forward statutory targets to reduce greenhouse gas emissions in the forthcoming environment Bill. I regard this as a major step forward, and am pleased that the Welsh Government has listened to us, and, indeed, to the wider third sector, on these important issues, and I look forward to seeing the detail when it is published as part of the Bill.

Fel grŵp, rydym yn croesawu'r cyfle i drafod y newid yn yr hinsawdd, sef y bygythiad mwyaf difrifol sy'n wynebu ein planed heddiw heb unrhyw amheuaeth, fel y soniodd Llyr Gruffydd. Yng nghanol argyfyngau economaidd, weithiau gall ymddangos bod yr amgylchedd yn cael llai o sylw nag y dylai, ond mae'n gwbl hanfodol nad ydym yn gadael i hyn ddigwydd. Fel y dywedais ddoe ddiwethaf yn y Siambr yng nghyd-destun y ddadl ar y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), rwy'n croesawu'r ffaith fod y Gweinidog, mewn datganiad ysgrifenedig a thrwy roi pwysau'r Llywodraeth y tu ôl i'n gwelliannau i'r Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), wedi ymrwymo'n ffurfiol i gyflwyno targedau statudol i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ym Mil yr Amgylchedd sydd ar y ffordd. Rwy'n ystyried hwn yn gam mawr ymlaen, ac rwy'n falch fod Llywodraeth Cymru wedi gwrando arnom, ac yn wir, ar y trydydd sector yn ehangach, ynghylch y materion pwysig hyn ac edrychaf ymlaen at weld y manylion pan gânt eu cyhoeddi'n rhan o'r Bil.

However, I think that we can and should be bolder, as has already been argued. The opportunity to enshrine in law the commitment to reduce climate change should not stop at greenhouse gas emissions alone. If the Welsh Government is going to prove its commitment to really tackling climate change, then much wider issues need to be considered, including carbon emissions and the decarbonisation of the power sector, energy efficiency, biodiversity, and, of course, investment in public transport.

Fodd bynnag, rwy'n meddwl y gallwn fod, ac y dylem fod yn fwy beiddgar, fel sydd eisoes wedi cael ei ddadlau. Ni ddylid cyfyngu'r cyfle i ymgorffori mewn cyfraith yr ymrwymiad i leihau newid hinsawdd i allyriadau nwyon tŷ gwydr yn unig. Os yw Llywodraeth Cymru yn mynd i brofi ei hymrwymiad i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd mewn gwirionedd, mae angen ystyried materion llawer ehangach, gan gynnwys allyriadau carbon a datgarboneiddio'r sector pŵer, effeithlonrwydd ynni, bioamrywiaeth a buddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus wrth gwrs.

Senedd.tv Fideo Video

16:52

## David Rees Bywgraffiad Biography

Will you take an intervention on that?

A wnewch chi dderbyn ymyriad ar hynny?

Senedd.tv Fideo Video

16:52

## William Powell Bywgraffiad Biography

I'm happy to take the intervention.

Rwy'n hapus i gymryd yr ymyriad.

Senedd.tv Fideo Video

16:52 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for taking the intervention. Are you therefore disappointed that your Government in London has actually deferred a decision on windfarms in mid Wales until after the general election, which sounds like it is on the basis of electoral reasons and not on actually climate reasons?

Diolch i chi am gymryd yr ymyriad. A ydych chi felly'n siomedig fod eich Llywodraeth yn Llundain wedi gohirio penderfyniad ar ffermydd gwynt yng nghanolbarth Cymru tan ar ôl yr etholiad cyffredinol, sy'n swnio fel pe bai wedi'i wneud am resymau etholiadol ac nid am resymau'n ymwneud â hinsawdd?

16:52 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much for that intervention. I am aware of that news, and it is, certainly for myself personally and for the local communities, a matter of some regret, and I would acknowledge that.

Diolch yn fawr iawn am eich ymyriad. Rwy'n ymwybodol o'r newyddion hwnnw, ac yn bendant, i mi'n bersonol ac i'r cymunedau lleol, mae'n sicr yn fater sy'n peri gofid, rwy'n cydnabod hynny.

However, I think that we can and should be bolder. In that vein, I would also state that it's my intention shortly to invite our Minister for Natural Resources, Carl Sargeant, to meet with Adrian Ramsay and his colleagues at the Centre for Alternative Technology in Machynlleth. They've been doing a huge amount of work in promoting the Zero Carbon Britain agenda, and it acts as a great blueprint for seriously tackling climate change. Their research demonstrates that we can in a modern society live with net zero emissions. Using only currently available technology, it is possible to make that transition within the necessary timeframe, and we can rise to the challenge of climate change and create a positive future.

Fodd bynnag, rwy'n meddwl y gallwn ac y dylem fod yn fwy beiddgar. Yn yr un modd, hoffwn ddatgan hefyd fy mod yn bwriadu gwahodd ein Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Carl Sargeant, i gwrdd ag Adrian Ramsay a'i gydweithwyr yn y Ganolfan Dechnoleg Amgen ym Machynlleth cyn bo hir. Maent wedi bod yn gwneud llawer iawn o waith ar hyrwyddo agenda Prydain Ddi-garbon, ac mae'n gweithredu fel glasbrint gwych ar gyfer mynd i'r afael o ddifrif â newid yn yr hinsawdd. Mae eu hymchwil yn dangos y gallwn fyw mewn cymdeithas fodern heb allyriadau net. Gan ddefnyddio'r dechnoleg sydd ar gael ar hyn o bryd yn unig, mae'n bosibl gwneud newid o'r fath o fewn yr amserlen angenrheidiol a gallwn ymateb i'r her o newid yn yr hinsawdd a chreu dyfodol cadarnhaol.

In response to the Welsh Government's annual climate change report, some third sector environmental groups have stated that the report does not provide adequate analysis of the latest emission figures. I would suggest that, without this analysis, it is impossible to understand exactly where we stand in terms of meeting emissions targets, and also it makes it very difficult indeed to develop a comprehensive plan for addressing the apparent shortcomings.

Mewn ymateb i adroddiad blynyddol Llywodraeth Cymru ar newid yn yr hinsawdd, mae rhai grwpiau amgylcheddol trydydd sector wedi datgan nad yw'r adroddiad yn rhoi dadansoddiad digonol o'r ffigurau allyriadau diweddaraf. Heb y dadansoddiad hwn, byddwn yn awgrymu nad oes modd deall yn union ble rydym yn sefyll o ran cyrraedd targedau allyriadau, a hefyd mae'n ei gwneud yn anodd iawn inni ddatblygu cynllun cynhwysfawr ar gyfer mynd i'r afael â'r diffygion amlwg.

I'm also concerned with the reported rise in emissions from homes that has been referred to, which rose by nearly 11% in 2012, and the Oxfam/WWF Cymru report cites worrying statistics on ocean health targets, biodiversity loss and, indeed, other ecological threats. I therefore reiterate my point that the statutory targets to be included in the environment Bill go above and beyond simply addressing greenhouse gas emissions, and I very much hope that the Minister will look seriously at this in the weeks to come leading up to the publication of that momentous Bill.

Rwyf hefyd yn bryderus ynglŷn â'r cynnydd y cyfeiriwyd ato mewn allyriadau o gartrefi a oedd wedi codi bron 11% yn 2012, ac mae adroddiad Oxfam/WWF Cymru yn nodi ystadegau sy'n peri pryder ar dargedau iechyd cefnforol, colli bioamrywiaeth a bygythiadau ecolegol eraill yn wir. Felly, rwy'n ailadrodd fy mhwynt fod y targedau statudol sydd i'w cynnwys ym Mil yr amgylchedd yn mynd y tu hwnt i fynd i'r afael ag allyriadau nwyon tŷ gwydr yn unig, ac rwy'n gobeithio'n fawr y bydd y Gweinidog yn edrych o ddifrif ar hyn yn ystod yr wythnosau nesaf sy'n arwain at gyhoeddi'r Bil pwysig hwn.

16:54 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar Antoinette Sandbach i gynnig gwelliant 3, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

I call on Antoinette Sandbach to move amendment 3, tabled in the name of Paul Davies.

*Gwelliant 3—Paul Davies*

*Amendment 3—Paul Davies*

*Cynnwys ar ddiwedd pwynt 2:*

*At the end of point 2 insert:*

*'ac yn gwneud datganiadau rheolaidd i'r Cyfarfod Llawn ar y targedau hynny'.*

*'and make regular statements to Plenary on these targets'.*

*Cynigiwyd gwelliant 3.*

*Amendment 3 moved.*

16:54

## Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. We have heard earlier today a good news story from Welsh Government in relation to recycling rates in Wales, which are some of the highest in Europe. But, unfortunately, on the overarching matter of climate change, the news here in Wales is not so good and the narrative is by no means as positive. I'm very grateful to Plaid Cymru for tabling this debate so that we could discuss these issues.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Yn gynharach heddiw, clywsom newyddion da gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chyfraddau ailgylchu yng Nghymru, sydd ymhlith yr uchaf yn Ewrop. Ond yn anffodus, ar fater trosfwaol newid yn yr hinsawdd, nid yw'r newyddion cystal yma yng Nghymru ac mae'r naratif yn bell o fod yn gadarnhaol. Rwy'n ddiolchgar iawn i Blaid Cymru am gyflwyno'r ddadl hon er mwyn inni drafod y materion hyn.

I think that yesterday's debate on the Well-being of Future Generations (Wales) Bill and the fact that the Government rejected evidence-based amendments seeking for expert evidence and important and scientifically sound evidence to be used when making assessments about future generations does not bode well for their approach to climate change. In relation to William Powell's highlighting of the statistic of an 11 per cent increase in emissions from homes, the Welsh Government has consistently refused to do a basic survey of Welsh housing stock. Most of our housing stock is pre-1940, and it is quite clear that, if you want to tackle emissions from that source, you need to know where your stock is first and you need to assess it. It's been a recommendation in evidence before our committee for a number of years now and the persistent sticking of the head in the sand is really very depressing. So, perhaps in those circumstances—. You know, climate change since—the report of 2014 is bleak, and there are some very worrying observations in it. It's not just Wales that needs to act, but it's a far wider global community that needs to act. But we can certainly play our part in Wales, and I'd like to look at that.

Credaf nad yw'r ddadl ddoe ar y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r ffaith fod y Llywodraeth wedi gwrthod gwelliannau'n seiliedig ar dystiolaeth a oedd yn galw am ddefnyddio tystiolaeth arbenigol a thystiolaeth bwysig a chadarn yn wyddonol wrth wneud asesiadau ynghylch cenedlaethau'r dyfodol yn argoeli'n dda o ran eu hymagwedd at newid yn yr hinsawdd. Yng nghyswllt y sylw a roddodd William Powell i'r ystadegyn ynglŷn â chynnydd o 11 y cant mewn allyriadau o gartrefi, mae Llywodraeth Cymru yn gyson wedi gwrthod cynnal arolwg sylfaenol o stoc tai Cymru. Mae'r rhan fwyaf o'n stoc tai yn dyddio'n ôl cyn 1940 ac mae'n eithaf amlwg, os ydych am fynd i'r afael ag allyriadau o'r ffynhonnell honno, mae angen i chi wybod ble y mae eich stoc yn gyntaf ac mae angen i chi ei hasesu. Cafodd hyn ei argymell mewn tystiolaeth gerbron ein pwyllgor ers nifer o flynyddoedd bellach ac mae'n ddigalon iawn mewn gwirionedd eich gweld yn parhau i gladdu eich pen yn y tywod. Felly, yn yr amgylchiadau hynny o bosibl—. Wyddoch chi, mae newid hinsawdd ers—mae adroddiad 2014 yn ddigalon, ac mae'n cynnwys rhai sylwadau pryderus iawn. Mae angen i gymuned fyd-eang lawer ehangach weithredu, yn ogystal â Chymru. Ond yn bendant, gallwn chwarae ein rhan yng Nghymru, a hoffwn edrych ar hynny.

The climate change refresh statement: that has been put off, kicked into the long grass. We had some vague statement last week released on Thursday, which didn't really address our targets on climate change, what we want to do about climate change or identify where we are failing on our outcomes. And failing we are, Minister. It's a great shame that you haven't come before this Chamber to be questioned on it and to make sure that you're properly scrutinised on it. An Oxfam report last week highlighted the fact that the Welsh Government had overstepped its own targets for carbon emissions by a massive 410 per cent. The author of this report went on to state that

Y datganiad adnewyddu'r polisi newid yn yr hinsawdd: mae wedi cael ei ohirio, ei daflu o'r neilltu. Cawsom ddatganiad amwys yr wythnos diwethaf, a ryddhawyd ddydd Iau, nad oedd yn rhoi sylw go iawn i'n targedau ar newid yn yr hinsawdd, na'r hyn rydym am ei wneud ynglŷn â newid yn yr hinsawdd nac yn nodi lle rydym yn methu â sicrhau canlyniadau. Ac mae'n wir ein bod yn methu, Weinidog. Mae'n drueni mawr nad ydych wedi dod gerbron y Siambr hon i gael eich holi ar y mater ac i wneud yn siŵr eich bod yn cael eich craffu'n iawn. Roedd adroddiad gan Oxfam yr wythnos diwethaf yn tynnu sylw at y ffaith fod Llywodraeth Cymru wedi caniatáu allyriadau carbon sydd 410 y cant yn uwch na'i thargedau ei hun. Aeth awdur yr adroddiad ymlaen i nodi

'Wales's impact on planetary boundaries is far beyond what its population size can justify'.

'Mae effaith Cymru ar derfynau'r blaned ymhell y tu hwnt i'r hyn y gall maint ei phoblogaeth ei gyfiawnhau'.

When we look at projects that are coming forward, like the proposed black route on the M4, which will have huge implications for the ecology, climate change and water management, and not only that but the Circuit of Wales, where you've got 700,000 tonnes of peat bog being dug up in Blaenau Gwent, it's a poor record from this Government when you're looking at the environment. I remain concerned about the hopes that are being expressed for the future generations Bill. The debate that we had yesterday and the rejection of the amendments that would have strengthened the independence and the accountability of the future generations commissioner indicate to me that, actually, you are more concerned about process and you don't want that independent challenge either to Welsh Government or to the other public bodies.

Pan edrychwn ar brosiectau sy'n cael eu cyflwyno, fel llwybr du arfaethedig yr M4 a fydd â goblygiadau enfawr o ran ecoleg, y newid yn yr hinsawdd a rheoli dŵr, ac nid yn unig hynny, ond Cylchffordd Cymru, lle y mae gennych 700,000 tunnell o fawnog yn cael eu cloddio ym Mlaenau Gwent, mae record y Llywodraeth hon ar yr amgylchedd yn wael. Rwy'n dal yn bryderus ynglŷn â'r gobeithion sy'n cael eu mynegi ar gyfer y Bil cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r ddadl a gawsom ddoe a gwrthod y gwelliannau a fyddai wedi cryfhau annibyniaeth ac atebolrwydd y comisiynydd cenedlaethau'r dyfodol yn dangos i mi eich bod yn pryderu mwy am y broses, mewn gwirionedd, ac nad ydych eisiau her annibynnol o'r fath naill ai i Lywodraeth Cymru neu i'r cyrff cyhoeddus eraill.

We agree largely with what Plaid have tabled in this motion. These are factual statements. Climate change is here, it is happening and we need to act. Our only amendment to this motion is to call for regular statements to be made to this Chamber about reducing greenhouse gas emissions in Wales. Minister, you need to look at what the Climate Change Commission for Wales have recommended to you in terms of measuring outcomes and having reliable outcome-based assessments, and that's where we fail. We hear all these lovely warm fluffy words, but, actually, when it comes to delivering the goods you, Minister, on this, fail. Thank you.

Rydym yn cytuno i raddau helaeth â'r hyn y mae Plaid Cymru wedi ei gyflwyno yn y cynnig hwn. Mae'r rhain yn ddatganiadau ffeithiol. Mae newid yn yr hinsawdd yma, mae'n digwydd ac mae angen inni weithredu. Ein hunig welliant i'r cynnig yw galw am ddatganiadau rheolaidd i'r Siambr hon ynghylch lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru. Weinidog, mae angen i chi edrych ar yr hyn y mae Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd wedi ei argymell i chi o ran mesur canlyniadau a chael asesiadau dibynadwy'n seiliedig ar ganlyniadau, a dyna lle rydym yn methu. Rydym yn clywed cymaint o eiriau blodeuog hyfryd ar hyn, ond mewn gwirionedd, pan ddaw'n fater o gyflawni'r hyn sydd ei angen, Weinidog, rydych yn methu. Diolch yn fawr.

16:59

## Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwyf eisiau siarad yn fyr ar un agwedd ar hyn, sef arbed ynni ac, yn benodol, arbed ynni mewn cartrefi. Mae chwarter o allyriadau carbon sydd wedi eu cynnwys o fewn targed 3 y cant Llywodraeth Cymru o fewn y sector dai, ond, yn ôl adroddiad 2014 y Llywodraeth ar newid hinsawdd, fe gynyddodd yr allyriadau hyn 11 y cant rhwng 2011 a 2012, ac fe ddylai hynny fod yn fater o gonsýrn mawr i'r Llywodraeth, ond hefyd, i ni i gyd.

I want to speak briefly about one aspect of this, which is energy saving and especially energy saving in homes. A quarter of carbon emissions that have been included within the 3 per cent target of the Welsh Government are within the housing sector, but, according to the Government's climate change report of 2014, the emissions increased by 11 per cent between 2011 and 2012, and that should be a cause of great concern to the Government, but also for the rest of us.

Rydym ni yn falch bod y ddau gynllun, Nyth ac Arbed, wedi'u cyflwyno tra oedd Plaid Cymru mewn Llywodraeth, ac fe fuddsoddwyd £36 miliwn i sicrhau bod 7,500 o gartrefi yn ein hardaloedd tlotaf yn fwy effeithlon o ran defnydd ynni. Ond mae angen monitro mwy manwl ar y ddau gynllun er mwyn sicrhau eu llwyddiant, ac er mwyn mesur eu heffaith. Mae gwerthusiad o Nyth—'Nest', felly—allan heddiw, sy'n eithaf cadarnhaol, ond mae'n dweud yr hyn rydym i gyd yn gwybod, sef, yn gyntaf, fod y criteria ar gyfer mynediad i'r cynllun yn rhy gaeth, ac yn y bôn, mater o adnoddau ydy hynny. Yn ystod y blynyddoedd nesaf yma, mae'n rhaid i unrhyw Lywodraeth, boed yma neu yn y Deyrnas Unedig, fod yn blaenoriaethu materion fel hyn, os ydym o ddifrif ynglŷn ag ymateb yn gadarnhaol i'r hyn y mae'r gwyddonwyr yn ei ddweud am y newid hinsawdd.

We are pleased that the two schemes, Nest and Arbed, were introduced while Plaid Cymru was in Government, and £36 million was invested to ensure that 7,500 homes in our poorest areas are more energy efficient. But there is a need for the more detailed monitoring of the two schemes to ensure their success, and to measure their impact. An evaluation of Nest is out today, which is relatively positive, but it says what we all know, namely, first of all, that the criteria for accessing the scheme are too restrictive and, essentially, this is a matter of resources. During these next few years, any Government, whether here or in the United Kingdom, will have to prioritise issues such as this if we are truly serious about responding positively to what scientists are saying about climate change.

Mae'r broses ymgeisio ar gyfer y cynllun Nyth yn rhy faith ac wedi cau allan rhai sydd ag anableddau, er enghraifft. Nid yw'r cynlluniau, fel ag y maen nhw, ac ar y 'scale' maen nhw ar hyn o bryd, yn gwneud digon o wahaniaeth nac yn llwyddo i wneud marc ar y ffigyrau tlodi tanwydd. Fel y gwyddom ni, mae yna gynnydd wedi bod yn nifer y cartrefi sydd yn dioddef efo tlodi tanwydd yn y blynyddoedd diwethaf yma, ac mae yna resymau amrywiol am hynny, ond, os ydym ni o ddifrif am eu gostwng nhw, yna, mae'n rhaid inni roi'r adnoddau priodol i mewn.

The application process for the Nest scheme is protracted and has excluded some who have disabilities, for example. The schemes, such as they are, and on the scale they are currently, do not make enough of a difference nor do they succeed in making a dent in the fuel poverty figures. As we've seen, there's been an increase in the number of homes that are suffering with fuel poverty in recent years, and there are various reasons for that, but, if we are serious about wanting to reduce them, then, we must put the appropriate resources in.

Fe fyddai cynllun uchelgeisiol gan y Llywodraeth yn lleihau allyriadau ac yn gwneud Cymru yn hunangynhaliol mewn ynni adnewyddol erbyn 2035, yn ôl un adroddiad. Wrth wella effeithlonrwydd ynni yn y tai yn y bandiau isaf, yn ôl WWF, fe ellid lleihau tlodi tanwydd o 40 y cant gan ddod â budd i dros 130,000 o gartrefi sy'n gwario mwy na 10 y cant o'u hincwm ar wresogi.

An ambitious scheme from the Government would reduce emissions and make Wales self-sufficient in renewable energy by 2035, according to one report. By improving the energy efficiency of housing in the lower bands, according to WWF, we could reduce fuel poverty by 40 per cent, benefiting over 130,000 households that spend more than 10 per cent of their income on heating.

Agwedd arall ar hyn yw'r safonau newydd ar gyfer cartrefi newydd, wrth gwrs—safonau ynglŷn â'r rheoliadau adeiladu. Mae rheolau'r Undeb Ewropeaidd yn nodi y bydd yn rhaid i adeiladau newydd gael eu codi i fod fwy neu lai yn garbon niwtral erbyn 2021. Nid yw hynny ond chwe blynedd i ffwrdd; nid yw'n ddim amser o gwbl, ond rydym ni'n bell iawn o hynny ar hyn o bryd. Wrth gwrs, fe wnaed datganiadau herfeiddiol gan y Llywodraeth yn 2012, a datganiadau uchelgeisiol iawn, hefyd, os caf i ddweud. Ond, erbyn Gorffennaf 2013, wrth gwrs, fe gawsom ni benderfyniad gan y Gweinidog tai ei fod o'n camu nôl o'r cynigion gwreiddiol—yn ei eiriau ei hun, er mwyn canolbwyntio ar godi mwy o dai.

Another aspect of this is the new standards for new homes, of course—standards relating to building regulations. European Union rules state that new buildings will have to be built to be more or less carbon neutral by 2021. That is only six years away; it is no time at all, but we're very far from achieving that at present. Of course, challenging statements were made by the Government in 2012, and they were very ambitious statements, also, if I may say so. But, by July 2013, of course, we had a decision by the housing Minister that he was rowing back from the original proposals—in his own words, to focus on building more homes.

Mae yna nifer o agweddau y byddai rhywun yn gallu mynd ar eu hôl yn y cyfeiriad yma. Rwyf wedi cyfeirio'n ddiweddar yma at gynlluniau tai ffrâm bren yn Nolwyddelan, sydd yn dangos bod y tai fel hyn yn effeithlon ac maen nhw'n glyd. Olréit, nid ydyn nhw ddim gyda'r tai rhataf, ond maen nhw'n dod â budd economaidd, achos rydych chi'n defnyddio pren Cymreig, ac wrth gwrs, mi ellid hefyd sefydlu busnes, neu fusnesau, hyd yn oed, ar dir Cymru yn cyflogi pobl er mwyn cyflenwi tai fel hyn. Un fantais fawr iddyn nhw, wrth gwrs, ydy eu bod nhw'n gallu cael eu codi'n eithriadol o gyflym ac felly, mi fydden nhw'n gallu cyfrannu'n sylweddol er mwyn cyflenwi'r angen am dai yn ein cymunedau ni.

There are a number of aspects that one could pursue in this respect. I have recently referred here to the timber-framed housing schemes in Dolwyddelan, which show that houses like these are efficient and they are warm. Okay, they are not the cheapest forms of housing, but they would bring economic benefits, because you would require Welsh timber, and of course, you could also set up a business, or businesses, even, on Welsh soil employing people to supply housing like this. One great advantage to them, of course, is that they can be put up very quickly and therefore, they could contribute significantly to meeting the demand for housing in our communities.

I gloi, mae'r her i'r byd yn dychryn, a dweud y gwir, a thystiolaeth gyson wyddonol ein bod yn cerdded yn ein cwsg i ddistryw. Nid problem i bobl ym mhen draw'r byd fydd hon; mi fydd yn drychineb i lawer a all arwain at anhrefn gymdeithasol a rhyfel.

To conclude, the challenge facing the world is terrifying, in all honesty, and there is consistent scientific evidence that we're sleepwalking towards destruction. This won't be a problem for the people on the other side of the world, but a disaster for many, which could lead to social unrest and war.

Rydym ni wedi cytuno ddoe ar ddeddf llesiant cenedlaethau'r dyfodol sy'n llawn o fwriadau da. Nawr, mae'n rhaid i ni, a'r Llywodraeth yn arwain, ddechrau gweithredu yn hytrach na siarad.

We agreed yesterday on the wellbeing of future generations law, which is full of good intentions. Now, with the Government taking the lead, we have to start to act rather than rely on words.

17:04

## Leanne Wood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I welcome this debate today and I thank colleagues for outlining the particular path that Wales has taken to this point and the further steps that can be taken on our carbon reduction journey.

Croesawaf y ddadl hon heddiw, a diolch i fy nghyd-Aelodau am amlinellu'r llwybr penodol y mae Cymru wedi ei gymryd hyd at y pwynt hwn a'r camau pellach y gellir eu cymryd ar ein taith i leihau carbon.

Plaid Cymru believes that climate change is the biggest threat faced by humanity, and we are determined that Wales should be a leader in sustainable development. Plaid Cymru opposes the backtracking from the climate change Act by the UK Government, and we believe that there should be increased support for poorer countries to enable them to adapt to climate change and to access clean energy. In Wales, it is our duty as elected representatives to inform and alert our fellow citizens of the significance of climate change and our ability, if we choose, to take action.

Cred Plaid Cymru mai newid yn yr hinsawdd yw'r bygythiad mwyaf sy'n wynebu'r ddynoliaeth ac rydym yn benderfynol y dylai Cymru fod yn arweinydd ym maes datblygu cynaliadwy. Mae Plaid Cymru yn gwrthwynebu'r tynnu'n ôl a welwyd gan Lywodraeth y DU o'r Ddeddf newid yn yr hinsawdd, ac rydym yn credu y dylid cael mwy o gymorth i wledydd tlotach er mwyn eu galluogi i addasu i newid yn yr hinsawdd ac i sicrhau ynni glân at eu defnydd. Yng Nghymru, mae'n ddyletswydd arnom fel cynrychiolwyr etholedig i hysbysu a rhybuddio ein cyd-ddinasyddion ynghylch arwyddocâd newid yn yr hinsawdd a'n gallu, os ydym yn dewis gwneud hynny, i weithredu.

We're told we're in an age of globalisation, and that orthodoxy spreads opportunities, rights and freedoms, but globalisation has also entrenched inequality, conflict, scarcity of resources and dwindling natural environments. For some, unfettered economic growth is seen as being in direct conflict with the need to address climate change and, specifically, carbon emissions. But new industries and new opportunities for good standards of living can be generated by deciding to face and tackle climate change.

Gwyddom ein bod yn byw mewn byd wedi'i lobaleiddio a bod uniongrededd yn lledaenu cyfleoedd, hawliau a rhyddid, ond mae globaleiddio hefyd wedi cynyddu anghydraddoldeb, gwrthdaro, prinder adnoddau a lleihau amgylcheddau naturiol. I rai, caiff twf economaidd dilyffethair ei weld fel rhywbeth sy'n gwrthdaro'n uniongyrchol â'r angen i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ac allyriadau carbon yn benodol. Ond gellir cynhyrchu diwydiannau newydd a chyfleoedd newydd i sicrhau safonau byw da drwy benderfynu wynebu a mynd i'r afael â newid hinsawdd.

Here in Wales, we have great potential to make the transition to a post-carbon economy that will, in turn, lead us to post-austerity Wales. The opportunities presented by our natural environment give us the basis for a substantial sustainable renewable sector. Wales's tidal potential is finally being taken seriously. The prospect of tidal lagoons in our waters is very exciting indeed and will make a welcome addition to the range of renewable energy sources that we have available to us here. In addition to harnessing our potential as a green energy powerhouse, we must also strive to find local solutions and local counteractions against global warming.

Yma yng Nghymru, mae gennym botensial mawr i wneud y newid i economi ôl-garbon a fydd yn ei dro yn ein harwain at Gymru ôl-galedi. Mae'r cyfleoedd sy'n cael eu cynnig gan ein hamgylchedd naturiol yn creu sylfaen ar gyfer sector adnewyddadwy gynaliadwy sylweddol. O'r diwedd, mae potensial llanw Cymru yn cael ei ystyried o ddifrif. Mae'r posibilrwydd o forlynnoedd llanw yn ein dyfroedd yn gyffrous iawn a bydd yn ychwanegiad i'w groesawu at yr amrywiaeth o ffynonellau ynni adnewyddadwy sydd ar gael i ni yma. Yn ogystal â harneisio ein potensial fel pwerdy ynni gwyrdd, rhaid i ni hefyd ymdrechu i ddod o hyd i atebion lleol a dulliau lleol o wrthsefyll cynhesu byd-eang.

I've mentioned the barriers created by globalisation. To counter those, we need to revive the principle of localism as part of our efforts in terms of climate change from food to energy, so we can minimise our carbon footprint and maximise the potential of our local communities. We can begin by acting nationally today, by not only setting carbon-reduction targets as part of our obligations as citizens of the planet, but to ourselves in Wales, as we build a society and an economy that are self-reliant, sustainable and renewable.

Rwyf wedi crybwyll y rhwystrau a grëwyd yn sgil globaleiddio. I wrthsefyll y rhain, mae angen inni adfywio egwyddor lleoliaeth yn rhan o'n hymdrechion o ran newid yn yr hinsawdd o fwyd i ynni, er mwyn inni allu lleihau ein hôl troed carbon a manteisio i'r eithaf ar botensial ein cymunedau lleol. Gallwn ddechrau drwy weithredu'n genedlaethol heddiw, nid yn unig drwy osod targedau i leihau carbon yn rhan o'n rhwymedigaethau fel dinasyddion y blaned, ond i ni ein hunain yng Nghymru, wrth i ni adeiladu cymdeithas ac economi sy'n hunanddibynnol, yn gynaliadwy ac yn adnewyddadwy.

I'll finish with a quote from Naomi Klein, author of the excellent book 'This Changes Everything'. Klein says:

Fe orffennaf drwy ddyfynnu Naomi Klein, awdur y llyfr rhagorol 'This Changes Everything'. Dywed Klein:

'climate change isn't an "issue" to add to the list of things to worry about, next to healthcare and taxes. It is a civilisational wake-up call. A powerful message – spoken in the language of fires, floods, droughts, and extinctions – telling us that we need an entirely new economic model and a new way of sharing this planet.'

'nid "mater" yw newid hinsawdd i'w ychwanegu at y rhestr o bethau i chi boeni amdanynt, ochr yn ochr â gofal iechyd a threthi. Mae'n alwad ar wareiddiad i ddihuno. Neges bwerus—wedi'i chyfleu drwy danau, llifogydd, sychder, a difodiant—sy'n dweud wrthym fod arnom angen model economaidd cwbl newydd a ffordd newydd o rannu'r blaned hon.'

I very much hope that, here in Wales, we wake up soon, because climate change really does change everything.

Rwy'n gobeithio'n fawr y byddwn ni yma yng Nghymru yn dihuno cyn bo hir, gan fod newid yn yr hinsawdd yn newid popeth mewn gwirionedd.

17:08

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Rwy'n falch iawn o fod yn cyfrannu at y ddadl yma, sydd yn enw Plaid Cymru, ond o edrych ar y gwelliannau sydd wedi cael eu cyflwyno, nid oes neb o'r pleidiau fan hyn yn anghytuno yn ffyrnig â'r hyn rŷm ni'n ei ddweud. Fel y dywedodd Antoinette Sandbach, mae hwn yn ddatganiad o ffeithiau, bron, yn y rhan fwyaf. Efallai lle mae'r ddadl yw ynglŷn â beth ŷm ni'n ei wneud i ymgymryd â her newid hinsawdd a pha gamau y gallwn ni eu cymryd o ran polisi i ddelio â hi. Ond dylem ni fod yn ffocysu yn sicr heddiw ar ba mor bwysig yw hwn a pha gymaint y bydd e'n newid ein cymdeithas ni os nad ŷm ni'n mynd i'r afael ag ef.

I'm very pleased to be contributing to this debate, which is in the name of Plaid Cymru, but in looking at the amendments that have been tabled, none of the other parties here seems to be fiercely opposed to what we're saying. As Antoinette Sandbach said, this is almost a factual statement, for the most part. Perhaps where there is some debate is around what we are doing to meet the challenge of climate change and what steps we can take through policy in order to mitigate its effects. But we should certainly focus today on how important an issue this is and how much it will change our society if we don't tackle it.

Wrth inni wynebu rhai o'r heriau sydd yn newid ein cymdeithas ni wrth fynd i'r afael ag ef—sef delio, efallai, â'r melinau gwynt sy'n ymddangos ar y gorwel, neu ddelio â lagynau yn ein haberoedd a'n hafonydd ni, neu ddelio â newid yn y ffordd rŷm ni'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a cheir preifat—mae'n rhaid inni ystyried y rheina gam wrth gam â her y newid yn ein cymdeithas ni a fyddai'n digwydd oni bai ein bod ni'n mynd i'r afael â newid hinsawdd. Fel gyda phob newid cymdeithasol, byddai newid o'r fath yn effeithio ar y rhai mwyaf bregus, y mwyaf difreintiedig a'r mwyaf tlawd yn ein cymdeithas yn fwy na'r rhai cyfoethog. Dyna pam mae newid hinsawdd a delio â newid hinsawdd yn fater o gyfiawnder cymdeithasol, gymaint ag yw'n fater amgylcheddol.

As we face up to some of the challenges that are changing our society as we do tackle it—such as dealing, perhaps, with the wind turbines that may be appearing on the horizon, or dealing with lagoons in our estuaries and rivers, or dealing with the way in which we use public transport and private vehicles—we must consider those side by side with the challenge in terms of the change that would be effected in our society if we don't tackle climate change. As with all social change, a change of that kind would impact on the most vulnerable, the most disadvantaged and the poorest in our society rather than the better-off. That is why climate change and dealing with climate change are matters of social justice, as much as an environmental issue.

Nawr, un o'r problemau gyda gosod targedau a gweithio fel Llywodraeth tuag at y targedau hynny yw y ffaith nad ŷm ni'n meddu ar yr holl bwerau yma yng Nghymru. Yn draddodiadol, fel petai, mae'r Llywodraeth wedi bod yn pellhau oddi ar dargedau statudol, gan ddweud nad oes gyda ni reolaeth dros yr adnoddau naturiol yn llawn yng Nghymru ac yn benodol dros gynhyrchu neu gasglu ynni. Mae hynny yn wir, ond mae yna gynigion, wrth gwrs, yn y papur a gyhoeddwyd o gwmpas Dydd Gŵyl Dewi i ehangu hawliau'r Llywodraeth a'r Cynulliad dros gynlluniau ynni. Mae'n wir bod Plaid Cymru, wrth gwrs, am fynd ymhellach a chael cam datganoli llawn o'r cyfrifoldeb dros ynni a'r adnoddau naturiol yma i Gymru. Wrth wneud hynny, mi allwn ni gymryd rhai o'r camau hynod bwysig sydd yn newid cymdeithas, ydyn, ond sydd hefyd yn adeiladu cadernid ar gyfer y dyfodol, ac yn galluogi cenedlaethau a ddaw i ddelio â newid hinsawdd. Un o'r rhai hynny, yn bendant, yw blaenoriaethu ynni adnewyddadwy fel ffynhonnell ar gyfer yr economi a fydd.

Now, one of the problems with setting targets and working as a Government to obtain those targets is the fact that we don't have all of the powers here in Wales. Traditionally, as it were, the Government has been shying away from statutory targets, saying that we don't have full control over natural resources in Wales and specifically for the generation or harvesting of energy. That is true, but there are proposals of course in the paper published around St David's Day to enhance the Government's powers and the Assembly's powers over energy production schemes. It's true that Plaid Cymru, of course, would want to go further and have full devolution and responsibility for energy and for natural resources here in Wales. In doing so we could take some of those hugely important steps that, yes, do change our society, but also provide robustness for the future and enable future generations to deal with climate change. One of those, most certainly, is to prioritise renewable energy as a future economic resource.

Byddwn i'n licio pwysleisio fan hyn dri pheth rwy'n meddwl sy'n hollbwysig i Gymru, ond hefyd sy'n rhoi cyfleoedd economaidd i Gymru. Yn gyntaf oll, mae ynni o'r llanw. Fel mae Leanne Wood newydd ei grybwyll, mae yna gynlluniau cyffrous iawn, a dweud y gwir, ym môr Hafren i gasglu ynni o'r llanw. Mae gyda ni'r ail lanw uchaf yn y byd yn fanna. Mae eisoes y lagŵn o gwmpas Abertawe, sy'n nesáu yn agos iawn at gael ei gymeradwyo. Rwy'n gobeithio'n fawr y bydd modd i Lywodraeth nesaf San Steffan gytuno ar y pris ar gyfer talu am y trydan o'r lagŵn yna. Er ei fod yn bris uchel, bydd y lagŵn sydd yn dilyn—a'r trydydd a'r pedwerydd—yn gostwng y pris yn sylweddol ar gyfer ynni a gynhyrchir gan lagynau o'r fath, nes dod yn gystadleuol ag ynni niwclear—ac mae eisiau cofio hynny—ac nes dechrau mynd yn gystadleuol ag ynni o adnoddau adnewyddadwy eraill. Rwy'n datgan buddiant fy mod innau wedi prynu cyfranddaliadau cymunedol yn y lagŵn sydd yn Abertawe, achos rwy'n meddwl mai dyna ddyfodol y fath o economi rŷm ni eisiau ei chreu.

I would like to emphasise three things that are crucially important for Wales, but also provide economic opportunities to Wales. First of all, we have tidal energy. As Leanne Wood has just mentioned, there are very exciting schemes in the Severn estuary to generate electricity from the tide. There we have the second-highest tidal range in the world. We already have the lagoon around Swansea, which is very close to being approved. I very much hope that the next Westminster Government will agree on the price for electricity from the lagoon. Although it is a high price, the next lagoon—and the third and fourth—will substantially decrease the price of energy produced by such lagoons so that it becomes competitive with nuclear energy—and we must bear that in mind—and so that it becomes competitive in terms of other renewable energy sources. I do declare an interest that I have purchased community shares in the Swansea lagoon because I do think that that is the future for the kind of economy that we want to create.

Yr ail fath o ynni sy'n bwysig i Gymru, rwy'n meddwl, yw ynni'r gwynt—o'r môr ac ar y tir. Rwy'n gwrthod yn llwyr y symudiad gan Lywodraeth San Steffan i deimlo bod rhaid cael moratoriwm ar ddatblygu ynni ar y tir. Mae'n bwysig ein bod ni'n datblygu'r adnoddau sydd gyda ni yma yng Nghymru. Mae'n siomedig iawn bod y penderfyniad wedi'i ohirio yng nghanolbarth Cymru.

The second form of energy that is still important to Wales, I think, is wind energy, both onshore and offshore. I entirely reject the move by the Westminster Government to feel that there must be a moratorium for onshore wind development. It is important that we develop the resources that we have in Wales. It's very disappointing that the decision has been deferred in mid Wales.

17:12

## Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi gymryd ymyriad?

17:12

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yn sicr, ond a gaf i jest orffen y pwynt? Mae'n siomedig iawn bod y penderfyniad wedi'i ohirio yng nghanolbarth Cymru. Os caf ddweud, mae'n arbennig o siomedig bod Gweinidog o'r Democratiaid Rhyddfrydol yn gwrthod gwneud penderfyniad pan fo'n rhan o'r Llywodraeth, achos fyddwch chi ddim yn y Llywodraeth eto.

Of course, but may I just finish this point? It's very disappointing that the decision has been deferred in mid Wales. If I may say so, it is particularly disappointing that a Liberal Democrat Minister is refusing to take a decision when he is in government because you won't be in government again.

17:13

## Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think the onshore windfarm subsidy is effectively going to be removed. It's not a moratorium on building; it's just saying the industry's developed to a point where it doesn't need subsidy any more. Subsidy should be better targeted, for example at projects like the Swansea lagoon.

Rwy'n meddwl bod y cymhorthdal i ffermydd gwynt ar y tir yn mynd i gael ei ddiddymu i bob pwrpas. Nid yw'n foratoriwm ar adeiladu; mae'n dweud fod y diwydiant wedi datblygu i bwynt lle nad oes angen cymhorthdal arno mwyach, dyna i gyd. Dylid targedu cymhorthdal yn well tuag at brosiectau fel morlyn Abertawe, er enghraifft.

17:13

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mewn egwyddor, rydych chi'n iawn, ond nid dyna sy'n digwydd mewn realiti. Dyna beth ddigwyddodd, wrth gwrs, gydag ynni o baneli haul. Roedd e'n wir bod angen gostwng y 'subsidy' bryd hynny, ond nid yw ynni o'r gwynt oddi ar y tir eto ar y lefel lle gallwch chi gymryd y 'subsidy' yn llwyr oddi yno. Mewn ffordd, jest ffordd arall o wneud moratoriwm yw hwnnw, mae'n rhaid imi ddweud.

In principle, you're right, but that's not what happens in reality. That's what happened with solar energy, of course. It was true that we needed to reduce the subsidy at that point. However, onshore wind energy hasn't yet reached the level where you can remove the subsidy entirely. In a way, that's just another way of introducing a moratorium, I have to say.

Nid oes gen i ddim amser, nid wy'n meddwl, i sôn llawer mwy, Ddirprwy Lywydd, ond gwnaf grybwyll un peth, sef bod angen datblygu diwydiant ceir trydanol yma yng Nghymru. Mae gyda ni dechnoleg y diwydiant ceir eisoes yn ei lle. Mae gyda ni wybodaeth dda iawn am fatris ceir eisoes yn datblygu yng Nghymru. Mae modd inni ddatblygu diwydiant ceir trydanol. Maen nhw'n mynd i gael effaith mawr ar y ffordd rŷm ni'n delio â newid hinsawdd. Mae yna reswm economaidd am hynny a rhesymau amgylcheddol, ac, os caf ddweud, byddai bodolaeth diwydiant ceir trydanol yn llenwi'r 'gaps' sydd gyda ni gyda'r ffaith bod ynni adnewyddadwy yn gallu amrywio o ddydd i dydd. Maen nhw yn fatris symudol, i bob pwrpas.

I don't think that I have time to go on much longer, Deputy Presiding Officer, but I would like to mention one thing, which is that we need to develop an electric car industry here in Wales. We already have the technology in place for the car industry; we have very good information about car batteries already developing in Wales; we can develop an electric car industry. They will have a major impact on the way that we're dealing with climate change. There is an economic reason for that; there are environmental reasons for doing that; and if I may say so, the existence of the electric car industry fills the gap that we have in the fact that renewable energy can vary from day to day. They are mobile batteries, to all intents and purposes.

17:14

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Carl Sargeant.

I call on the Minister for Natural Resources, Carl Sargeant.

17:14

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

Thank you, Deputy Presiding Officer. I'm delighted that we've had a robust debate on climate change here today. As outlined in the motion's first point, the IPCC report underlines the overwhelming scientific consensus for climate change and the need for action. Tellingly, the report also goes on to say that delaying climate change action will only make it harder and more expensive to tackle.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Rwyf wrth fy modd ein bod wedi cael dadl gadarn ar newid hinsawdd yma heddiw. Fel yr amlinellwyd ym mhwynt cyntaf y cynnig, mae adroddiad y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd yn tanlinellu'r consenswS gwyddonol enfawr ar y newid yn yr hinsawdd a'r angen i weithredu. Yn drawiadol, mae'r adroddiad hefyd yn mynd ymlaen i ddweud na fydd gohirio gweithredu ar newid yn yr hinsawdd ond yn ei wneud yn anos ac yn ddrutach i'w wrthsefyll.

We must recognise that the status quo is not an option and that the implications of business as usual will mean greater economic costs, in addition to social and environmental ones later. The case for action on climate change is clear, as recognised yesterday by the goals within the Well-being of Future Generations (Wales) Bill. It is the case that it's fundamental to our prosperity and the resilience of our society. It's not a 'nice to have'; it's simply about doing our bit for the environment. It's an issue that frames all aspects for the future. The irony being the opposition party tried to destabilise the future generations Bill only yesterday, and has consistently sought to put that Bill into the bin. Unfortunately, it's not a consistent argument that the Member presents. This is why I announced in my written statement last week our commitment as a Government to strengthening our action to both tackle and adapt to climate change and the key role that the Bills brought forward will play in the delivery of this.

Rhaid i ni gydnabod nad yw'r status quo yn opsiwn ac y bydd busnes fel arfer yn golygu costau economaidd mwy yn ogystal â goblygiadau cymdeithasol ac amgylcheddol yn nes ymlaen. Mae'r achos dros weithredu ar y newid yn yr hinsawdd yn glir, fel roedd nodau'r Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ei gydnabod ddoe. Mae'n wir ei fod yn hanfodol i'n ffyniant a chydnerthedd ein cymdeithas. Nid rhywbeth 'braf i'w gael' yw hyn; mae'n ymwneud yn syml iawn â gwneud ein rhan dros yr amgylchedd. Mae'n fater sy'n fframio pob agwedd ar y dyfodol. Yr eironi yw bod yr wrthblaid wedi ceisio ansefydlogi'r Bil Cenedlaethau'r Dyfodol ddoe ddiwethaf ac yn gyson wedi ceisio cael gwared ar y Bil. Yn anffodus, nid yw dadl yr Aelod yn gyson. Dyma pam y cyhoeddais yn fy natganiad ysgrifenedig yr wythnos diwethaf ein hymrwymiad fel Llywodraeth i gryfhau ein camau gweithredu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo, a bydd rhan allweddol i'r Biliau a gyflwynwyd yn y gwaith o gyflawni hyn.

Yesterday we debated the Well-being of Future Generations (Wales) Bill and the key provisions I brought forward with support from Members, for which I'm grateful, for the strengthening of that Bill. These amendments will include climate change in the Bill. These amendments crucially recognise that climate change is not an environmental issue or a standalone policy area, but an issue that we must tackle to ensure the best future for Wales's current and future generations. In addition, I've also set out how we intend to legislate for climate change targets through the environment Bill. However, we must be clear that headline targets that act on Welsh Ministers alone will not deliver success to address climate change, both in terms of tackling climate change and adapting to change, we are now locked into. We must take concerted action and have partnerships across all sectors. Everyone must take responsibility.

Ddoe, fe fuom yn trafod Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r darpariaethau allweddol a gyflwynais, gyda chefnogaeth yr Aelodau, ar gyfer cryfhau'r Bil, ac rwy'n ddiolchgar am y gefnogaeth honno. Bydd y gwelliannau hyn yn cynnwys newid hinsawdd yn y Bil. Yn allweddol, mae'r gwelliannau'n cydnabod nad mater amgylcheddol yw newid yn yr hinsawdd na maes polisi annibynnol, ond rhywbeth sy'n rhaid inni fynd i'r afael ag ef er mwyn sicrhau'r dyfodol gorau ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol yng Nghymru. Rwyf hefyd wedi nodi sut y bwriadwn ddeddfu ar gyfer targedau newid yn yr hinsawdd drwy Fil yr amgylchedd. Fodd bynnag, rhaid inni fod yn glir na fydd y prif dargedau ar gyfer Gweinidogion Cymru yn unig yn sicrhau llwyddiant i wrthsefyll newid hinsawdd ar eu pen eu hunain, o ran y gwaith o fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ac addasu i newid sy'n rhaid i ni wneud bellach. Mae'n rhaid i ni weithredu ar y cyd a gweithio mewn partneriaethau ar draws pob sector. Rhaid i bawb gymryd cyfrifoldeb.

Also in my written statement last week I set out that the Government needed, and therefore intends to move to carbon budgets and are clear on the contribution needed from different sectors where accountability lies. In doing so, our aim is to set out a clear pathway for decarbonisation within the context of existing UK and EU obligations, for at least an 80 per cent reduction in emissions by 2050. This will provide further clarity for investment and supports the continuing growth and transition to a low-carbon economy. The energy and environmental sector has a market value turnover of around £4.76 billion, employing around 58,000 people in over 2,000 companies, and has seen an increase of 90 per cent from 2006.

Hefyd yn fy natganiad ysgrifenedig yr wythnos diwethaf nodais fod angen cyllidebau carbon ar y Llywodraeth, ei bod felly'n bwriadu symud at gyllidebau carbon a'i bod yn glir ynghylch y cyfraniad sydd ei angen o wahanol sectorau sy'n atebol. Wrth wneud hynny, ein nod yw gosod llwybr clir ar gyfer datgarboneiddio yng nghyd-destun rhwymedigaethau presennol y DU a'r UE, i sicrhau lleihad o 80 y cant fan lleiaf yn yr allyriadau erbyn 2050. Bydd hyn yn cynnig mwy o eglurder ar gyfer buddsoddi ac yn cefnogi twf parhaus a'r newid i economi carbon isel. Mae gwerth trosiant y sector ynni a'r amgylchedd ar y farchnad oddeutu £4.76 biliwn, mae'n cyflogi tua 58,000 o bobl mewn dros 2,000 o gwmnïau, ac mae wedi gweld cynnydd o 90 y cant ers 2006.

Alongside the resilience goal in the Well-being of Future Generations (Wales) Bill, the environment Bill process for the management of natural resources on an area base will be fundamental to this, for example, taking preventative action on flood risk. As announced in the statement, we will also be ensuring we consider the climate risks in key areas of capital investment through the Wales infrastructure investment plan. As a key part of this work, we will ensure that our investment in areas such as social housing will take into account the risks posed by climate change, giving people long-term security in their homes.

Ochr yn ochr â nod cydnerthedd y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), bydd proses Bil yr amgylchedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol ar sail ardal yn sylfaenol i hyn, gan roi camau ataliol ar waith ar berygl llifogydd, er enghraifft. Fel y cyhoeddwyd yn y datganiad, byddwn hefyd yn sicrhau ein bod yn ystyried y peryglon hinsawdd mewn meysydd buddsoddi cyfalaf allweddol drwy'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru. Yn rhan allweddol o'r gwaith hwn, byddwn yn sicrhau y bydd ein buddsoddiad mewn meysydd fel tai cymdeithasol yn ystyried y risgiau a achosir gan newid yn yr hinsawdd, gan roi sicrwydd hirdymor i bobl yn eu cartrefi.

I've noted the comment by Alun Ffred regarding the residential sector and the issue around that. I think the Member is quite right to raise this issue, but the problem with that is annual variation. The problem is taking a figure over a 12-month period doesn't fully reflect the actual interaction. There's been a 7.6 per cent reduction since 2012 and that equates to a 1 per cent reduction year-on-year. So, I do respect the Member's comments about that, but measuring it annually just doesn't work, and I think we have to think about that very carefully around the statistics we use.

Rwyf wedi nodi'r sylw gan Alun Ffred ynglŷn â'r sector preswyl a'r mater sy'n ymwneud â hynny. Rwy'n credu bod yr Aelod yn hollol iawn i godi'r mater, ond y broblem gyda hyn yw amrywiad blynyddol. Y broblem yw nad yw cymryd ffigur dros gyfnod o 12 mis yn adlewyrchu'n llawn y rhyngweithio gwirioneddol sy'n digwydd. Cafwyd gostyngiad o 7.6 y ers 2012, sy'n cyfateb i 1 y cant o ostyngiad o un flwyddyn i'r llall. Felly, rwy'n parchu sylwadau'r Aelod ar hynny, ond yn syml iawn, nid yw ei fesur yn flynyddol yn gweithio, ac rwy'n meddwl y bydd yn rhaid i ni feddwl am hynny'n ofalus iawn o ran yr ystadegau rydym yn eu defnyddio.

Indeed, Antoinette Sandbach also alluded to a report that was issued last week by Oxfam. I welcome the report by Oxfam, but they use a completely different methodology of measurement. I've actually sought a meeting with Oxfam, for it to come in to explain those data. I'm as interested as she is, but what I won't use are data that are disproportionately skewed, through a different measuring process, than the way that we use ours. You can't—

Yn wir, cyfeiriodd Antoinette Sandbach hefyd at adroddiad a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf gan Oxfam. Rwy'n croesawu'r adroddiad gan Oxfam, ond maent yn defnyddio methodoleg hollol wahanol ar gyfer mesur. A dweud y gwir, rwyf wedi gofyn am gyfarfod gydag Oxfam er mwyn iddynt ddod i mewn i egluro'r data. Mae gennyf lawn cymaint o ddiddordeb â hithau, ond nid wyf yn mynd i ddefnyddio data sydd wedi'i hystumio'n anghymesur drwy broses fesur wahanol i'r ffordd rydym yn defnyddio ein data ni. Ni allwch—

17:19 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

17:19 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, I won't take an intervention from you, because you didn't answer the question from yesterday. So, if you're happy to start with that one, I'll be happy to take the intervention today.

Na, nid wyf am dderbyn ymyriad gennych am nad ateboch chi'r cwestiwn ers ddoe. Felly, os ydych yn fodlon dechrau gyda hynny, rwy'n hapus i gymryd yr ymyriad heddiw.

As announced in my statement also, as a Government, we've already recognised that we must do more and our commitments demonstrate how we are already taking action.

Fel y cyhoeddwyd yn fy natganiad hefyd, fel Llywodraeth, rydym eisoes wedi cydnabod bod yn rhaid inni wneud mwy ac mae ein hymrwymiadau yn dangos sut rydym eisoes yn rhoi camau ar waith.

I'll finish with some final points of great success, and we should be very proud. Alun Ffred again referred to some of the energy-saving programmes, and I think this isn't about just energy generation and impact; actually, what we need to do is more on energy security for homes and environments, where our Arbed scheme and our Nest scheme are creating great success. We had 17,000 homes insulated under our Arbed scheme as of this week, and I visited a scheme in the Vale of Glamorgan with the fantastic Chris Elmore last week, in terms of the Vale of Glamorgan. I'm sure you'll hear a lot more of Chris Elmore and his interest in this very action.

Fe orffennaf gyda rhai pwyntiau terfynol i nodi llwyddiant mawr, a dylem fod yn falch iawn. Cyfeiriodd Alun Ffred eto at rai o'r rhaglenni arbed ynni ac rwy'n credu nad yw hyn yn ymwneud yn unig â chynhyrchu ynni ac effaith hynny; mewn gwirionedd, mae angen i ni wneud rhagor o waith ar ddiogelu ynni ar gyfer cartrefi ac amgylcheddau, a dyma lle y mae ein cynllun Arbed a'n cynllun Nyth yn llwyddiannus iawn. Hyd at yr wythnos hon, rydym wedi insiwleiddio 17,000 o gartrefi drwy ein cynllun Arbed, ac ymwelais â chynllun ym Mro Morgannwg gyda'r gŵr hynod, Chris Elmore, yr wythnos diwethaf, o ran Bro Morgannwg. Rwy'n siŵr y byddwch yn clywed llawer rhagor am Chris Elmore a'i ddiddordeb yn yr union waith hwn.

The First Minister, only last week, announced that the Wales for Africa programme has now planted 2 million trees in Mbale, showing how we are also taking action in Africa to support our efforts. This is about making sure we have a global impact, supported by our Welsh economy and Welsh action. I'm committed to doing more with cross-party support, but let me leave you on a final note of what the Tories really think about climate change. Owen Paterson, only the other week, said:

Yr wythnos diwethaf, cyhoeddodd y Prif Weinidog fod rhaglen Cymru o Blaid Affrica bellach wedi plannu 2 filiwn o goed yn Mbale, gan ddangos sut rydym hefyd yn gweithredu yn Affrica i gefnogi ein hymdrechion. Mae hyn yn ymwneud â sicrhau ein bod yn cael effaith fyd-eang, drwy gefnogaeth economi Cymru a gweithredu gan bobl o Gymru. Rwy'n ymrwymo i wneud mwy gyda chefnogaeth drawsbleidiol, ond gadewch i mi orffen gyda'r hyn y mae'r Torïaid yn ei gredu am newid yn yr hinsawdd mewn gwirionedd. Yr wythnos o'r blaen, dywedodd Owen Paterson hyn:

'the Climate Change Act should be effectively suspended and eventually repealed.'

'dylai'r Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd gael ei hatal i bob pwrpas a'i diddymu yn y pen draw.'

That's what the opposition parties believe in, but not us. We'll deliver in Wales for the globe. Thank you.

Dyna'r hyn y mae'r gwrthbleidiau yn ei gredu, ond nid ni. Byddwn yn cyflawni yng Nghymru er lles y ddaear. Diolch yn fawr.

17:21 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar Llyr Gruffydd i ymateb i'r ddadl.

I call on Llyr Gruffydd to reply to the debate.

17:21 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd, ac a gaf i ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu i'r ddadl yma y prynhawn yma? Mae'n amlwg bod yna gonsensws ar draws y pleidiau yn y Cynulliad hwn ar gyfer y gwaith sydd o'n blaenau ni, ac yn sicr y ffocws penodol ar sefydlu targedau statudol, ond mae'n gwneud i rywun feddwl, felly, pam mae hi wedi cymryd cyhyd inni gyrraedd y pwynt lle mae'r Llywodraeth yn cyhoeddi bod hynny'n mynd i ddigwydd. Ond dyna ni, mae'r cyhoeddiad wedi cael ei wneud, ac rydym ni'n croesawu hynny â breichiau agored.

Thank you, Deputy Presiding Officer, and may I thank everyone who has contributed to this debate this afternoon? Clearly, there is consensus across parties in this Assembly for the work facing us, and certainly the particular focus on establishing statutory targets, but it does make one think then why it has taken so long to get to the point where the Government announces that that is to happen. But there we are, the announcement has been made, and we welcome that with open arms.

A gaf i, fel yr oeddwn i'n dweud, ddiolch i bawb am gyfrannu? Nid wyf yn mynd i gyfeirio at bob cyfraniad, ond mi fyddaf i yn porthi sylwadau Alun Ffred Jones ynglŷn ag effeithlonrwydd ynni, achos, wrth gwrs, fel rŷm ni wedi dweud yn gyson, mae hynny—y mesurau i gyflwyno mwy o effeithlonrwydd ynni i gartrefi Cymru—yn dod nid yn unig â budd amgylcheddol o safbwynt lleihau allyriadau, ond hefyd budd cymdeithasol yng nghyd-destun taclo tlodi tanwydd, a budd economaidd hefyd, wrth gwrs, wrth greu gwaith yn cyflawni'r gwaith o ddarparu'r dulliau o effeithlonrwydd ynni. Felly, mae hynny yn dod ag elfennau positif eraill yn ei sgil, sy'n adlewyrchu, wrth gwrs, y pwynt yr oedd Simon Thomas yn ei wneud yn ei gyfraniad, sef bod yna gyfleoedd economaidd yn sgil y camau y gallwn ni eu cymryd i daclo a mynd i'r afael â newid hinsawdd.

May I, as I was saying, thank everyone for contributing? I'm not going to refer to every contribution, but I would like to agree with the comments made by Alun Ffred Jones on energy efficiency, because, of course, as we have said regularly, those—the measures to introduce greater energy efficiency to Welsh homes—bring not only environmental benefit in terms of reducing emissions, but also social benefit in the context of tackling fuel poverty, and also economic benefit, of course, in creating employment in providing those energy efficiency measures. So, that brings other positives in its wake, which reflects, of course, the point made by Simon Thomas in his contribution, namely that there are economic opportunities as a result of the steps that we can take to tackle and mitigate climate change.

The Oxfam report has been mentioned on a couple of occasions, and it does use a different model, you're right, Minister. It's what they describe as the doughnut model, but I think it's perfectly valid, and it was published, as the Conservative Member for North Wales was reminding us, on Monday, and the report doesn't bode well for Wales's current or future generations, in fact. It finds that Wales isn't living within its environmental limits, and that it's outstripping its boundaries by 55 per cent in terms of biodiversity loss, by 64 per cent in terms of ocean health, by 250 per cent in terms of land-use change, and by a breathtaking 410 per cent in terms of climate change. Now, you know, the report finds that in all but two of the environmental indicators used, Wales fails to stay within safe limits, and we know, of course, that we have to stay within safe limits on climate change. Indeed, not only do we fail, but we fail spectacularly according to Oxfam.

Mae adroddiad Oxfam wedi cael ei grybwyll ar un neu ddau o achlysuron, ac mae'n defnyddio model gwahanol, rydych chi'n iawn, Weinidog. Dyna y maent yn ei ddisgrifio fel y model toesen, ond rwy'n credu ei fod yn berffaith ddilys, ac fe'i cyhoeddwyd ddydd Llun, fel y cawsom ein hatgoffa gan yr Aelod Ceidwadol dros Ogledd Cymru, ac nid yw'r adroddiad yn argoeli'n dda ar gyfer cenedlaethau'r presennol na'r dyfodol yng Nghymru, a dweud y gwir. Mae'n canfod nad yw Cymru'n byw o fewn ei therfynau amgylcheddol, a'i bod 55 y cant yn uwch na'r terfyn ar gyfer colli bioamrywiaeth, 64 y cant yn uwch na'r terfyn ar gyfer iechyd cefnforol, 250 y cant yn uwch na'r terfyn ar gyfer newid defnydd tir a'r ffigur syfrdanol o 410 y cant yn uwch na'r terfyn ar gyfer newid yn yr hinsawdd. Nawr, wyddoch chi, mae'r adroddiad yn canfod bod Cymru yn methu â chadw o fewn terfynau diogel ym mhob un ond dau o'r dangosyddion amgylcheddol a ddefnyddiwyd, a gwyddom, wrth gwrs, fod yn rhaid inni gadw o fewn terfynau diogel ar newid yn yr hinsawdd. Yn wir, nid yn unig ein bod yn methu â gwneud hynny, ond rydym yn methu'n eithriadol yn ôl Oxfam.

The environmental section tells a story not of scarcity, but of a society over-consuming its share of the world's resources.

Mae'r adran ar yr amgylchedd yn adrodd stori, nid am brinder, ond am gymdeithas sy'n defnyddio mwy na'i chyfran o adnoddau'r byd.

'Thus Wales' environment is degraded by our methods and patterns of production and consumption. Our activities degrade the environment globally, as changing Earth systems undermine the bio-productivity of ecosystems, creating global food and water stresses.'

'Felly caiff amgylchedd Cymru ei ddiraddio gan ein dulliau a'n patrymau cynhyrchiant a defnydd. Mae ein gweithgareddau'n diraddio'r amgylchedd yn fyd-eang, wrth i systemau newidiol y Ddaear danseilio biogynhyrchiant ecosystemau, gan greu straen ar adnoddau bwyd a dŵr yn fyd-eang.'

That's the civilisation wake-up call that Naomi Klein and Leanne Wood referred to earlier—a sobering thought, a blunt reflection on our abysmal record, and a call to action if ever I heard one.

Dyna'r alwad ar i wareiddiad ddihuno y cyfeiriodd Naomi Klein a Leanne Wood ati'n gynharach—mae'n ystyriaeth sobreiddiol, yn adlewyrchiad di-flewyn-ar-dafod ar ein record ofnadwy, ac yn alwad i'r gad os clywais un erioed.

Now, climate change is one of the biggest challenges facing the world in the twenty-first century, and we've all said that, and we must take immediate action to tackle it. Otherwise, we face environmental, economic, cultural and social impacts that will affect future generations and, of course, disproportionately impact on people in poverty in Wales and across the globe, as Simon Thomas reminded us earlier. At a time of renewed global commitment, overwhelming scientific evidence and calls from a wide range of civil society, Wales mustn't miss these opportunities to deliver the climate action necessary for a better future.

Nawr, mae newid yn yr hinsawdd yn un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r byd yn yr unfed ganrif ar hugain. Rydym i gyd wedi dweud hynny ac mae'n rhaid i ni roi camau ar waith ar unwaith i fynd i'r afael â hyn. Fel arall, rydym yn wynebu effeithiau amgylcheddol, economaidd, diwylliannol a chymdeithasol a fydd yn effeithio ar genedlaethau'r dyfodol ac wrth gwrs, yn effeithio'n anghymesur ar bobl dlawd yng Nghymru ac ar draws y byd, fel y cawsom ein hatgoffa gan Simon Thomas yn gynharach. Ar adeg o ymrwymiad o'r newydd yn fyd-eang, tystiolaeth wyddonol lethol a galwadau o sawl rhan o gymdeithas sifil, ni ddylai Cymru golli'r cyfleoedd hyn i gyflawni'r camau gweithredu ar yr hinsawdd sydd eu hangen er mwyn sicrhau dyfodol gwell.

We will be supporting all the amendments tabled, and I thank you all for your contributions to today's debate.

Byddwn yn cefnogi pob un o'r gwelliannau a gyflwynwyd, a diolch i bawb ohonoch am eich cyfraniadau i'r ddadl heddiw.

17:25

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Y cwestiwn yw: a ddylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio? A oes unrhyw wrthwynebiad? [Gwrthwynebiad.] Felly, rwy'n gohirio'r bleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] Therefore, I will defer voting on this item until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

17:25

# 7. Cyfnod Pleidleisio

# 7. Voting Time

Y

Senedd.tv Fideo Video

## Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Voting time now follows, so I'll conduct the first vote. Are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not, so we'll vote first on the Welsh Conservatives debate. I call for a vote on the motion tabled in the name of Paul Davies. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 11; there voted against 38. So the motion without amendment is not agreed and we will now vote on the amendments.

Mae amser pleidleisio yn dilyn yn awr, felly rwy'n cynnal y bleidlais gyntaf. A oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes, felly byddwn yn pleidleisio yn gyntaf ar ddadl y Ceidwadwyr Cymreig. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Os na fydd y cynnig yn cael ei dderbyn, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 11 o blaid; pleidleisiodd 38 yn erbyn. Felly, nid yw'r cynnig heb ei ddiwygio yn cael ei dderbyn, a byddwn yn awr yn pleidleisio ar y gwelliannau.

*Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 11, Yn erbyn 38, Ymatal 0.*

*Motion not agreed: For 11, Against 38, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5717

Result of the vote on motion NDM5717

17:26

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for a vote on amendment 1, tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 15; there voted against 25. There were nine abstentions. Therefore, amendment 1 is not agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 1 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 15 o blaid; pleidleisiodd 25 yn erbyn. Roedd 9 yn ymatal. Felly, nid yw gwelliant 1 wedi ei dderbyn.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 15, Yn erbyn 25, Ymatal 9.*

*Amendment not agreed: For 15, Against 25, Abstain 9.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5717

Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5717

17:26 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If amendment 2 is agreed, amendment 3 will be deselected. I call for a vote on amendment 2, tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 29. There voted against 20. Therefore, amendment 2 is agreed and amendment 3 is deselected.

Os derbynnir gwelliant 2, bydd gwelliant 3 yn cael ei ddad-ddethol. Galwaf am bleidlais ar welliant 2 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 29 o blaid. Pleidleisiodd 20 yn erbyn. Felly, mae gwelliant 2 yn cael ei dderbyn a gwelliant 3 yn cael ei ddad-ddethol.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 29, Yn erbyn 20, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 29, Against 20, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5717

Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5717

*Cafodd gwelliant 3 ei ddad-ddethol.*

*Amendment 3 deselected.*

17:26 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for a vote on amendment 4, tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 39; no votes against; nine abstentions, so amendment 4 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 4 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 39 o blaid; ni phleidleisiodd neb yn erbyn; roedd 9 yn ymatal, felly mae gwelliant 4 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 39, Yn erbyn 0, Ymatal 9.*

*Amendment agreed: For 39, Against 0, Abstain 9.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnig NDM5717

Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5717

17:28 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Okay, we're now set. I call for a vote on amendment 5, tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 49; no votes against; therefore, amendment 5 is agreed.

Iawn, rydym yn barod yn awr. Galwaf am bleidlais ar welliant 5 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 49 o blaid; ni phleidleisiodd neb yn erbyn; felly, mae gwelliant 5 wedi'i dderbyn.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 49, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 49, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i gynnig NDM5717

Result of the vote on amendment 5 to motion NDM5717

17:28 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I now call for a vote on the motion as amended.

Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd.

Cynnig NDM5717 fel y'i diwygiwyd

Motion NDM5717 as amended

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi diffyg uchelgais Llywodraeth Cymru o ran gwella'r amodau ar gyfer twf economaidd yng Nghymru;

1. Notes the Welsh Government's lack of ambition to improve the conditions for economic growth in Wales;

2. Yn cydnabod cyfraniad sylweddol busnesau gwledig i economi Cymru, ond yn nodi'r potensial ar gyfer mwy o dwf; a

2. Recognises the significant contribution of rural businesses to the Welsh economy but notes the potential for increased growth; and

3. Yn annog Llywodraeth Cymru i gefnogi busnesau ledled Cymru drwy:

3. Urges the Welsh Government to support businesses across Wales by:

a) gwella isadeiledd, cysylltedd a sgiliau ledled Cymru;

a) Improving infrastructure, connectivity and skills throughout Wales;

b) gwella rôl awdurdodau lleol o ran eu cyfraniad at dwf economaidd;

b) enhancing the role of local authorities in their contribution to economic growth;

c) gwella mynediad at gyllid i bob busnes yng Nghymru; a

c) improving access to finance for all Welsh businesses; and

d) galluogi cadw trethi busnes yn lleol er mwyn cymell twf economaidd lleol.

d) enabling local retention of business rates in order to incentivise local economic growth.

e) cefnogi trefi marchnad Cymru, canolfannau traddodiadol ein cymunedau, a'r seilwaith sylfaenol o'u cwmpas.

e) supporting the market towns of Wales, the traditional hubs of our communities, and base infrastructure around them.

f) cynyddu'r gyfran o gontractau caffael y sector cyhoeddus sy'n mynd i fusnesau Cymreig.

f) increasing the proportion of public sector procurement contracts that go to Welsh businesses.

17:28

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Open the vote. Close the vote. There voted in favour 23; there voted against 25. Therefore the motion as amended is not agreed.

Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 23 o blaid; pleidleisiodd 25 yn erbyn. Felly, mae'r cynnig fel y'i diwygiwyd wedi ei wrthod.

*Gwrthodwyd cynnig NDM5717 fel y'i diwygiwyd: O blaid 23, Yn erbyn 25, Ymatal 0.*

*Motion NDM5717 as amended not agreed: For 23, Against 25, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5717 fel y'i diwygiwyd

Result of the vote on motion NDM5717 as amended

17:28

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now vote on the Plaid Cymru debate. I call for a vote on the motion, tabled in the name of Elin Jones. If the proposal is not agreed, we'll vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour, nine; there voted against, 40; therefore, the motion without amendment is not agreed, and we'll now vote on the amendments.

Pleidleisiwn yn awr ar ddadl Plaid Cymru. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Os na fydd y cynnig yn cael ei dderbyn, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 9 o blaid; pleidleisiodd 40 yn erbyn; felly, nid yw'r cynnig heb ei ddiwygio yn cael ei dderbyn, a byddwn yn awr yn pleidleisio ar y gwelliannau.

*Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 9, Yn erbyn 40, Ymatal 0.*

*Motion not agreed: For 9, Against 40, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5718

Result of the vote on motion NDM5718

17:29

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If amendment 1 is agreed, amendments 2 and 3 will be deselected. I call for a vote on amendment 1, tabled in the name of Jane Hutt. Open the vote. Close the vote. There voted in favour, 34; there voted against, 15. So, amendment 1 is agreed and amendments 2 and 3 are deselected.

Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliannau 2 a 3 yn cael eu dad-ddethol. Galwaf am bleidlais ar welliant 1 a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 34 o blaid; pleidleisiodd 15 yn erbyn. Felly, caiff gwelliant 1 ei dderbyn ac mae gwelliannau 2 a 3 yn cael eu dad-ddethol.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 34, Yn erbyn 15, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 34, Against 15, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5718.

Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5718.

*Cafodd gwelliannau 2 a 3 eu dad-ddethol.*

*Amendments 2 and 3 deselected.*

17:29

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I now call for a vote on the motion as amended.

Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd.

Cynnig NDM5718 fel y'i diwygiwyd

Motion NDM5718 as amended

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi Adroddiad Synthesis y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd (IPCC) ar gyfer 2014 sy'n datgan:

a) bod dylanwad dynol ar y system hinsawdd yn glir, ac mai'r allyriadau anthropogenig diweddar o nwyon tŷ gwydr yw'r rhai uchaf mewn hanes;

b) bod yr awyrgylch a'r môr wedi cynhesu, bod cyfanswm yr eira a'r rhew wedi lleihau, a lefel y môr wedi codi; a

c) y gall gostyngiadau sylweddol mewn allyriadau dros y degawdau nesaf leihau risgiau i'r hinsawdd yn yr 21ain ganrif a thu hwnt, cynyddu rhagolygon ar gyfer addasu effeithiol, lleihau costau a heriau lliniaru yn y tymor hwy, a chyfrannu at lwybrau datblygu cynaliadwy sy'n gallu dygymod â'r newid yn yr hinsawdd.

2. Yn edrych ymlaen at Fil yr Amgylchedd a fydd yn gyfrwng i Lywodraeth Cymru ddeddfu ar gyfer targedau statudol i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Notes the IPCC Climate Change 2014 Synthesis Report which states that:

a) 'Human influence on the climate system is clear, and recent anthropogenic emissions of greenhouse gases are the highest in history,'

b) 'The atmosphere and ocean have warmed, the amounts of snow and ice have diminished, and sea level has risen' and

c) 'Substantial emissions reductions over the next few decades can reduce climate risks in the 21st century and beyond, increase prospects for effective adaptation, reduce the costs and challenges of mitigation in the longer term, and contribute to climate-resilient pathways for sustainable development.'

2. Looks forward to the Environment Bill through which the Welsh Government will legislate for statutory targets to reduce greenhouse gas emissions.

17:30

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Open the vote. Close the vote. There voted in favour 49. No votes against. Therefore, the motion as amended is agreed.

Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 49 o blaid. Ni phleidleisiodd neb yn erbyn. Felly, mae'r cynnig wedi'i ddiwygio yn cael ei dderbyn.

*Derbyniwyd cynnig NDM5718 fel y'i diwygiwyd: O blaid 49, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Motion NDM5718 as amended agreed: For 49, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5718 fel y'i diwygiwyd

Result of the vote on motion NDM5718 as amended

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I ask those Members who are leaving the Chamber to do so quickly and quietly.

Gofynnaf i'r Aelodau sy'n gadael y Siambr i wneud hynny'n gyflym ac yn dawel.

*Daeth Sandy Mewies i'r Gadair am 17:30.*

*Sandy Mewies took the Chair at 17:30.*

17:30

# 8. Dadl Fer: Gweithgareddau'r Grid Cenedlaethol yng Nghanolbarth Cymru

# 8. Short Debate: The Activities of National Grid in Mid Wales

Senedd.tv Fideo Video

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

I now move to the short debate and I call on Russell George to speak on the topic he's chosen.

Symudaf yn awr at y ddadl fer a galwaf ar Russell George i siarad ar y pwnc y mae wedi ei ddewis.

17:30

## Russell George Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, acting Presiding Officer. I'm delighted to have this opportunity to introduce this short debate on the activities of the National Grid in mid Wales. I've granted William Powell a minute of my allocated time so he's able to contribute to this important debate, which sadly has the potential to devastate the beautiful mid Wales landscape.

Diolch i chi, Lywydd dros dro. Rwy'n falch iawn o'r cyfle i gyflwyno'r ddadl fer hon ar weithgareddau'r Grid Cenedlaethol yng nghanolbarth Cymru. Rwyf wedi rhoi munud o fy amser i William Powell er mwyn iddo gyfrannu at y ddadl bwysig hon a allai ddinistrio tirwedd hardd canolbarth Cymru, yn anffodus.

Many Members here won't be surprised that I've picked this as the subject for my short debate. It has a huge impact on my constituents. I of course remember well 2,000 people descending on the Assembly nearly four years ago, just weeks after I was elected, coming down on over 35 coaches, an eight-hour round trip—that just shows the strength of feeling from my constituents. As my colleague Glyn Davies, who spoke at the event alongside me on that day, often says, not a crisp packet was left afterwards. The protestors went away, cleared up all their rubbish and, even if there was a gate, it would've been closed on the way out by the last of the 2,000 people that left. That's been the movement of the campaign since then —one of peaceful protest.

Ni fydd llawer o'r Aelodau yn synnu fy mod i wedi dewis y pwnc hwn ar gyfer fy nadl fer. Mae'n effeithio'n enfawr ar fy etholwyr. Wrth gwrs, rwy'n cofio'n dda y diwrnod y glaniodd 2,000 o bobl ar y Cynulliad bron i bedair blynedd yn ôl, wythnos yn unig ar ôl i mi gael fy ethol, gan ddod i lawr ar dros 35 o fysiau, taith o wyth awr yma ac yn ôl—sydd ond yn dangos cryfder teimladau fy etholwyr. Fel y mae fy nghyd-Aelod, Glyn Davies, a siaradodd yn y digwyddiad gyda mi ar y diwrnod hwnnw, yn aml yn sôn, ni chafodd yr un pecyn creision ei adael ar eu holau. Gadawodd y protestwyr ar ôl clirio'u holl sbwriel a phe bai yna giât, byddai'r olaf o'r 2,000 o bobl wedi ei chau ar y ffordd allan. Dyna yw natur yr ymgyrch wedi bod ers hynny —protest heddychlon.

The industrialisation—I say that in a negative sense—of mid Wales is a real threat. For those Members who are not aware of National Grid's intents, their proposals are to link several proposed windfarms across mid Wales, which have not yet gained planning permission—that's important to note—to the national energy supply through the Mid Wales Connection project. It proposes to do this by building a substation near Cefn Coch, near Llanfair Caereinion, in my constituency, and by constructing a 33-mile overhead power line to connect these windfarms to the main power grid in Lower Frankton near Oswestry in Shropshire. The scale of this project and associated infrastructure will undoubtedly have wide-ranging long and short-term implications for my constituents.

Mae diwydiannu—defnyddiaf y gair yn ei ystyr negyddol—yng nghanolbarth Cymru yn fygythiad gwirioneddol. I'r Aelodau hynny nad ydynt yn ymwybodol o fwriadau'r Grid Cenedlaethol, mae eu cynigion yn cynnwys cysylltu nifer o ffermydd gwynt arfaethedig ar draws canolbarth Cymru, nad ydynt wedi cael caniatâd cynllunio eto—mae'n bwysig nodi hynny—at y cyflenwad ynni cenedlaethol drwy brosiect Cysylltiad Canolbarth Cymru. Mae'n bwriadu gwneud hyn drwy adeiladu is-orsaf ger Cefn Coch, ger Llanfair Caereinion, yn fy etholaeth, a thrwy osod llinell bŵer uwchben 33 milltir o hyd i gysylltu'r ffermydd gwynt hyn at y prif grid pŵer yn Lower Frankton ger Croesoswallt yn Swydd Amwythig. Yn ddi-os, bydd goblygiadau hirdymor a byrdymor yn deillio o faint y prosiect a seilwaith cysylltiedig i fy etholwyr.

This debate is also timely because—and I'm actually pleased—the Department of Energy and Climate Change announced only yesterday that a decision on the mid Wales conjoined windfarm inquiry will be postponed until the beginning of the next Parliament. The decision deserves very careful consideration and my objective has been to ensure that this has not been rushed in any way. Over the past five years, I've attended many community meetings, large-scale demonstrations, all about this issue, an issue which has galvanised residents and communities across Montgomeryshire like no other in mid Wales's history. I've seen campaign groups form themselves together, organise themselves and even organise an umbrella organisation, in a very organised way, one that's perhaps even surprised the developers and politicians.

Mae'r ddadl hefyd yn amserol oherwydd—ac rwy'n falch o hyn—ddoe ddiwethaf fe gyhoeddodd yr Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd y bydd penderfyniad ar yr ymchwiliad i fferm wynt gyswllt canolbarth Cymru yn cael ei ohirio tan ddechrau'r Senedd nesaf. Mae'r penderfyniad yn haeddu ystyriaeth ofalus iawn a fy nod oedd sicrhau nad yw hyn wedi cael ei ruthro mewn unrhyw ffordd. Dros y pum mlynedd diwethaf, mynychais nifer o gyfarfodydd cymunedol, protestiadau ar raddfa fawr, i gyd ar y mater hwn, mater sydd wedi symbylu trigolion a chymunedau ledled Sir Drefaldwyn mewn modd na welwyd ei debyg yn hanes canolbarth Cymru. Rwyf wedi gweld grwpiau ymgyrchu yn ymffurfio, yn trefnu eu hunain a hyd yn oed yn creu sefydliad ymbarél mewn ffordd drefnus iawn, sydd efallai wedi synnu'r datblygwyr a'r gwleidyddion hyd yn oed.

While it would be unfair to not recognise that there are a number of people in Montgomeryshire who are committed supporters of the project, the opposition to the proposed scale of wind turbine construction in mid Wales is clear and far outweighs the support for the scheme. The strong and united local opposition to these proposals is huge. This does not mean that all people in Montgomeryshire are opposed to wind energy as part of a diverse energy mix, but it's all about scale. I myself come from a position of being someone who didn't have a strong view about wind energy, even though there were more wind turbines in the area than in any other part, perhaps, of the whole of the UK. That was the view generally of many people in Montgomeryshire, but, to have 500 on top of what we've already got, a 19-acre substation and a 400 kV steel line on steel towers is a very different matter. Again, it's all about scale.

Er y byddai'n annheg peidio â chydnabod bod nifer o bobl yn Sir Drefaldwyn yn ymroddedig eu cefnogaeth i'r prosiect, mae'r gwrthwynebiad i faint arfaethedig y gwaith o adeiladu tyrbin gwynt yn y Canolbarth yn glir ac yn llawer mwy na'r gefnogaeth i'r cynllun. Mae'r gwrthwynebiad lleol cryf ac unedig i'r cynigion hyn yn enfawr. Nid yw'n golygu bod yr holl bobl yn Sir Drefaldwyn yn gwrthwynebu ynni gwynt fel rhan o gymysgedd ynni amrywiol, ond mae'n ymwneud yn llwyr â'i faint. O'm safbwynt i, nid oedd gennyf farn gref ynghylch ynni gwynt, er bod mwy o dyrbinau gwynt yn yr ardal nag yn unrhyw ran arall o'r DU o bosibl. Dyna oedd y farn gyffredinol ymhlith llawer o bobl yn Sir Drefaldwyn, ond mae cael 500 arall ar ben yr hyn sydd gennym eisoes, is-orsaf 19 erw a llinell ddur 400 kV ar dyrau dur yn fater gwahanol iawn. Unwaith eto, mae'n ymwneud yn llwyr â maint.

Last year, I conducted a wide-ranging survey of my constituents to gain residents' views about wind energy and the proposed Mid Wales Connection project. The results of the survey showed conclusively that while nine in 10 people in Montgomeryshire are supportive of renewable energy, there was a deep-seated suspicion about the Mid Wales Connection project and the scale of development proposed.

Y llynedd, cynhaliais arolwg eang ymhlith fy etholwyr i gael barn preswylwyr am ynni gwynt a phrosiect arfaethedig Cysylltiad Canolbarth Cymru. Dangosodd canlyniadau'r arolwg yn bendant, er bod naw o bob 10 o bobl Sir Drefaldwyn yn gefnogol i ynni adnewyddadwy, roedd amheuaeth ddofn ynghylch prosiect Cysylltiad Canolbarth Cymru a maint y datblygiad arfaethedig.

There are valid fears, of course, about the fact that Powys doesn't have the road infrastructure to support developments or the proposed windfarms, and that the project will be negative for tourism and property prices, and, of course, the visual amenity of the area. There's a general feeling in my constituency that this does a great disservice as well to the renewable energy agenda, when developers and politicians use bull-in-a-china-shop approaches and try and force large-scale infrastructure projects on communities, and fail to build a consensus alongside local people for initiatives that affect them. Until we take a more sensible approach on renewable energy, progress towards eliminating our reliance on fossil fuels will be slow.

Mae yna ofnau dilys, wrth gwrs, ynglŷn â'r ffaith nad oes gan Bowys seilwaith ffyrdd i gefnogi datblygiadau na'r ffermydd gwynt arfaethedig, ac y bydd y prosiect yn negyddol o ran twristiaeth a phrisiau eiddo, ac amwynder gweledol yr ardal, wrth gwrs. Mae teimlad cyffredinol yn fy etholaeth nad yw hyn yn adlewyrchu'n dda ar yr agenda ynni adnewyddadwy chwaith, pan fo datblygwyr a gwleidyddion yn defnyddio dulliau gormesol, yn ceisio gorfodi prosiectau seilwaith ar raddfa fawr ar gymunedau, ac yn methu â datblygu consensws â'r bobl leol o blaid mentrau sy'n effeithio arnynt. Hyd nes y byddwn yn mabwysiadu ymagwedd fwy synhwyrol tuag at ynni adnewyddadwy, bydd ein cynnydd tuag at ddileu ein dibyniaeth ar danwydd ffosil yn araf.

The strength of local feeling in mid Wales is driven by the sheer scale and geographic concentration on a relatively small area. Of course, we know about technical advice note 8, which is Welsh Government guidance that has identified large areas of my constituency and parts of Radnorshire and Ceredigion as suitable for large-scale windfarm development. These factors will have many tangible negative impacts on the local economy and on residents' quality of life.

Mae cryfder y teimlad lleol yn y Canolbarth yn cael ei ysgogi gan y raddfa enfawr a'r canolbwyntio daearyddol ar ardal gymharol fach. Wrth gwrs, gwyddom am nodyn cyngor technegol 8, sef canllawiau Llywodraeth Cymru sydd wedi nodi ardaloedd mawr o fy etholaeth a rhannau o Sir Faesyfed a Cheredigion fel mannau sy'n addas ar gyfer datblygu ffermydd gwynt ar raddfa fawr. Bydd y ffactorau hyn yn cael llawer o effeithiau negyddol diriaethol ar yr economi leol ac ar ansawdd bywyd y trigolion.

Tourism is an incredibly valuable driver of Montgomeryshire's economy, and I would highlight the study of the Mountaineering Council of Scotland, which found that over two thirds of respondents felt that the industrial scale of windfarms made Scotland a less attractive place to visit. I think this will be replicated in mid Wales if the proposals go ahead. We could expect extensive construction and devastating disruption for local people, businesses and tourists for many years to come. And the extent of this disruption is particularly concerning given the great number of local people and businesses involved in the tourism industry.

Mae twristiaeth yn sbardun economaidd hynod o werthfawr yn Sir Drefaldwyn, a hoffwn dynnu sylw at astudiaeth Cyngor Mynydda yr Alban a ganfu fod dros ddwy ran o dair o'r ymatebwyr yn teimlo bod graddfa ddiwydiannol ffermydd gwynt yn gwneud yr Alban yn lle llai deniadol i ymweld ag ef. Rwy'n credu y bydd hyn yn cael ei ailadrodd yn y canolbarth os yw'r cynigion yn mynd yn eu blaen. Gallem ddisgwyl aflonyddwch helaeth a dinistriol yn sgil gwaith adeiladu i bobl leol, busnesau a thwristiaid am flynyddoedd lawer i ddod. Ac mae graddau'r aflonyddwch yn peri pryder arbennig o ystyried cymaint o'r bobl a'r busnesau lleol sy'n ymwneud â'r diwydiant twristiaeth.

I want again to highlight the phrase 'industrial scale' in particular, which I believe is especially relevant to the size of the Mid Wales Connection project, and associated infrastructure over a relatively small geographical area. I'm concerned that, alongside the construction of the turbines themselves, it is the vast network of steel pylons that will be the most definitive in changing the landscape of Montgomeryshire. As the MP for Shrewsbury and Atcham, Daniel Kawczynski, said in a recent Westminster Hall debate on this issue, the National Grid could not have found a location to generate electricity that was further from its existing network. As a result of the construction, huge swathes of mid Wales and Shropshire will be carpeted with pylons to connect the electricity to the grid, and that is completely unacceptable. The road infrastructure system in mid Wales is just not able to deal with the number of abnormal loads required to construct windfarms and associated construction elements to that as well.

Unwaith eto rwyf am dynnu sylw at yr ymadrodd 'graddfa ddiwydiannol' yn benodol. Rwy'n credu ei fod yn arbennig o berthnasol i faint prosiect Cysylltiad Canolbarth Cymru a'r seilwaith cysylltiedig dros ardal ddaearyddol gymharol fach. Yn ogystal â'r gwaith o adeiladu'r tyrbinau eu hunain, rwy'n pryderu mai'r rhwydwaith eang o beilonau dur a fydd yn peri'r newid mwyaf parhaol ar dirwedd Sir Drefaldwyn. Fel y dywedodd Daniel Kawczynski, AS yr Amwythig ac Atcham, mewn dadl ar y mater yn Neuadd San Steffan yn ddiweddar, ni allai'r Grid Cenedlaethol fod wedi dod o hyd i leoliad ar gyfer cynhyrchu trydan a oedd ymhellach o'i rhwydwaith presennol. O ganlyniad i'r gwaith adeiladu, bydd rhannau enfawr o ganolbarth Cymru a Swydd Amwythig yn cael eu carpedu â pheilonau i gysylltu'r trydan at y grid, ac mae hynny'n gwbl annerbyniol. Nid yw'r system seilwaith ffyrdd yng nghanolbarth Cymru yn gallu ymdopi â nifer y llwythi anarferol sydd eu hangen ar gyfer adeiladu ffermydd gwynt ac elfennau adeiladu cysylltiedig â hynny.

Aside from the economic impact on businesses, concerns have also been raised about the long-term health implications of the proposals for residents in Montgomeryshire. Specifically, there is increasing evidence to suggest that low-level noise disturbance, especially in significant areas of low background noise such as rural mid Wales, has the potential for considerable negative health impacts. I get much information sent to me on issues to do with health and windfarms, and I can't really respond as I'm not an expert on this issue, but I do know this: there is an issue with people being severely affected by the proposals because of the concerns and depression that they have with the proposals themselves, and the worry that they're facing leads to health problems in themselves.

Ar wahân i'r effaith economaidd ar fusnesau, lleisiwyd pryderon hefyd ynghylch effeithiau hirdymor y cynigion ar iechyd preswylwyr yn Sir Drefaldwyn. Yn benodol, ceir tystiolaeth gynyddol sy'n awgrymu bod cryn berygl y gallai aflonyddwch sŵn lefel isel, yn enwedig mewn ardaloedd mawr heb lawer o sŵn cefndir fel canolbarth gwledig Cymru, effeithio'n negyddol ar iechyd. Rwy'n cael llawer o wybodaeth wedi ei hanfon ataf ar faterion yn ymwneud ag iechyd a ffermydd gwynt, ac ni allaf ymateb mewn gwirionedd gan nad wyf yn arbenigwr ar y mater, ond rwy'n gwybod hyn: mae yna broblem gyda phobl yn cael eu heffeithio'n ddifrifol gan y cynigion oherwydd y pryderon a'r iselder sydd ganddynt ynghylch y cynigion eu hunain, ac mae'r pryder a wynebant yn arwain at broblemau iechyd ynddynt eu hunain.

But, beyond my principled opposition to the project for the reasons I have set out, I also want to refer to the shocking behaviour of National Grid in forcing this project on the people of Montgomeryshire. For me, for a national organisation to act in such a heavy-handed way in flouting the democratic process has been utterly deplorable. National Grid's behaviour has been characterised by a failure to genuinely consult, a refusal to hold public meetings with communities when requested, misleading images in their publicity and inconsistent answers by National Grid officers, something I've experienced myself.

Ond ar wahân i fy ngwrthwynebiad egwyddorol i'r prosiect am y rhesymau a nodais, rwyf hefyd am gyfeirio at ymddygiad gwarthus y Grid Cenedlaethol yn gorfodi'r prosiect ar bobl Sir Drefaldwyn. I mi, mae i fudiad cenedlaethol weithredu mewn ffordd mor llawdrwm wrth ddiystyru'r broses ddemocrataidd wedi bod yn gwbl warthus. Prif nodweddion ymddygiad y Grid Cenedlaethol yw methiant i ymgynghori'n briodol, gwrthodiad i gynnal cyfarfodydd cyhoeddus gyda chymunedau pan ofynnir iddynt wneud hynny, delweddau camarweiniol yn eu cyhoeddusrwydd ac atebion anghyson gan swyddogion y Grid Cenedlaethol, rhywbeth rwyf wedi ei brofi fy hun.

As my friend and colleague, Glyn Davies MP, said in a Westminster Hall debate on this issue, and I quote this:

Fel y dywedodd fy ffrind a fy nghyd-Aelod, Glyn Davies AS, mewn dadl yn Neuadd San Steffan ar y mater:

'not only has National Grid sought to unfairly use its powers and money to influence the planning system, it has also sought to bully the reluctant local population by circumventing the democratic process and failing to genuinely engage with local residents.'

'Nid yn unig y mae'r Grid Cenedlaethol wedi ceisio defnyddio eu pwerau a'u harian yn annheg er mwyn dylanwadu ar y system gynllunio, maent hefyd wedi ceisio bwlio'r boblogaeth leol amharod drwy fynd y tu arall i'r broses ddemocrataidd a methu ag ymgysylltu'n briodol â thrigolion lleol.'

It is an attitude that is more associated with the Mafia rather than what should be a respected national company. The public's faith and confidence in this democratic process has therefore been severely dented. Throughout its consultation period and dozens of local meetings it has held, National Grid has never had any intention of meaningfully listening to the concerns of the local population and has bulldozed all opposition, dismissing legitimate concerns.

Mae'n agwedd a gysylltir yn fwy arferol â'r Mafia yn hytrach na'r hyn a ddylai fod yn gwmni cenedlaethol mawr ei barch. Felly, mae ffydd a hyder y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd wedi cael ei tholcio'n ddifrifol. Drwy gydol eu cyfnod ymgynghori a dwsinau o gyfarfodydd lleol a gynhaliwyd ganddynt, ni fu'n fwriad erioed gan y Grid Cenedlaethol i wrando'n ystyrlon ar bryderon y boblogaeth leol ac maent wedi mynd ati i chwalu'r holl wrthwynebiad, gan ddiystyru pryderon dilys.

Moving on to a more disturbing way in which National Grid has behaved, countless frightened constituents have contacted me and my colleague Glyn Davies, terrified by the way National Grid have conducted themselves. For example, one constituent informed me that bailiffs had entered his property without permission, using terrible language and frightening his wife and children. Against this backdrop of opposition, it is no wonder that members of the public have lost confidence in the National Grid's so-called consultation and public engagement. I'd be interested in hearing what experience the Welsh Government has had with National Grid in this regard.

Gan symud ymlaen at fater sy'n peri mwy o bryder o ran ymddygiad y Grid Cenedlaethol, mae nifer o etholwyr ofnus wedi cysylltu â mi a fy nghyd-Aelod, Glyn Davies, wedi eu dychryn i'r byw gan y ffordd y mae'r Grid Cenedlaethol wedi ymddwyn. Er enghraifft, dywedodd un etholwr wrthyf fod beilïaid wedi mynd ar ei eiddo heb ganiatâd, gan ddefnyddio iaith ofnadwy a dychryn ei wraig a'i blant. Yn erbyn y cefndir hwn o wrthwynebiad, nid yw'n syndod fod aelodau'r cyhoedd wedi colli hyder yn yr hyn a elwir yn ymgynghoriad y Grid Cenedlaethol, a'i ymgysylltiad â'r cyhoedd. Byddai gennyf ddiddordeb mewn clywed sut brofiadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda'r Grid Cenedlaethol yn hyn o beth.

I was delighted when the First Minister announced, just a few weeks after that big protest I talked about, that National Grid's line would not be needed to fulfil Welsh Government policies. That was excellent news for me, but unfortunately he seems to have rolled back from that position. Now that the Minister Edwina Hart is responsible in this area, I hope that she may be able to confirm that the grid is not needed to fulfil Welsh Government's policies. The people of Montgomeryshire have a suspicion, I'm afraid, of Welsh Government, in that it's not fully telling National Grid that their plans are unreasonable, and I hope that the Minister can respond to that.

Roeddwn wrth fy modd pan gyhoeddodd y Prif Weinidog ychydig wythnosau ar ôl y brotest fawr y soniais amdani na fyddai angen llinell y Grid Cenedlaethol er mwyn cyflawni polisïau Llywodraeth Cymru. Roedd yn newyddion gwych i mi, ond yn anffodus ymddengys ei fod wedi camu'n ôl o'r safbwynt hwnnw. Gan mai'r Gweinidog Edwina Hart sydd â chyfrifoldeb yn y maes yn awr, rwy'n gobeithio y gall gadarnhau nad oes angen y grid er mwyn cyflawni polisïau Llywodraeth Cymru. Yn anffodus, mae pobl Sir Drefaldwyn yn amau Llywodraeth Cymru, yn yr ystyr nad yw'n dweud yn iawn wrth y Grid Cenedlaethol fod eu cynlluniau'n afresymol ac rwy'n gobeithio y gall y Gweinidog ymateb i hynny.

I, like my colleague Glyn Davies, who has defended the people of Montgomeryshire on this issue, am fully opposed to this project. I believe that further work on it should be suspended on the ground that not a single windfarm has yet been approved to connect this project. The consultation process has been an absolute sham, with National Grid showing little appetite to meaningfully listen to the views of local people. The proposed plans will have a hugely detrimental effect on the local economy. They will decimate the mid Wales countryside, and the people of Montgomeryshire have lost confidence in National Grid. I will continue to fully oppose the Mid Wales Connection project and will do all I can to persuade the next Secretary of State for Energy and Climate Change to reject the applications. I would like to know whether the Minister will join me and use the Welsh Government's clout to push for an immediate suspension of National Grid's project or at least call on National Grid to halt its plans until the outcome of the public inquiry and the Minister has made his decision. I appreciate that this isn't a decision for the Minister, but, of course, the Minister can take a view on this matter. I thank Members who have stayed today for listening to my contribution.

Rwyf fi, fel fy nghyd-Aelod, Glyn Davies, sydd wedi amddiffyn pobl Sir Drefaldwyn ar y mater hwn, yn gwbl wrthwynebus i'r prosiect. Credaf y dylai gwaith pellach arno gael ei atal ar y sail nad oes yr un fferm wynt wedi cael ei chymeradwyo eto i gysylltu â'r prosiect. Mae'r broses ymgynghori wedi bod yn gwbl ffug, a'r Grid Cenedlaethol yn dangos fawr o awydd i wrando'n ystyrlon ar farn y bobl leol. Bydd y cynlluniau arfaethedig yn cael effaith hynod o niweidiol ar yr economi leol. Byddant yn anrheithio cefn gwlad canolbarth Cymru, ac mae pobl Sir Drefaldwyn wedi colli hyder yn y Grid Cenedlaethol. Byddaf yn parhau i wrthwynebu prosiect Cysylltiad Canolbarth Cymru yn llwyr ac yn gwneud popeth yn fy ngallu i berswadio'r Ysgrifennydd Gwladol nesaf dros Ynni a Newid Hinsawdd i wrthod y ceisiadau. Hoffwn wybod a fydd y Gweinidog yn ymuno â mi ac yn defnyddio grym Llywodraeth Cymru i ymgyrchu dros atal prosiect y Grid Cenedlaethol ar unwaith neu o leiaf alw ar y Grid Cenedlaethol i atal ei gynlluniau dros dro hyd nes y ceir canlyniad yr ymchwiliad cyhoeddus a hyd nes y bydd y Gweinidog wedi dod i benderfyniad. Rwy'n sylweddoli nad yw'n benderfyniad i'r Gweinidog, ond wrth gwrs, gall y Gweinidog ffurfio barn ar y mater. Diolch i'r Aelodau sydd wedi aros heddiw i wrando ar fy nghyfraniad.

17:43

## William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I'd like to thank Russell George very much for donating to me a minute of his time, almost as much time as Glyn Davies has commanded within this debate—a former distinguished Member of this Chamber. Just a few brief points: I think it's important that we avoid an overly theological approach to these matters, and it's also important that we avoid hyperbole, because references to the Mafia and, in some quarters, to the Nazi regime, which I've heard in some quarters, are completely unhelpful. There is outrage in mid Wales and in Montgomeryshire on these matters, and it's very important that we continue to bring pressure to bear on National Grid on these matters. It is a great step forward that we have the level of undergrounding that we have, particularly protecting the iconic Meifod valley, which will be hosting the Eisteddfod later this year, and that's really important, but we need to have a rational debate on these matters, and that's what I call for.

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i Russell George am roi munud o'i amser i mi, bron cymaint o amser ag y mae Glyn Davies—cyn Aelod amlwg o'r Siambr hon—wedi'i gael yn y ddadl. Ychydig o bwyntiau byr yn unig: credaf ei bod yn bwysig inni osgoi ymagwedd rhy ddiwinyddol tuag at y materion hyn, ac mae hefyd yn bwysig ein bod yn osgoi gormodiaith, gan fod cyfeiriadau at y Mafia, a chan rai, at y gyfundrefn Natsïaidd, yn gwbl ddi-fudd. Mae yna ddicter yng nghanolbarth Cymru ac yn Sir Drefaldwyn ynghylch y materion hyn ac mae'n bwysig iawn ein bod yn parhau i roi pwysau ar y Grid Cenedlaethol mewn perthynas â hwy. Mae'n gam mawr ymlaen fod gennym gymaint o linellau tanddaearol ag sydd gennym, gan ddiogelu dyffryn eiconig Meifod lle y cynhelir yr Eisteddfod yn ddiweddarach eleni, ac mae hynny'n bwysig iawn, ond mae angen inni gael dadl resymegol ar y materion hyn a dyna rwy'n galw amdani.

17:44

## Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call on the Minister for the Economy, Science and Transport to reply to the debate—Edwina Hart.

Galwaf ar Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i ymateb i'r ddadl—Edwina Hart.

17:44 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

Senedd.tv
Fideo Video

I think all of us in the Chamber are committed to supporting renewable energy generation, maximising the benefits of our natural resources wherever appropriate. As a nationally significant infrastructure project, new transmission or grid infrastructure in mid Wales will be determined by UK Ministers. New grid infrastructure is required to export the potential renewable wind energy generation from the strategic search areas in mid Wales and a new transmission line has been identified as the optimum solution. National Grid has a duty to connect electricity generated by these proposals to the national electricity network, and it is of course proposing to do this via a new 400 kV connection running from Cefn Coch in Powys to Frankton in Shropshire.

Rwy'n meddwl bod pob un ohonom yn y Siambr wedi ymrwymo i gefnogi cynhyrchiant ynni adnewyddadwy, gan fanteisio i'r eithaf ar ein hadnoddau naturiol lle bynnag y bo'n briodol inni wneud hynny. Fel prosiect seilwaith o bwys cenedlaethol, Gweinidogion y DU fydd yn penderfynu ar seilwaith trawsyrru neu seilwaith grid newydd yn y Canolbarth. Mae angen seilwaith grid newydd i allforio'r cynhyrchiant ynni gwynt adnewyddadwy posibl o'r ardaloedd chwilio strategol yng nghanolbarth Cymru a nodwyd mai llinell drawsyrru newydd yw'r ateb gorau posibl. Mae gan y Grid Cenedlaethol ddyletswydd i gysylltu trydan a gynhyrchir o'r cynigion hyn i'r rhwydwaith trydan cenedlaethol, ac wrth gwrs, mae'n argymell gwneud hyn drwy gysylltiad 400 kV newydd yn rhedeg o Gefn Coch ym Mhowys i Frankton yn Swydd Amwythig.

Preparations including environmental assessments for this connection need to be progressed in parallel with the proposals for windfarms, so that the necessary infrastructure is in place by the time the windfarms are ready to generate electricity. We continue to press the National Grid to engage and listen to the views of communities through which new gridlines will pass and ensure minimum environmental impact.

Mae angen datblygu paratoadau, gan gynnwys asesiadau amgylcheddol ar gyfer y cysylltiad, ochr yn ochr â'r cynigion ar gyfer y ffermydd gwynt, fel bod y seilwaith angenrheidiol yn ei le erbyn i'r ffermydd gwynt ddod yn barod i gynhyrchu trydan. Rydym yn parhau i bwyso ar y Grid Cenedlaethol i ymgysylltu a gwrando ar farn cymunedau y bydd y llinellau grid newydd yn pasio drwyddynt ac i sicrhau cyn lleied â phosibl o effaith ar yr amgylchedd.

Our view remains that connections should be underground where practicable. Any impacts must be mitigated through using the most appropriate and best available technology. National Grid has already indicated it will go underground with eight miles of cable in Meifod valley and has also offered the option to deploy T-pylons along part or all of the over-ground route. We welcome both of these proposals. The National Grid completed the latest public consultation last month and will now prepare the development consent order application, subject to the outcome of the ongoing public windfarm inquiry.

Ein barn ni o hyd yw y dylai cysylltiadau fod o dan y ddaear lle y bo hynny'n ymarferol. Rhaid lliniaru unrhyw effeithiau drwy ddefnyddio'r dechnoleg fwyaf priodol a'r orau sydd ar gael. Mae'r Grid Cenedlaethol eisoes wedi nodi y bydd yn tanddaearu wyth milltir o gebl yn nyffryn Meifod ac mae hefyd wedi cynnig yr opsiwn i ddefnyddio peilonau T ar hyd rhan neu'r cyfan o'r llwybr uwchben y ddaear. Rydym yn croesawu dau o'r cynigion hyn. Cwblhaodd y Grid Cenedlaethol yr ymgynghoriad cyhoeddus diweddaraf y mis diwethaf a bydd yn awr yn paratoi'r cais am orchymyn caniatâd datblygu, yn amodol ar ganlyniad yr ymchwiliad cyhoeddus sydd ar y gweill i'r fferm wynt.

We have been engaging with National Grid for a number of years about this project and the effect it may have on trunk roads in the area. Those discussions will continue as the project develops. We are working with stakeholders, including the police, about the best way of transporting equipment, such as the transformers for the substations, which are extremely large and will need to travel very slowly. There will also be construction traffic that will need to be managed. Our key aim is always maintaining the safety of road users. We also want to maintain the free flow of traffic on the trunk road as far as possible.

Rydym wedi bod yn ymgysylltu â'r Grid Cenedlaethol ers nifer o flynyddoedd ynglŷn â'r prosiect hwn a'r effaith y gallai ei gael ar gefnffyrdd yn yr ardal. Bydd y trafodaethau hynny'n parhau wrth i'r prosiect ddatblygu. Rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys yr heddlu, ynghylch y ffordd orau o gludo offer, megis y newidyddion ar gyfer yr is-orsafoedd, sy'n eithriadol o fawr a bydd angen iddynt gael eu cludo'n araf iawn. Bydd angen rheoli traffig gwaith adeiladu hefyd. Ein prif nod bob amser yw cadw defnyddwyr y ffyrdd yn ddiogel. Rydym hefyd yn awyddus i gynnal llif y traffig ar y gefnffordd cyn belled ag y bo modd.

We seek to ensure that our national planning policy and guidance facilitate the delivery of our energy and climate change policies, including UK and European targets. 'Planning Policy Wales' provides a framework on which local planning authorities should plan positively for all forms of renewable energy. Technical advice note 8 provides technical advice to supplement the policy on renewable energy and low-carbon development. The purpose of TAN 8 is to limit new large-scale onshore windfarms to the seven strategic search areas and to prevent the widespread proliferation of such developments across Wales, whilst trying to address the immediate challenge presented by climate change. We are still waiting for the UK Government to come to a decision on the mid Wales co-joined windfarms, and it was disappointing, yesterday, to see that a decision is now not expected until after the UK elections in May—a different position, perhaps, from the Member who raised this issue in the Chamber today.

Rydym yn ceisio sicrhau bod ein polisi a'n canllawiau cynllunio cenedlaethol yn hwyluso'r broses o gyflwyno ein polisïau ynni a newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys targedau'r DU ac Ewrop. Mae 'Polisi Cynllunio Cymru' yn darparu fframwaith y dylai awdurdodau cynllunio lleol ei ddefnyddio i gynllunio'n gadarnhaol ar gyfer pob math o ynni adnewyddadwy. Mae nodyn cyngor technegol 8 yn darparu cyngor technegol i ategu'r polisi ar ynni adnewyddadwy a datblygiadau carbon isel. Pwrpas TAN 8 yw cyfyngu ffermydd gwynt newydd ar y tir ar raddfa fawr i'r saith ardal chwilio strategol ac atal cynnydd eang yn nifer datblygiadau o'r fath ledled Cymru, gan geisio mynd i'r afael â her uniongyrchol newid yn yr hinsawdd ar yr un pryd. Rydym yn dal i aros i Lywodraeth y DU ddod i benderfyniad ynghylch y ffermydd gwynt cyswllt yng nghanolbarth Cymru, a siom oedd gweld ddoe na ddisgwylir penderfyniad bellach tan ar ôl etholiadau'r DU ym mis Mai—safbwynt gwahanol, efallai, i un yr Aelod a gododd y mater yn y Siambr heddiw.

We continue to believe that Wales should have control over its resources and the Welsh Government is best placed to align Wales's energy aspirations with the needs of communities and our natural environment. The St David's Day's announcement was silent on the issue of devolving grid and transmission network consents to Wales.

Rydym yn parhau i gredu y dylai Cymru gael rheolaeth dros ei hadnoddau ac mai Llywodraeth Cymru sydd yn y sefyllfa orau i alinio dyheadau ynni Cymru gydag anghenion cymunedau a'n hamgylchedd naturiol. Roedd cyhoeddiad Dydd Gŵyl Dewi yn ddistaw ar fater datganoli caniatadau grid a'r rhwydwaith trawsyrru trydan i Gymru.

The mid Wales windfarm and grid plans reflect the measured approach first outlined in the well-researched TAN 8 guidance. Our position on the mid Wales development has been clear and consistent over the last decade in pursuit of our low-carbon and investment objectives. The Pen y Cymoedd project now under construction with high local content shows what can be achieved with a consistent approach. The Welsh Government is working with National Grid to identify supply chain opportunities for Welsh companies, both within and outside of Wales. The development of these mid Wales projects has taken a long time, but protecting the beauty of mid Wales and ensuring the maximum associated local economic benefits from well-planned investments means it's important to get all of this right. In light of the comments made in this short debate today, I will raise these matters at my next meeting with National Grid.

Mae cynlluniau ffermydd gwynt a grid canolbarth Cymru yn adlewyrchu'r dull pwyllog a amlinellwyd yn gyntaf yn y canllawiau TAN 8 y gwnaed gwaith ymchwil trylwyr ar eu cyfer. Mae ein safbwynt ar y datblygiad yng nghanolbarth Cymru wedi bod yn glir ac yn gyson dros y degawd diwethaf er mwyn cyflawni ein hamcanion carbon isel a buddsoddi. Mae prosiect Pen y Cymoedd bellach yn y broses o gael ei ddatblygu ac mae'r cynnwys lleol uchel yn dangos yr hyn y gellir ei gyflawni drwy ymagwedd gyson. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Grid Cenedlaethol i nodi cyfleoedd o ran y gadwyn gyflenwi ar gyfer cwmnïau o Gymru, yng Nghymru a thu hwnt. Mae datblygiad y prosiectau hyn yng nghanolbarth Cymru wedi cymryd amser hir, ond mae diogelu harddwch canolbarth Cymru a sicrhau cymaint o fanteision economaidd lleol cysylltiedig â phosibl o fuddsoddiadau wedi'u cynllunio'n dda yn golygu ei bod yn bwysig cael hyn oll yn iawn. Yn sgil y sylwadau a wnaed yn y ddadl fer hon heddiw, byddaf yn crybwyll y materion hyn yn fy nghyfarfod nesaf gyda'r Grid Cenedlaethol.

17:48

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. That brings today's proceedings to a close.

Diolch i chi, Weinidog. Daw hynny â thrafodion heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 17:48.*

*The meeting ended at 17:48.*